Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

a'r Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2017

# Memorandwm Esboniadol i Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac mae wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fe'i paratowyd a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Rhagfyr 2016, ac mae Memorandwm diwygiedig wedi'i osod bellach yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, mae darpariaethau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a gyflwynwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 12 Rhagfyr 2016, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil
14 Tachwedd 2017

# CYNNWYS


**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad 3
2. Cymhwysedd deddfwriaethol 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael 6
4. Ymgynghori 46
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth 66
6. Asesiad effaith rheoleiddiol 90

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH**

7. Yr opsiynau 96
8. Costau a manteision 128
9. Asesiad o'r gystadleuaeth 335
10. Adolygu ar ôl gweithredu 336

Atodiad 1 - Nodiadau Esboniadol 337

Atodiad 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog 381

Atodiad 3 - Tabl Tarddiadau 386

Atodiad 4 - Atodlen o Ddiwygiadau 397

Atodiad 5 – Geirfa 418

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r Bil hefyd yn cynnal Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), sy'n gwneud darpariaeth i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY y plentyn neu'r person ifanc, gan ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

## 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad Cenedlaethol”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

2.2 Mae paragraffau 5, 9 a 15 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch.

> ***Education and training***
>
> 5. Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.
>
> *Exception—*
>
> *Research Councils*

> ***Health and health services***
>
> *9. Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.*
>
> *Exceptions—*
> *Abortion.*
> *Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.*
> *Xenotransplantation.*
> *Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).*
> *Poisons.*
> *Misuse of and dealing in drugs.*
> *Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.*
> *Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).*
> *Vaccine damage payments.*
> *Welfare foods.*
>
> *. . . Health and Safety Executive and Employment Medical Advisory Service and provision made by health and safety regulations.*

***Social welfare***

*15. Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) [and of young adults]. Care of [children,] young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.*

*Exceptions—*
*Child support.*
*[Child trust funds, apart from subscriptions to such funds by—*
*(a) a county council or county borough council in Wales, or*
*(b) the Welsh Ministers.]*
*Tax credits.*
*Child benefit and guardian's allowance.*
*Social security.*
*[Independent Living Funds.*
*Motability.]*
*Intercountry adoption, apart from adoption agencies and their functions, and functions of "the Central Authority" under the Hague Convention on Protection of Children and Co-operation in respect of Intercountry Adoption.*
*The Children's Commissioner (established under the Children Act 2004 (c 31)).*
*Family law and proceedings, apart from—*
*(a) [welfare advice] to courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families, and*
*(b) Welsh family proceedings officers.*

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.1 Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae cyfres o ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi tynnu sylw at y ffaith bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac sy'n gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon neu'n effeithiol. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ym mhob cam o'r broses ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

3.2 Roedd y Papur Gwyn *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*,[1] a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, yn disgrifio sail resymegol holl gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau'r system bresennol. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys:

- Mae'r derminoleg bresennol yn achosi stigma i blant a phobl ifanc ac mae'n gysylltiedig â system y mae angen ei diwygio'n llwyr.
- Mae rhaniad aneglur rhwng y rhai y mae arnynt angen datganiadau AAA a'r rhai nad oes arnynt eu hangen.
- Nid yw'r Cod Ymarfer AAA presennol yn cael ei weithredu'n llwyr bob amser neu mae gwahanol awdurdodau lleol yn ei ddehongli'n wahanol.
- Mae'n annheg fod y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion mwy cymhleth wedi'i diogelu drwy ddatganiad ond nad yw'r

[1] Ceir copi o'r Papur Gwyn ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?skip=1&lang=cy

ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion llai cymhleth wedi'i diogelu'n statudol.

- Gall ymddiriedaeth rhwng rhieni ac awdurdodau lleol neu ysgolion gael ei thanseilio, sy'n arwain at anghydfod.
- Mae'n anodd mabwysiadu dull hyblyg o safbwynt cyflenwi darpariaeth addysgol arbennig.
- Mae'n bosibl y gallai'r trefniadau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu amharu ar drosglwyddiad didrafferth rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16 a gallent olygu nad yw'r ddarpariaeth ôl-16 mor effeithlon ag y dylai fod.
- Mae rhai rhieni a theuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddatganiadau AAA, sy'n brosesau a ystyrir yn rhai dyrys, biwrocrataidd ac aneffeithlon.
- Mae rhieni hefyd yn pwysleisio'r ffaith y gall y system fod yn rhy araf i addasu yn achos y plant sydd â datganiad ond y mae eu hanghenion yn newid neu y mae eu cyflwr yn gwella neu'n gwaethygu.
- O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, nid yw'r asesiad statudol AAA ond yn un o nifer o asesiadau ac nid yw'r prosesau unigol wedi'u hintegreiddio'n dda.
- Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer datrys anghydfodau'n ddigon cadarn i sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys yn gyflym neu'n cael eu hosgoi'n gyfan gwbl.

3.3 Bydd y Bil yn creu:

a) fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu’n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach (AB);
b) proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
c) system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

3.4 Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn, sefydlwyd un ar ddeg nod craidd sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil.

3.5 ***Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):*** Mae'r Bil yn defnyddio'r term newydd, sef ADY, yn lle'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Bydd hyn yn helpu i osgoi peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth y termau presennol a bydd yn nodi newid clir o ystyried y systemau presennol, nad ydynt yn addas i'r diben bellach. Mae defnyddio ADY fel term unigol sy'n cwmpasu pob dysgwr 0 i 25 oed yn adlewyrchu'r cam tuag at system decach i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau addysg bellach.

3.6 ***Ystod oedran 0 i 25:*** Mae'r Bil yn dwyn ynghyd y systemau deddfwriaethol presennol a gwahanol ar gyfer cefnogi:

a) plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA;
b) pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.

3.7 Bydd un system ddeddfwriaethol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag ADY. Bydd hyn yn gwella trosglwyddiad dysgwyr rhwng ysgolion a lleoliadau addysg ôl-16, gan sicrhau rhagor o gydraddoldeb o safbwynt cefnogaeth a hawliau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

3.8 ***Cynllun unedig:*** Mae'r Bil yn creu cynllun statudol unigol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) a fydd yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer AAA ac anableddau a/neu anawsterau dysgu i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach – gan gynnwys datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol ar gyfer dysgwyr a gefnogir gan Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, a chynlluniau dysgu a sgiliau a gynhelir drwy asesiadau o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a pharhad a bydd hefyd, yn wahanol i'r system bresennol, yn sicrhau bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw'r anghenion. Yn achos y rhan fwyaf o blant ag ADY sy'n derbyn gofal, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'w CDU gael ei ymgorffori yn y cynlluniau addysg personol a gaiff eu llunio ar gyfer y dysgwyr hyn fel rhan o'u cynlluniau gofal a chymorth. Bydd hyn yn golygu nad yw

ymdrechion yn cael eu dyblygu ac yn sicrhau bod anghenion addysgol plentyn sy’n derbyn gofal yn cael eu hystyried mewn ffordd holistig.

3.9 ***Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy:*** Mae'n ofynnol o dan y Bil fod barn plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael ei hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'n gwbl allweddol fod plant a phobl ifanc yn teimlo bod y broses gynllunio yn broses sy'n eu cynnwys yn hytrach nag yn broses sy'n digwydd iddynt. Caiff gwybodaeth, cyngor ac eirioli clir a diduedd eu darparu iddyn nhw a’u teuluoedd, felly, fel y gallant gyfrannu. Mae’r Bil yn rhoi hawliau amrywiol i blant a phobl ifanc i dderbyn gwybodaeth mewn perthynas ag ADY ac am benderfyniadau a gymerir yn eu cylch, ac i gael gwneud eu penderfyniadau eu hunain mewn rhai amgylchiadau. Yn achos plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol i allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, caiff eu rhieni arfer yr hawliau hyn neu cânt ddefnyddio ‘cyfaill achos’ a benodir gan y Tribiwnlys Addysg.

3.10 ***Dyheadau uchel a gwell deilliannau:*** Dylai CDUau ganolbwyntio ar sicrhau darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gweladwy. Bydd hyn yn cyfrannu'n ystyrlon at allu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni hyd eithaf ei allu.

3.11 ***System symlach sy’n achosi llai o wrthdaro:*** Bydd y broses o lunio ac adolygu CDU lawer yn symlach na'r sefyllfa bresennol o ran datganiadau AAA. Dylai osgoi'r modd y gall y dull presennol, sydd lawer yn rhy fiwrocrataidd, achosi gwrthdaro.

3.12 ***Rhagor o gydweithredu:*** Bydd y system newydd yn cefnogi ein pwyslais cadarn ar gydweithredu. Bydd gan yr holl wasanaethau sy'n cynnwys elfen o gydweithio â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, swyddogaeth allweddol o safbwynt cydweithio i gynnig cymorth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer dysgwyr ag ADY. Er na fydd angen cymorth penodol ran iechyd ar y rhan fwyaf o blant ag ADY gan na fydd eu anghenion ychwanegol yn gysylltiedig ag iechyd, os yw’n berthnasol ac yn briodol gellir cael cyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol. Yn benodol, bydd dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol (byrddau iechyd) neu Ymddiriedolaethau'r GIG i ystyried p’un a oes triniaeth neu wasanaeth sy’n debygol o helpu gydag ADY y dysgwr ac, os felly, i sicrhau bod y

driniaeth neu’r gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu. Bydd angen cynnwys y driniaeth neu’r gwasanaeth hwnnw yn CDU y dysgwr. Bydd y diwygiadau'n annog asiantaethau i gydweithio rhagor a rhannu rhagor o wybodaeth â'i gilydd. Mae hyn yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu pennu'n gynnar a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

3.13 Er mwyn hyrwyddo cydweithredu, mae’r Bil yn gosod dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO). Bydd y rhain yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella’r cydweithredu rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY ac o ran pa mor effeithiol yw’r cydweithredu hwnnw. Bydd gofyn i ysgolion a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach gael Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig. A bydd gofyn i awdurdodau lleol benodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i gydlynu eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir. Bydd y rolau hyn yn helpu i hwyluso cydweithredu aml-asiantaethol effeithiol, er mwyn gwella’r gwasanaethau i ddysgwyr.

3.14 ***Osgoi anghytundebau a’u datrys yn gynharach:*** Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn dylai'r system newydd ganolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf leol bosibl.

3.15 ***Hawliau clir a chyson i apelio:*** Os na all anghytundebau ynghylch cynnwys neu ddarpariaeth CDU gael eu datrys yn lleol, mae’r Bil yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU, neu’r rheini sydd o’r farn y dylai fod ganddynt CDU, (ynghyd â'u rhieni yn achos y rhai o dan 16 oed) yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, sef Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar hyn o bryd, ond a gaiff ei ailenwi gan y Bil. Mae’r Bil yn estyn yr hawl i apelio i bobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY ac sydd mewn AB. Yn achos plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol i wneud eu penderfyniadau eu hunain, gallant arfer yr hawl i apelio drwy ddefnyddio ‘cyfaill achos’ a benodir gan y Tribiwnlys (yn ogystal â rhiant).

3.16 ***Cod gorfodol:*** Bydd y Bil yn ymateb i'r cais am God cryfach y mae modd ei orfodi a bydd yn cynnwys darpariaethau a gaiff eu cefnogi gan God ADY newydd a statudol. Bydd y Cod yn hwyluso cysondeb cenedlaethol drwy sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y byddai’n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o’u mewn. Math o is-ddeddfwriaeth fydd hwn felly, a bydd yn rhoi dyletswyddau a hawliau i'r rhai a fydd yn ddarostyngedig iddo. Bydd y Cod hefyd yn amlinellu canllawiau ymarferol o ran sut y caiff y dyletswyddau statudol eu cyflawni. Byddwn yn darparu enghreifftiau o arferion gorau.

3.17 ***System ddwyieithog:*** Bydd yn ofynnol i wasanaethau ystyried a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy’r Gymraeg ar y plentyn neu’r person ifanc. Os oes, rhaid cofnodi hynny yn y CDU, a rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth drwy’r Gymraeg. Mae’r Bil yn cynnwys mecanwaith i gael gwared â’r prawf ‘pob cam rhesymol’ drwy reoliadau, er mwyn i’r dyletswyddau i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy’r Gymraeg gael eu gwneud yn absoliwt dros amser. Mae cyfres o ddyletswyddau strategol wedi’u cynllunio hefyd er mwyn symud i gyfeiriad system ADY wirioneddol ddwyieithog.

## Y cefndir a'r cyd-destun

3.18 Rhwng 2003 a 2007 cynhaliwyd adolygiad tair rhan o AAA gan Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau’r Cynulliad Cenedlaethol a chafodd adroddiadau cysylltiedig eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol:

a) Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar, Tachwedd 2004;
b) Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau), Mai 2006;
c) Trosglwyddo, Mawrth 2007.

3.19 Roedd tystiolaeth y Pwyllgor yn seiliedig ar adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (Anghenion addysgol arbennig: Mater prif ffrwd, 2002) ac Estyn (Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn, 2003). Gyda'i gilydd, daeth yr adroddiadau hyn i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer AAA:

- mae'r broses asesu sy'n gysylltiedig â datganiadau'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd, yn gostus, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio;
- weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n brydlon nac yn effeithiol;
- dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt yn aml frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

3.20 Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad cychwynnol ac eang ei gwmpas ar ddiwygiadau posibl i'r system gefnogaeth ar gyfer AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (Datganiadau neu Rywbeth Gwell, 2007). Wedi hynny, sefydlwyd amryw o brosiectau ymchwil weithredu i ddatblygu a threialu systemau a ffyrdd newydd o lywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Dyma rai ohonynt:

- pedwar prosiect diwygio yn cynnwys wyth awdurdod lleol. Y nod oedd datblygu a threialu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion (gan ddefnyddio CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA ynghyd â system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd ac offeryn ar-lein ar gyfer cynllunio ac asesu;
- cynllun peilot 'hawl y plentyn i apelio' yn cynnwys dau awdurdod lleol.

3.21 Daeth gwaith gwerthuso o'r prosiectau ymchwil weithredu i'r casgliad[2] y byddai ysgolion, gweithwyr proffesiynol a theuluoedd, ar y cyfan, yn croesawu cyflwyno CDU sy'n canolbwyntio ar unigolion. Eto i gyd, mynegwyd rhai pryderon ynghylch y goblygiadau a oedd ynghlwm wrth ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion o safbwynt capasiti staff, a chodwyd pryderon hefyd ynghylch diogelwch a phreifatrwydd wrth ddefnyddio adnodd ar-lein. Cefnogwyd yr egwyddorion a oedd yn ategu system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd. Roedd angen integreiddio hyn yn yr agenda gyfan ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau bod gwaith monitro effaith yn effeithiol ac yn effeithlon. Ni ddylai fod yn ymarfer ar wahân ar gyfer monitro'r rhai ag AAA.

[2] Mae adroddiadau ar y casgliadau wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?skip=1&lang=cy

3.22 Mae mwy a mwy o ddefnydd wedi cael ei wneud ar draws Cymru o ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag AAA, a hynny yn dilyn y prosiectau ymchwil weithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adnoddau electronig penodol ar gyfer Cymru ac wedi cyllido gwerth £600,000 o hyfforddiant dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae camau eisoes ar waith i sicrhau bod y gwaith o fonitro effaith ymyriadau'n rhan fwyfwy annatod o brosesau ehangach ar gyfer gwella ysgolion. Bwriedir llunio canllawiau ar y pwnc fel rhan o’r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY.

3.23 Amcan prosiect peilot 'hawl y plentyn i apelio' oedd treialu'r darpariaethau yn Mesur Addysg (Cymru) 2009 o safbwynt hawl plant i apelio mewn perthynas ag AAA a'u hawl i honni bod gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd mewn ysgolion. Yn dilyn gwerthusiad positif, cyflwynwyd rheoliadau a oedd yn gweithredu'r hawliau a'r dyletswyddau a roddwyd gan y Mesur ar draws Cymru gyfan o 5 Ionawr 2015.

3.24 Roedd *Rhaglen Lywodraethu* llywodraeth ddiwethaf Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011, yn cynnwys ymrwymiad i 'ddiwygio'r broses o safbwynt Anghenion Dysgu Ychwanegol y plant a’r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed mewn un ai ysgol neu leoliad Addysg Bellach'. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd ddogfen ymgynghori, *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol*[3], a ddisgrifiodd weledigaeth eang ar gyfer system ddiwygiedig. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Medi 2012 y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio yn ddiweddarach yn nhymor y Cynulliad, ar ôl mynd ati gyda phartneriaid allweddol i drafod goblygiadau'r cynigion mewn rhagor o fanylder. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 2012 a chyhoeddodd y byddai swyddogion yn ceisio rhagor o sylwadau gan randdeiliaid er mwyn datblygu ac ailystyried cwmpas ac effaith y cynigion a pha mor ymarferol fyddai eu gweithredu[4]. I'r perwyl hwn cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ystod hydref 2013

[3] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140406073301/http://wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?skip=1&lang=cy

[4] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2013/sen/?lang=cy

gyda gwahanol randdeiliaid allanol a grwpiau proffesiynol er mwyn pennu dulliau ymarferol a realistig o gyflwyno diwygiadau effeithiol[5].

3.25 Roedd darpariaethau ynghylch cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol, asesu anghenion addysgol ac anghenion o ran hyfforddiant dysgwyr ôl-16 ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a lleoliadau addysg bellach arbenigol wedi'u cynnwys o fewn cwmpas Bil Addysg (Cymru) o hyd. Fodd bynnag, mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd i ystyried pob darpariaeth AAA mewn corff unigol o ddeddfwriaeth, cafodd y darpariaethau eu dileu o'r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ym mis Ionawr 2014. Cyhoeddodd y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny y byddent yn cael eu dwyn ymlaen mewn Bil ar wahân a fyddai'n ymdrin â holl ystod y darpariaethau mewn perthynas ag ADY.

3.26 Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn, gan ddiwygio gwaith cynllunio gofal cymdeithasol a hefyd bennu gwerthoedd craidd sydd yn berthnasol yn ogystal i'r cynigion ynghylch ADY. Ar yr un pryd cafodd y sail ddeddfwriaethol a arferai gael ei rhannu ar gyfer AAA ar draws Cymru a Lloegr ei haddasu yn sgil pasio Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Gwnaeth y Ddeddf hon ddiwygio'r gwaith o gynllunio a darparu mewn perthynas ag AAA yn Lloegr. Tynnodd sylw at rai gwersi pwysig i'w hystyried ac at rai heriau a goblygiadau trawsffiniol.

3.27 Gan ddefnyddio casgliadau'r ymgyngoriadau blaenorol a'r cyswllt â rhanddeiliaid ac ystyried y cyd-destun sydd bellach wedi newid, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru at ddiben ymgynghori ar 22 Mai 2014 Bapur Gwyn o'r enw *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*[6]. Daeth yr ymgynghoriad naw wythnos i ben ar 25 Gorffennaf 2014. Cafodd fersiwn o'r ymgynghoriad i bobl ifanc ei lunio a'i ddosbarthu a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn ceisio casglu sylwadau gan blant a phobl ifanc.

[5] Mae crynodeb o'r trafodaethau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?skip=1&lang=cy

[6] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

3.28 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2014. At ei gilydd, cafodd y cynigion ar gyfer diwygio’r system eu croesawu. Cafodd pwysigrwydd egwyddorion sylfaenol, fel yr angen i wrando ar blant a phobl ifanc ac i gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu system ddiwygiedig, ei bwysleisio gan randdeiliaid. Yn ogystal, roedd cefnogaeth arbennig ar gyfer:

- mabwysiadu'r term arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a gaiff ei ystyried yn derm mwy cynhwysol;
- cyflwyno CDUau, gydag ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau'n ddogfennau hyblyg a 'byw' y mae modd eu haddasu er mwyn bodloni anghenion newidiol dysgwyr;
- y cynnig y dylai pob person ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY fod â hawl i gynllun statudol unigol. Pwysleisiwyd y manteision y byddai system unedig yn eu cyflawni o safbwynt gwella'r gwaith o gynllunio trosglwyddiadau.

3.29 Mae nifer o ddatblygiadau polisi eraill a sylweddol wedi digwydd yn ystod y cyfnod datblygu ac ymgysylltu a fydd yn effeithio ar y modd y caiff y diwygiadau arfaethedig eu gweithredu ac sy'n berthnasol wrth i'r darpariaethau arfaethedig gael eu hystyried.

3.30 Ym mis Mawrth 2014 penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr Athro Graham Donaldson i arwain adolygiad cynhwysfawr ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Donaldson sef *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dull newydd cwbl gynhwysol a dilys o fynd i'r afael â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, ac mae’n cydnabod pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac asesiadau gan athrawon sy'n cefnogi anghenion dysgu pob dysgwr. Mae’r argymhellion yn creu gweledigaeth o berson ifanc llwyddiannus sy’n cwblhau ei addysg statudol. Ym mis Mehefin 2015, derbyniodd Llywodraeth Cymru y 68 argymhelliad.

3.31 Ym mis Hydref 2015, cyhoeddwyd *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes,* sy’n amlinellu’r camau a gaiff eu cymryd i weithredu’r argymhellion yn *Dyfodol*

*Llwyddiannus.* Ar sail hyn, caiff cwricwlwm cwbl newydd ei gynllunio, ei ddatblygu a'i wireddu o fewn chwe blynedd. Bydd yn golygu newidiadau i addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon, datblygu'r athrawon sydd gennym yn broffesiynol, newidiadau i fframwaith arolygu Estyn, a newidiadau i weithdrefnau casglu data. Bydd yn seiliedig ar ddeddfwriaeth newydd a bydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf mewn lleoliadau ac ysgolion erbyn Medi 2021.

3.32 Bydd i'r newidiadau hyn oblygiadau radical ac eang eu hystod i'r system addysg yng Nghymru, lle bydd yna gwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar bedair egwyddor gyffredinol, a fydd yn ceisio creu system addysg lle bydd plant a phobl ifanc yn datblygu'n:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

3.33 Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn a gofalu nad yw'r cwricwlwm yn crebachu, eir ati i ddiwygio'r trefniadau asesu ac atebolrwydd.

3.34 Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu datblygu drwy ddull arloesol a chydweithredol o weithio – rhwydwaith ymarferwyr o Ysgolion Arloesi, a gaiff ei ariannu a'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan bartneriaeth o gyrff addysg o bob rhan o Gymru ac arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol. Wrth gynllunio'r cwricwlwm, rhoddir y lle canolog i ymarferwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd a'r newidiadau o ran y system atebolrwydd yn cael eu gwireddu a'u harddel gan y proffesiwn.

3.35 Penodwyd Ysgolion Arloesi hefyd i arwain y gwaith o ddatblygu Cynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd datblygu o'r ansawdd uchaf ar gael i bob ymarferwr ar bob adeg yn eu gyrfa. Bydd y Cynnig Dysgu Proffesiynol yn canolbwyntio ar nifer o elfennau llwybr carlam, gan gynnwys digidol, arweinyddiaeth, asesu ac ADY.

3.36 Yn ogystal, mae diwygio addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, sy'n deillio o adroddiad *Addysgu Athrawon Yfory,* yn rhan sylfaenol o'r Cynnig Dysgu Proffesiynol. Gofynnwyd i'r Grŵp Achredu Addysg i Athrawon, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Furlong, ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth a chyflwyno dull newydd o'i chyflwyno. Aeth y Grŵp Achredu Addysg i Athrawon ati i ddatblygu meini prawf drafft sydd wedi'u rhannu â rhanddeiliaid. Lansiwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y meini prawf diwygiedig ar 29 Medi 2016. Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd pob rhaglen addysg gychwynnol i athrawon yn cael ei harwain gan 'bartneriaeth', hynny yw Prifysgol yn cydweithio'n agos â nifer o ysgolion partneriaeth arweiniol. Hon fydd y bartneriaeth a fydd yn dwyn ymlaen y rhaglen achredu. Yn y dyfodol, bydd y gwaith achredu yn dibynnu ar bartneriaeth addysg gychwynnol i athrawon i wireddu'r weledigaeth a bodloni'r meini prawf i gefnogi system addysg gychwynnol i athrawon sydd o'r radd flaenaf ac sy'n gallu cystadlu â'r orau yn y byd.

3.37 Mae capasiti a gallu'r gweithlu, yn benodol mewn perthynas ag AAA, wedi cael ei bwysleisio gydol y cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fel mater sy'n destun pryder. Aethpwyd ati i drefnu bod camau prydlon yn cael eu cymryd, cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, er mwyn helpu i gynllunio a datblygu'r gweithlu. Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau adroddiad: *Asesiad o Ofynion Datblygu'r Gweithlu Anghenion Addysgol Arbennig* a *Cynllunio gweithlu gwasanaethau arbenigol anghenion addysgol arbennig (AAA)*. Mae casgliadau'r ddwy astudiaeth hon wedi arwain at ddatblygu dull tair haen o fodloni anghenion datblygu'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol, er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY yn well.

3.38 Mae'r dull tair haen yn canolbwyntio ar sgiliau craidd (ar gyfer pob ymarferwr addysgu), sgiliau uwch (yn benodol ar gyfer y Cydlynydd ADY) a sgiliau arbenigol (ar gyfer unigolion penodol ar draws clwstwr ysgolion, neu o fewn gwasanaeth cymorth arbenigol) ac mae'n agwedd hanfodol ar y rhaglen i drawsnewid y system ADY, y mae'r Bil hefyd yn rhan ohoni. Mae'r ffocws ar sgiliau craidd yn benodol gysylltiedig â'n dull gweithredu ehangach o ran y Cynnig Dysgu Proffesiynol a'r rhaglen Ysgolion Arloesi, a fydd yn sicrhau bod ein

gweithlu cyfan yn datblygu gwybodaeth am ADY a'r sgiliau cysylltiedig. Er mwyn cefnogi ymarferwyr addysgu mewn lleoliadau addysg, rydym am ddatblygu cymhwyster ar lefel meistr i'w ddefnyddio gan Gydlynwyr AAA presennol (a Chydlynwyr ADY yn y dyfodol). Bydd hyn yn sicrhau bod yna unigolyn yn lleoliad pob ymarferwr addysgu a all roi cyngor AAA penodol yn ogystal â datblygu staff yn broffesiynol.

3.39 Bydd sicrhau bod gan ein gweithlu yr adnoddau angenrheidiol, a'r hyder i ddefnyddio'r adnoddau hynny, yn lleihau'r angen i gyfeirio achosion at wasanaethau cymorth arbenigol. Bydd hyn, yn ei dro, hefyd yn gwella capasiti gwasanaethau arbenigol i ganolbwyntio ar y dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu system genedlaethol i gynllunio'r gweithlu mewn perthynas â gwasanaethau arbenigol ADY, i sicrhau yr eir ati mewn ffordd gynaliadwy i ddatblygu capasiti gwasanaethau cymorth arbenigol i fodloni anghenion dysgwyr.

3.40 Yng ngoleuni'r angen brys i ddatblygu'r gweithlu ac adeiladu ar y prosiectau blaenorol llwyddiannus, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gyllido dwy raglen hyfforddi benodol: codi ymwybyddiaeth o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd – bydd y gofynion o ran cyflwyno'r rhaglen mewn sefydliadau addysg bellach yn cael eu pennu dros y flwyddyn nesaf; a defnyddio'r arfer o ganolbwyntio ar unigolion yn gyson, sy'n golygu cyhoeddi adnoddau pwrpasol er mwyn hyrwyddo'r arfer yn ehangach. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn.sail i'r broses gynllunio newydd, a bydd sefydlu'r arfer yn helpu i weithredu'r Bil yn ddidrafferth.

3.41 O ganlyniad i'r elfennau sylfaenol hyn yn benodol o raglen newid addysgol Llywodraeth Cymru, a'r elfennau cysylltiedig, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb o ran y rhaglen i drawsnewid y system ADY, a sicrhau bod y diwygiadau yn ymarferol a bod cefnogaeth iddynt, ar 6 Gorffennaf 2015 penderfynodd y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer ymgynghoriad.

3.42 Roedd y Bil drafft wedi'i lunio ar sail y Papur Gwyn, *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.* Fodd bynnag, yn ogystal â darparu

manylion deddfwriaethol sut y gallai'r cynigion yn y Papur Gwyn gael eu gwireddu, roedd y Bil drafft hefyd yn cynnwys rhai darpariaethau newydd. Yn benodol, roedd yn amlinellu darpariaethau newydd a allai wella'n sylweddol waith amlasiantaethol mewn perthynas â chynllunio a chyflwyno darpariaeth i ddysgwyr ag ADY, yn enwedig ar draws y sectorau addysg ac iechyd.

3.43 Parodd yr ymgynghoriad tan 18 Rhagfyr 2015, ac roedd yn cynnwys dau ddigwyddiad amlasiantaethol mawr yn y Gogledd a'r De; cyfres o weithdai i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr; a rhaglen o sesiynau anffurfiol pwrpasol gyda rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.

3.44 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, aeth cyn Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ati i graffu ar y Bil drafft cyn y broses ddeddfu. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd yn nodi'r hyn a ganfuwyd. Roedd llawer o gasgliadau'r Pwyllgor yn adlewyrchu'r sylwadau a'r adborth a ddaeth i law yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad[7].

3.45 Ym mis Medi 2016, yn ei Rhaglen Lywodraethu newydd, *Symud Cymru Ymlaen* 2016-*2021*[8]*,* ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddeddfu ar gyfer system newydd o gefnogaeth ADY.

**Y cyd-destun deddfwriaethol**

3.46 Caiff deddfwriaeth AAA ei nodi yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Er bod y diffiniad o AAA yn berthnasol i blant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol iawn mae'r ddeddfwriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth ac sydd â hawl i ddatganiad AAA gan yr awdurdod lleol. Ym mis Gorffennaf 2015 roedd gan 104,957 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ryw ffurf ar AAA, sy'n gyfystyr ag oddeutu 22% o holl ddisgyblion Cymru. Fodd bynnag, dim ond 12,437 o'r disgyblion ag AAA oedd â datganiad, sy'n gyfystyr â 2.7% o'r holl ddisgyblion.

[7] Mae llythyr y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12991
[8] http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy

3.47 Ceir canllawiau statudol ynghylch AAA yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. O safbwynt y plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiad, mae'r Cod yn nodi canllawiau mewn perthynas ag ymyriadau sydd un ai'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o strategaethau cwricwlwm arferol a phenodol yr ysgol neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar neu'n wahanol iddynt. Gelwir y strategaethau penodol hyn yn 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar’. Lle y mae ysgol neu leoliad y blynyddoedd cynnar yn ceisio cymorth gan wasanaethau cymorth allanol, fe'i gelwir yn 'Gweithredu gan yr ysgol a mwy' neu 'Gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy'.  Nid oes unrhyw ganllawiau wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

3.48 Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch dysgwyr ôl-16 mewn Addysg Bellach sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu wedi'i chynnwys yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru ar hyn o bryd o dan adrannau 31 a 32 o’r Ddeddf hon i sicrhau 'darpariaeth briodol' ar gyfer addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed, a 'chyfleusterau rhesymol' ar gyfer y rhai dros 19 oed. Mae’r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau llety dros nos ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu os nad oes modd iddynt fel arall sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n ddigonol o ran cwmpas ac o ran ansawdd ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed neu gyfleusterau rhesymol ar gyfer y rhai 19 i 25 oed. Mae Adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu bod pobl ifanc sydd â datganiadau AAA yn cael eu hasesu, os ydynt yn debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn olaf o addysg orfodol i dderbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud hynny mewn perthynas â'r rhai hyd at 25 oed nad oes ganddynt ddatganiad AAA ond yr ymddengys fod ganddynt anhawster dysgu.

3.49 O dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 mae'n rhaid i ysgolion annibynnol fod wedi'u cofrestru ac mae'n rhaid i gais i ychwanegu ysgol annibynnol at y gofrestr gynnwys gwybodaeth sy'n nodi a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag AAA. Nododd Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 y safonau y caiff ysgol annibynnol ei harolygu arnynt.

3.50 Yn ogystal â'r broses gofrestru, o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996, gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol i dderbyn plant â datganiad AAA yn gyffredinol; neu roi caniatâd unigol i dderbyn plentyn â datganiad AAA, lle nad yw'r ysgol dan sylw wedi'i chymeradwyo. Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn rhagnodi'r gofynion y mae gofyn i ysgol annibynnol gydymffurfio â hwy fel amod i'w chymeradwyo fel ysgol addas ar gyfer derbyn plant sydd â datganiadau AAA a gynhelir. Mae angen i'r ysgol fod wedi cofrestru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2002 a'i chymeradwyo o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn gallu derbyn plentyn â datganiad AAA.

3.51 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn creu cyfleoedd i wella'r cysylltiad rhwng ADY a chynllunio gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu a pharhau i adolygu cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant ac oedolion sydd ag 'anghenion cymwys' neu sydd o fewn un o'r categorïau 'pasportio' ee plant sy'n derbyn gofal.

3.52 Mae Adran 54(8) o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwneud darpariaeth sy'n nodi y caiff awdurdod lleol:

a) baratoi, adolygu neu ddiwygio Cynllun Gofal a Chymorth o dan yr adran honno ar yr un pryd ag y bydd yr awdurdod, neu gorff arall, yn paratoi, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall mewn perthynas â'r person dan sylw;
b) cynnwys y ddogfen arall yn y cynllun.

3.53 Mae Adran 83(8) o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

3.54 Mae hyn yn golygu bod yna gyfle ar gyfer cynllunio integredig, gan sicrhau bod anghenion unigol plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni. Yn ogystal, mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf honno i geisio hybu llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae Adran 2(2) o Ddeddf 2014 yn diffinio "llesiant" mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a hamdden (ymysg eraill). Yn ogystal, o dan adran 2(3), mae

"llesiant" mewn perthynas â phlentyn (a ddiffinnir, at ddibenion y Ddeddf honno, fel person o dan 18 oed) hefyd yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae Adran 78(2)(a) o'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu a hybu llesiant plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn cynnwys dyletswydd i hybu cyflawniad addysgol y plentyn.

3.55 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, roi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir; i gydweithio'n well â phobl a chymunedau a chyda'i gilydd; i geisio atal problemau a chydweithredu'n fwy – gan helpu i greu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

3.56 Mae'r nodau a'r egwyddorion llesiant a ddarperir yn y Ddeddf yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion y rhaglen i drawsnewid y system ADY. Yn benodol, bydd y diwygiadau o ran ymdrin ag ADY yn cyfrannu i greu Cymru fwy cyfartal, iach, llewyrchus a chydnerth.

3.57 Mae'r elfen *cyfartal* yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran hawliau a gwarchod a ganiateir i ddysgwyr ag ADY ar hyn o bryd, gan gynnwys drwy ddarparu'r hawl i gynllun statudol i bob dysgwr ag ADY, beth bynnag yw lefel yr angen. Mae'r diwygiadau hefyd yn ceisio sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng dysgwyr ag ADY a dysgwyr nad oes ganddynt ADY, drwy ganolbwyntio ar gynhwysiant a chodi safonau, fel bod pob dysgwr yn cael cymorth i gyflawni ei botensial. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r elfennau *llewyrchus* a *chydnerth*. Anogir dysgwyr i anelu'n uchel a chânt eu cefnogi i gyflawni'n addysgol. Nod y diwygiadau yw helpu dysgwyr i fynd ymlaen i fyw bywydau llawn a chyfrannu'n llawn at gymdeithas, gan gynnwys drwy gyflogaeth. Mae'r flaenoriaeth a roddwyd yn y diwygiadau ar ymyrraeth gynnar, sicrhau'r ddarpariaeth iawn i gyflawni anghenion dysgwyr, a gwaith amlasiantaethol i gefnogi dysgwyr a darparu ymyriadau effeithiol a doeth hefyd yn cefnogi'r nod *iachach*.

3.58 Mae'r egwyddorion o ran datblygu cynaliadwy – yn benodol, ffocws ar y tymor hir, atal problemau, cydweithredu a chymryd rhan – yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r diwygiadau a'r dull y bydd angen ei ddilyn er mwyn gweithredu a sefydlu'r system newydd yn effeithiol.

**Ar bwy y bydd y Bil yn effeithio?**

3.59 Plant a phobl ifanc ag ADY sy’n elwa'n uniongyrchol ar ddarpariaethau'r Bil. Mae’n creu system sy’n rhoi’r lle canolog iddyn nhw ac sy’n ceisio sicrhau y penderfynir ar eu hanghenion, a bod cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny yn digwydd yn fwy amserol, ar y cyd ac mewn modd mwy cyson a chydradd. O dan y Bil hwn, mae gan blant, eu rhieni a phobl ifanc hawl i’w barn, eu dymuniadau a’u teimladau gael eu hystyried gan y rheini sy’n cyflawni swyddogaethau o dan y Bil. Bydd hyn yn arwain at ddull o wneud penderfyniadau a chynllunio sy’n sicrhau consensws wrth ystyried ADY y dysgwr, gan ymbellhau oddi wrth natur wrthwynebol y system bresennol.

3.60 Mae gofyn i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru weithredu'n unol â fframwaith statudol newydd. Mae’r fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframweithiau statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg 1996 mewn perthynas ag addysg ysgol ac addysg cyn ysgol a chan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas ag addysg bellach.

3.61 Bydd ymarferwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu perthnasol ynghlwm wrth bennu ADY a'r darpariaethau ar gyfer cefnogi addysg y dysgwr. Yn ogystal, mae'r Bil yn pennu bod gofyn i bob ysgol a gynhelir (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, ond heb gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir gan eu bod nhw wedi’u sefydlu’n benodol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol) a sefydliadau addysg bellach ddynodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

3.62 Mae darpariaethau’r Bil sy’n berthnasol i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG yn gam pwysig ymlaen. Yn benodol (yn y lleiafrif o achosion lle mae ADY dysgwr yn gysylltiedig ag iechyd) mae’r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG, pan ofynnir iddynt, ystyried p’un a oes triniaeth neu wasanaeth sy’n debygol o helpu gydag ADY y dysgwr ac, os felly, sicrhau’r driniaeth neu’r gwasanaeth hwnnw. Bydd creu swydd y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn sicrhau y bydd ADY, am y tro cyntaf, ar agenda strategol pob bwrdd iechyd – ac y bydd arweinydd strategol ar lefel uwch yn ardal pob bwrdd iechyd i oruchwylio cyfrifoldebau’r bwrdd, gweithredu fel pwynt cyswllt cyffredin ar gyfer

asiantaethau eraill o ran materion ADY a sicrhau y goruchwylir yn strategol y gwaith o gydlynu'r mewnbwn iechyd o ddydd i ddydd.

3.63 Ymhlith y cyrff cyhoeddus eraill sydd â swyddogaethau o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd mae'r rheini sy'n gyfrifol am lety perthnasol i bobl ifanc a Thribiwnlys Addysg Cymru.

3.64 Bydd gofyn i ddarparwyr addysg feithrin yn y sector gwirfoddol neu breifat roi ystyriaeth i'r Cod ADY os ydynt yn derbyn cyllid gan y wladwriaeth ar gyfer eu llefydd meithrin. Bydd gofyn i awdurdodau lleol hefyd benodi Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i gydlynu trefniadau ar gyfer plant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir.

3.65 Bydd darpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig mewn perthynas â chofrestru neu gymeradwyo yn effeithio ar ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbenigol. Bydd elfen o waith Gyrfa Cymru mewn perthynas â chynnal asesiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ran Gweinidogion Cymru yn dod i ben yn sgil newidiadau a gyflwynir gan y Bil.

3.66 Yn olaf, bydd dyletswydd amodol ar gyrff amrywiol, gan gynnwys rhai yn Lloegr (megis awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chyrff iechyd) i helpu awdurdod lleol yng Nghymru mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r ail gorff o dan y Bil hwn.

**Cynllun gweithredu a chyflenwi**

3.67 Caiff elfennau allweddol y fframwaith statudol newydd eu hamlinellu ar wyneb y Bil drafft a byddant yn cychwyn, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol, naill ai pan roddir Cydsyniad Brenhinol neu yn unol â gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

3.68 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY, ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Bydd y Cod yn cynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau a wneir o dan y Bil. Mae'n rhaid ei osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo. Bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ac yn gosod fersiwn ddrafft derfynol ohono os bydd y Bil yn dod yn Ddeddf.

3.69 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd ati'n raddol i weithredu'r fframwaith statudol newydd, a fydd yn digwydd ochr yn ochr â gweithredu’r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY. Y nod yw sicrhau bod sefydliadau ac ymarferwyr yn deall y system newydd ac yn gallu rheoli a throsglwyddo'n effeithiol ddysgwyr o'r system bresennol i'r system newydd. Rhwng Mawrth a Mehefin 2017 cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno’r system newydd. Defnyddir adborth ar yr ymgynghoriad i ddatblygu cynllun gweithredu a phontio manwl a gaiff ei gyhoeddi maes o law. Caiff crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad a datganiad ar y cynlluniau gweithredu eu cyhoeddi yn ystod yr hydref 2017.

3.70 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i’r egwyddor na ddylai un plentyn na pherson ifanc golli ei ddiogelwch na’i ddarpariaeth statudol sy’n ofynnol er mwyn bodloni ei anghenion wrth fynd o’r system bresennol i’r system newydd.

3.71 Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddwyd pecyn cymorth gwerth £20 miliwn ar gyfer y Rhaglen i Drawsnewid y System ADY. Bydd hyn yn cynnwys darparu grant ar gyfer partneriaid er mwyn hwyluso’r broses o weithredu’r darpariaethau a nodir yn y Bil. Caiff y cyllid hwn ei ddyrannu i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, y Tribiwnlys, byrddau iechyd ac Estyn. Bydd hyn yn adeiladu ar y grant sydd eisoes wedi’i sefydlu drwy’r Gronfa Arloesi ar gyfer ADY (dros £1m yn 2016-17) i gefnogi awdurdodau lleol a’u partneriaid i ddatblygu a gwella trefniadau gwaith amlasiantaethol i helpu i ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY.

3.72 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi’r cyfnod pontio ac yn sicrhau proses drosglwyddo ddidrafferth rhwng y fframwaith presennol a’r drefn statudol newydd. Bydd yn penodi Arweinwyr Trawsnewid y System ADY i ddarparu cyngor, cefnogaeth a her i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflenwi eraill wrth baratoi ar gyfer y system ADY newydd a rheoli’r broses bontio.

3.73 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ac yn cyflwyno gweithgareddau codi ymwybyddiaeth er mwyn cefnogi’r broses o weithredu’r Bil. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o ddeunyddiau rhyngweithiol er mwyn gwella dealltwriaeth a disgwyliadau pobl o ymyriadau effeithiol a rôl yr unigolion a’r grwpiau allweddol.

Bydd y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, ac ar esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau mae'n eu rhoi i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

3.74 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Grŵp Gweithredu Strategol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cynnwys partneriaid cyflenwi allweddol. Bydd yn helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu i gefnogi awdurdodau lleol, darparwyr addysg ac eraill i lywio a pharatoi ar gyfer y rhaglen i drawsnewid y system ADY ac, yn benodol, ar gyfer y darpariaethau statudol a amlinellir yn y Bil. Bydd y Grŵp Gweithredu Strategol yn chwarae rôl hollbwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r diwygiadau a datblygu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y Grŵp yn parhau â'i rôl o fonitro ac adolygu'r trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio a fydd yn dilyn deddfu.

3.75 Bydd y model monitro a gwerthuso yn ystyried yr hyn a wneir fesul cam, yn benodol:

- parodrwydd – er mwyn asesu i ba raddau y mae asiantau cyflenwi yn barod am y newidiadau;
- cydymffurfio – er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae sefydliadau yn dilyn y gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y byddant yn weithredol;
- effaith – er mwyn gwerthuso i ba raddau y mae'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ehangach yn cael eu sefydlu ac yn cael effaith ar ddeilliannau dysgwyr.

3.76 Bydd y broses o gydymffurfio, monitro effaith a gwerthuso yn sail i adolygiad ôl-weithredol. I gefnogi hyn, bydd yna waith arolygu ac adolygu rheolaidd dan arweiniad Estyn.

**Rhychwant tiriogaethol**

3.77 Mae'r Bil hwn yn berthnasol i Gymru. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc 0 i 25 oed eu hardal, gan gynnwys y rheini sy'n cael addysg yn Lloegr. Mae cyfrifoldebau hefyd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru mewn perthynas

â phlant a phobl ifanc sydd yn byw yn Lloegr ond sy’n mynychu’r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Os nodir bod ganddynt ADY, rhaid i’r corff llywodraethu baratoi a chynnal CDU neu gallant gyfeirio’r achos i awdurdod lleol cartref y dysgwr (yr awdurdod lleol yn Lloegr lle mae’r plentyn neu’r person ifanc yn byw). Mae dyletswyddau ar yr awdurdod lleol yn Lloegr o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, a allai olygu y bydd yn gorfod paratoi a chynnal cynllun addysg, iechyd a gofal. Ni fydd yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yng Nghymru y mae’r plentyn yn ei fynychu wedyn dan ddyletswydd i baratoi CDU ar gyfer y plentyn, ond mae dyletswydd arno i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gofynnir amdani ar sail anghenion y dysgwr yn cael ei chynnig. Yr awdurdod lleol yn Lloegr fydd yn gyfrifol, yn y pen draw, am gynnig y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir mewn cynllun addysg, iechyd a gofal.

3.78 Mae swyddogion o Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio â swyddogion o Adran Addysg Llywodraeth y DU i lunio canllawiau i gefnogi plant a phobl ifanc Cymru sy'n mynychu sefydliad addysg yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.

3.79 Bydd y Cod yn pennu canllawiau ymarferol ynghylch sut y dylai anghenion addysgol dysgwyr a gaiff eu haddysgu yn Lloegr ond sy'n byw yng Nghymru, ac i’r gwrthwyneb, gael eu bodloni.

**Trosolwg o'r Bil**

3.80 Mae gweddill y bennod hon yn esbonio elfennau'r fframwaith statudol newydd, ynghyd â darpariaethau'r Bil, mewn rhagor o fanylder.

**Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

3.81 Mae'r Bil (adran 2) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) a fydd yn disodli'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' (AAA), ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' ac mae'n ei gwneud hi'n bosibl defnyddio'r term mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o unrhyw oedran. Mae’r adran yn ei gwneud yn glir bod cyflwr meddygol sy’n achosi neu’n cyfrannu at ADY yn dod o fewn y diffiniad. At ddibenion y Bil, plentyn yw person

nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a pherson ifanc yw person hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 25 oed.

3.82 Mae defnyddio term unigol ar draws yr ystod oedran 0 i 25 oed yn pwysleisio cydlyniaeth y system newydd ac yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb ar gyfer dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i osgoi peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth y termau presennol, yn benodol anghenion addysgol arbennig, ac mae’n nodi newid clir o'r systemau presennol.

3.83 Mae'r Bil (adran 3) yn defnyddio'r term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' a fydd yn disodli'r term 'darpariaeth addysgol arbennig'. Eto i gyd, mae'r diffiniad yn debyg iawn i'r diffiniad presennol o ddarpariaeth addysgol arbennig - hynny yw darpariaeth sy’n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol neu'r ddarpariaeth hyfforddiant a wneir yn gyffredinol ar gyfer plant neu bobl ifanc o’r un oedran mewn ysgolion a gynhelir neu ddarpariaeth sy’n wahanol i hynny yw darpariaeth ddysgu ychwanegol, ac eithrio mewn ysgolion arbennig a sefydliadau addysg bellach y brif ffrwd. Mae’n golygu rhywbeth ychydig yn wahanol i blant o dan dair oed.

**Ystod oedran 0 i 25**

3.84 Os daw i sylw awdurdod lleol bod gan blentyn neu berson ifanc o fewn yr ystod oedran hwn ADY, neu os daw i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach bod gan ddysgwr cofrestredig ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, rhaid i’r awdurdod lleol neu’r corff llywodraethu benderfynu p’un a oes gan yr unigolyn ADY. Mae yna rywfaint o debygrwydd yn yr hyn a ddisgrifir ynghylch penderfynu ar anghenion yn adran 323 o Ddeddf Addysg 1996, ond yn gyffredinol mae honno’n sôn am ddysgwyr ag anghenion mwy difrifol a chymhleth. Os bydd yn penderfynu bod gan y dysgwr ADY, ac mai plentyn yw’r dysgwr, neu berson ifanc mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, neu mewn achosion eraill, os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu (yn unol â’r rheoliadau) fod angen paratoi a chynnal cynllun ar gyfer y person ifanc er mwyn ateb ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, rhaid iddo sicrhau bod CDU yn cael ei lunio ar gyfer y dysgwr hwnnw. Mae'r Bil yn disodli Rhan 4 o Ddeddf 1996, a sefydlodd y system bresennol o ran AAA ar gyfer ysgolion ac addysg cyn-16 yn gyffredinol. Mae hefyd (yn adran 46) yn diwygio adran 41 ac yn diddymu adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac addysg bellach. Yn eu lle mae Rhan 2 o'r Bil yn darparu bod yr un cynllun statudol (y CDU) yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY, p'un a ydynt mewn addysg feithrin, ysgol neu sefydliad addysg bellach neu'n debygol o fynd i un o'r rhain. Mae hyn yn wahanol i'r datganiad am AAA a luniwyd o dan y system bresennol (o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996), sydd yn gyffredinol ond yn berthnasol i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth. Mae'r Bil, felly, yn sicrhau sail fwy cydradd i'r gefnogaeth i ddysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach ac, felly, bydd yn gwella'r trosglwyddiad rhwng ysgolion ac addysg ôl-16.

3.85 Mewn rhai achosion, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol ar gyfer person ifanc er mwyn bodloni ei anghenion rhesymol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Ni fydd y cyfrifoldeb hwn yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru bellach a bydd hyn yn gwella'r broses bontio, gan annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn cynllunio ar gyfer cefnogaeth a'i sicrhau, a gwella'r ddarpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hefyd yn rhagor o gymhelliant i awdurdodau lleol o safbwynt ffurfio'r cysylltiadau rhwng adrannau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol sydd eu hangen er mwyn galluogi plentyn neu berson ifanc i drosglwyddo'n effeithiol i addysg bellach, ac yn y pen draw i fyd oedolion.

**Cynllun unedig**

3.86 Mae'r Bil yn cyflwyno CDUau statudol (adrannau 8-17) ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY. Ni fydd datganiadau, cynlluniau addysg unigol na chynlluniau dysgu a sgiliau'n bodoli mwyach.

3.87 Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc ynghyd â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny (adran 8). Bydd hefyd yn nodi p'un a ddylai plentyn neu berson ifanc dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg; os nodir bod angen hyn, rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a benodwyd yn cael ei rhoi i'r person ifanc drwy'r Gymraeg. Fel rheol caiff CDUau

eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu, yn dilyn penderfyniad gan y corff hwnnw fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY (adrannau 9-10). Yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach fydd yn gorfod sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu (adran 10). Mewn achosion lle na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach bennu natur ADY y plentyn neu'r person ifanc, neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen, neu lle na fyddai'n bosibl iddynt sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol, gellir cyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol wedyn am nodi'r ADY, paratoi ac adolygu'r CDU a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o'i fewn (adrannau 11 a 12). Yn achos person ifanc nad yw'n mynychu sefydliad addysg bellach neu ysgol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am asesu a oes ganddo ADY ac am baratoi a chynnal CDU (a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o'i fewn) ar gyfer y person ifanc hwnnw, os yw o'r farn bod angen hynny.

3.88 Mae gan awdurdodau lleol bwerau a dyletswyddau, o dan rai amgylchiadau, mewn perthynas ag ailystyried penderfyniadau gan ysgolion ynghylch ADY. Gallant ysgwyddo cyfrifoldebau am CDUau a arferai gael eu cynnal gan ysgol neu sefydliad addysg bellach, a hefyd gyfarwyddo ysgol i baratoi a/neu gynnal CDU (adrannau 24-26). Byddai'n rhaid i CDUau gael eu hadolygu bob 12 mis, fan lleiaf, ond dylent gael eu hadolygu fel y bo angen, neu ar gais, a fydd yn fwy aml na phob 12 mis mewn sawl achos (adrannau 21 a 22). Dylai'r ymyriadau a nodir yng nghynllun gweithredu'r CDU gynnwys cerrig milltir a deilliannau clir a phenodol, a fydd yn ysgogi adolygiad o'u heffeithiolrwydd.

3.89 Mae'r Bil (adran 27) yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd i ailystyried penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas ag ADY plentyn neu berson ifanc os yw'r awdurdod lleol wedi ystyried penderfyniad eisoes ac yn fodlon nad yw'r sefyllfa wedi newid.

3.90 Bydd hyn yn golygu nad oes rhaid i awdurdod lleol ystyried ceisiadau sy'n dod dro ar ôl tro neu geisiadau blinderus. Mae'r Bil (adrannau 24, 25 a 30) yn galluogi plentyn, person ifanc neu riant plentyn i ofyn i awdurdod lleol:

a) ailystyried penderfyniad a wneir gan ysgol ynghylch a oes ganddo/ganddi ADY;
b) adolygu ei CDU;
c) ystyried cymryd cyfrifoldeb am CDU a gynhelir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach; neu
d) ailystyried penderfyniad ysgol i roi'r gorau i gynnal CDU.

3.91 Mae'r Bil yn caniatáu i awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru yn y CDU at ddibenion sicrhau mynediad i'r ysgol honno lle y mae'n fodlon bod buddiannau'r plentyn yn golygu bod gofyn i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU gael ei chynnig yn yr ysgol honno. Mae hefyd yn gosod dyletswydd gysylltiedig ar ysgol a enwir yn y CDU i dderbyn disgyblion o dan yr amgylchiadau hyn (adran 44). Mae'r Bil (adran 49) hefyd yn grymuso awdurdodau lleol i: drefnu bod darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chynnig mewn lleoliad heblaw am ysgol; neu wneud trefniadau er mwyn galluogi plentyn neu berson ifanc y maent yn gyfrifol amdano i fynychu sefydliad y tu allan i Gymru neu Loegr sy'n arbenigo yn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc (adran 55).

3.92 Lle y mae dysgwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir (gan gynnwys meithrinfa a gynhelir) neu sefydliad addysg bellach, mae'r Bil (adran 43) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynhwysir yn y CDU. Eto i gyd, yr awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fydd yn bennaf gyfrifol.

3.93 Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gynnal CDU plentyn a addysgir mewn ysgol na chynhelir (p’un ai’r awdurdod lleol neu’r rhiant sy’n talu am ei le yn yr ysgol honno). Nhw hefyd fydd yn gyfrifol am gynnal CDU plentyn a addysgir gartref gan ei rieni. Mae hyn yn debyg i’r system bresennol ar gyfer cynnal datganiadau AAA. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gynnal CDUau plant bach sy’n mynychu lleoliadau addysg feithrin na chynhelir. Fodd bynnag, lle bydd lleoliadau o’r fath yn derbyn cyllid gan y wladwriaeth i ddarparu llefydd meithrin, bydd yn rhaid iddynt roi sylw i’r canllawiau a nodir yn y Cod ADY (adran 4). Bydd y Cod

yn nodi y dylai darparwyr addysg feithrin na chynhelir gyfeirio unrhyw blentyn yr amheuir bod ganddo ADY i'r awdurdod lleol.

3.94 Caiff corff llywodraethu roi'r gorau i gynnal cynllun plentyn neu berson ifanc os nad oes ganddo ADY bellach, os nad yw wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu os caiff y cynllun ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol (adran 29). Caiff awdurdod lleol roi'r gorau i gynnal CDU plentyn neu berson ifanc pan fydd ei gyfrifoldeb dros y dysgwr hwnnw yn dod i ben (er enghraifft, pe bai plentyn nad yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn symud i awdurdod lleol arall), os nad oes gan y dysgwr ADY bellach, neu os yw'r dysgwr yn blentyn nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol bellach. Cyn gwneud penderfyniad i roi'r gorau i gynnal cynllun am ei fod o'r farn nad oes gan y dysgwr ADY bellach, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc ynghylch y penderfyniad arfaethedig.

3.95 Mae'r Bil yn darparu fframwaith ar gyfer trosglwyddo CDUau rhwng cyrff llywodraethu, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol (adran 33). Mae'n ei gwneud yn glir ym mha amgylchiadau y byddai CDU yn cael ei drosglwyddo a phwy sy'n gyfrifol am y dyletswyddau i gynnal y cynllun. Mae yna fecanweithiau i sicrhau bod anghytundebau rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ynghylch cynnal CDUau myfyrwyr a gofrestrir mewn sefydliad addysg bellach yn cael eu datrys (adran 34). Gallai rheoliadau ddarparu mwy o fanylion am sut i fynd ati i drosglwyddo CDU (adran 35). Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau hyn osod dyletswyddau a phwerau mewn perthynas ag anfon a derbyn CDUau a gwybodaeth berthnasol arall, trosglwyddo cyfrifoldeb a chynnwys manylion darpariaeth ar gyfer y dyfodol mewn CDU. Nod y fframwaith hwn yw cynnig ffordd gydlynol o sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â CDUau sy'n symud i sefydliad arall neu ardal awdurdod lleol arall yn parhau i dderbyn cymorth o ran eu ADY.

3.96 Lle y caiff plentyn neu berson ifanc ei gadw'n gaeth o fewn llety ieuenctid perthnasol a bod ganddo ADY, mae'r Bil (adrannau 38 a 40) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod gofyn i'w awdurdod cartref sicrhau CDU a threfnu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol yn unol â'r CDU hwnnw adeg ei

ryddhau. Fel rheol, at ddibenion yr adrannau hyn, sefydliad troseddwyr ifanc neu gartref plant diogel fyddai'n cael eu hystyried yn llety ieuenctid perthnasol.

3.97 Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY a'i fod yn cael ei gadw'n gaeth, mae'r Bil (adran 40) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i'w awdurdod cartref gynnal y CDU tra bo'r person wedi'i gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol a threfnu darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n briodol iddo tra bydd yno. Efallai mai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU fydd hyn, efallai ddarpariaeth sy'n cyfateb mor agos â phosibl i'r ddarpariaeth honno, neu efallai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod lleol cartref yn ei hystyried yn briodol.

3.98 Effaith y darpariaethau hyn fydd cael gwared ar yr anghysondebau a'r annhegwch sy'n deillio o'r categorïau statudol ac anstatudol presennol o AAA, a'r gwahanol systemau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Trwy gyflwyno cynllun unigol i gwmpasu sbectrwm eang o angen, bydd y system newydd yn fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well gan y bydd yn haws addasu CDUau dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw newid o ran anghenion neu amgylchiadau.  Bydd hefyd yn cael gwared ar yr ansicrwydd ynghylch pryd y dylai datganiad gael ei wneud ac ar gyfer pwy y dylai gael ei wneud a'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn. Bydd hefyd yn sicrhau dilyniant i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach.

**Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

3.99 Mae'r Bil (adran 6) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod sylwadau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn elfen ganolog o'r system newydd ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn chwarae rhan mor lawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir.

3.100 Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o hybu'r arfer o ganolbwyntio'n llawer mwy ar unigolion wrth nodi anghenion a'r camau priodol ar gyfer bodloni'r  anghenion hynny. Byddai'n helpu i sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae'r ymdrech i sefydlu ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael

ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy gomisiynu adnoddau sy’n benodol i Gymru i’w defnyddio mewn lleoliadau addysg o’r blynyddoedd cynnar i addysg bellach, a thrwy ddarparu cyllid o £600,000 dros ddwy flynedd ar gyfer hyfforddiant mewn dulliau sy’n canolbwyntio ar unigolion.

3.101 Mae'r Bil (adran 7) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system a ddisgrifir yn y Bil yn cael ei ddarparu i blant, pobl ifanc ac eraill. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r trefniadau hynny a fydd yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor yma'n cael ei ddosbarthu ac mewn modd hygyrch i bawb sydd ei angen.

3.102 Er mwyn sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Bil, neu i fod yn rhan o weithdrefnau datrys anghytundeb, mae'r Bil (adran 65) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod modd iddynt fanteisio ar wasanaethau eirioli annibynnol. Dyma wasanaethau sy'n cynnig cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc sy'n cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru (‘y Tribiwnlys’), sy'n ystyried a ddylai gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys o dan yr adran honno, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer datrys anghydfod.

3.103 Fel rheol, bydd eu rhieni yn helpu plant sydd heb allu digonol i ddeall eu CDU a dogfennau a gwybodaeth arall a gyflwynir iddynt, yn ogystal â chyda’r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â’u ADY. Er mwyn darparu ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle na fydd hyn yn digwydd, mae’r Bil (adran 80) yn darparu i gynnig ‘cyfaill achos’ i ddysgwyr o’r fath lle bo’n briodol. Gall ‘cyfaill achos’ gynrychioli a chefnogi’r plentyn a gwneud penderfyniadau ar ran y plentyn mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â’u ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd y Tribiwnlys Achos yn penodi ‘cyfaill achos’ ar gyfer plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol fel y gallant arfer eu hawliau o dan y Bil. Diben hyn yw sicrhau bod plant yn cael arfer eu hawliau, hyd yn oed lle nad yw’r rhiant yn gweithredu er lles y plentyn.

3.104 Mae'r Bil (adran 71(e)) hefyd yn ei gwneud hi’n bosibl i reoliadau wneud darpariaeth i unigolyn gefnogi plentyn neu berson ifanc nad yw’n ddiffygiol mewn dealltwriaeth. Y bwriad yw na chaiff yr unigolyn sy’n cefnogi plant neu bobl ifanc

o’r fath wneud penderfyniadau ar eu rhan, ond y gall eu cefnogi ac ymddangos ar eu rhan wrth ddelio ag anghytundebau ac apelau.

**Dyheadau uchel a gwell deilliannau**

3.105 Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) o fewn pob lleoliad (neu grŵp o leoliadau) yn gwbl allweddol ar gyfer datblygu diwylliant o ddyheadau uchel a deilliannau gwell. Rôl yr unigolyn neu'r grŵp hwn fyddai cydgysylltu’n strategol waith cynllunio ac ymyriadau mewn perthynas ag ADY a sicrhau bod safonau ynghylch cynllunio, gosod targedau a chanolbwyntio ar ddeilliannau'n cael eu cymhwyso'n gyson a'u hybu. I’r perwyl hwn, mae'r Bil (adran 56) yn pennu bod gofyn i ysgolion prif ffrwd a gynhelir, (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, ond heb gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir lle bydd gan bob aelod o’r staff ffocws ar ADY) a sefydliadau addysg bellach ddynodi Cydlynydd ADY.

3.106 Bydd swyddogaeth y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn disodli swyddogaeth bresennol anstatudol Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, a gaiff ei dehongli'n wahanol ar hyn o bryd ar draws gwahanol leoliadau ac awdurdodau. Mae hefyd yn estyn y rôl i rai lleoliadau addysg nad oes ganddynt Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig neu rôl gyfatebol ar hyn o bryd efallai.

3.107 Mae’r Bil yn ei gwneud yn bosibl creu’r CDU, fel bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o'i fewn yn canolbwyntio'n sylweddol ar ddeilliannau yn hytrach nag ar ddarparu'n unig.

3.108 Mae'n caniatáu i awdurdodau lleol leoli plant a phobl ifanc mewn ysgolion annibynnol neu golegau ôl-16 arbenigol ac annibynnol lle y mae hynny'n angenrheidiol ac yn briodol o ystyried ADY yr unigolyn (adran 47).

3.109 Fodd bynnag, caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag lleoli dysgwr ag ADY mewn ysgol annibynnol oni bai eu bod yn fodlon bod yr ysgol yn gallu cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r ADY, fel y nodir yn CDU y dysgwr (adran 51). Bydd diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 (adran 54) ac atgyfnerthu'r modd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr, o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002, yn cael gwared ar y

dyblygu diangen a'r dryswch rhwng y ddwy drefn, gan alluogi un system glir ar gyfer cofrestru (adran 50). Caiff adran 160 ei diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion sydd wedi'u pennu fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ddangos fel rhan o'r broses gofrestru y gall gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi'r gofrestr o ysgolion annibynnol. Bydd hyn, ynghyd â'r camau a ddisgrifir uchod ar gyfer cryfhau'r broses gofrestru, yn disgrifio'n glir i awdurdodau lleol a rhieni dysgwyr ag ADY y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall ysgol annibynnol ddarparu ar ei chyfer. Bydd hyn yn lleihau'r risg y gallai dysgwyr ag ADY gael eu lleoli'n amhriodol mewn ysgol annibynnol. Mae Estyn yn monitro ysgolion annibynnol bob blwyddyn, a bydd ganddi hi swyddogaeth o safbwynt sicrhau bod modd i ysgolion annibynnol gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent wedi'u cofrestru i'w chynnig.

3.110 Yn yr un modd, caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag lleoli dysgwr mewn coleg arbenigol ac annibynnol yng Nghymru neu Loegr oni bai y caiff y coleg ei gynnwys ar restr o golegau o'r fath a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a gaiff eu cynnwys yn y Bil hwn (adran 52). Ar hyn o bryd caiff y meini prawf gofynnol eu pennu gan gontract cyllido rhwng colegau arbenigol annibynnol a Gweinidogion Cymru. Bydd y darpariaethau yn y Bil hwn yn sicrhau y bydd unrhyw leoliad annibynnol a gyllidir gan awdurdod lleol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau i fodloni'r meini prawf gofynnol. Bydd y meini prawf hyn yn gwbl dryloyw a chânt eu pennu mewn rheoliadau. Bydd hefyd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol y bydd anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd ag ADY ac a leolir yn y math hwn o leoliad addysg yn cael eu bodloni. Bydd gofyn i awdurdodau lleol dalu unrhyw ffioedd a fydd yn deillio o leoli'r plentyn neu'r person ifanc mewn ysgol neu goleg annibynnol (adran 45). Dylai'r darpariaethau hyn wella'r broses drosglwyddo, gan sicrhau'n arbennig well cydlyniaeth â chymorth gwasanaethau cymdeithasol, a bydd yn hybu darpariaeth pecynnau lleol o gefnogaeth. Mae Estyn hefyd yn monitro colegau arbenigol annibynnol bob blwyddyn.

3.111 I raddau helaeth, mae'r Bil yn atgyfnerthu'r rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol o blaid addysgu'r rhai ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd lle y bo'n bosibl (adran 47). Mae hyn yn cefnogi polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru

ynghylch cynhwysiant a hefyd yn pwysleisio ein barn y dylai'r disgwyliadau ynghylch y rhai ag ADY a'u dyheadau hwy fod mor uchel â phosibl. Fodd bynnag, mae'r Bil yn hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cydnabod, mewn rhai achosion, na fyddai mynd i ysgol brif ffrwd yn briodol efallai neu'n darparu'r hyn sydd orau i'r plentyn. Mae adran 47, felly, yn galluogi awdurdod lleol i roi plentyn y tu allan i sector addysg y brif ffrwd mewn amgylchiadau o'r fath.

3.112 Er mwyn sicrhau bod pawb yn arddel safonau uchel bydd Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod pontio ac wedi i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, yn cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gyflwyno trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu gweithrediad y system newydd o fewn ysgolion a gynhelir a chanddynt. Bydd y Grŵp Gweithredu Strategol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cefnogi'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod yn arwain at weithredu'r ddeddfwriaeth ac wedi hynny.

3.113 Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddysgu gyffredinol yr awdurdod lleol yn parhau i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd, mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu'r trefniadau a wneir ganddynt ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol (adran 59). Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofyniad penodol ar awdurdodau lleol i ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg.

3.114 Gall awdurdodau lleol hefyd gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i gyrff llywodraethu er mwyn eu helpu i fodloni anghenion y plentyn neu'r person ifanc (adran 63).

**System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro**

3.115 Wrth gael gwared ar y rhaniad artiffisial a dadleuol presennol rhwng plant a phobl ifanc sy'n derbyn datganiad AAA, yn ogystal â'r rhaniad rhwng y rheini nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol neu gymhleth i dderbyn cynllun statudol ag iddo ddiogelwch statudol, mae'r Bil yn ceisio cael gwared ar un o brif achosion tensiwn sy'n achosi gwrthdaro. Bydd ei bwyslais ar gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy ac yn y gwaith o ddatblygu CDUau, yn arwain at ddull mwy cydsyniol o gynllunio. Mae darpariaethau'r Bil ynghylch CDUau hefyd yn ysgogi proses lai biwrocrataidd a

llai llafurus o ran amser ar gyfer cynllunio darpariaeth. Bydd y broses hon yn symlach i'w deall ac yn achosi llai o wrthdaro.

**Rhagor o gydweithredu**

3.116 Er mwyn meithrin gwell cydberthnasau ac arferion gwaith, mae'r Bil (adran 61) yn darparu, lle bydd awdurdod lleol yn gofyn am gymorth neu wybodaeth gan gyrff eraill, gan gynnwys awdurdod lleol arall, un o gyrff y GIG neu sefydliad addysg bellach (ymhlith eraill), er mwyn cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas ag ADY, bod yn rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny'n:

a) anghydnaws â dyletswyddau'r corff hwnnw; neu'n
b) cael effaith andwyol ar y modd y caiff ei swyddogaethau eu harfer.

3.117 Mae'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth yn ddyletswydd newydd a bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion cyfredol sydd ynghlwm wrth fethiant cyrff i rannu gwybodaeth mewn modd mor effeithiol ag y dylent. Bydd canllawiau clir yn y Cod yn ategu hyn. Mae'r ddyletswydd i helpu'n debyg i'r hyn a geir o fewn y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch AAA a bydd yn sail i'r gwaith o sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys mewn modd priodol yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu CDUau i'r rhai ag anghenion mwy difrifol a chymhleth. Lle y mae angen mewnbwn gan asiantaethau eraill er mwyn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i orchfygu rhwystrau i ddysgu, bydd y Bil yn sicrhau bod y CDU yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol gan iechyd (adran 19) ynghyd ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.

3.118 Mae'r Bil (adran 23) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod angen i CDUau a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â'r un dysgwr gael eu paratoi, eu hadolygu neu eu diwygio ar yr un pryd. Efallai y caiff cynlluniau eraill eu cynnwys yn y CDU yn ogystal; mae hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau a gaiff eu cynnwys o dan adran 58 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddarpariaeth hon yn creu sail ddeddfwriaethol glir ar gyfer osgoi dyblygu ymdrech a dryswch sy'n digwydd lle y caiff nifer o gynlluniau eu llunio ar gyfer yr un person. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl cysoni ac integreiddio prosesau cynllunio a fyddai'n digwydd ar wahân fel arall.

3.119 O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, ac er mwyn cydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol o’r grŵp hwn o blant yn debygol o fod ag ADY, mae adran 14 hefyd yn darparu bod y CDU yn cael ei gynnwys yng nghynllun addysg personol y plentyn sy’n derbyn gofal. Paratoir y cynllun addysg personol ar ei gyfer fel rhan o’i gynllun gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. At ddibenion y Bil, diffinnir plentyn ag ADY sy’n derbyn gofal fel plentyn o oedran ysgol gorfodol neu’n iau (adran 13). Bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod y broses gynllunio ar gyfer anghenion addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr sy’n agored i niwed yn symlach ac wedi’i chydgysylltu’n well.

3.120 Mae’r Bil (adran 15) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gyfeirio i awdurdod lleol unrhyw blentyn sy’n derbyn gofal ganddo y maent o’r farn bod ganddo ADY. Rhaid i’r awdurdod lleol benderfynu wedyn a oes gan y plentyn ADY (adran 16); os yw’n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo baratoi a chynnal CDU (adran 17). Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau ar gyfer pob plentyn ag ADY sy’n derbyn gofal ganddyn nhw.

3.121 Mewn ymateb i bryderon ynghylch statws y blynyddoedd cynnar o fewn y system ADY, mae’r Bil yn sefydlu rôl newydd ar gyfer Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar mewn awdurdodau lleol. Bydd angen i awdurdodau ddynodi unigolyn i gydlynu ei swyddogaethau o dan y Bil mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir. Rhagwelir y bydd yna elfen ataliol i’r rôl hon hefyd, er enghraifft drwy nodi’r plant y mae yna oedi yn eu datblygiad, a allai droi’n ADY oni bai bod yna ymyriadau cynnar priodol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer. Bydd y rôl yn gysylltiedig iawn â’r rolau eraill a grëir gan y Bil, gan hwyluso gwaith amlasiantaethol a chysylltiadau rhwng gwasanaethau a ddarperir.

3.122 Mewn ymateb i adborth i’r ymgynghoriad a galwadau gan randdeiliaid i gryfhau cyfrifoldebau ymarferwyr iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, mae’r Bil (adran 18) yn cynnwys dyletswydd newydd ar gyrff y GIG mewn perthynas â’r lleiafrif o ddysgwyr y gallai eu ADY fod yn gysylltiedig â’u hiechyd. Pan ofynnir iddynt, rhaid i’r cyrff hyn ystyried p’un a oes yna driniaeth neu wasanaeth sy’n debygol o helpu gydag ADY dysgwr ac, os felly, rhaid iddynt

sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw. Rhaid disgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth wedyn yn CDU y dysgwr. Mae'r ddyletswydd yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pa wasanaeth fydd yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU nag sy'n wir am ddatganiadau AAA ar hyn o bryd.

3.123 Os bydd un o gyrff y GIG yn nodi bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gorff y GIG gymryd pob cam rhesymol i ddarparu'r gwasanaeth neu'r driniaeth honno. Rhaid iddo hefyd roi gwybod i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal y CDU.

3.124 Mae'r Bil (adran 57) yn gosod dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg. Bydd y rôl hon yn sicrhau bod modelau gwasanaeth priodol o fewn pob bwrdd iechyd; bydd yn darparu arweinyddiaeth o fewn y bwrdd iechyd er mwyn helpu i gydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol; bydd yn cysylltu â phartneriaid ac yn gwasanaethu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; a bydd yn ysgogi a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol er lles plant a phobl ifanc ag ADY. Ni fydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn rhan o'r gwaith o asesu ac adolygu CDUau penodol, ac eithrio fel rhan o'i arfer clinigol arferol. Eto i gyd, byddai'n gyfrifol am sicrhau bod y bwrdd iechyd yn rhoi mewnbwn priodol. Gweithwyr iechyd proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc fydd yn cyflawni'r swyddogaethau gweithredol bob dydd, gan weithredu fel 'cydlynwyr iechyd' ar lefel leol, a chan sicrhau bod rôl y GIG yn cael ei phrif-ffrydio o fewn y system ADY. Bydd gan Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig rôl arwain strategol allweddol yn y gwaith o wella effeithiolrwydd y cydweithio rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, a chynyddu'r cydweithio hwnnw, wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Bydd rolau'r swyddog arweiniol hwn, y Cydlynydd ADY a Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn helpu i hwyluso cydweithredu effeithiol rhwng addysg ac iechyd er mwyn gwella gwasanaethau i ddysgwyr.

3.125 Lle y mae un o gyrff y GIG, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol, yn barnu bod

ganddo/ganddi ADY (neu fod hynny'n debygol), bydd y Bil (adran 60) yn ei gwneud yn ofynnol iddo dynnu sylw'r awdurdod lleol priodol at hyn (wedi trafod y mater gyda rhiant y plentyn ymlaen llaw) os cred mai dyna sydd orau er lles y plentyn. Mae’r Bil hefyd yn darparu, os yw un o gyrff y GIG o’r farn bod gan blentyn sy’n derbyn gofal ADY, y caiff dynnu sylw’r awdurdod lleol sydd â gofal am y plentyn hwnnw at hyn (adran 60).

**Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach**

3.126 Mae'r Bil (adran 64) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, ac ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill ar y llaw arall. Byddai hyn yn cynnwys trefnu bod person annibynnol ar gael i helpu i ddatrys anghytundeb. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni'n ymwybodol o'r trefniadau hyn. Caiff y Cod ei ddefnyddio i bwysleisio mai blaenoriaeth gyntaf awdurdodau lleol fydd ceisio osgoi anghytundebau drwy ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a bod yn rhan lawn o'r penderfyniadau hyn. Dylid hefyd rhoi sicrwydd priodol iddynt a chynnig cyfleoedd iddynt godi unrhyw bryderon a sicrhau bod eu cwestiynau'n cael eu hateb. Eto i gyd, os bydd anghytundebau'n digwydd, dylai'r trefniadau ganolbwyntio ar sicrhau bod y rhain yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl ac ar lefel mor leol â phosibl.

3.127 Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer osgoi anghytundebau a'u datrys yn gwbl allweddol er mwyn gwella ymddiriedaeth plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y system, a lleihau'r graddau y maent yn teimlo bod angen iddynt arfer eu hawliau apelio. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ofalu bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn ymwybodol nad yw’r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

**Hawliau clir a chyson i apelio**

3.128 Mae'r Bil (adran 85) yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Enw newydd y tribiwnlys fydd Tribiwnlys Addysg Cymru (‘y Tribiwnlys’). Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod

cyfansoddiad ac aelodaeth y Tribiwnlys, ynghyd â'r trefniadau o ran tâl a threuliau, yn parhau (adrannau 85 i 87). Mae'r enw newydd yn adlewyrchu ei rôl o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch apelau o ran ADY a hefyd rôl bresennol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Bydd y Tribiwnlys yn parhau i fod yn gyfrifol am y swyddogaeth hon. Yn ogystal, mae’r Bil (adran 80) yn gwneud darpariaeth i blentyn gael ‘cyfaill achos’ a benodir gan y Tribiwnlys os nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol. Er y cydnabyddir mai rhieni fydd yn cyflwyno ceisiadau ar ran eu plant, lle na fydd hyn yn digwydd, bydd cyfaill achos yn dal i allu cynnig cyfle i’r plentyn arfer ei hawliau i apelio a’i hawliau eraill o dan y Bil.

3.129 Ar hyn o bryd, dim ond plant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir sydd â'r hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o safbwynt eu AAA. Mae’r Bil yn cyflwyno hawliau apelio mwy teg drwy estyn yr hawl hon i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd mewn AB. Bydd ehangu’r hawliau apelio yn helpu i ategu ystod oedran newydd y system, sef 0 i 25, a chyflawni’r amcan craidd o sicrhau system decach.

3.130 Mae'r Bil (adran 66) yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, i apelio i'r Tribiwnlys lle bydd awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach yn gwneud penderfyniad mewn perthynas ag ADY unigolyn, neu’n cynnal CDU yr unigolyn hwnnw. Yn achos awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys cais i ailystyried penderfyniadau corff llywodraethu ysgol neu gynlluniau a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol.

3.131 Mae gorchmynion y Tribiwnlys yn rhwymo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach. At hyn, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach adrodd yn ôl i’r Tribiwnlys ar gamau a gymerir i gydymffurfio â gorchymyn (adran 73). Lle bo’n briodol, bydd yna rôl i’r GIG yn y gwaith o baratoi’r adroddiad i’r Tribiwnlys. Bydd dyletswydd adran 61 i ddarparu gwybodaeth a chymorth yn hwyluso hyn.

3.132 Mae adran 72 yn ei gwneud yn glir y gellir ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddarparu tystiolaeth i’r Tribiwnlys ac y byddant yn ddarostyngedig i argymhellion a wneir gan y Tribiwnlys. Bydd yn ofynnol i gyrff y GIG adrodd yn ôl i’r Tribiwnlys

ar y graddau y cydymffurfir â’r argymhellion, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i’r argymhellion ac esboniad o unrhyw benderfyniad i beidio â gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae’r darpariaethau hyn yn sicrhau bod gan y GIG rôl i’w chwarae ar bob cam o’r broses, gan gynnwys yn ystod ac yn dilyn apêl i’r Tribiwnlys.

3.133 Er na ddylid ond troi at y Tribiwnlys os nad oes dewis arall, bydd rhoi'r hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol y mae ei benderfyniadau'n rhai sy'n rhwymo (adran 73) yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY yn gadarn a bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc hyder ynddi. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod y dyletswyddau o ran dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n briodol. Bydd hyn yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau rhagor o degwch.

3.134 Mae'r Bil (adrannau 70 a 71) yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ynghylch trafodion y Tribiwnlys wrth ymdrin ag apêl ADY a'r modd yr eir i'r afael ag apêl o'r fath. Gall gofynion gael eu gosod mewn perthynas â datgelu dogfennau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Tribiwnlys. Os bydd y Tribiwnlys yn cyflwyno gorchymyn mae'n rhaid i'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio ag ef cyn diwedd y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, o'r dyddiad y cafodd ei lunio.

3.135 Mae'r Bil (adran 76) hefyd yn caniatáu i barti i unrhyw drafodion ynghylch ADY gerbron y Tribiwnlys apelio i’r Uwch Dribiwnlys ynghylch unrhyw bwynt cyfreithiol sy’n deillio o benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn y trafodion hynny.

**Cod gorfodol**

3.136 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY (adran 4). Bydd y Cod yn berthnasol i'r rhai sydd â swyddogaethau o dan y Bil hwn a bydd modd iddo orfodi'r canlynol:

- gofynion gorfodol (lle cânt eu nodi yn y Bil) y mae'n rhaid i gyrff perthnasol weithredu'n unol â hwy;
- canllawiau y mae'n rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi sylw iddynt.

3.137 Bydd creu Cod o'r math hwn yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o fewn y system hon. Cod ar gyfer ymarferwyr fydd y Cod yn y bôn er mwyn eu helpu i ddeall y system newydd ar gyfer ADY a'i gweithredu.

3.138 Mae'r Bil, yn benodol, yn sicrhau bod y Cod yn cynnwys gofynion manwl ynghylch sut y dylai CDUau gael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynllun fod ar ffurf benodol, y mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod ei darparu, a chynnwys gwybodaeth benodol. Bydd hefyd yn ofynnol i bobl benodol gyflawni rhai rolau a/neu gymryd rhai camau o safbwynt paratoi, cynnal ac adolygu CDUau o fewn terfynau amser penodol. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau bod y Cod yn disgrifio swyddogaethau Cydlynwyr ADY ac yn gosod gofynion o safbwynt darparu trefniadau eirioli annibynnol.

3.139 Mae'r Bil (adran 5) yn ei gwneud hi'n ofynnol sicrhau bod y Cod yn destun ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru, pwyllgor perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol ac unigolion priodol eraill. Yn ogystal, rydym yn cynnig y byddai'n rhaid i'r Cod (ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol) gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Ni ellir cyhoeddi'r Cod oni chaiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

3.140 Fel rhan o'r broses gynllunio mewn perthynas â gweithredu, monitro a gwerthuso, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i sut y gellir sicrhau cydymffurfiaeth briodol â'r Cod, gan gynnwys drwy Estyn neu ei rolau ei hun.

**System ddwyieithog**

3.141 Nod y Llywodraeth yw cael system ADY ddwyieithog. Lluniwyd darpariaethau'r Bil er mwyn symud ymlaen i gyflawni'r nod.

3.142 Mae dyletswydd adran 6 i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc yn sylfaenol i weithredu'r system ADY o ran y Gymraeg. Rhaid rhoi ystyriaeth i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person

ifanc, a bydd dewis iaith yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae’r ddyletswydd hon yn berthnasol i’r ffordd y gweithredir y system newydd drwyddi draw.

3.143 Mae’r Bil yn cynnwys dyletswyddau penodol mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a chyrff y GIG i ystyried a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy’r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc. Os oes, rhaid cofnodi hynny yn y CDU, a rhaid i wasanaethau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth drwy’r Gymraeg. (Adrannau 10, 12, 17, 18 ac 19).

3.144 Mae adran 84 yn darparu ar gyfer mecanwaith i gael gwared â’r prawf ‘pob cam rhesymol’ drwy reoliadau. Bydd cael gwared â ‘phob cam rhesymol’ yn golygu bod y dyletswyddau i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu gwneud yn absoliwt. Bydd y rheoliadau yn gweithio mewn ffordd debyg i Safonau’r Gymraeg fel y gellir adlewyrchu heriau daearyddol penodol. Bydd y defnydd o reoliadau o dan adran 84 yn seiliedig i raddau helaeth ar ddyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth drwy’r Gymraeg bob 5 mlynedd a chyhoeddi adroddiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn (adran 83). Bydd yr elfennau hyn o’r Bil yn sicrhau bod ei ofynion cyfreithiol yn gydnaws â gallu gwasanaethau i gynnig darpariaeth ddwyieithog, a hefyd eu bod yn hyrwyddo datblygiadau yn hyn o beth.

3.145 Cefnogir y gofynion hyn gan ddyletswyddau strategol eraill yn y Bil o ran y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu’n rheolaidd ddigonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy’r Gymraeg yn yr ardal a chymryd pob cam rhesymol i gywiro unrhyw ddiffygion a nodir (adran 59). Nod y dyletswyddau hyn, o’u cymryd ochr yn ochr â mentrau ehangach, yw symud i gyfeiriad system ADY wirioneddol ddwyieithog.

# 4. Ymgynghori

## Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol

4.1 Cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011 i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau (sydd bellach yn rhan o'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus) Bapur Gwyn ar 22 Mai 2014 ynghylch y cynigion ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyhoeddwyd hwn yn dilyn dogfen ymgynghori flaenorol a gyhoeddwyd cyn y broses ddeddfu ym Mehefin 2012, sef *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol,* a gyflwynodd weledigaeth eang o system ddiwygiedig[9].

4.2 Roedd Papur Gwyn 2014 yn gwahodd sylwadau ar bob un o'r cynigion ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Fel rhan o gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd wedi'i deilwra'n benodol i bobl ifanc ar yr un pryd. Gofynnwyd deg cwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch y materion yr oedd Llywodraeth Cymru'n awyddus i glywed barn pobl ifanc yn eu cylch.

4.3 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o naw wythnos rhwng 22 Mai a 25 Gorffennaf 2014. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 215 o ymatebion. Cyflwynodd pedwar o bobl ifanc eu hymatebion drwy'r holiadur yn eu fersiwn hwy o'r ddogfen ymgynghori.

4.4 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdai hefyd ar gyfer plant a phobl ifanc a'u rhieni. Roedd y plant a'r bobl ifanc o 8 i 20 oed a throsodd ac o amrywiol leoliadau addysg cynradd, uwchradd ac AB ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig. Defnyddiwyd dulliau cynhwysol a chyfranogol er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda ac annog plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i ystyried y cwestiynau hyn. Cydweithiodd y contractwr â'r canlynol:

---

[9] Mae dogfen ymgynghori 2012 a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140406073301/http://wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?skip=1&lang=cy

- pedwar ar ddeg grŵp o blant a phobl ifanc ag amrywiaeth eang o ADY – gwnaeth cyfanswm o 174 o blant a phobl ifanc gymryd rhan;
- chwe grŵp o rieni/gofalwyr - gwnaeth cyfanswm o 55 o rieni/gofalwyr gymryd rhan.

4.5 Yn gyffredinol, croesawyd y cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Pwysleisiwyd pwysigrwydd yr egwyddorion gwaelodol, er enghraifft yr angen i wrando ar blant a phobl ifanc a dilyn egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu system ddiwygiedig. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn i lywio'r broses o ddatblygu polisi ac i lunio Bil drafft.

4.6 Mewn Datganiad Ysgrifenedig[10] a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad[11], esboniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau sut roedd camau'n cael eu cymryd ynghylch rhai o'r pwyntiau pwysicaf y tynnwyd sylw atynt yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys:

- pwysleisio y byddai'r CDUau yn rhoi'r un diogelwch statudol i ddysgwyr 0-25 oed sydd ag ADY â'r datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig presennol;
- egluro mai'r term 'pob ymdrech' oedd y term cyfreithiol presennol sy'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag ysgolion, ac roeddem yn cynnig ei estyn i gynnwys sefydliadau addysg bellach;
- rhoi sicrwydd y byddai anghenion pawb sydd ag ADY, gan gynnwys y rhai â'r anghenion mwyaf, yn cael eu bodloni;
- byddai rhaglen hyrwyddo ynghyd â hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar draws yr asiantaethau perthnasol sy'n cydweithio â phlant a phobl ifanc ag ADY yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r diwygiadau ynghyd â Chod newydd;
- amlinellu'r bwriad i gyhoeddi Cod gyda gofynion gorfodol a chanllawiau statudol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

---

[10] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2014/additionallearningneeds/?skip=1&lang=cy
[11] http://gov.wales/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=en

**Ymgynghori ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft**

4.7 Ar 18 Mehefin 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad.

4.8 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Gorffennaf a 18 Rhagfyr 2015. I gefnogi'r ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd God ADY drafft ym mis Medi 2015 ynghyd â braslun o'r amserlenni posibl ar gyfer gweithredu'r system newydd arfaethedig. Daeth 263 o ymatebion ysgrifenedig i law.

4.9 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd ag esboniad hawdd ei ddeall o'r Bil drafft. Roedd y dogfennau hyn yn help wrth gyflwyno gweithdai penodol i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Cynhaliwyd 23 o weithdai i gyd.

4.10 Yn ystod y gweithdai, holwyd plant a phobl ifanc am eu barn ar wahân i'w rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu cofnodi'n gywir. Roedd yna 19 o weithdai i blant a phobl ifanc, mewn 16 o leoliadau, a chymerodd 222 ran ynddynt. Cawsant eu cynnal mewn ysgolion arbennig, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, lleoliadau addysg bellach, ac uned cyfeirio disgyblion, yn ogystal â chyda grŵp sy'n derbyn gofal a rhai sy'n cael eu haddysgu gartref. Roedd lefel y gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yn uchel iawn; y brif feirniadaeth a godwyd gan blant a phobl ifanc oedd y diffyg ffocws ar rôl y gwasanaeth iechyd o fewn y diwygiadau arfaethedig.

4.11 Roedd pedwar gweithdy i oedolion yr oedd y ddeddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol arnynt; cymerodd 45 o oedolion ran. Daeth gofalwyr maeth i'r sesiynau, grŵp cymorth o rieni a phlant sy'n destun datganiad, grŵp blynyddoedd cynnar a grŵp o rieni sy'n addysgu eu plant gartref. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i'r newidiadau arfaethedig; roedd y brif feirniadaeth yn ymwneud â'r adnoddau sydd ar gael i weithredu'r system arfaethedig.

4.12 Strwythurwyd pob gweithdy i roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r rheini a oedd yn cymryd rhan er mwyn rhoi'r gallu iddynt wneud penderfyniadau deallus wrth ymateb i ddeg cwestiwn penodol yr ymgynghoriad a oedd yn adlewyrchu deg prif nod y cynigion newydd. Er bod yna lefel uchel o gefnogaeth yn gyffredinol, roedd yna wahaniaeth rhwng ymatebion y plant/y bobl ifanc a'r oedolion.

4.13 Yn ychwanegol at y gyfres o weithdai gyda phlant, pobl ifanc a'u gofalwyr, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad cenedlaethol yn y De a'r Gogledd, ac fe aeth 158 o bobl iddynt. Cynhaliwyd rhaglen o sesiynau anffurfiol penodol ar gyfer rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.

4.14 Roedd yr adborth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dynodi cefnogaeth gyffredinol i brif amcanion y diwygiadau deddfwriaethol a phrif egwyddorion y Bil drafft; adlewyrchwyd y gefnogaeth hon yn yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Er bod rhai pryderon wedi'u mynegi ynghylch y cynnig deddfwriaethol a amlinellwyd yn y Bil drafft, roedd mwyafrif helaeth y pryderon yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith statudol newydd yn hytrach nag â'r fframwaith ei hun. Roedd yna feirniadu ar ddarpariaethau penodol o fewn y Bil drafft, yn enwedig mewn perthynas â'r canfyddiad o ddiffyg darpariaethau ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar yn benodol, lefel y dyletswyddau a roddir ar gyrff y GIG o ran eu rôl mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol, a'r ffaith nad oes darpariaethau o ran cefnogi'r rheini sy'n dysgu siarad Cymraeg.

**Newidiadau a wnaed i'r Bil**

4.15 Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag adborth a gasglwyd o'r gwaith ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a chasgliadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn sgil craffu ar y Bil drafft, i lywio'r gwaith o fireinio'r Bil a datblygu'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY.

4.16 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r Bil. Mae'n nodi pa rai o'r newidiadau hyn a wnaed o ganlyniad uniongyrchol i sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, a pha rai a wnaed yn sgil ystyriaeth bellach. Mae rhifau'r

adrannau isod yn cyfeirio at yr adrannau yn y Bil fel y'u cyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

4.17 Nid yw mân-newidiadau neu newidiadau technegol, nad ydynt yn newid yn sylweddol y fframwaith craidd y darperir ar ei gyfer yn y Bil, wedi'u cynnwys yn y tabl.

Tabl: Newidiadau a wnaed i'r Bil

| **Newidiadau a wnaed** | **Rheswm** |
|---|---|
| **Plant sy'n derbyn gofal (adrannau 13, 14, 15, 16, 17, 22, 57 ac adrannau eraill yn Rhan 2 y Bil)**<br><br>Roedd adran 56 o'r Bil drafft yn cynnig creu pŵer sylweddol i wneud rheoliadau a fyddai wedi ei gwneud yn bosibl datblygu system wahanol o gymorth deddfwriaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal a darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer, drwy is-ddeddfwriaeth.<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer cymhwyso'r system ADY mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Yn gyffredinol, mae'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldeb am faterion ADY ar yr awdurdod lleol sydd â gofal am y plentyn, yn hytrach na'r ysgol a gynhelir y mae'r plentyn yn ei mynychu neu (os yw'n wahanol) yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn.<br><br>Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gyfeirio i'r awdurdod lleol sydd â gofal unrhyw blant sy'n derbyn gofal yr amheuir bod ganddynt ADY. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu wedyn a oes gan y plentyn ADY; ac os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo baratoi a chynnal CDU.<br><br>Os oes gan y plentyn CDU eisoes a gynhelir gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol, yr awdurdod lleol sydd â gofal fydd yn gyfrifol am ei gynnal.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol ymgorffori'r CDU i gynllun addysg personol y plentyn sy'n derbyn gofal. Caiff y cynllun addysg personol ei baratoi ar ei gyfer fel rhan o'i gynllun gofal a chymorth (a wneir o dan | Roedd hwn yn amcan polisi na chyflawnwyd yn y Bil drafft.<br><br>Ystyrid ei bod yn fwy priodol disodli'r pwerau i wneud rheoliadau a amlinellwyd yn y Bil drafft â fframwaith cynhwysfawr o ddarpariaeth ddeddfwriaethol sylfaenol sy'n berthnasol yn achos plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Datblygwyd hyn yng ngoleuni gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. |

| | |
|---|---|
| Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).<br><br>Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn berthnasol i'r rheini sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau (adran 13) ac nad ydynt yn cael eu cadw'n gaeth. Gellir eithrio'r categorïau eraill o blant sy'n derbyn gofal drwy reoliadau. Dirymir y dyletswyddau sydd ar yr awdurdod lleol sydd â gofal os lleolir y plentyn yn Lloegr.<br><br>Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i swyddog adolygu annibynnol plentyn sy'n derbyn gofal ynghylch penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ADY y plentyn, gan gynnwys bwriad awdurdod lleol i roi'r gorau i gynnal cynllun; a rhoi copi o CDU y plentyn iddo (gan gynnwys CDU diwygiedig).<br><br>Mae newidiadau eraill yn deillio o'r darpariaethau hyn drwy gydol y Bil (ee apelau). | |
| **Dyletswydd ar gyrff y GIG i sicrhau darpariaeth (adran 18)**<br><br>Roedd adran 14 y Bil drafft yn cynnig, os yw bwrdd iechyd neu Ymddiriedolaeth GIG yn cytuno, bod modd i CDU nodi y bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun yn cael ei sicrhau gan y bwrdd iechyd hwnnw neu'r Ymddiriedolaeth honno. Byddai'r bwrdd iechyd neu'r Ymddiriedolaeth wedyn yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU, a byddai unrhyw rai o ddyletswyddau cyfatebol cyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol i sicrhau'r elfen honno o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu diddymu.<br><br>Bellach mae'r Bil yn canolbwyntio unwaith eto ar y ddyletswydd ar gyrff y GIG, felly mae'r cysylltiad rhwng y ddyletswydd hon ac egwyddor angen clinigol yn fwy amlwg. Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir y gall awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gyfeirio mater i un o gyrff y GIG a gofyn i'r corff | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Roedd rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ystyried bod adran 14 o'r Bil drafft yn rhy wan. Roedd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol hefyd o'r farn hon yn sgil ei waith craffu ar y Bil drafft. |

| | |
|---|---|
| ystyried a oes yna driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu gydag ADY dysgwr (yn y lleiafrif o achosion lle mae ADY dysgwr yn gysylltiedig â'i iechyd). Os daw'n amlwg iddo bod yna driniaeth neu wasanaeth a fyddai'n helpu gydag ADY y dysgwr, rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth. Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn CDU y dysgwr.<br><br>Mae'r newidiadau hyn yn cryfhau'r dyletswyddau a roddir ar gyrff y GIG. | |
| **Newid Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig i Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (adran 55)**<br><br>Roedd adran 47 y Bil drafft yn cynnig gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY. Yr enw ar y swyddog fyddai Swyddog Meddygol Dynodedig neu Swyddog Clinigol Dynodedig.<br><br>Mae'r Bil yn newid teitl y swyddog hwn i Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg. Nid yw'n effeithio ar natur y rôl, ond mae'n egluro pwrpas y rôl; mae'n egluro ei ffocws addysgol; a gallai osgoi cymharu di-fudd rhwng gweithwyr proffesiynol â gwahanol gymwysterau. | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Roedd yna alw am eglurder ynghylch y rôl, yn enwedig o ran addysg a'r teitl deuol. |
| **Rhoi'r gorau i gynnal CDU (adran 29)**<br><br>Roedd adran 20 o'r Bil drafft yn galluogi cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i roi'r gorau i gynnal CDU i ddysgwr os nad oedd angen ei gynnal bellach.<br><br>Mae'r Bil (adran 29) yn adeiladu ar y ddarpariaeth honno er mwyn ei gwneud yn glir ym mha amgylchiadau amrywiol y bydd y dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i gynnal CDU i ddysgwr yn dod i ben. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth benodol | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio.**<br>Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch pryd y daw dyletswyddau i gynnal CDU i ben a phryd y caiff corff roi'r gorau i gynnal cynllun o'r fath. |

| | |
|---|---|
| ar gyfer rhoi'r gorau i gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. | |
| **Dyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir (adran 45)**<br><br>Roedd adran 29 y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau i sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu haddysgu yn ysgolion y brif ffrwd oni bai am rai eithriadau. Yr eithriadau oedd lle byddai eu haddysgu yn y ffordd hon yn anghydnaws â dymuniadau rhiant y plentyn, neu ddarpariaeth addysg effeithlon i blant eraill.<br><br>Mae'r Bil nawr yn cynnwys, fel eithriad ychwanegol i'r ddyletswydd hon, achosion lle na fyddai addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol o ran darparu'r hyn sydd orau i'r plentyn, a lle byddai'n anghydnaws â sicrhau addysg effeithlon i blant eraill. Mae hyn yn adlewyrchu natur y diwygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'n sicrhau bod buddiannau'r dysgwr yn cael y lle canolog ym mhob penderfyniad. Fodd bynnag, byddem yn dal i ffafrio addysg brif ffrwd gan fod hyn yn sylfaenol i system addysg gynhwysol.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth mewn ysgol brif ffrwd na chynhelir os yw'r rhiant yn mynegi dymuniad i'w blentyn gael ei addysgu mewn lleoliad nad yw'n ysgol brif ffrwd. | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Roedd rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn teimlo nad oedd yr eithriadau presennol yn rhoi digon o sylw i anghenion y plentyn unigol. |
| **Plant ag ADY yn ysgolion y brif ffrwd a gynhelir (adran 46)**<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth newydd i sicrhau bod plentyn ag ADY sy'n mynychu ysgol brif ffrwd a gynhelir yn cymryd rhan, fel rheol, mewn gweithgareddau ysgol gyda phlant sydd heb ADY. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio,** er mwyn cefnogi'r duedd o blaid ysgolion prif ffrwd a gynhelir a hyrwyddo system addysg gynhwysol. |
| **Hawliau apelio i blant a phobl ifanc sy'n byw yn Lloegr (adrannau 63 a 77)**<br><br>Mae'r Bil yn darparu hawl i blant a phobl ifanc sy'n | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** i sicrhau hawliau apelio teg i blant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| byw yn Lloegr ond sy'n mynychu ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru i herio penderfyniadau sy'n ymwneud ag ADY. Mae'r darpariaethau i awdurdodau lleol ailystyried penderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu ysgolion yn rhai cyfyngedig, gyda'r nod o'i gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal yr ysgol, er enghraifft, ystyried y materion hyn. Gellir apelio wedyn ynghylch y penderfyniadau hynny. Gall myfyrwyr sy'n byw yn Lloegr ac sy'n mynychu sefydliad addysg bellach yng Nghymru hefyd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau'r sefydliad addysg bellach (roedd a.41(1) o'r Bil drafft yn atal hyn).<br><br>Yn achos dysgwyr ag anghenion mwy difrifol a chymhleth, byddai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol yn gofyn i'r awdurdod lleol yn Lloegr gynnal asesiad o anghenion addysg, iechyd a gofal o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Os sefydlir cynllun addysg, iechyd a gofal gan yr awdurdod lleol yn Lloegr, nid oes dyletswydd ar y corff llywodraethu i baratoi a chynnal CDU. | sy'n byw yn Lloegr ond yn mynychu ysgol a gynhelir/sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |
| **Sefydliadau na chynhelir a hawliau apelio (adrannau 12, 17 a 63)**<br><br>Mae'r Bil yn galluogi sefydliadau na chynhelir i gael eu henwi gan awdurdod lleol fel math o ddarpariaeth y gallai fod angen ei sicrhau er mwyn bodloni anghenion y dysgwr am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Os caiff darpariaeth o'r fath ei chynnwys yn y CDU, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y ddarpariaeth honno yn y CDU a'i sicrhau. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hawl i apelio mewn perthynas â'r ddarpariaeth newydd hon. | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Roedd yna bryderon nad oedd y Bil drafft yn cynnwys hawl i apelio mewn perthynas ag ysgolion na chynhelir. |
| **Darparwyr addysg feithrin na chynhelir (adran 4)**<br><br>Roedd y Bil drafft yn gosod dyletswyddau ar ysgolion meithrin a gynhelir mewn perthynas â chynllunio a chreu darpariaeth ddysgu ychwanegol ond nid oedd yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar y sector | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Roedd yna bryderon nad oedd y Bil drafft yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer |

| | |
|---|---|
| blynyddoedd cynnar na chynhelir.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg feithrin yn y sector gwirfoddol neu breifat, sy'n derbyn cyllid gan y wladwriaeth ar gyfer llefydd meithrin, roi ystyriaeth i'r Cod ADY. Bydd y Cod yn nodi canllawiau ar sut bydd disgwyl i ddarparwyr o'r fath gefnogi plant bach ag ADY. | darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar. |
| **Rhieni a phobl ifanc sydd heb alluedd digonol (adran 74)**<br><br>Mae'r Bil yn diwygio adran 53 (fel yr oedd) o'r Bil drafft i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â rhieni a phobl ifanc sydd heb allu digonol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio.** |
| **Galluedd plant a chyfeillion achos (adrannau 75 a 76)**<br><br>Mae'r Bil yn darparu ar gyfer achosion lle nad oes gan blentyn y gallu i ddeall yn ddigonol yr wybodaeth a'r dogfennau y mae awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG o dan ddyletswydd i'w darparu ar eu cyfer neu lle nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i herio penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'i ADY. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol, a bydd modd apelio i'r tribiwnlys ar y mater os oes anghytundeb ynghylch gallu'r plentyn i ddeall.<br><br>Pan fydd achosion o'r fath yn codi, mae'r Bil yn eithrio awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG o'u dyletswyddau i roi gwybodaeth a dogfennau i blant o'r fath.<br><br>Bydd y Tribiwnlys yn gallu datgan p'un a oes gan blentyn y gallu i ddeall dogfennau a gwybodaeth a gyflwynir iddo a'r hyn y gall ei wneud i arfer ei | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** er mwyn galluogi'r grŵp hwn o ddysgwyr i arfer eu hawliau o dan y Bil ac er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau'r plentyn a hawliau'r rhieni, sydd hefyd â hawl i apelio i'r Tribiwnlys.<br><br>Mae'r ddarpariaeth wreiddiol ar gyfer cyfeillion achos wedi'i hehangu i gynnwys mwy o fanylion ar wyneb y Bil. |

| | |
|---|---|
| hawliau o dan y Bil. Bydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud hyn naill ai ar ôl derbyn cais neu o'i wirfodd.<br><br>Lle ystyrir nad oes gan blentyn ddealltwriaeth ddigonol, mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer penodi a chael gwared ar gyfeillion achos drwy benderfyniad y Tribiwnlys. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth i'r plant hyn gael dwyn apêl ymlaen drwy'r cyfaill achos. | |
| **Cyfrifoldebau trawsffiniol (adran 82 a darpariaethau amrywiol eraill, ee 9 a 10)**<br><br>Roedd y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach baratoi a chynnal CDUau i blant a phobl ifanc ag ADY oni bai bod anghenion y dysgwr y tu hwnt i allu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach i ddelio â nhw. Os felly, gallent gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol cyfrifol, hy yr awdurdod lle maent. Fodd bynnag, yn achos plentyn neu berson ifanc sy'n byw yn Lloegr ond yn cael ei addysgu yng Nghymru, ni fyddai modd arfer y pŵer cyfeirio hwn gan nad oedd y Bil drafft yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar awdurdodau lleol yn Lloegr i baratoi a chynnal CDUau. Fodd bynnag gallai awdurdodau lleol yn Lloegr benderfynu creu cynllun addysg, iechyd a gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn Lloegr.<br><br>Mae'r Bil yn darparu, os gellir mynd i'r afael ag ADY y dysgwr sy'n byw yn Lloegr ar lefel yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, ei bod yn ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach perthnasol yng Nghymru baratoi a chynnal CDU ar gyfer y dysgwr hwnnw o dan adran 10. Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru o'r farn bod ADY dysgwr sy'n byw yn Lloegr yn rhy ddifrifol neu gymhleth i'r corff hwnnw ddelio â nhw, a bod yr awdurdod lleol yng Nghymru yn cytuno, gall yr awdurdod lleol Cymreig gyfeirio hyn i awdurdod lleol cartref y dysgwr (yn Lloegr) a gofyn iddyn nhw | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** er mwyn sicrhau, lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gosod plentyn yn Lloegr at ddibenion addysg, mai'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal CDU y dysgwr, ac fel arall. |

| | |
|---|---|
| ystyried a oes angen cynllun addysg, iechyd a gofal ar y dysgwr. Os bydd yr awdurdod lleol cartref yn penderfynu creu cynllun o'r fath ar ei gyfer, caiff yr awdurdod lleol Cymreig ei ryddhau o'i ddyletswydd i baratoi a chynnal CDU ar ei gyfer. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae dyletswydd ar yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach i wneud eu gorau glas i gynllunio ar gyfer anghenion y dysgwr ac i'w bodloni. Bydd hyn yn sicrhau bod buddiannau'r plant hyn yn parhau i gael eu gwarchod.<br><br>Mae adran 82 o'r Bil yn diwygio ystyr "yn yr ardal" awdurdod lleol yn Neddf Addysg 1996 a Deddf plant a Theuluoedd 2014. Byddai cyfeiriadau at berson sy'n "yn yr ardal" awdurdod lleol yn Lloegr yn y Deddfau Addysg, ddim yn cynnwys person a fyddai yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn byw yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, oni bai am ddarpariaeth sicrhawyd o dan y Bil hwn. Yn yr un modd, byddai cyfeiriad i berson yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn y Deddfau Addysg, ddim yn cynnwys person a fyddai yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn byw yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, oni bai am ddarpariaeth a sicrhawyd o dan Ran 3 y Ddeddf plant a theuluoedd 2014. Mae hyn i sicrhau, os yw person yn cael ei leoli mewn sefydliad preswyl ar draws y ffin Cymru / Lloegr yn benodol i gwrdd a'u hanghenion dysgu ychwanegol, neu yn achos person o Loegr, eu hanghenion addysgol arbennig, mae'r awdurdod lleol sy'n lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am y person hwnnw o dan y gyfundrefn perthnasol. | |
| **Dysgwyr a gofrestrir ddwywaith (adran 28)**<br><br>Lle mae plentyn neu berson ifanc ag ADY wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, byddai'r Bil drafft wedi ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad baratoi a chynnal CDU ar wahân ar eu cyfer.<br><br>Mae'r Bil wedi'i newid i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach, y mae gan eu dysgwyr ADY ac sydd hefyd wedi'u cofrestru yn rhywle arall, gyfeirio'r achosion hynny i'r awdurdod | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer yr unigolion hyn wedi'i chydgysylltu'n iawn ac yn gyson ar draws y gwahanol leoliadau. |

| | |
|---|---|
| lleol fel y gall yr awdurdod baratoi a chynnal y CDU ar gyfer yr unigolyn, gan sicrhau cefnogaeth gydgysylltiedig a holistaidd. | |
| **Trosglwyddo CDUau (adrannau 33 a 34)**<br><br>Roedd adran 23 o'r Bil drafft yn darparu pwerau i lunio rheoliadau mewn perthynas â throsglwyddo CDUau rhwng cyrff llywodraethu, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol.<br><br>Mae'r Bil wedi'i ddiwygio i ddarparu fframwaith ar gyfer trosglwyddo CDUau rhwng cyrff llywodraethu, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol (adran 33). Mae'n ei gwneud yn glir ym mha amgylchiadau y byddent yn cael eu trosglwyddo a phwy fyddai'n ymgymryd â'r dyletswyddau i gynnal y cynllun. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** er mwyn sicrhau eglurder ynghylch trosglwyddo CDUau. |
| **Gwasanaethau eirioli annibynnol (adran 62)**<br><br>Mae'r Bil yn atgynhyrchu adran 38 o'r Bil drafft ond yn dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; cyfeillion achos; ac eraill a ystyrir yn briodol yn ymwybodol o'r trefniadau eirioli annibynnol. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio.** |
| **Cydlynwyr ADY (adran 54)**<br><br>Roedd adran 46 y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach neu ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig) ddynodi aelod o'r staff i fod yn Gydlynydd ADY.<br><br>Mae'r Bil wedi'i newid mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae geiriad adran 54 wedi'i newid. Er ei bod yn dal yn ei gwneud ofynnol i bob ysgol a sefydliad addysg bellach gael Cydlynydd ADY, byddai mwy o hyblygrwydd iddynt wrth benderfynu a ddylid rhannu cydlynydd ag ysgolion eraill neu a ddylid penodi mwy nag un person os oes angen. Caiff ysgolion arbennig eu tynnu oddi ar y rhestr ysgolion y byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt ar y sail bod | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Beirniadwyd y Bil drafft am beidio â'i gwneud yn bosibl i ysgolion bach rannu Cydlynydd ADY, neu i ysgolion mwy neu sefydliadau addysg bellach ar fwy nag un safle ddynodi mwy nag un Cydlynydd ADY. |

| | |
|---|---|
| holl staff ysgolion o'r fath yn athrawon ADY arbenigol ac yn gydlynwyr darpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>Mae'r Bil nawr yn rhestru ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol ynghyd ag unedau cyfeirio disgyblion fel rhai sydd o dan ddyletswydd i ddynodi Cydlynydd ADY. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** – bwriad y rhestr a ddiweddarwyd yn 54 yw sicrhau eglurder; nid yw effaith y Bil wedi newid. |
| **Darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg (adrannau 5, 10, 17, 12, 44, 65, 56, 37)**<br><br>Er mwyn mynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid ynghylch darpariaeth gwasanaethau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Bil bellach yn cynnwys dyletswyddau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, wrth iddynt baratoi CDUau, i ystyried a ddylai plentyn neu berson ifanc gael ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, a nodi yn y CDU pa ddarpariaeth ychwanegol ddylai fod yn Gymraeg. Mae yna ddyletswydd bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn cael ei chyflwyno i'r person ifanc drwy'r Gymraeg. Mae hyn yr un mor berthnasol i blant a phobl ifanc ag ADY sy'n cael eu cadw'n gaeth.<br><br>Yn ogystal, mae yna ddyletswyddau ar gyrff y GIG i roi gwybod i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal y CDU os yw corff y GIG yn nodi bod gofyn i blentyn neu berson ifanc gael ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg. Os mai corff y GIG sydd i gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, nid yw'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno yn berthnasol.<br><br>Mae dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i roi ystyriaeth i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gymraeg wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu gwahanol | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Galwodd rhai rhanddeiliaid am i'r bil wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer gwella gwasanaethau ADY drwy'r Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| ardaloedd (adran 56).<br><br>At hyn, mae'r Bil (adran 44) yn cynnwys darpariaeth i wneud newidiadau pellach i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (gan adeiladu ar adran 28 o'r Bil drafft) fel y bydd Gweinidogion Cymru, wrth gynllunio darpariaeth addysg ôl-16, yn rhoi ystyriaeth i allu'r gweithlu addysg bellach i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg a'r cyfleusterau sydd ar gael i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| **Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol (adran 41)**<br><br>Roedd adran 25 y Bil drafft yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol oherwydd ADY plentyn neu berson ifanc, os oedd gan yr unigolyn hwnnw gynllun a gynhelid gan yr awdurdod lleol ond ei fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach.<br><br>Mae'r Bil (adran 41) yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth hon ac yn ehangu'r dyletswyddau i gynnwys plant a phobl ifanc nad oes ganddynt CDU eto, er enghraifft os nad yw'r awdurdod lleol wedi cytuno'n derfynol ar y cynllun. Os yw plentyn neu berson ifanc wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, rhaid i'r corff llywodraethu perthnasol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol oherwydd ADY yr unigolyn tra mae'r CDU yn cael ei baratoi gan yr awdurdod lleol. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** er mwyn helpu i sicrhau darpariaeth i ddysgwyr cyn gynted â phosibl ac nad oes bylchau yn y ddarpariaeth sy'n ofynnol. |
| **Y weithdrefn ar gyfer gwneud y Cod (adran 5)**<br><br>Roedd adran 5 o'r Bil drafft yn cynnwys rhestr o bobl y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw cyn cyhoeddi neu ddiwygio Cod ADY.<br><br>Mae'r Bil nawr yn cynnwys y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg ar restr y bobl y dylid ymgynghori â nhw. Gwnaed y newid hwn yn sgil | **Codwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Galwyd am i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Plant gael eu hychwanegu at y rhestr yn adran 5 o'r Bil |

| | |
|---|---|
| goblygiadau'r Bil i blant a gwasanaethau ADY drwy'r Gymraeg. | drafft. |
| **Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol (adran 83)**<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys Atodlen 1 sy'n darparu ar gyfer mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau os daw'r Bil i rym. | **Nodwyd hyn yn ystod y broses ddrafftio** – ni chafodd Atodlen 1 ei chynnwys yn y Bil drafft gan nad oedd y newidiadau hyn wedi'u penderfynu eto. |

4.18 Yn ogystal â'r newidiadau penodol a wnaed i'r Bil drafft, mae'r ymatebion a'r adborth a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad wedi bod yn cael eu hystyried ac yn parhau i gael eu hystyried er mwyn llywio'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY, er enghraifft, mewn perthynas â datblygu'r gweithlu addysg. Mae mwy o wybodaeth am y Rhaglen Drawsnewid wedi'i chynnwys yn yr adran ar 'y cynllun gweithredu a chyflenwi' (tudalennau 24-26) a rhoddir gwybodaeth reolaidd i randdeiliaid wrth i'r Rhaglen ddatblygu.

4.19 Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad, gan gynnwys crynodebau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig; y gweithdai i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr; a'r digwyddiadau ymgysylltu ffurfiol â rhanddeiliaid, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[12].

**Ymgysylltu ychwanegol**

4.20 Roedd y materion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn a'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn destun ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r Papur, a thu hwnt i'r cyfnod ymgynghori ar y Bil drafft. Roedd y gwaith ymgysylltu yn canolbwyntio ar ddarpariaethau arfaethedig y Bil drafft, cynnwys y Cod drafft a chynlluniau ar gyfer gweithredu'r system newydd, ac ar y rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY.

[12] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

4.21 Roedd y gwaith ymgysylltu a wnaed ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn yn cynnwys cyfarfodydd, cyflwyniadau a gweithdai gyda:

- Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA) – drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gyfarfu unwaith y mis rhwng Rhagfyr 2014 a Gorffennaf 2015 a chyflwynodd adroddiad i Lywodraeth Cymru yn yr hydref 2015 sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r diwygiadau;
- Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg – gan gynnwys gweithdy diwrnod gyda seicolegwyr addysg o holl awdurdodau lleol Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a'i his-grŵp ar Gynhwysiant;
- NATSPEC (cymdeithas y colegau arbenigol annibynnol);
- Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu;
- Panel Ymarferwyr Ysgol;
- Colegau Cymru Colleges Wales – gan gynnwys gweithdy gyda'i rwydwaith o ymarferwyr ym maes anawsterau a/neu anableddau dysgu;
- Grwpiau Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig;
- Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar;
- Cymdeithasau Penaethiaid Ysgolion Arbennig De a Gogledd Cymru (SWASSH a NWASSH);
- Grŵp Partneriaeth Undeb;
- Estyn;
- Comisiynydd Plant Cymru;
- Adran Addysg Llywodraeth y DU.

4.22 Fel y nodir uchod, cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu helaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Bil drafft ac mae wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau anffurfiol (cyfarfodydd, cyflwyniadau, gweithdai) a oedd yn targedu rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys:

- TSANA;

- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru – gan gynnwys dwy sesiwn i grwpiau defnyddwyr a chynhadledd flynyddol y Tribiwnlys i hyfforddi aelodau;
- Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth (ATCO);
- Plant yng Nghymru;
- SWASSH;
- Panel Cyfiawnder Ieuenctid Cymru;
- Rhwydwaith Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu Colegau Cymru;
- Fforwm Cydlynu Gofal, Canolfan Serennu;
- CLlLC;
- Is-grŵp cynhwysiant CCAC;
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg;
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau;
- Adran Addysg Llywodraeth y DU.

4.23 Gwnaed mwy o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â datblygu'r Cod ADY drafft, gan gynnwys:

- Gweithdy deuddydd â ffocws penodol ar nodi ADY, y broses o ran CDUau a gweithredu'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig – roedd yna gynrychiolwyr o'r proffesiwn therapïau, y Gymdeithas Seicolegwyr Addysg, y sector AB, Cydlynwyr ADY/Cydlynwyr AAA, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a phenaethiaid;
- Sesiwn ddarllen y Cod ADY drafft i grŵp o bartneriaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Seicolegwyr Addysg, awdurdodau lleol, CLlLC, Colegau Cymru, Cydlynwyr ADY/Cydlynwyr AAA, therapyddion iaith a lleferydd, penaethiaid ysgolion arbennig a TSANA;
- Sefydlu Grŵp Datblygu Cynnwys y Cod ADY, a barodd o fis Hydref 2015 tan fis Ebrill 2016. Cynrychiolwyr grwpiau arbenigol a gweithwyr proffesiynol allweddol oedd y grŵp hwn, oedd â buddiant uniongyrchol yn y diwygiadau deddfwriaethol a'r broses o weithredu'r system newydd arfaethedig.

### Cynlluniau gweithredu

4.24 Mae Grŵp Gweithredu Strategol ADY wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o drefniadau ar gyfer parhau i ddatblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi awdurdodau lleol, darparwyr addysg, ac eraill wrth baratoi ar gyfer y rhaglen i drawsnewid y system ADY ac, yn benodol, y darpariaethau statudol o fewn y Bil. Grŵp partneriaeth strategol yw Grŵp Gweithredu Strategol ADY ac mae ei aelodau o Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Addysg Bellach, Llywodraeth Cymru ac eraill.

4.25 Mae Grŵp Gweithredu Strategol ADY yn ystyried atebion ymarferol i broblemau a bydd yn cynnig cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau gweithredu. Bydd disgwyl i aelodau'r Grŵp hefyd hyrwyddo newid, gan hybu a sefydlu'r system newydd o fewn eu sefydliadau a chefnogi eraill i wneud yr un fath.

4.26 Rhagwelir y bydd Grŵp Gweithredu Strategol ADY, a luniwyd ym mis Mawrth 2016, yn parhau i fod â rôl yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio yn dilyn cyflwyno'r Bil.

### Materion trawsffiniol

4.27 Mae'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Adran Addysg y DU wedi mynd ati i drafod yn helaeth y goblygiadau posibl o ran materion trawsffiniol yn sgil gweithredu Deddf Plant a Theuluoedd 2014 a'r Bil yn y dyfodol.

4.28 Cynhaliwyd dau ddigwyddiad trawsffiniol gan awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau iechyd sy'n gweithio ar hyd y ffin. Diben y gweithdai oedd:

- ymchwilio i oblygiadau cefnogi plant a phobl ifanc ag AAA sy'n mynd i leoliadau addysg dros y ffin o'u hawdurdod lleol eu hunain;
- trafod y materion sy'n deillio o gael dwy system ddeddfwriaethol wahanol yng Nghymru ac yn Lloegr;

- nodi’r goblygiadau trawsffiniol posibl sy’n deillio o weithredu Deddf Plant a Theuluoedd 2014 a chyflwyno deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

4.29 Bwriadwyd i’r gweithdai fod yn sail i’r cyngor neu’r canllawiau y mae Llywodraeth Cymru a’r Adran Addysg yn disgwyl eu llunio gyda’i gilydd er mwyn hwyluso a hyrwyddo polisi cyson ar gyfer delio â materion sy’n codi pan fydd plant neu bobl ifanc yn byw mewn un wlad ond yn cael eu haddysg mewn gwlad arall. Disgwylir i ganllawiau gael eu cydlunio maes o law.

# 5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae’r Bil drafft yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bernir bod hynny'n briodol. Caiff union natur yr ymgynghori ei bennu unwaith y caiff y cynigion eu cwblhau'n derfynol.

5.3 Mae’r tabl isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a ddefnyddir, os o gwbl, ynghyd â’r rhesymau pam y tybir ei bod yn briodol.

Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau'r Bil drafft.

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(4) Darpariaeth ddysgu ychwanegol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Bil yn cyfeirio at oedran plentyn. Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisodli'r cyfeiriadau presennol at yr oedran tair gyda chyfeiriadau at wahanol oedran, mewn ymateb i newidiadau ym mholisi'r blynyddoedd cynnar neu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae pwerau dirprwyedig felly'n briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad. |
| 4(45): Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | Gweinidogion Cymru | Cod | Y Cod ADY fydd y brif ddogfen a gaiff ei defnyddio gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi'r system newydd ar y lefel weithredol, ac yn arbennig awdurdodau lleol a staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae'r pwerau gwneud gofynion sy'n cael eu harfer drwy'r Cod yn cwmpasu'r manylion ynghylch y modd y mae awdurdodau lleol a chyrff | Gweithdrefn gadarnhaol, fel y'i hamlinellir yn adran 5 o'r Bil. | Bernir ei bod hi'n briodol bod y darpariaethau a gynhwysir yn y Cod y mae'n rhaid i gyrff perthnasol weithredu yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | llywodraethu'n cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â CDU, rhoi gwybodaeth a chyngor, osgoi/datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol. Mae'n briodol sicrhau bod y gofynion gweithredol manwl hyn yn cael eu cynnwys yn y ddogfen sydd, mewn gwirionedd, yn llawlyfr gweithredol. Mae pennu gofynion mewn Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau yn cynnig offeryn ymarferol sy'n hawdd cael gafael arno. | | unol â hwy yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol a'i bod yn ofynnol iddo eu cymeradwyo cyn y gellir cyhoeddi'r Cod.<br><br>Caiff gweithdrefn y Cynulliad ei nodi ar wyneb y Bil. |
| 4(6): Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | Gweinidogion Cymru | Cod | Y Cod ADY fydd y brif ddogfen a ddefnyddir gan y rheini sy'n gyfrifol am weithredu'r system newdd ar lefel weithredol, yn enwedig awdurdodau lleol a staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach. O dan 4(6), rhaid i'r Cod osod gofynion mewn perthynas â rhoi gwybod am benderfyniadau nad oes gan berson ADY o fewn cyfnod rhagnodedig (ac eithrio eithriadau); paratoi a rhoi CDU o fewn cyfnod rhagnodedig (ac eithrio eithriadau); a defnyddio ffurf neu ffurfiau safonol priodol o | Gweithdrefn gadarnhaol | Bernir ei bod hi'n briodol bod y darpariaethau a gynhwysir yn y Cod y mae'n rhaid i gyrff perthnasol weithredu yn unol â hwy yn cael eu gosod gerbron y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | CDU, fel y'i disgrifir yn y Cod. Mae'n briodol bod y gofynion gweithredol manwl hyn wedi'u nodi yn y ddogfen, sy'n llawlyfr gweithredol yn y bôn. Mae gosod gofynion mewn Cod yn hytrach nag yn y Bil neu mewn rheoliadau yn creu adnodd ymarferol a hwylus. | | Cynulliad<br><br>Cenedlaethol a'i bod yn ofynnol iddo eu cymeradwyo cyn y gellir cyhoeddi'r Cod.<br><br>Caiff gweithdrefn y Cynulliad ei nodi ar wyneb y Bil. |
| 5(4)(b): Yn nodi pryd y daw'r Cod i rym | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'r Bil yn ei gwneud hi'n bosibl i'r Cod ADY ddod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diwrnod a bennir yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol ar ôl i'r Bil drafft gael ei basio. | Dim | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol. |
| 12(1)(c)(ii): Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mewn achosion lle nad yw person ifanc yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu, a hynny'n unol â rheoliadau, a oes angen iddynt baratoi a chynnal cynllun ar | Gweithdrefn gadarnhaol | Gan fod y darpariaethau'n effeithio ar hawliau pobl ifanc o dan y Bil, mae angen lefel |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfer person ifanc. Mae pennu meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y mae angen iddynt wneud hynny yn cyd-fynd â phwerau dirprwyedig gan fod hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu dros amser y meini prawf a ddylai gael eu cymhwyso mewn ymateb i angen ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, mae'n addas ar gyfer pwerau dirprwyedig. | | uwch o graffu. |
| 13(2): Termau allweddol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi plant ag ADY sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau gategorïau o blant sy'n derbyn gofal (o fewn yr ystyr a roddir gan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) ond nad ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion y Bil. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i gategorïau gael eu heithrio lle nad yw'n angenrheidiol neu'n briodol i gynnwys grwpiau penodol o blentyn sy'n derbyn gofal o fewn y dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal (e.e. am nad oes ganddynt gynllun addysg personol y gellir cynnwys Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ynddi – gweler y pŵer a osodwyd yn adran 83 o | Gweithdrefn gadarnhaol, gyda gweithdrefn negyddol ar gyfer arfer y pŵer wedi hynny. | Yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Ni fyddai plant sy'n dod o fewn unrhyw gategori newydd o eithriad yn colli cefnogaeth ar gyfer eu ADY. Yn hytrach, byddant yn cael cefnogaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 gan adran 14). Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio dros amser wrth i bolisïau esblygu. | | drwy'r broses arferol ar gyfer CDU. |
| 14(2): Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ar hyn o bryd, mae pŵer i wneud rheoliadau yn adran 83 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ragnodi cynnwys Cynllun Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf honno. Mae'r is-adran newydd (2A) yn pennu bod cynllun addysg personol yn rhan ofynnol o gynllun o'r fath. Fodd bynnag, mae'r pŵer newydd yn 2B i greu rheoliadau yn cadw'r hyblygrwydd i wneud eithriadau oherwydd efallai na fydd cynllun addysg personol yn briodol mewn rhai achosion (megis plant sy'n derbyn gofal am gyfnodau byr achlysurol yn hytrach nag yn barhaus). Gallai fod yn briodol newid eithriadau yn sgil newid mewn amgylchiadau hefyd. | Gweithdrefn gadarnhaol, gyda gweithdrefn negyddol ar gyfer arfer y pŵer wedi hynny. | Mae'r weithdrefn negyddol ddilynol yn briodol er mwyn cyd-fynd â'r weithdrefn bresennol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| 19(10) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG, pan nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol, neu pan na nodir triniaeth neu wasanaeth o'r fath, i roi gwybod i'r corff sy'n cynnal y CDU. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y pwerau a ddirprwyir yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â chyrff y GIG sydd o dan ddyletswydd i roi gwybod, i ragnodi cyfnod pryd y mae'n rhaid i gorff y GIG wneud hynny. Efallai y bydd angen newid y cyfnod dros amser hefyd. Mae pwerau dirprwyedig, felly, yn briodol. | | o fod yn ddadleuol. Mae'n bosibl y bydd angen newid y cyfnod a ragnodir o bryd i'w gilydd. |
| 29(6)b | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd rheoliadau yn penderfynu, yn achos person ifanc, pryd nad oes angen cynnal CDU bellach i fodloni anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant. | Gweithdrefn gadarnhaol | Gan fod y darpariaethau yn effeithio ar hawliau pobl ifanc o dan y Bil, mae lefel graffu uwch yn briodol. |
| 30(1)(b): Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 29 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ailystyried, ar gais, benderfyniad corff llywodraethu ysgol i roi'r gorau i gynnal CDU. Bydd y pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi cyfnod pan all plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc gyflwyno cais i awdurdod lleol mewn perthynas ag ailystyriaeth o'r fath. Efallai y bydd angen newid y cyfnod dros amser hefyd. Mae pwerau dirprwyedig felly'n briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol. Efallai y bydd angen newid y cyfnod a ragnodwyd o bryd i'w gilydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 34(3)<br><br>Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cais am i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach fod yn gyfrifol am CDU. Os na fydd y corff llywodraethu yn cytuno i'r cais o fewn cyfnod a ragnodir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn, gall yr awdurdod lleol gyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru. Efallai y bydd angen newid y cyfnod a ragnodwyd dros amser. Mae pwerau dirprwyedig felly'n briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol. Efallai y bydd angen newid y cyfnod a ragnodwyd o bryd i'w gilydd. |
| 35: Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae Adran 33 yn ymdrin â'r prif sefyllfaoedd lle mae plant a phobl ifanc yn trosglwyddo i sefydliad addysg gwahanol ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo dyletswyddau i gynnal CDU yn unol â hynny. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i ddarpariaeth a manylion pellach gael eu gwneud mewn perthynas â throsglwyddiadau o'r fath. Efallai y bydd angen diwygio'r manylion hyn dros amser ac yn rheolaidd mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae pwerau dirprwyedig felly'n briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mân faterion a materion ategol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Bydd y rheoliadau'n darparu manylion technegol i gefnogi'r egwyddorion trosglwyddo a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | nodir yn y Bil. |
| 37(2): Ystyr “person sy’n cael ei gadw’n gaeth” a thermau allweddol eraill | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’r Bil yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i addasu, at ddibenion Rhan 2 y Bil, y diffiniad (mewn cyfraith addysg ehangach) o awdurdod cartref mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal, ac i wneud addasiadau eraill i’r diffiniad a allai gael eu gwneud o dan bŵer arall. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu ystyr wahanol yng nghyd-destun materion ADY ac i ystyried a ddylid gwneud yr un darpariaeth ar gyfer yr ADY wrth arfer y pŵer arall. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Yn rhagnodi mân faterion neu faterion ategol, a allai gael eu diweddaru o bryd i’w gilydd. Bydd y rheoliadau yn darparu manylion i ategu’r egwyddorion a amlinellir yn y Bil. |
| 38(2)(b) Paratoi cynlluniau datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu, a hynny'n unol â rheoliadau, a oes angen cynnal cynllun ar gyfer person pan fydd yn cael ei ryddhau. Mae pennu meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y mae angen iddynt wneud hynny yn cyd-fynd â phwerau dirprwyedig gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu dros amser y meini prawf a | Gweithdrefn negyddol | Mae’r darpariaethau’n effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc sy’n cael eu cadw’n gaeth o dan y Bil, mae lefel uwch o graffu’n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddylai gael eu cymhwyso mewn ymateb i angen ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newid i bolisi addysg.. | | briodol. |
| 52(5): Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Wrth i awdurdodau lleol arfer eu dyletswyddau o dan y Bil hwn ni allant ond sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Loegr os yw'r sefydliad dan sylw ar y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 50. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer hyn gan eu bod yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru, er enghraifft, ychwanegu a diwygio pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu fel rhan o'r rhestr; gosod gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn cael bod ar y rhestr; meini prawf ar gyfer tynnu oddi ar y rhestr; a darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau. Gallai fod angen diwygio'r gofynion manwl dros amser mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. |
| 56(4): Cydlynydd | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau | Gweithdrefn gadarnhaol | Yn rhagnodi materion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | addysg bellach Cymru ddynodi aelod o staff yn 'gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol'. Bydd y pwerau dirprwyedig arfaethedig yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu pa gymwysterau a phrofiad rhagnodedig y mae'n rhaid i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol feddu arnynt, ynghyd ag unrhyw swyddogaethau eraill sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Efallai y bydd angen diweddaru'r rhain o bryd i'w gilydd, a hynny mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | | technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. |
| 61(5): Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth a help i awdurdodau lleol pan fo angen. Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amserlen (ac eithriadau) y mae'n rhaid i gorff neu berson gydymffurfio â hi (ym amodol ar yr eithriad yn is-adran (2)) o ran cais o dan y ddyletswydd hon. Efallai y bydd angen newid amserlenni o bryd i'w gilydd, yn unol ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ystyriaethau ymarferol. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mater gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 63(1). Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Rheoliadau sy'n galluogi awdurdod lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer hyn gan eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion technegol ynghylch telerau ac amodau y gallai fod angen eu newid o bryd i'w gilydd. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi materion gweinyddol penodol sy’n effeithio ar gyrff cyhoeddus, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. |
| 70(1): Rheoliadau ar apelau a cheisiadau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn rhoi'r hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn materion penodol. Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud a’u dyfarnu newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a pholisïau a all newid. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer. Mae’r weithdrefn gadarnhaol yn briodol am fod hyn yn ymwneud â chyflwyno apelau a cheisiadau i orfodi hawliau a herio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | penderfyniadau. |
| 71(1): Rheoliadau ar weithdrefnau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Er enghraifft, newidiadau i bolisïau ar ddyfarnu costau neu dreuliau, y mae angen iddynt fod yn gyson ar draws y system Tribiwnlys. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer. Mae’r weithdrefn gadarnhaol yn briodol am fod hyn yn ymwneud â chyflwyno apelau a cheisiadau i orfodi hawliau a herio penderfyniadau. |
| 71(2): Rheoliadau ar weithdrefnau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Gallai’r rhain gynnwys yr amgylchiadau lle mae’n briodol i drafodion y Tribiwnlys gael eu cynnal yn gyhoeddus, | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | efallai mewn ymateb i arferion sy’n newid o ran tribiwnlysoedd yn fwy cyffredinol. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | | y pŵer. Mae’r weithdrefn gadarnhaol yn briodol am fod hyn yn ymwneud â chynnal apelau a cheisiadau i orfodi hawliau a herio penderfyniadau. |
| 71(4): Rheoliadau ar weithdrefnau | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Gallai’r rhain gynnwys gwneud darpariaeth sy’n cyfateb i Ran 1 o Ddeddf Gymrodeddu 1996, efallai mewn ymateb i arferion sy’n newid o ran tribiwnlysoedd yn fwy cyffredinol. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer. Mae’r weithdrefn gadarnhaol yn briodol am fod hyn yn ymwneud â chyflwyno apelau a cheisiadau i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | orfodi hawliau a herio penderfyniadau. |
| 72(3)<br><br>Cyrff y GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’r Bil yn darparu’r pŵer i’r Tribiwnlys Addysg wneud argymhelliad i un o gyrff y GIG ac yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff adrodd yn ôl i’r Tribiwnlys mewn perthynas â’r argymhelliad hwnnw. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer dirprwyedig i ragnodi’r cyfnod pryd y mae’n rhaid cyflwyno adroddiad. Efallai y bydd angen newid y cyfnod a ragnodwyd dros amser. Fellly, mae pwerau dirpwyedig yn briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy’n annhebygol o fod yn ddadleuol. Efallai y bydd angen newid y cyfnod a ragnodwyd o bryd i’w gilydd. |
| 73: Cydymffurfiaeth â gorchmynion | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau y cyfnod pan fydd yn rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio a gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru, gan ddechrau ar ddyddiad ei lunio. Efallai y bydd angen i hyn newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae pwerau dirprwyedig felly'n briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. |
| 77(1): Rheoliadau | Gweinidogion | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn caniatáu datgelu a defnyddio gwybodaeth at ddibenion y Rhan | Gweithdrefn | Caiff prif sylwedd y mater |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth | Cymru | | hon o’r Bil neu ddibenion eraill sy’n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datgelu CDU heb ganiatâd y person y mae’n ymwneud ag ef. Mae darpariaethau ynghylch datgelu yn debygol o newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau ymarferol a all newid megis datblygiadau mewn cyfraith achosion. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | gadarnhaol | dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer. Mae’r rheoliadau hyn yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth heb ganiatâd ac felly mae angen lefel uwch o graffu. |
| 78(1): Rhieni a phobl ifanc heb alluedd | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gofyn bod Gweinidogion Cymru’n gwneud rheoliadau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol gan berson priodol i rieni a phobl ifanc heb alluedd meddyliol ar adeg pan fydd ganddynt hawl i wneud penderfyniad neu fynegi eu barn. Efallai y bydd angen diwygio’r darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu arferion sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ac felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol. Mae pŵer cyfatebol wedi’i ychwanegu i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy Atodlen 1 y Bil, mewn perthynas â honiadau sy’n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd o dan y | Gweithdrefn gadarnhaol | Yn ei gwneud yn bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud sy’n gysylltiedig â chymhwyso deddfwriaeth (megis Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad), ac felly mae angen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddeddf honno. | | lefel uwch o graffu. |
| 80(8): Cyfeillion achos | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gellir penodi cyfeillion achos i gefnogi plentyn neu berson ifanc nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol i arfer yr hawliau a roddwyd iddynt gan y Bil er mwyn eu helpu i ddeall yr wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno iddynt o dan y Bil. Mae'r Bil yn nodi'r prif ddarpariaethau ar gyfeillion achos – beth ydynt, beth gallant ei wneud a sut y cânt eu penodi a'u tynnu. Mae'r pŵer hwn i wneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfeillion achos. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer y manylion hyn oherwydd gallai fod angen i Weinidogion Cymru ddiwygio dros amser, gan gynnwys mewn ymateb i amgylchiadau newidiol, sut y gallai cyfeillion achos gael eu defnyddio er mwyn cefnogi hawliau'r plentyn/person ifanc. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu yn y Bil. Fodd bynnag, bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn effeithio ar sut sut mae hawliau plant yn cael eu harfer. Felly, mae lefel uwch o graffu'n briodol. |
| 84<br><br>Pŵer i ddiwygio dyletswyddau i sicrhau darpariaeth | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn cynnwys chwe adran sy'n ei gwneud yn ddyletswydd i gyrff gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio | Gweithdrefn gadarnhaol | Yn ei gwneud yn bosibl gwneud darpariaeth a allai effeithio'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg | | | rheoliadau sy'n hepgor y geiriau "cymryd pob cam rhesymol" o unrhyw un o'r darpariaethau hyn neu bob un ohonynt, neu ddarparu bod darpariaeth yn weithredol fel pe bai'r geiriau hynny wedi'u hepgor at ddiben a ragnodwyd; mewn perthynas â chorff a ragnodwyd; neu at ddiben a ragnodwyd mewn perthynas â chorff a ragnodwyd. At hyn, os caiff y geiriau "cymryd pob cam rhesymol" eu hepgor o bob adran berthnasol, mae adran 84 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n hepgor adran 83 o'r Bil (Adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg). Bydd y pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gofynion y mae'r Bil yn eu gosod ar gyrff mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael eu cryfhau'n raddol i ystyried gwelliannau a wneir dros gyfnod yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael. Mae pwerau dirpwyedig yn briodol felly. | | sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad. |
| 85(6): Cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru | Gweinidogion Cymru (gyda chytundeb yr Ysgrifennydd | Rheoliadau | Mae'r Bil yn pennu cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru. Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, i: | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi materion gweinyddol, a all gael eu diweddaru o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwladol) | | (a) ddarparu i awdurdodaeth y Tribiwblys gael ei harfer gan unrhyw nifer o dribiwnlysoedd y mae’r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd,<br><br>(b) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â sefydlu’r Tribiwnlys a’i barhad yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu’n ddymunol. Gallai fod angen i’r manylion gweinyddol o fewn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon gael eu newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i newid i bolisïau’n ymwneud â thribiwnlysoedd yn gyffredinol. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | | bryd i'w gilydd. |
| 86(2): Y Llywydd ac aelodau’r paneli | Gweinidogion Cymru (gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol) | Rheoliadau | Mae'r Bil yn pennu darpariaethau ynghylch penodi person yn llywydd, a phenodi person yn aelod o banel y cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg. Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r gofynion y mae'n rhaid i berson eu bodloni er mwyn cael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg. Byddai'r rhain yn rhai technegol ac efallai y cânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau newydd. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol. | Gweithdrefn negyddol | Yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol, a all gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 88: Ystyr "yn ardal" awdurdod lleol – mewnosod is-adran (3C) i adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 82 o'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau yn adran 579 Deddf Addysg 1996 a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach yn ymwneud ag ystyr "yn ardal" awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, yng ngoleuni unrhyw sefyllfaoedd a allai godi lle mae yna ansicrwydd. | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff y brif ddarpariaeth ei nodi yn y Ddeddf ac mae'r pŵer hwn yn caniatáu ar gyfer creu manylion pellach sy'n debygol o fod yn weinyddol, a fydd yn delio â pha awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson. |
| 90(1): Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc. | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol ac unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed, os bernir bod hynny'n angenrheidiol at ddibenion, neu o ganlyniad i weithredu'n llawn unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad a dogfennau | Gweithdrefn gadarnhaol os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio. Gweithdrefn negyddol fel arall. | Gweithdrefn gadarnhaol os ydynt yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud sy'n diwygio darpariaethau Deddfau Seneddol, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | statudol. | | Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad. Os felly, mae lefel uwch o graffu'n briodol. Fel arall, mae'r weithdrefn negyddol yn berthnasol – mae'r newidiadau hyn wedi'u cyfyngu i rai canlyniadol etc, ac yn gysylltiedig â dibenion y Ddeddf. |
| 92(8): Dehongli'n gyffredinol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn diwygio'r diffiniad o "gorff GIG" a ddefnyddir yn y Bil er mwyn iddo gynnwys awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c. 42). Golyga hyn y byddai'r dyletswyddau o dan adrannau 18 ac 19 (ynghylch darpariaeth | Gweithdrefn gadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau ond yn caniatáu newid gweinyddol cyfyngedig |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddysgu ychwanegol) yn berthnasol i awdurdodau o’r fath. Nid oes awdurdodau o’r fath yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae’r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn darparu cwmpas i’w cynnwys yn y dyletswyddau, os yn briodol, pe baent yn cael eu sefydlu yn y dyfodol. | | iawn. |
| 93(2) Dod i rym | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Heblaw am adrannau 1 ac 84-88, mae'r darpariaethau’r Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diwrnod a bennir yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol a’r trefniadau gweithredu manwl ar ôl i'r Bil drafft gael ei basio | Dim | Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol. |
| Atodlen 1, paragraff 17(5)(f) (mewnosod paragraff newydd 6A(7) i atodlen 17 o’r Ddeddf Cydraddoldeb | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gellir penodi cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth i arfer eu hawl i wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd a roddwyd iddynt drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r Ddeddf, fel y’i diwygiwyd gan y Bil, yn amlinellu’r prif ddarpariaethau ar gyfeillion achos – beth ydynt a sut y cânt eu penodi a’u dileu. Mae’r pŵer hwn (sy’n debyg i, ond yn | Gweithdrefn gadarnhaol | Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu yn y Ddeddf fel y’i diwygiwyd gan y Bil. Serch hynny, bydd rheoliadau a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2010 | | | ymestyn y pŵer cyfredol i wneud rheoliadau ym mharagraff 6A, atodlen 17 o'r Ddeddf Cydraddoldeb) i wneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfeillion achos. Mae'r manylion hyn yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig oherwydd gallai Gweinidogion Cymru fod angen diwygio dros amser, gan gynnwys mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid o ran sut gellir defnyddio cyfeillion achos i gefnogi hawliau'r plentyn. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. Cyflwynwyd pŵer cyfatebol yn adran 76(8) o'r Bil mewn perthynas ag apelau a wneir o dan y Bil. | | wneir o dan yr adran hon yn effeithio ar y modd y caiff hawliau plant eu harfer. Felly, mae lefel uwch o graffu'n briodol. |
| Atodlen 1, paragraff 17(5)(g) (mewnosod paragraff newydd 6F(1) yn atodlen 17 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn, a fewnosodwyd i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan y Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan berson priodol i rieni heb alluedd meddyliol ar adeg pan fydd hawl ganddynt wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd ar ran ar ran eu plentyn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan bersonau dros yr oedran ysgol gorfodol sydd heb alluedd meddyliol. Gallai | Gweithdrefn gadarnhaol | Mae'n galluogi gwneud darpariaeth yn ymwneud â chymhwyso deddfwriaeth (gan gynnwys Deddfau Seneddol a Deddfau a Mesurau Cynulliad) ac felly mae lefel |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fod angen diwygio'r darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu arferion seiliedig ar dystiolaeth, ac felly maent yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig. Mae pŵer cyfatebol wedi'i gynnwys yn adran 78 y Bil mewn perthynas ag apelau a wneir o dan y Bil. | | uwch o graffu'n briodol. |

DS: Yn adran 14(5) o'r Bil, gwneir diwygiad i adran 83(5)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud yn y rheoliadau hynny, er mwyn iddo fod yn gyson â darpariaethau'r Bil. Fodd bynnag, nid pŵer newydd yw hwn ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.

Yn ogystal, mae adran 50 yn diwygio adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 er mwyn ychwanegu at restr y materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn rheoliadau o dan yr adran honno (rhagnodi gwybodaeth i'w chynnwys mewn cais i roi ysgol annibynnol ar y gofrestr). Mae hyn yn gysylltiedig â diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn adran 54.

Mae'r pwerau presennol i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â honiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd, a gaiff eu gwrando gan y Tribiwnlys Addysg, wedi newid. Bellach, dilynir y weithdrefn gadarnhaol yn lle'r weithdrefn negyddol.

# 6. Asesiad effaith rheoleiddiol

6.1 Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil, a gellir ei weld yn Rhan 2.

6.2 Nid yw’r asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i osod mewn ffordd sy’n cyfateb i strwythur y Bil. Yn hytrach, mae’r asesiad effaith rheoleiddiol yn cyflwyno’r costau fel y maent yn berthnasol i’r prif newidiadau a gyflwynir gan y Bil, gan ddwyn ynghyd y darpariaethau perthnasol.

6.3 Er mai’r arfer safonol yw amlinellu’r amcanestyniadau cost dros gyfnod o bum mlynedd, yr hyn a wneir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn yw amlinellu’r costau dros gyfnod o bedair blynedd yn unol â thymor cyfredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Crynodeb – asesiad effaith rheoleiddiol

| **Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** |
|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir:** cyflwyno deddfwriaeth i wella’r system bresennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig i leihau’r gwrthdaro sydd o fewn y system ar hyn o bryd, a gwella canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae’r opsiynau penodol yn cynnwys cyflwyno:<br>• cynlluniau datblygu unigol statudol (CDUau) i bobl ifanc ag ADY. Gweler tudalennau 96 a 141<br>• gofyniad i awdurdodau lleol osgoi *a* datrys anghytundebau. Gweler tudalennau 103 a 225<br>• cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i asesu anghenion pobl ifanc ôl-16 a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol. Gweler tudalennau 105 a 240<br>• newidiadau i gofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig. Gweler tudalennau 109 a 254<br>• newidiadau i’r sail statudol dros gydlynwyr anghenion addysgol arbennig mewn addysg. Gweler tudalennau 112 a 274<br>• newidiadau i’r sail statudol dros gydlynwyr anghenion addysgol arbennig mewn iechyd. Gweler tudalennau 117 a 286<br>• gofyniad ar awdurdodau lleol i benodi swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Gweler tudalennau 120 a 294<br>• y pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy’n gyfrifol am gynnal CDU lle bo anghytundeb rhwng awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Gweler tudalennau 125 a 302<br>• gofyniad ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad bob pum mlynedd i asesu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ba raddau y cyflenwir y galw. Gweler tudalennau 123 a 298 | | |
| **Cam**: cam 3 | **Cyfnod arfarnu**: 2017-18 i 2020-21 | **Blwyddyn y sail brisiau**: 2016-17 |
| **Cyfanswm y gost**<br><br>Cyfanswm: £7,821,560<br><br>Gwerth presennol: £7,221,660 | **Cyfanswm y manteision**<br><br>Cyfanswm: £4,272,740<br><br>Gwerth presennol: £3,923,530 | Gwerth presennol net: £3,298,130 |

## Costau gweinyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau**<br><br>**Costau rheolaidd**: Yn gyffredinol, mae disgwyl i'r bil arwain at arbedion cost. Fodd bynng, mae yna bedwar sefydliad sy'n debygol o wynebu costau rheolaidd ychwanegol:<br><br>Sefydliadau addysg bellach: £92,800 (£23,200 y flwyddyn)<br><br>Estyn: £172,000 (£43,000 y flwyddyn)<br><br>Llywodraeth Cymru: £1,240 (£310 y flwyddyn)<br><br>**Costau pontio**: mae'n debygol y bydd naw o gyrff y sector cyhoeddus yn wynebu costau pontio, sef gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, TAAAC, ysgolion y brif ffrwd, byrddau iechyd, sefydliadau addysg bellach, Estyn, unedau cyfeirio disgyblion a Llywodraeth Cymru. Cyfanswm y costau pontio yw £11,655,160. Costau pontio Llywodraeth Cymru yw £1,972,510, sy'n gadael £9,682,650 o gostau pontio i weddill y sefydliadau sector cyhoeddus.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithredu'r Bil drwy grantiau pontio. | | | |
| **Pontio:** £11,655,160 | **Rheolaidd:** £266,040 | **Cyfanswm:** £11,921,200 | **Gwerth Presennol:** £10,986,140 |

| **Arbedion costau:** | | | |
|---|---|---|---|
| Yn gyffredinol, gallai'r bil sicrhau arbedion rheolaidd o tua £4,766,340 dros y cyfnod pedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21. Mae hwn yn arbediad o tua £1,191,585 y flwyddyn.<br><br>Gallai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol arbed tua £2,750,740 dros y cyfnod pedair blynedd; gallai Gyrfa Cymru arbed tua £1,954,400 a gallai TAAAC arbed £61,200 dros y cyfnod pedair blynedd.<br><br>Disgwylir i'r arbedion ddeillio o ddarpariaethau yn y bil sy'n ceisio cael gwared â natur wrthwynebol y broses bresennol o greu datganiad.<br><br>Yn ogystal â chydnabod yr arbedion posibl a allai ddeillio o gyflwyno'r opsiynau a ffefrir, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cydnabod na wyddom i ba raddau y caiff yr arbedion eu cyflawni. Wrth gyfrifo'r arbedion, felly, defnyddiwyd ffigurau canol yr ystod yn gyffredinol i osgoi gorddatgan yr arbedion posibl.<br><br>Lle na fu'n bosibl nodi'r arbedion posibl oherwydd arferion amrywiol sy'n debygol o gael eu sefydlu wrth weithredu darpariaethau'r bil, cyflwynir arbedion enghreifftiol yn y testun, ond ni chaiff y rhain eu cynnwys yng nghrynodeb Tabl 70 a Thabl 71. | | | |
| **Pontio:** £0 | **Rheolaidd:** £4,766,340 | **Cyfanswm:** £4,766,340 | **Gwerth Presennol:** £4,376,790 |
| **Y gost weinyddol net:** £7,154,860 | | | |

## Costau cydymffurfio

| |
|---|
| Bydd ysgolion annibynnol, rhieni a darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn wynebu costau ychwanegol dros y cyfnod pedair blynedd. Fodd bynnag, mae yna fanteision net i rieni a darparwyr gwasanaethau – gweler isod.<br><br>Bydd ysgolion annibynnol yn wynebu costau ychwanegol o tua £17,300 dros y cyfnod pedair blynedd, sef £2,100 o gostau pontio a £15,200 o gostau rheolaidd. Amcangyfrifir cost reolaidd ychwanegol bob blwyddyn o £3,800.<br><br>Bydd cost ychwanegol i reini o £592,400 dros y pedair blynedd yn sgil hawliau estynedig i apelio, sef £148,100 y flwyddyn.<br><br>Bydd darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn wynebu costau ychwanegol o £57,000 dros y cyfnod pedair blynedd yn sgil hawliau estynedig i apelio, sef £14,250 y flwyddyn. |

| Pontio: £2,100 | Rheolaidd: £664,600 | Cyfanswm: £666,700 | Gwerth Presennol: £612,310 |
|---|---|---|---|

## Costau eraill

| Nid yw'r dadansoddiad effaith rheoleiddiol wedi nodi unrhyw gostau economaidd, cymdeithasol nac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r opsiynau a ffefrir. | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio:** £0 | **Rheolaidd:** £0 | **Cyfanswm:** £0 | **Gwerth Presennol:** £0 |

## Costau ac anfanteision na chyfrifwyd

Mae yna nifer o gostau, anfanteision a risgiau'n gysylltiedig â chyflwyno'r bil na fu modd cyfrifo eu gwerth, ac nid yw'r costau'n hysbys, ee:

Cost gweinyddu cyhoeddus

- costau rheolaidd a chostau yn y dyfodol i ysgolion yn sgil cwynion am gynlluniau a darpariaeth
- costau rheolaidd a chostau yn y dyfodol i sefydliadau addysg bellach yn sgil cwynion am gynlluniau a darpariaeth
- costau sy'n gysylltiedig â throsiant staff mewn perthynas â chymhwyster sylfaenol Cydlynwyr ADY
- costau sy'n gysylltiedig â datblygu cymhwyster sylfaenol Cydlynwyr ADY
- y gost reolaidd gyfredol i fyrddau iechyd lleol yn sgil cydgysylltu darpariaeth iechyd i blant a phobl ifanc ag ADY

Mae'r rhain wedi'u nodi yn ôl darpariaeth a sefydliad drwy gydol yr asesiad effaith rheoleiddiol.

Manteision

<table>
<tr><td colspan="4">Mae’r dadansoddiad effaith rheoleiddiol wedi nodi arbedion posibl o tua £3,921,900 dros y cyfnod pedair blynedd i rieni pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hwn yn arbediad posibl o £980,475 y flwyddyn.<br>Gallai darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod wneud arbedion o £350,840 dros y cyfnod pedair blynedd. Amcangyfrifir bod hwn yn arbediad posibl o £87,710 y flwyddyn.<br>Mae’r manteision na chyfrifwyd wedi’u nodi yn yr adran ar opsiynau.</td></tr>
<tr><td>Pontio: £0</td><td>Rheolaidd:<br>£4,272,740</td><td>Cyfanswm:<br>£4,272,740</td><td>Gwerth Presennol:<br>£3,923,530</td></tr>
</table>

## Manteision na chyfrifwyd

Mae yna nifer o fanteision yn gysylltiedig â chyflwyno’r bil na fu modd cyfrifo eu gwerth, ee:

Manteision o ran gweinyddu cyhoeddus

- arbedion posibl i sefydliadau addysg bellach yn sgil peidio â gorfod cynnal cynlluniau colegau ar gyfer pob person ifanc ag ADY yn sgil y ddarpariaeth i gyflwyno cynlluniau datblygu unigol a gynhelir gan awdurdodau lleol ar gyfer rhai pobl ifanc ag ADY sy’n mynd i addysg bellach

- arbedion posibl i awdurdodau lleol sy’n gysylltiedig ag unrhyw ostyngiad yn nifer yr anghytundebau yn sgil y ddarpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osgoi *a* datrys anghytundebau

- arbedion posibl i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd sy’n deillio o gael gwared â’r gofyniad presennol iddynt ddarparu cyngor ym mhob achos asesu statudol, pa mor berthnasol bynnag y bo.

Manteision i sefydliadau eraill

- arbedion posibl i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn sgil y ddarpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osgoi *a* datrys anghydfodau

Manteision i blant, pobl ifanc a rhieni

- arbedion posibl i rieni sy'n gysylltiedig ag unrhyw ostyngiad yn nifer yr anghytundebau yn sgil y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osgoi a datrys anghydfodau

Manteision cymdeithasol

- manteision cymdeithasol o ganlyniad i blant a phobl ifanc ag ADY yn cyflawni eu potensial, gan gynnwys cyrhaeddiad uwch, mynd i'r coleg, byw'n annibynnol a chyflogaeth yn y dyfodol
- Mae'r rhain wedi'u nodi yn ôl darpariaeth a sefydliad drwy gydol yr asesiad effaith rheoleiddiol.

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

| |
|---|
| Mae'r dystiolaeth allweddol, y rhagdybiaethau a'r elfennau o ansicrwydd wedi'u nodi yn y cyflwyniad. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn y trafodaethau ar gostau a manteision y cynigion unigol. |

# RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH

# 7. Yr opsiynau

7.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â phob un o'r darpariaethau canlynol a amlinellir yn y Bil:

- Cynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Datrys anghydfodau
- Cyfrifoldeb am asesu anghenion pobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed ac am sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol
- Cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig
- Sail statudol i gydlynwyr anghenion addysgol arbennig mewn addysg
- Sail statudol i gydlynwyr strategol anghenion addysgol arbennig ym maes iechyd
- Gofyniad ar awdurdodau lleol i benodi swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar
- Adolygiadau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy’n gyfrifol am gynnal CDU.

## Cynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

7.2 Ar hyn o bryd, bydd gan bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (y cyfeirir atynt hefyd fel anghenion addysgol arbennig) un neu fwy o'r cynlluniau canlynol:

- Datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig (AAA)
- Cynllun addysg unigol anstatudol
- Cynllun dysgu a sgiliau statudol
- Cynllun anstatudol eu coleg.

7.3 Bydd y cynllun sydd gan blentyn neu berson ifanc yn dibynnu ar sail statudol ei ddarpariaeth addysg arbennig ac ar ba gam y mae'r person ifanc o ran ei yrfa ysgol. Bydd gan blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, er enghraifft, ddatganiad anghenion addysgol arbennig a chynllun addysg unigol tra byddant yn mynychu ysgol a bydd ganddynt gynllun dysgu a sgiliau tra byddant yn mynychu addysg ôl-16 mewn sefydliad addysg bellach. Bydd gan blant a phobl ifanc sydd â mân anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion cymhedrol gynllun addysg unigol tra byddant yn mynychu'r ysgol, a chynllun gan y coleg tra byddant mewn addysg bellach ôl-16.

7.4 Yn ogystal â chynlluniau amrywiol, mae gan blant a phobl ifanc hawliau amrywiol ar hyn o bryd. Gall plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig herio penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol ynghylch darpariaeth, drwy apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Ni all plant a phobl ifanc sydd â chynllun addysg unigol apelio i TAAAC i herio penderfyniadau a wneir gan ysgolion ynghylch darpariaeth.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.5 O dan opsiwn 1, byddai'r arfer presennol o greu cynlluniau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau.

**Manteision**

7.6 Nid yw opsiwn 1 yn golygu unrhyw gostau ychwanegol.

**Anfanteision**

7.7 Nid yw'r system bresennol yn trin pawb ar yr un sail. Darperir gwasanaeth sydd wedi'i warchod gan y gyfraith ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf difrifol ac sy'n cyrraedd y trothwy i gael datganiad anghenion addysgol arbennig. Ar y llaw arall, nid oes darpariaeth na hawliau statudol sydd wedi'u gwarchod ar gyfer plant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn llai difrifol ac nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i gael datganiad anghenion addysgol arbennig.

7.8 Nid yw'r trothwy cymhwysedd presennol ar gyfer datganiad anghenion addysgol arbennig wedi'i ddiffinio yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[13]. O ganlyniad, gall awdurdodau lleol ddehongli pwy sy'n gymwys mewn amrywiol ffyrdd, gan arwain at anghysondeb rhwng awdurdodau lleol.

7.9 Mae'r arferion a'r prosesau presennol sy'n gysylltiedig â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn aneffeithlon ac anhyblyg, a gallant arwain at ddarpariaeth aneffeithiol i blant a phobl ifanc.

7.10 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu a diwygio cynlluniau statudol yn llafurus yn weinyddol, ac mae ysgolion yn gorfod gwahodd set benodol o broffesiynolion, p'un a oes angen iddynt fod yno a ph'un a oes angen eu mewnbwn i sicrhau effeithiolrwydd yr adolygiad ai peidio. Mae'n cymryd cryn amser i drefnu a pharatoi ar gyfer adolygiadau statudol. Gall diwygio cynllun, felly, fod yn broses hir a gall arwain at oedi cyn i ddysgwyr dderbyn y cymorth mwyaf priodol.

7.11 Yn ogystal, nid oes llawer o hyblygrwydd wrth adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar y trothwy ar gyfer derbyn cymorth statudol. Lle, er enghraifft, bydd canlyniadau cynllun statudol wedi'u cyflawni yn achos plentyn neu berson ifanc, gallai pryder rhieni ynghylch colli hawliau statudol arwain at bwysau i gadw'r cynllun a'i ddarpariaeth, er nad dyma o reidrwydd y ddarpariaeth fwyaf effeithiol ar gyfer y person ifanc.

7.12 Nid yw'r system bresennol yn hwyluso'r broses bontio rhwng gwahanol gamau addysg, hynny yw rhwng y blynyddoedd cynnar a'r ysgol a rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16. Gall hyn gael effaith negyddol ar addysg dysgwyr.

7.13 Yn ogystal, nid yw'r system bresennol yn rhoi hawl i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Yn wahanol i blant a phobl ifanc o oed ysgol gorfodol, ar hyn o bryd nid yw pobl ifanc sydd mewn addysg ôl-16 yn cael apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

[13] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-en.pdf

**Opsiwn 2: disodli'r cynlluniau cymorth presennol ag un cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol**

7.14 O dan opsiwn 2, byddai'r cynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn cael eu disodli ag un cynllun datblygu unigol (CDU) statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY.

7.15 Ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol fydd yn cynnal y CDUau. Y disgwyl yw y bydd y plant a'r bobl ifanc sydd â chynllun anstatudol ar hyn o bryd yn cael CDU a gynhelir gan yr ysgol/sefydliad addysg bellach, ac y bydd y rheini sydd â chynlluniau statudol yn cael un a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

7.16 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.17 Ar ôl rhoi'r CDUau ar waith, ni fyddai unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol yn gysylltiedig â’u datblygu a’u hadolygu[14]. Mae'r diffiniad arfaethedig ar gyfer ADY yn debyg i'r diffiniadau presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu[15]. Dylai nifer y dysgwyr a fyddai ag ADY, felly, fod yr un fath â'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ar hyn o bryd.

7.18 Byddai defnyddio'r term 'ychwanegol' mewn perthynas ag anghenion dysgu yn helpu i osgoi'r stigma sy'n gysylltiedig â'r term 'arbennig' ac yn symud y ffocws i'r cymorth ychwanegol y mae ei angen ar blant a phobl ifanc i gael addysg.

7.19 Byddai pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael eu trin yn yr un ffordd, pa mor ddifrifol bynnag yw eu hangen. Byddai hawl gan bob dysgwr yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ac mewn ysgolion (gan gynnwys ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir) a sefydliadau

[14] Fodd bynnag, mae’n bosibl y gallai fod yna gostau rheolaidd ychwanegol o £23,200 i sefydliadau addysg bellach yn sgil ymateb i apelau gan bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac anawsterau dysgu dwys a lluosog o ganlyniad i ehangu’r hawl i apelio i TAAAC i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY sy’n mynychu addysg bellach.
[15] Gweler yr adran ar gyflwyno’r term Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y memorandwm esboniadol.

addysg bellach, y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt, i gael cynllun statudol, y CDU.

7.20 Byddai cyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer pob person ifanc ag ADY yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio'n fwy ar nodi angen dysgwr a'i gefnogi yn gynnar. Gallai ymyrraeth gynnar arwain at arbed costau drwy, er enghraifft, gadw'r anghenion rhag cynyddu.

7.21 Yn ogystal, bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar hyn o bryd). Byddai opsiwn 2, drwy ymestyn yr hawl i apelio i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini mewn darpariaeth ôl-16, yn cyflwyno hawliau apelio tecach i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

7.22 Dylai'r prosesau a'r arferion a gyflwynir i gefnogi CDUau helpu i gyflwyno dull mwy effeithlon a hyblyg o asesu ac adolygu. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gymryd rhan mewn asesiadau ac adolygiadau dim ond lle byddai eu mewnbwn o fudd i'r dysgwr[16]. Mae yna botensial, felly, i arbed costau o ran amser proffesiynol a'r amser mae'n ei gymryd i drefnu a chydlynu cyfarfodydd asesu ac adolygu.

7.23 Dylai dysgwyr a'u teuluoedd hefyd fod ar eu hennill yn sgil llai o oedi wrth gynllunio a/neu adolygu cynlluniau, gan y bydd yn haws trefnu cyfarfodydd lle gwahoddir llai o broffesiynolion.

7.24 Bydd cael un cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn cael gwared ar y pwysau sy'n dod gan rieni ar hyn o bryd i gadw'r ddarpariaeth mewn datganiad anghenion addysgol arbennig ar ôl i amcanion y cynllun gael eu cyflawni a bod dim gwarant am yr un lefel o ddarpariaeth bellach. Mae'r pwysau hyn yn deillio o bryder ynghylch colli hawl i gynllun statudol os lleiheir y ddarpariaeth. Bydd cael gwared ar y rhaniad presennol rhwng darpariaeth

[16] Ar hyn o bryd, wrth gynnal asesiad, rhaid i awdurdod lleol ofyn am gyngor rhiant y plentyn, y pennaeth (neu'r unigolyn cyfatebol), yr awdurdod iechyd. Mae'r rheini, yn eu tro, yn gorfod cael cyngor ymarferwr meddygol sydd wedi'i gofrestru'n llawn, seicolegydd addysg, awdurdod gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw gyngor arall y mae'r awdurdod yn ei ystyried yn briodol at ddiben cynnal asesiad boddhaol (gweler Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 (2002 Rhif 152)).

statudol ar gyfer yr anghenion mwyaf cymhleth a darpariaeth anstatudol ar gyfer dysgwyr ag anghenion llai cymhleth yn goresgyn y pryder hwn.

7.25 Y disgwyl yw y bydd cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng darpariaeth statudol ac anstatudol yn arwain at ddull mwy hyblyg o gynllunio, a allai leihau'r gost a chynyddu effeithiolrwydd gan y gellid targedu'r gwasanaethau yn well yn ôl anghenion y dysgwr.

7.26 Bydd cael un cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc yn hwyluso mwy o gysondeb o ran arferion a phrosesau ADY, a bydd pob ymarferwr yn gweithredu o fewn un system, ar draws y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac addysg bellach.

7.27 Yn ogystal, gallai creu un cynllun wella'r gwaith cynllunio o ran y broses bontio rhwng gwahanol gamau addysg - y blynyddoedd cynnar, yr ysgol ac addysg bellach - gan mai'r disgwyl yw y bydd un cynllun yn hyrwyddo dilyniant y broses gynllunio. O dan y system bresennol, ceir amryw o gynlluniau sy'n adlewyrchu gwahanol gamau addysg. Dylai un cynllun hwyluso darpariaeth lyfn, ddi-dor.

7.28 Dylai proses bontio lyfn rhwng camau addysgol eglur helpu i atal canlyniadau pontio gwael, lle caiff y manteision a gafodd dysgwyr yn ystod eu plentyndod eu tanseilio wrth iddynt dyfu'n oedolion.

**Risgiau**

7.29 Gallai cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â hawl statudol i ddarpariaeth arwain at fwy o bwysau am ddarpariaeth.

7.30 O dan opsiwn 2, bydd nifer y bobl ifanc sydd â chynllun statudol yn cynyddu o 13,218 i 107,668[17]. Gallai cyfran o'r 94,350 o blant a phobl ifanc ychwanegol a/neu eu rhieni ddisgwyl mwy gan gynllun statudol nag yr oeddent yn ei ddisgwyl gan eu cynllun anstatudol blaenorol, a herio penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth.

7.31 Gallai hyn arwain at fwy o anghytuno ynghylch y ddarpariaeth a nodir yn y CDUau a gynhelir gan ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Yn yr achosion

[17] Ar sail ffigurau 2015/16 a'r rhagdybiaeth y caiff pob person ifanc y nodwyd ar hyn o bryd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig eu nodi wedyn fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

hynny, bydd yna oblygiadau o ran cost[18]. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod y risg yn isel am ddau reswm. Yn un peth, cyflwynir cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.[19] Yn ail, fel rhan o'r cynnig dysgu proffesiynol, mae datblygu'r gweithlu yn cynnwys hyfforddiant ar nodi'r addysg sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ar wahaniaethu rhwng elfennau'r addysgu hwnnw.

[18] Nid oes disgwyl apeliadau ychwanegol i dribiwnlysoedd gan fod y Bil yn sefydlu darpariaethau ynghylch datrys anghytundebau sy'n sicrhau, lle ceir anghytundeb ynghylch CDU neu ei ddarpariaeth, y caiff y mater ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf leol bosibl.

[19] Mae adran 6 y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod sylwadau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn elfen graidd o'r system newydd ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'u rhieni, yn chwarae rhan mor lawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gânt.

## Datrys anghydfodau

7.32 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi *neu* ddatrys anghydfodau mewn perthynas â phenderfyniadau am ddatganiadau.

7.33 Yn fwy cyffredinol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau am ddarpariaeth addysgol arbennig rhwng ysgolion a phlant a phobl ifanc a'u rhieni.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.34 O dan opsiwn 1, byddai'r dull presennol o ddatrys anghydfod yn parhau.

**Manteision**

7.35 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

7.36 Efallai nad yw'r trefniadau presennol mor effeithlon ag y gallent fod gan nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar osgoi anghydfodau. O'r herwydd, gallai anghytundeb y gellid bod wedi'i osgoi greu gwrthdaro a chymryd amser diangen.

**Opsiwn 2: ehangu cwmpas y trefniadau presennol**

7.37 Mae opsiwn 2 yn wahanol i opsiwn 1 mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, caiff y trefniadau presennol eu hehangu i gynnwys pob person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini mewn addysg bellach.

7.38 Yn ail, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi *a* datrys anghydfodau. Ar hyn o bryd, mae gofyn i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi *neu* ddatrys anghydfodau.

7.39 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.40 Dylai canolbwyntio ar osgoi a datrys anghytundeb wneud y broses o ddatrys anghydfod yn fwy effeithlon, a dylai leihau'r costau i wasanaethau addysg awdurdodau lleol ac i blant a phobl ifanc a'u rhieni drwy leihau'r achosion lle mae anghytundeb yn gwaethygu, gan gynnwys osgoi sefyllfaoedd lle bydd yn rhaid mynd i'r tribiwnlys.

7.41 Mae un awdurdod lleol sydd wedi creu rôl ar gyfer swyddog cymorth teuluol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol fel ffordd o osgoi anghytundebau wedi gweld cwymp sylweddol yn nifer yr apeliadau i'r tribiwnlys.

7.42 Mae'r swyddog cymorth teuluol hwn yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth gydag asesiadau, datganiadau ac adolygiadau blynyddol, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chefnogaeth yn y cyfarfodydd hynny[20].

7.43 Dylai plant a phobl ifanc hefyd elwa yn sgil dull mwy effeithlon a llai ffurfiol o ddatrys anghytundeb.

**Risgiau**

7.44 Gallai'r gofyniad i sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi yn ogystal â datrys anghydfod gynyddu'r costau. Lle na weithredir hyn yn effeithiol, mae yna risg y bydd yna gynnydd yn y costau heb yr arbedion disgwyliedig yn sgil osgoi trefniadau drud datrys anghydfod neu dribiwnlys.

---

[20] http://fis.carmarthenshire.gov.uk/eng/aln_support_e.htm

### Cyfrifoldeb am asesu anghenion pobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed ac am sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol

7.45 Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw asesu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dros 16 oed sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau, a sicrhau darpariaeth addysg ôl-16 arbenigol i ddysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf difrifol. Mae Gyrfa Cymru yn cynnal asesiadau ar ran Gweinidogion Cymru ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau lleoliadau ar ran Gweinidogion Cymru.

7.46 Pan fydd person ifanc yn gadael yr ysgol ac yn mynd i addysg ôl-16, mae'r canlynol yn digwydd:

- fel rhan o'r broses adolygu a phontio flynyddol, bydd ysgolion, sefydliadau addysg bellach a/neu golegau arbenigol annibynnol yn darparu gwybodaeth am y dysgwr i Gyrfa Cymru
- mae Gyrfa Cymru yn defnyddio'r wybodaeth wrth asesu anghenion addysgol arbennig y dysgwr ac wrth lunio'r cynllun dysgu a sgiliau
- lle bydd gan berson ifanc anghenion cymhleth a bod angen cymorth darpariaeth ôl-16 arbenigol, bydd Gyrfa Cymru yn gwneud cais i Weinidogion Cymru ei ystyried
- mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau a chyllido darpariaeth arbenigol ôl-16.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.47 O dan opsiwn 1, byddai'r cyfrifoldebau presennol o ran asesu anghenion a sicrhau addysg ôl-16 arbenigol yn parhau.

**Manteision**

7.48 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

7.49 O dan y trefniadau presennol, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu anghenion ac am sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 neu 19 oed lle mae gan y person ifanc ddatganiad. Yna, mae

swyddogion Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb ar ran Gweinidogion Cymru.

7.50 Mae risg i'r wybodaeth y mae awdurdod lleol wedi'i chasglu am y dysgwr yn ystod ei yrfa ysgol gael ei cholli yn ystod y cyfnod pontio. Yn wahanol i awdurdodau lleol, nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Gyrfa Cymru wedi datblygu perthynas gyda'r person ifanc ac felly mae'r wybodaeth sydd ganddynt i seilio penderfyniadau arni yn gyfyngedig.

7.51 Yn ogystal, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae perthynas y naill ochr a'r llall yn dod i ben ac mae'n rhaid datblygu perthynas newydd. Gall hyn fod yn rhwystredig i bobl ifanc a'u rhieni.

**Opsiwn 2: pennu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY**

7.52 O dan opsiwn 2, lle mae gan ddysgwyr CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, byddai'r cyfrifoldeb am asesu anghenion a sicrhau darpariaeth arbenigol ôl-16 yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol. Byddai'r gyllideb bresennol a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gynllunio a sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol yn cael ei throsglwyddo i awdurdodau lleol wrth iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. Ni fydd costau ychwanegol i awdurdodau lleol, felly.

7.53 Yn ogystal, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi rhestr o golegau ôl-16 arbenigol annibynnol.

7.54 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a darparwyr ôl-16 i nodi'r ddarpariaeth y mae ei hangen i fodloni anghenion y dysgwr, ac i sicrhau ei bod ar gael. Ni fyddai awdurdodau lleol yn gallu rhoi person ifanc mewn coleg nad yw ar y rhestr o golegau arbenigol annibynnol a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

7.55 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.56 Byddai'r cydberthnasau presennol yn cael eu cadw ac ni fydd yr wybodaeth y mae'r awdurdod lleol wedi'i chasglu am y person ifanc yn cael ei cholli pan aiff i addysg bellach.

7.57 Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol yn galluogi adrannau addysg awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i gydweithio wrth ddatblygu'r ddarpariaeth a negodi'r gost. Yn y ffordd hon, mae'r awdurdod lleol mewn sefyllfa well na swyddogion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu pecynnau cymorth lleol.

7.58 Yn ogystal, byddai ymgymryd â rôl uniongyrchol yn caniatáu i'r awdurdod lleol gydweithio â sefydliadau addysg bellach lleol wrth ddatblygu darpariaeth leol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Gallai hyn leihau'r arfer o'u lleoli mewn sir arall, gan sicrhau arbedion yn sgil hynny. Byddai pobl ifanc a'u teuluoedd yn elwa ar opsiwn darpariaeth leol.

7.59 Byddai rhestr Gweinidogion Cymru o golegau arbenigol annibynnol yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ac i bobl ifanc ynghylch safonau ac ansawdd yr addysgu.

**Risgiau**

7.60 Ar hyn o bryd, caiff y prosesau asesu a chyllido eu cynnal gan gyrff gwahanol - Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru. O dan opsiwn 2, yr awdurdodau lleol fyddai'n cyllido ac yn asesu. Mae yna risg y bydd gwrthrychedd yr asesu yn llai sicr nag ar hyn o bryd; hynny yw, gallai'r gost fod yn ffactor pwysicach yn y penderfyniad nag y mae ar hyn o bryd.

7.61 Mae'r risg hon yn isel, gan fod modd dal awdurdodau lleol yn atebol am benderfyniadau a wnânt o ran darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

7.62 Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y meini prawf ar gyfer lleoliadau addysg bellach arbenigol yn glir.

7.63 Mae yna risg y caiff yr wybodaeth y mae Gyrfa Cymru wedi'i chasglu am golegau arbenigol annibynnol ei cholli, o ran y cymorth y gallant ei ddarparu i grwpiau penodol o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Disgwylir i'r risg hon fod yn isel a gellir ei chadw'n isel drwy sicrhau bod Gyrfa Cymru yn trosglwyddo gwybodaeth i awdurdodau lleol.

## Cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig

7.64 Ar hyn o bryd, mae yna ddwy system ddeddfwriaethol wahanol ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru o safbwynt anghenion addysgol arbennig[21].

7.65 Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol yn y sector annibynnol gael ei gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Dylai'r ysgol annibynnol hefyd gofrestru os yw'n bwriadu derbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

7.66 Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol i gael derbyn plant â datganiad anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol. Lle cymeradwyir ysgolion annibynnol i gael derbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol, cânt eu monitro bob blwyddyn gan Estyn.

7.67 Lle nad yw ysgol annibynnol wedi'i chymeradwyo i dderbyn plant â datganiad anghenion addysgol arbennig, mae modd i awdurdod lleol geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli un plentyn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol. Ni fydd Estyn yn monitro'r lleoliadau hynny bob blwyddyn.

7.68 Mae modd i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i dalu am le i blentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol, nad yw wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Cymru, cyhyd ag y bydd yr awdurdod sy'n cynnal y datganiad yn fodlon bod y trefniadau yn addas.

### Opsiwn 1: gwneud dim

7.69 O dan opsiwn 1, bydd y trefniadau presennol ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol sydd am dderbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn parhau.

### Manteision

[21] Mae adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gofrestru mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig, ac mae adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru er mwyn derbyn plentyn sydd â datganiad AAA.

7.70 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

7.71 Bydd y ddwy system ddeddfwriaethol wahanol sydd, i ryw raddau, yn cyflawni'r un gwaith â'i gilydd mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig, yn parhau.

7.72 O dan y trefniadau presennol, caiff ysgolion annibynnol, sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru i dderbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol, dderbyn unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd â datganiad, beth bynnag yw lefel benodol y ddarpariaeth sy'n ofynnol.

7.73 Yn ogystal, byddai'n dal i fod yn bosibl i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gael eu lleoli mewn ysgol annibynnol nad yw'n cael ei monitro gan Estyn. Byddai hyn yn digwydd lle nad oedd gan ysgol gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i dderbyn plant a phobl ifanc yn gyffredinol sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, ond lle roedd yr awdurdod lleol wedi cael caniatâd i leoli plentyn â datganiad anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

**Opsiwn 2: diwygio'r system ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig**

7.74 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi cofrestr o ysgolion annibynnol.

7.75 Fel rhan o'r broses gofrestru, bydd gofyn i ysgolion nodi'r mathau o angen ychwanegol y gallant ddarparu ar eu cyfer. Cyn rhoi plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon y gall yr ysgol gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn bodloni anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc, fel yr amlinellir yn ei CDU.

7.76 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.77 Byddai cyhoeddi cofrestr ar gyfer ysgolion annibynnol, ynghyd â newid y system gofrestru, yn sicrhau y byddai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r ysgol yn gallu ei chynnig yn cael ei nodi'n glir er mwyn i wasanaethau addysg awdurdodau lleol a rhieni dysgwyr sydd ag ADY ei gweld.

7.78 Byddai gwybodaeth gliriach ynghylch yr hyn y gall ysgol ei ddarparu yn lleihau'r risg y gallai dysgwyr ag ADY gael eu lleoli'n amhriodol mewn ysgol annibynnol.

7.79 Mae opsiwn 2 yn sicrhau lefel o sicrwydd ar gyfer yr awdurdod lleol a rhieni o ran gallu'r ysgol annibynnol i fodloni anghenion y dysgwr, yn unol â'r hyn a nodir yn ei CDU. Yn ogystal, bydd pob ysgol annibynnol sydd wedi cofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu monitro bob blwyddyn gan Estyn, gan roi sicrwydd i bob plentyn, person ifanc a'u rhieni am ansawdd a safonau addysgu a darpariaeth yr ysgol.

**Anfanteision**

7.80 Nid oes unrhyw anfanteision i opsiwn 2.

## Sail statudol i gydlynwyr cymorth anghenion addysgol arbennig mewn addysg

7.81 Ar hyn o bryd, drwy gydlynydd anghenion addysgol arbennig yr ydym yn cydlynu cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion. Mae'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth anghenion addysgol arbennig i blant, gan gynnwys hyfforddi staff eraill, cydlynu ag ystod o asiantaethau ac â theuluoedd, addysgu a chefnogi plant a phobl ifanc, a chynnal cofnodion.

7.82 Mae casgliadau'r ymchwil yn dynodi bod darpariaeth anghenion addysgol arbennig sy'n cael ei chydlynu'n effeithiol mewn ysgol brif-ffrwd yn un o'r prif ffactorau o ran pa mor effeithiol yw darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig[22].

7.83 Er bod rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn rôl gydnabyddedig, ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i leoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion y brif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion na sefydliadau addysg bellach ddynodi aelod o'u staff i gyflawni'r rôl.

7.84 Nid oes sail orfodol i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac nid yw Gweinidogion Cymru felly yn gallu rhagnodi ar hyn o bryd sut y dylid mynd ati i gyflawni rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r cod yn amlinellu prif gyfrifoldebau *posibl* rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, ond nid oes llawer o gyfarwyddyd am yr amser a'r gefnogaeth y dylid eu rhoi i'r rôl. Nid oes diffiniad clir o'r rôl, felly, ar lefel leol na chenedlaethol, a chyflawnir y rôl mewn sawl ffordd.

7.85 Nid oes gan sefydliadau addysg bellach Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig. Yn hytrach, mae gwasanaethau cymorth penodol i sefydliadau addysg bellach ar gael i bobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg bellach.

[22] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld7255%20-%20written%20response%20to%20the%20enterprise%20and%20learning%20committee,%20rapporteur%20group%20report%20on%20support%20for%20-08102008-100412/gen-ld7255-e-english.pdf

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.86 O dan opsiwn 1, byddai'r dull presennol o gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau; hynny yw, ni fyddai unrhyw ofyniad statudol i ysgolion, na lleoliadau addysg eraill, benodi Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig nac unrhyw ofyniad i sefydliadau addysg bellach sefydlu gwasanaethau cymorth.

**Manteision**

7.87 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

7.88 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i leoliadau addysg benodi Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig. Er bod yna rai mewn ysgolion, nid oes gweithdrefn gyson ledled Cymru o ran pwy ddylai fod yn Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, pa gymwysterau ddylai fod ganddo, a sut y dylid cyflawni'r rôl. Er bod Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn athrawon sydd wedi cymhwyso yn gyffredinol, mae hefyd yn bosibl i Gydlynwyr beidio â bod yn athrawon sydd wedi cymhwyso. Er enghraifft, gallai fod yn gynorthwy-ydd addysgu lefel uwch neu'n aelod o'r staff nad ydynt yn addysgu.

7.89 Er mwyn cyflawni'r rôl yn effeithiol, mae angen hyfforddiant penodol ar Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ym maes asesu ac addysgu pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yna ddiffyg hyfforddiant penodol a diffyg cyfatebol, felly, yn y Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig sydd â'r sgiliau angenrheidiol.

7.90 Mae yna gwestiwn ynghylch i ba raddau y mae athrawon wedi'u hyfforddi i asesu ac addysgu pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (gweler, er enghraifft, Rose, 2010). Mewn astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, daeth Holtom et al (2010)[23] i'r casgliad bod staff ym maes addysg yn gyffredinol hyderus yn eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn perthynas

[23] http://dera.ioe.ac.uk/22888/1/150330-sen-en.pdf

ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth yn awgrymu, er bod asesu a gwahaniaethu yn eithriadau pwysig,[24], fod yna sail weddol dda i'r hyder hwn.

7.91 Gall diffyg hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac athrawon olygu nad oes gan rai ysgolion ddigon o gapasiti i ddelio ag anghenion addysgol arbennig, gan arwain at asesiadau diangen gan yr awdurdod lleol (gweler, er enghraifft, Rose, 2010).

7.92 Yn ogystal, mae rhieni wedi mynegi pryderon ynghylch anghysondeb yn effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaeth Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ysgol eu plant[25].

[24] Dull addysgol yw gwahaniaethu sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon deilwra eu dysgu, eu haddysgu a'u hasesu, gan addasu'r cwricwlwm yn ôl anghenion y plant, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn hytrach na disgwyl i'r disgyblion addasu i'rcwricwlwm (Cole, R, (2008), *Educating Everybody's Children: diverse strategies for diverse learners*, Cymdeithas Goruchwylio a Datblygu'r Cwricwlwm, Google Books, http://books.google.co.uk/books?id=ixmW-porsOAC; Rogers, C. (2007), *Experiencing an Inclusive Education: parents and their children with special educational needs, British Journal of Sociology of Education*, 28, 1, tud 55-68).

[25] Llywodraeth Cymru (2008) Datganiadau neu Rywbeth Gwell?: crynodeb o'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf. Ewch i: http://gov.wales/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/ellscomitteerecommendations/summaryprogressenglish?lang=en

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl cydlynydd cymorth ADY statudol**

7.93 O dan opsiwn 2, byddai rôl statudol yn cael ei chyflwyno ar gyfer cydlynydd ADY. Byddai'n ofynnol i bob lleoliad addysg, ac eithrio ysgolion arbennig, benodi Cydlynydd ADY.

7.94 Mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar a gynhelir,[26] bydd y Cydlynydd ADY yn athro sydd wedi cymhwyso. Mewn sefydliadau addysg bellach, bydd yn ymarferydd addysgu.

7.95 Yn ogystal, bydd yn rhaid i bob Cydlynydd ADY fod wedi dilyn rhaglen hyfforddiant ar lefel meistr.

7.96 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.97 Bydd y gofyniad i benodi Cydlynydd ADY yn ehangu arfer sydd eisoes yn digwydd. O dan opsiwn 2, bydd gofyn i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach, benodi Cydlynydd ADY.

7.98 Byddai gwneud rôl y Cydlynydd ADY yn un statudol yn sicrhau bod y rôl wedi ei diffinio'n glir yn y cod, a bod y rôl gydlynu yn cael ei chyflawni mewn ffordd gyson ledled Cymru.

7.99 Bydd cymhwyster penodol ar lefel meistr yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen er mwyn i'r Cydlynydd ADY gyflawni cyfrifoldebau'r rôl yn effeithiol, gan gynnwys hyfforddi a chefnogi staff eraill.

7.100 Dylai rôl statudol y Cydlynydd ADY, ynghyd â mentrau polisi eraill, gan gynnwys datblygu'r gweithlu drwy'r cynnig dysgu proffesiynol, gynyddu capasiti ysgolion i ddelio ag ADY ac osgoi asesiadau diangen gan yr awdurdod lleol.

[26] Ni fydd yn ofynnol i leoliadau annibynnol y blynyddoedd cynnar benodi Cydlynydd ADY, ond bydd yn ofynnol iddynt gyfeirio pobl ifanc ag ADY i'r awdurdod lleol.

**Anfanteision**

7.101 Nid oes unrhyw anfanteision i opsiwn 2.

**Risgiau**

7.102 Mae yna risg y gallai'r gofynion newydd o ran Cydlynwyr ADY gael eu hystyried yn rhy feichus. Gallai hyn wneud i bobl deimlo nad ydynt am barhau i fod yn Gydlynydd ADY neu ymgymryd â'r swydd o gwbl.

7.103 Fodd bynnag, ystyrir mai risg fach yw hon gan y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i sicrhau na fydd y rôl yn rhy feichus. Er enghraifft, bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac athrawon i ddatblygu rôl y Cydlynydd ADY; bydd yn ymgynghori ar fanylion y rôl sydd wedi'u nodi yn y rheoliad; a bydd yn darparu hyfforddiant a chymorth i athrawon mewn perthynas â'r cynnig dysgu proffesiynol.

### Sail statudol i gydlynwyr strategol ym maes iechyd

7.104 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i fyrddau iechyd benodi un prif unigolyn neu un pwynt cyswllt i fod â chyfrifoldeb strategol am ddarpariaeth iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.105 O dan opsiwn 1, byddai'r ddarpariaeth bresennol yn parhau; hynny yw, byddai byrddau iechyd yn parhau i fabwysiadu amrywiol ddulliau o ddatblygu darpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn strategol, eu cydlynu a'u goruchwylio ac ni fyddai un mecanwaith safonol ar gyfer sicrhau ansawdd perfformiad neu i ysgogi gwasanaethau i wella.

**Manteision**

7.106 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

7.107 Er bod byrddau iechyd yn sicrhau darpariaeth anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd, a oruchwylir ac a gydlynir i ryw raddau, nid oes yna rôl arwain ffurfiol. Ni chiff ei goruchwylio'n gyson nac yn strategol, felly, ledled GIG Cymru, ac nid yw o reidrwydd yn cael blaenoriaeth ar lefel ganolog, strategol. Nid oes un rôl glir ac felly nid oes yna deitl swydd na chyfres o gyfrifoldebau sy'n gyffredin i bob bwrdd.

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog meddygol neu glinigol dynodedig**

7.108 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg. Byddai gofyn i fyrddau iechyd benodi prif swyddog o'r fath.

7.109 Yn ôl pob tebyg, bydd yr unigolyn sy'n cyflawni rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn atebol i'r bwrdd. Bydd y rôl yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu fframwaith effeithlon ac effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY, datrys problemau ar lefel leol, cyfeirio materion i'r bwrdd a hwyluso'r broses o fonitro i ba raddau y cydymffurfir â dyletswyddau statudol y bwrdd. Bydd cyfrifoldeb strategol ar y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg i sefydlu systemau effeithlon i sicrhau bod gan y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud ag asesu ADY (gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, pediatreg gymunedol a gwasanaethau anabledd dysgu, timau gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol) y sgiliau i gynnal asesiadau priodol, amserol; llunio argymhellion, ar sail tystiolaeth, ar gyfer ymyriadau effeithiol; monitro canlyniadau; sicrhau ansawdd cyngor a meincnodi ar draws byrddau iechyd er mwyn cyfyngu ar unrhyw amrywiaeth o ran arfer neu ddisgwyliadau.

7.110 Bydd y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth iechyd bob dydd ar gyfer ADY yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n effeithiol. Fodd bynnag, dylid dirprwyo elfennau gweithredol y swyddogaeth hon i weithiwr iechyd proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc. Byddai'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn gweithredu fel 'cydlynydd iechyd' ar lefel leol a byddai'n bwynt cyswllt allweddol i blant a phobl ifanc, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol.

7.111 Bydd y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn weithiwr proffesiynol iechyd cofrestredig sydd â chymwysterau clinigol a phrofiad helaeth mewn agwedd ar ofal iechyd sy'n berthnasol i ADY, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i nyrsio meddygol (gofal sylfaenol neu eilaidd), bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd neu iechyd cyhoeddus.

7.112 Y disgwyl yw y caiff un diwrnod yr wythnos ei neilltuo i'r rôl am bob 200,000 o’r boblogaeth neu am bob 40,000 o blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyfateb i dair swydd lawnamser ar draws y saith bwrdd iechyd. Ar gyfartaledd, byddai gan bob un o’r saith bwrdd iechyd yng Nghymru weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cyflawni cyfrifoldebau’r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg am ryw ddeuddydd yr wythnos.

7.113 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Manteision**

7.114 Byddai penodi swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg o fewn y byrddau iechyd yn hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd effeithiol, cydgysylltiedig er mwyn gwella’r deilliannau i blant a phobl ifanc ag ADY, helpu byrddau iechyd i gyflawni eu cyfrifoldebau ADY, a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng byrddau iechyd a’u partneriaid wrth ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY. Byddai'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg hefyd yn sicrhau bod yna strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data am ansawdd, deilliannau a pherfformiad gwasanaethau; symleiddio’r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill o fewn y byrddau iechyd ar gyfer materion ADY. Yn ogystal, dylai penodi swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol i fyrddau iechyd.

Mae disgwyl i'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg ddod â manteision i'r dysgwr gan y byddai'n goruchwylio'r broses o sefydlu ac integreiddio darpariaeth iechyd effeithiol mewn perthynas ag ADY, a thrwy sicrhau gwasanaethau iechyd priodol.

7.115 Y disgwyl yw y bydd cyflwyno rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn arbed costau i fyrddau iechyd gan y bydd yna gydweithio ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, a gallai hynny leihau gwaith ofer.

**Risgiau**

7.116 Er bod byrddau iechyd yn cyflawni cyfrifoldebau'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg mewn ffordd ranedig ar hyn o bryd, ac y byddent felly yn elwa ar fwy o ffocws a threfn, mae yna risg y gallai cyflwyno'r rôl yn ffurfiol olygu costau ychwanegol. Gan fod yr arferion yn amrywio o un bwrdd iechyd i'r llall ar hyn o bryd, ni fu'n bosibl amcangyfrif y costau ychwanegol hyn, os o gwbl. Nid yw'r gost hon yn hysbys felly.

7.117 Mae'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr sydd ag ADY, y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt gan GIG Cymru, eisoes yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, drwy roi ADY ar agenda strategol byrddau iechyd a gwella'r ffordd y mae'r GIG yn rheoli swyddogaethau a chyfrifoldebau ADY, mae'n bosibl y gallai cyflwyno swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig arwain at nodi angen mwy am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Nid oes modd mesur unrhyw gynnydd posibl yn yr angen, ond o fynd ati'n ddi-oed i gyflwyno'r rôl, dylid gallu cynllunio ar gyfer unrhyw angen newydd a'i reoli'n effeithiol. Nid yw'r gost hon yn hysbys felly.

7.118 Mae'r boblogaeth ychwanegol o bobl ifanc 18-24 oed sydd nawr yn rhan o gylch gwaith y system ADY yn grŵp cleientiaid newydd posibl nad ydynt efallai wedi cael unrhyw gymorth dysgu gan y GIG o'r blaen. Nid ydym wedi ymchwilio i hyn eto, ond ni ragwelir y bydd y grŵp yn cynnwys llawer o ddysgwyr na nodwyd bod ganddynt ADY cyn eu bod yn 16 oed.

## Sail statudol dros gydlynwyr y blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol

7.119 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi rôl arweiniol nac un pwynt cyswllt i fod â chyfrifoldeb strategol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.120 O dan opsiwn 1, byddai'r dull darparu presennol yn parhau, hynny yw byddai awdurdodau lleol yn parhau i fabwysiadu dulliau amrywiol o gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol.

Manteision

7.121 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

7.122 Er bod awdurdodau lleol yn cydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc sydd o dan oed ysgol gorfodol, nid oes model cyson na rôl arwain ffurfiol. Nid oes un rôl glir wedi'i chreu, ac felly nid oes un teitl swydd na chyfres benodol o gyfrifoldebau. Yn ogystal, yn aml nid oes un pwynt cyswllt o fewn awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol. Gallai'r diffyg o ran cydlynu dyletswyddau AAA statudol arwain at honiadau o esgeulustod neu niwed i enw da awdurdodau.

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol dynodedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

7.123 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar. Byddai gofyn i bob awdurdod lleol roi'r cyfrifoldeb i un unigolyn (fel yn achos cydlynydd ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach) am gydlynu swyddogaethau awdurdodau lleol o dan y Bil mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt yn mynd i leoliad cyn-ysgol a gynhelir.

7.124 Yn ogystal â chydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn cynnwys:

- Nodi ADY lefel is yn gynnar
- Atal ADY rhag datblygu, hynny yw nodi'r plant y mae yna oedi yn eu datblygiad, a allai droi'n ADY oni bai bod yna ymyriadau cynnar priodol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer

- Sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y sgiliau, y mecanweithiau a'r adnoddau priodol i atal ADY rhag datblygu a chefnogi plant bach sydd ag ADY.

7.125 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Manteision

7.126 Bydd y gofyniad i benodi swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn ehangu'r arfer presennol. O dan opsiwn 2, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol benodi swyddog arweiniol ADY ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

7.127 Bydd creu rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar a sicrhau bod y rôl yn cael ei diffinio'n glir mewn rheoliadau ac yn y cod yn arwain at gysondeb wrth gyflawni'r rôl gydlynu ledled Cymru.

7.128 Bydd hyfforddiant penodol ar gyfer swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn ei gwneud yn bosibl iddynt gyflawni cyfrifoldebau'r rôl yn effeithiol.

7.129 Bydd swyddog arweiniol ADY cymwys ar gyfer y blynyddoedd cynnar hefyd yn helpu i nodi problemau ac ymyrryd yn gynnar, gan helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol i blant, gan gynnwys atal oedi mewn datblygiad rhag troi'n angen dysgu ychwanegol.

Anfanteision

7.130 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg

7.131 O dan y system newydd, lle bydd CDU yn darparu bod math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

7.132 Yn ogystal, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'n rheolaidd eu trefniadau a threfniadau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ardal eu hawdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn ddigonol i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

7.133 Er y bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r graddau y mae eu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg yn bodloni'r galw ar lefel awdurdod, nid oes unrhyw drefniadau ar hyn o bryd i adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y cyflenwir y galw. Nid ydym yn gwybod felly i ba raddau y mae'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg yn cael ei fodloni ledled Cymru.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.134 O dan opsiwn 1, byddai'r arfer presennol yn parhau, hynny yw ni fydd yn ofynnol adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y cyflenwir y galw.

Manteision

7.135 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

7.136 Ni chaiff y graddau y bodlonir y galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ledled Cymru ei asesu fel mater o drefn, ac felly ni fydd yn hysbys. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i wneud penderfyniadau polisi deallus ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg.

**Opsiwn 2: cyflwyno gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg**

7.137 O dan opsiwn 2, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ba raddau y cyflenwir y galw. Byddai gofyn i adolygiad o'r fath gael ei gynnal unwaith bob 5 mlynedd.

7.138 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Manteision

7.139 Cyflwyno gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu i ba raddau y bydd y galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hwyluso'r ffordd i wneud penderfyniadau polisi deallus am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Anfanteision

7.140 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Pwerau penderfynu ynghylch anghytundebau am gynnal cynlluniau

7.141 Ar hyn o bryd, daw cyfrifoldeb awdurdod lleol am ddatblygu a chynnal datganiad person ifanc i ben pan fydd y person ifanc yn gadael yr ysgol.

7.142 Lle bydd person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynd ymlaen i addysg bellach, bydd y sefydliad addysg bellach yn datblygu cynllun coleg ar ei gyfer.

7.143 O dan y system newydd, bydd CDUau yn dilyn y person ifanc o'r ysgol i addysg bellach. Bydd cyfrifoldeb am CDUau a gynhelir gan ysgolion yn trosglwyddo o'r ysgol i'r sefydliad addysg bellach pan fydd y person ifanc yn dechrau ar ei addysg bellach. Ar hyn o bryd, mae 8,905 o bobl ifanc sydd ag anhawster a/neu anabledd dysgu yn mynychu sefydliadau addysg bellach. Mae'n debygol mai cynllun addysg unigol sydd gan y bobl ifanc hyn yn hytrach na datganiad ac, felly, mae'n debygol y cânt gynllun a gynhelir gan y coleg o dan y system newydd.

7.144 Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am rai CDUau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal CDUau y 298 o bobl ifanc sy'n mynychu colegau arbenigol annibynnol a chyfran o CDUau y 120 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Nid yw'n bosibl nodi union nifer y bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Y rheswm am hyn yw nad yw nifer y bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach ac a oedd â datganiad yn yr ysgol yn hysbys. Mae'n bosibl bod gan rhwng 0 a 120 ddatganiad ac, felly, â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi cyrraedd addysg bellach. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rhagdybir bod awdurdodau lleol yn cynnal nifer canol ystod o 60 CDU.

7.145 O dan y system newydd, mae'n bosibl i awdurdodau lleol ofyn i sefydliad addysg bellach ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal cynllun. Byddai hyn yn digwydd mewn amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod modd i'r sefydliad addysg bellach fodloni'n rhesymol anghenion y person ifanc. Fodd

bynnag, nid oes rhaid i'r sefydliad addysg bellach gytuno i gais gan yr awdurdod lleol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Gan na all awdurdodau lleol ymwrthod â'u cyfrifoldeb am gynnal CDU hyd nes i'r sefydliad addysg bellach dderbyn y cyfrifoldeb am ei gynnal, gallai awdurdodau lleol barhau i orfod cynnal y CDUau er nad yw hynny'n briodol.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

7.146 O dan opsiwn 1, lle bo sefydliad addysg bellach yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb am gynnal CDU myfyriwr sy'n cofrestru yn y sefydliad, y mae'r awdurdod lleol o'r farn y byddai'n briodol i'r sefydliad addysg bellach ei gynnal, byddai'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gynnal y CDU.

Manteision

7.147 Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

7.148 O dan opsiwn 1, mae yna risg bod awdurdodau lleol yn cynnal CDUau sy'n amhriodol iddynt eu cynnal. Byddai hyn yn gosod baich a chost diangen ar awdurdodau lleol ac yn tanseilio effeithiolrwydd y system o ran rhoi'r cyfrifoldeb am gynnal cynlluniau i'r corff priodol, boed yn ysgol, yn sefydliad addysg bellach neu'n awdurdod lleol.

**Opsiwn 2: cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU**

7.149 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU. Câi'r pŵer hwn ei ddefnyddio mewn achosion lle na all awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach gytuno ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU.

7.150 Lle bydd sefydliad addysg bellach yn gwrthod cais gan awdurdod lleol i dderbyn cyfrifoldeb am gynnal CDU, byddai'r awdurdod lleol yn gallu cyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru benderfynu yn ei gylch.

7.151 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Manteision

7.152 Mae opsiwn 2 yn darparu ffordd o ddatrys anghytundebau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynnal CDU. Gallai hyn leihau, felly, unrhyw faich diangen ar awdurdodau lleol o ran cynnal CDUau.

Anfanteision

7.153 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

# 8. Costau a manteision

## Cyflwyniad

8.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a amlinellwyd ym mhennod 6. Mae'r costau a'r manteision hyn wedi'u seilio ar sylwadau prif randdeiliaid[27], gwaith a wnaed gan Holtom et al (2012)[28] a Deloitte (2015)[29], a dadansoddiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

8.2 Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil dros dro (Holtom et al, 2012) i gostau a manteision diwygio anghenion addysgol arbennig yn statudol. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried cost mentrau a gynhelir yn ystod cyfnod treialu'r diwygiadau. Lle bo'n bosibl, mae'r costau wedi'u tynnu o'r gwaith hwn fel sail i gostau a manteision y cynigion a nodir yn y Bil.

8.3 Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Deloitte i gynnal adolygiad er mwyn ymchwilio i'r costau sydd ynghlwm wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau a/neu anableddau dysgu o dan y fframweithiau deddfwriaethol presennol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm y costau a'r costau unigol sy'n gysylltiedig ag:

- asesu angen;
- darparu cefnogaeth;
- cynnal adolygiadau;
- anghydfodau ac apelau.

8.4 Aeth Deloitte ati i ddadansoddi'r data a oedd ar gael i'r cyhoedd ac i gasglu data gan brif randdeiliaid megis awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion a Gyrfa Cymru (gweler tabl 1 islaw).

[27] Gan gynnwys rhanddeiliaid o TAAAC, Estyn, Gyrfa Cymru, CLlLC a SNAP Cymru.
[28] Holtom et al (2012) Programme of Action Research to Inform the Evaluation of the Additional Learning Needs Pilot: interim report on the costs of the statutory reform of special educational needs provision.
[29] Deloitte (2015) Archwiliad o ddarparu cyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau a/neu anableddau dysgu(Llywodraeth Cymru: Caerdydd). http://gov.wales/docs/dcells/publications/150706-final-report-en.pdf

8.5 Mae’r data ariannol a gasglwyd gan Deloitte yn cyfeirio at 2011-12 i 2013-14. Defnyddiwyd y ffigurau hyn drwy gydol yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, lle mai dyna’r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae prisiau 2013-14 hefyd wedi’u nodi ar sail prisiau heddiw (2016-17) gan ddefnyddio’r datchwyddydd CMC. Ac er mwyn cymharu, mae’r costau i gyd wedi’u nodi ar sail prisiau 2016-17.

Tabl 1: ffynonellau data

| **Corff** | **Ffynhonnell y data** |
|---|---|
| Byrddau iechyd | Gwariant cyllideb rhaglen y GIG[30] |
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | Gwariant alldro refeniw[31]<br>Data arolygon a gasglwyd gan Deloitte |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol | Gwariant alldro refeniw[32] |
| Sefydliadau addysg bellach | Cyfanswm dyraniadau cyllid sefydliadau addysg bellach<br>Cyfanswm dyraniadau cyllid y brif ffrwd a chyllid ar wahân<br>Data arolygon a gasglwyd gan Deloitte |
| Ysgolion | Datganiadau alldro Adran 52[33]<br>Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD)[34]<br>Data arolygon a gasglwyd gan Deloitte |
| Gyrfa Cymru | Data arolygon a gasglwyd gan Deloitte |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Adroddiadau blynyddol TAAAC[35] |

8.6 Yn ogystal â'r ffynonellau uchod, defnyddiwyd data o gofnod dysgu gydol oes Llywodraeth Cymru[36].

[30] http://gov.wales/statistics-and-research/nhs-expenditure-programme-budgets/?skip=1&lang=cy
[31] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Outturn
[32] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Outturn
[33] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Delegated-School-Outturn
[34] http://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy
[35] http://sentw.gov.uk/about/areports/?lang=en
[36] Ystadegau ar ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, ac eithrio'r rheini mewn ysgolion, ond gan gynnwys y rheini sydd mewn sefydliadau addysg bellach, darpariaeth arall dysgu seiliedig ar waith a darpariaeth dysgu cymunedola gasglwyd drwy gofnod dysgu gydol oes Llywodraeth Cymru. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Lifelong-Learning-Wales-Record

8.7 Fodd bynnag, nid oedd modd i Deloitte gasglu'r holl ddata sy'n ofynnol i asesu costau a manteision y cynigion a nodir yn y Bil. Y rheswm am hyn, i raddau helaeth, oedd nad yw'n ofynnol i ysgolion, colegau na byrddau iechyd yng Nghymru adrodd ar y symiau sy'n cael eu gwario ar anghenion addysgol arbennig a/neu ar anawsterau a/neu anableddau dysgu.

8.8 Yn ogystal, er bod awdurdodau lleol yn adrodd ar wariant anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd drwy adroddiadau alldro refeniw i Lywodraeth Cymru (a bod gwariant anghenion addysgol arbennig yn is-gategori o fewn y rheini), nid yw'r gwariant wedi'i rannu yn ôl gwaith asesu, adolygu, darpariaeth ac anghydfodau.

8.9 Lle nad yw'r union ffigurau ar gael neu lle na chawsant eu hamcangyfrif o'r blaen, mae swyddogion wedi amcangyfrif y costau a'r manteision.

8.10 Dylid ystyried, felly, mai'r costau a nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn yw'r amcangyfrifon gorau ar sail y casgliadau a nodwyd gan Holtom et al (2012), Deloitte, amcangyfrifon swyddogion a'r dystiolaeth a oedd ar gael. Yn achos nifer o'r elfennau, bu'n rhaid rhagdybio er mwyn llunio amcangyfrifon. Yn gyffredinol, lle gwnaed hyn, mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf er mwyn lleihau'r perygl o ffigurau annilys.

8.11 Mewn rhai achosion, nid oedd yn briodol talgrynnu'r gost a amcangyfrifwyd i'r £100 agosaf, ee lle mae'r gost a amcangyfrifwyd yn llai na £50 a byddai ei thalgrynnu i'r £100 agosaf yn cael gwared ar y gost. Ni thalgrynnwyd cyfanswm costau opsiynau 1 a 2, felly, fel y maent wedi'u nodi yn Nhabl 70 a Thabl 71, i'r £100 agosaf.

8.12 Mae Tabl 2 islaw yn dangos, yn 2015-16, fod yna 477,549 o blant a phobl ifanc yng Nghymru mewn ysgolion a gynhelir[37], ysgolion annibynnol neu'n cael eu haddysgu gan yr awdurdod lleol (addysg heblaw yn yr ysgol). O'r rhain, roedd gan 94,350 (20%) anghenion addysgol arbennig a oedd yn cael eu cefnogi drwy gynllun anstatudol (gweithredu yn y blynyddoedd cynnar,

[37] Gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir.

gweithredu gan yr ysgol, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy neu gweithredu gan yr ysgol a mwy); ac roedd gan 13,318 (3%) anghenion addysgol arbennig a oedd yn cael eu cefnogi drwy gynllun statudol (datganiad anghenion addysgol arbennig). Yn 2015-16, roedd anghenion addysgol arbennig ar gyfanswm o 107,668 o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg yng Nghymru.

Tabl 2: Nifer y plant a'r bobl ifanc ag AAA mewn lleoliadau addysg yng Nghymru

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliadau a gynhelir** | | | | |
| Cyfanswm nifer y disgyblion mewn lleoliad a gynhelir[38] | 465,943 | 464,868 | 465,081 | 466,555 |
| Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 89,940 | 91,053 | 92,773 | 92,709 |
| Â datganiad | 13,098 | 12,738 | 12,530 | 12,434 |
| **Cyfanswm nifer ag AAA mewn lleoliadau a gynhelir** | **103,038** | **103,791** | **105,303** | **105,143** |
| **Annibynnol** | | | | |
| Cyfanswm nifer y disgyblion mewn lleoliad annibynnol[39] | 8,929 | 8,862 | 8,603 | 8,880 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy[40] | 1,009 | 1,043 | 1,092 | 813 |
| Â datganiad[41] | 343 | 386 | 388 | 412 |
| **Cyfanswm nifer ag AAA mewn lleoliadau annibynnol** | **1,352** | **1,429** | **1,480** | **1,225** |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol[42]** | | | | |
| Cyfanswm nifer y dysgwyr yn derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol | 2,577 | 2,577 | 2,367 | 2,114 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 557 | 589 | 635 | 828 |
| Â datganiad | 365 | 443 | 424 | 472 |
| **Cyfanswm nifer ag AAA yn derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol** | **922** | **1,032** | **1,059** | **1,300** |
| Cyfanswm nifer y disgyblion | 477,449 | 476,307 | 476,051 | 477,549 |
| Cyfanswm yn derbyn cefnogaeth gan Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 91,506 | 92,685 | 94,500 | 94,350 |
| Cyfanswm â datganiad | 13,806 | 13,567 | 13,342 | 13,318 |
| **Cyfanswm nifer sy'n cael Darpariaeth AAA** | **105,312** | **106,252** | **107,842** | **107,668** |

Ffynhonnell: StatsCymru[43]

[38] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-agegroup
[39] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Independent-Schools/Pupils/number-by-localauthorityregion-agegroup
[40] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Independent-Schools/Special-Educational-Needs/senbutnostatement-by-year
[41] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Independent-Schools/Special-Educational-Needs/senstatement-by-year
[42] http://gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy

8.13 Mae nifer y plant a'r bobl ifanc y cofnodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig rhwng 2011-12 a 2015-16 wedi bod yn gymharol sefydlog ar 23% o'r boblogaeth disgyblion. Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd nifer y plant a'r bobl ifanc yng Nghymru sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig hefyd yn gymharol sefydlog ar ryw 3% o'r boblogaeth disgyblion.

8.14 Mae Tabl 3 isod yn dangos, yn 2014-15, fod yna 73,195 o blant a phobl ifanc hyd at 25 oed wedi'u cofrestru yn sefydliadau addysg bellach y brif ffrwd. O'r rhain, roedd 9,025 (12%) yn nodi bod ganddynt anawsterau a/neu anableddau dysgu[44] ac roedd 120 (0.2%) o’r rheini yn nodi bod ganddynt anawsterau dysgu dwys a lluosog[45]. Yn ogystal, roedd yna 298 o bobl ifanc mewn colegau arbenigol annibynnol a gafodd ddarpariaeth arbenigol i ddiwallu eu hanghenion o ran anawsterau a/neu anableddau dysgu. Roedd cyfanswm o 9,323, felly, o bobl ifanc mewn addysg bellach yng Nghymru yn ystod 2014-15 a nododd eu hunain, neu y nodwyd gan rywun arall, fod ganddynt anawsterau a/neu anableddau dysgu. Gan nad oes rhaid i bobl ifanc mewn addysg bellach ddatgan anawsterau a/neu anableddau dysgu, mae'n bosibl bod union nifer y bobl ifanc mewn addysg bellach a oedd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn uwch.

---

[43] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision

[44] Gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog.

[45] Yn 2014-15, roedd cyfanswm o 9,025 o bobl ifanc mewn sefydliadau addysg bellach, o dan 25 oed, oedd ag anhawster a/neu anabledd dysgu, gan gynnwys y bobl ifanc hynny ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Gellir rhannu’r bobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, ag eithrio anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn ôl grŵp oedran fel a ganlyn: o dan 16 oed – 270, 16 oed – 2,300, 17 oed – 2,055, 18 oed – 1,295, 19 oed – 945, a 20-24 oed – 2,040. Gellir rhannu’r bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn ôl grŵp oedran fel a ganlyn: o dan 16 oed – 0, 16 oed – 30, 17 oed – 20, 18 oed – 15, 19 oed – 20, a 20-24 oed – 35. Roedd gan 8,905 o bobl ifanc anawsterau a/neu anableddau dysgu, felly, ac roedd gan 120 anawsterau dysgu dwys a lluosog – sy’n creu cyfanswm o 9,025.
Gweler https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Tabl 3: Nifer y bobl ifanc hyd at 25 oed mewn darpariaeth addysg bellach ag anabledd dysgu a/neu anabledd corfforol

| | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y dysgwyr wedi'u cofrestru mewn lleoliad addysg bellach prif ffrwd | 81,460 | 78,920 | 73,195 |
| Ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn lleoliad addysg bellach prif ffrwd (yn cynnwys anabledd corfforol) | 7,695 | 8,220 | 9,025 |
| Mewn coleg arbenigol annibynnol | 250 | 278 | 298 |
| Cyfanswm y Dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu | 7,945 | 8,498 | 9,323 |

Ffynhonnell: Stats Cymru[46]

8.15 Fel y mae Tabl 4 islaw yn ei ddangos, amcangyfrifir mai cyfanswm cost darpariaeth anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yng Nghymru, ar sail prisiau 2016-17, yw £365.4m. Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ac ysgolion ysgwyddodd y rhan fwyaf o'r costau - £324.6m (89%).

[46] Dysgwyr unigryw wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl prif anabledd a/neu anhawster dysgu a rhyw https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

Tabl 4: amcangyfrif o gost y system AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu bresennol yng Nghymru fesul sector, 2011-12 i 2013-14

| Sector | 2011-12 (£m) | 2012-13 (£m) | 2013-14 (£m) | Cyfanswm 2011/12 - 2013/14 | 2016-17[47] (£m) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru[48] | 8.9 | 9.7 | 10.4 | 29.00 | 10.7 |
| Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol | 167.5 | 155.7 | 138.4 | 461.6 | 142.8 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol | 5.6 | 5.8 | 6.1 | 17.5 | 6.3 |
| Ysgolion | 157.1 | 178.3 | 176.2 | 511.6 | 181.8 |
| Sefydliadau Addysg Bellach | 7.3 | 7.4 | 7.5 | 22.2 | 7.7 |
| Byrddau Iechyd | 13.7 | 14.1 | 14.7 | 42.5 | 15.2 |
| Gyrfa Cymru | 0.8 | 0.7 | 0.7 | 2.2 | 0.7 |
| TAAAC[49] | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.4 | 0.2 |
| Cyfanswm | **361.0** | **371.9** | **354.1** | **1087.0** | **365.4** |

Ffynhonnell: Deloitte (2015)

[47] Prisiau 2013-14 wedi'u haddasu ar sail prisiau 2016-17
[48] Cost gweinyddu a chyllido lleoliadau arbenigol ôl-16.
[49] Mae'r costau i TAAAC a nodir yn yr adran hon yn cyfeirio at gostau gwrando apelau, gan gynnwys y llywydd, yr aelodau a'r lleoliad. Mae treuliau a hyfforddiant aelodau hefyd wedi'u cynnwys. Nid yw'r costau yn cynnwys costau gweinyddol.

**Crynodeb gweithredol**

8.16 Mae'r crynodeb gweithredol yn darparu trosolwg o gost gwneud dim a chost gweithredu'r opsiynau a ffefrir. Ym mhob achos, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn y crynodeb o'r costau a'r manteision (gweler tudalen 213).

8.17 Yn gyffredinol, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn awgrymu y gallai fod yna gost ychwanegol o £7,154,860 dros y cyfnod pedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21 (gweler Tabl 70), o ystyried pob cost gweinyddu cyhoeddus. Ar gyfartaledd, mae hyn yn gost o tua £1,788,715 y flwyddyn.

8.18 Mae yna botensial i ddarpariaethau'r bil arbed costau rheolaidd i'r gwaith gweinyddu cyhoeddus o £4,500,300 dros y cyfnod pedair blynedd 2017-18 i 2020-21 (gweler Tabl 70). Amcangyfrifir arbedion costau rheolaidd bob blwyddyn o 2017-18 o £1,125,075. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r arbedion a amcangyfrifir ddeillio o'r darpariaethau yn y bil sy'n ceisio gwneud i ffwrdd â natur wrthwynebol y broses o lunio datganiad. Fel y nodir isod, mae yna risgiau sy'n gysylltiedig â'r graddau y caiff yr arbedion posibl eu sicrhau.

8.19 Yn ogystal â'r costau a'r manteision a ddaw yn sgil gwaith gweinyddu cyhoeddus, disgwylir i ysgolion annibynnol, rhieni a darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod wynebu costau a gweld manteision. Fel y mae Tabl 72 yn ei ddangos, amcangyfrifir y bydd ysgolion annibynnol yn wynebu costau ychwanegol o £17,300 dros y cyfnod pedair blynedd (£4,325 y flwyddyn); amcangyfrifir y bydd rhieni yn elwa ar arbedion o ryw £3,329,500 (£832,375 y flwyddyn); ac amcangyfrifir y bydd darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn elwa ar arbedion o £293,840 dros y cyfnod pedair blynedd (£73,460 y flwyddyn). Mae'r arbediad hwn yn gyfuniad o arbedion ariannol ac arbedion cyfle. Caiff arbedion eu gwneud o ran amser gwirfoddolwyr ar ddatrys anghytundebau sydd, yn ei dro, yn caniatáu i wirfoddolwyr ymgymryd â gweithgareddau eraill.

8.20 Mae'r drafodaeth isod yn ystyried yn fanylach gostau a manteision gweithredu’r opsiynau a ffefrir. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

**Costau pontio Llywodraeth Cymru**

8.21 Fel y mae Tabl 5 isod yn ei nodi, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl costau pontio o tua £1,972,510 rhwng 2017-18 a 2020-21 wrth helpu i weithredu'r newidiadau a gynigir yn y Bil. Yn ogystal â'r costau a nodir isod, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu nifer o grantiau i gefnogi rhanddeiliaid i weithredu'r bil.

Tabl 5: Costau pontio Llywodraeth Cymru

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau Arbenigol y Grŵp Gweithredu Strategol ynghylch ADY | 5,000 | 5,000 | | | **10,000** |
| | - | | | | |
| Datblygu sgiliau craidd, codi ymwybyddiaeth ac adnoddau | 100,000 | 50,000 | 135,000 | 105,000 | **390,000** |
| Cydymffurfio a monitro effaith | 80,000 | 130,000 | | | **210,000** |
| Rheoli'r prosiect gweithredu | 217,600 | 217,600 | 123,000 | | **558,200** |
| Datblygu cod ymarfer | 76,220 | | | | **76,220** |
| Adolygu polisi a chanllawiau | 18,000 | | | | **18,000** |
| Gyrfa Cymru | | 354,700 | 354,700 | | **709,400** |
| Lleoliadau arbenigol ôl-16 | 320 | | | | **320** |
| Cofrestru ysgolion annibynnol | 370 | | | | **370** |
| | | **-** | **-** | **-** | |
| **Cyfansymiau** | **497,510** | **757,300** | **612,700** | **105,000** | **1,972,510** |

8.22 Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido nifer o weithgareddau i gefnogi gweithredu’r Bil. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £10,000 i'r broses o gefnogi gwaith rheolaidd y grŵp gweithredu strategol ynghylch ADY a grwpiau arbenigol wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) rhwng 2017-18 a 2020-21.

8.23 Disgwylir i £210,000 gael ei wario rhwng 2017-18 a 2020-21 ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol newydd ac i asesu i ba raddau y mae'r newidiadau deddfwriaethol wedi'u sefydlu ac yn effeithio ar ganlyniadau dysgwyr.

8.24 Rhwng 2017-18 a 2020-21, amcangyfrifir y bydd Llywodraeth Cymru yn gwario tua £390,000 ar ddatblygu adnoddau hyfforddi, datblygu sgiliau craidd a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i helpu i weithredu'r bil. Bydd y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid am eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, ac esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau y mae'n eu rhoi i blant, pobl ifanc a rhieni.

8.25 Bydd yna rai costau i Lywodraeth Cymru a fydd yn gysylltiedig â rheoli'r rhaglenni gwaith uchod i gefnogi gweithredu'r bil. Bydd hyn yn cynnwys rheoli codi ymwybyddiaeth, gweinyddu grantiau a rheoli'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r bil. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £558,200 rhwng 2017-18 a 2020-21.

8.26 Yn ogystal, bydd yna gostau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd i ategu'r broses o weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Cost llunio'r cod fydd tua £46,220. Mae hyn yn seiliedig ar waith un HEO llawn amser am flwyddyn a phennaeth cangen am bythefnos. Byddai angen ymgynghori ar y cod hefyd, ei gyfieithu a'i hyrwyddo ar gost o tua £30,000. Cyfanswm y gost o lunio'r cod, felly, fyddai tua £76,220.

8.27 Bydd yna gostau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â diweddaru canllawiau a deunyddiau polisi. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £18,000.

8.28 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido Gyrfa Cymru yn ystod y cyfnod dwy flynedd rhwng 2018-19 a 2019-20. Mae yna gost bontio i Lywodraeth Cymru, felly, o tua £709,400.

8.29 Bydd yna gostau pontio o £320 yn sgil newidiadau i leoliadau arbenigol ôl-16, a £370 yn sgil newidiadau i gofrestru ysgolion annibynnol.

## Cynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

8.30 Fel y nodwyd uchod, mae'r data ariannol a gasglwyd gan Deloitte yn cyfeirio at 2011-12 i 2013-14. Defnyddiwyd y ffigurau hyn yn yr adran hon mewn perthynas â chynlluniau i gefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol lle mai dyna'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae prisiau 2013-14 hefyd wedi'u nodi ar sail prisiau heddiw (2016-17) gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Ac er mwyn cymharu, mae'r costau i gyd wedi'u nodi ar sail prisiau 2016-17.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

8.31 O dan opsiwn 1, byddai'r arfer presennol o ran cynlluniau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau.

8.32 Yn dibynnu ar sail statudol eu darpariaeth ddysgu ychwanegol a lle mae'r plentyn neu'r person ifanc arni o ran ei addysg, bydd gan blentyn neu berson ifanc un o'r cynlluniau canlynol: datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig, cynllun addysg unigol anstatudol, cynllun dysgu a sgiliau statudol neu gynllun anstatudol gan y coleg.

8.33 Nid oes costau ychwanegol rheolaidd yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Y costau bras**

8.34 Mae Tabl 6 isod yn nodi cost y prosesau a'r arferion presennol sy'n gysylltiedig â chynlluniau i gefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn 2016-17, amcangyfrifir mai cyfanswm rheolaidd y gwaith gweinyddu cyhoeddus yw £28,536,850. Mae Tabl 7 yn nodi'r gost reolaidd a amcangyfrifir i rieni yn 2016-17, sef £3,678,600, ac amcangyfrifir cost reolaidd o £320,510 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod. Amcangyfrifir, felly, bod cyfanswm costau rheolaidd o £32,526,460 i opsiwn 1 yn 2016-17.

Tabl 6: costau rheolaidd bras opsiwn gwneud dim, o ran gweinyddu cyhoeddus yn ôl sefydliad, prisiau 2016-17

| | 2016-17 (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | | |
| Asesiadau statudol | 7,980,700 | |
| Adolygiadau statudol | 4,023,600 | |
| Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol – anghytundebau | 384,950 | |
| Ymateb i anghytundebau | 1,633,100 | |
| Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol – apelau | 5,300 | |
| Ymateb i apelau | 1,083,300 | |
| **Cyfanswm** | **15,110,950** | |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | | |
| Asesiadau statudol | 307,800 | |
| Adolygiadau statudol | 182,100 | |
| **Cyfanswm** | **489,900** | **15,600,850** |
| **Ysgolion y brif ffrwd** | | |
| Asesiadau statudol | 1,410,100 | |
| Adolygiadau statudol | 1,547,000 | |
| Asesiadau anstatudol | 2,959,300 | |
| Adolygiadau anstatudol | 2,158,300 | |
| **Cyfanswm** | **8,074,700** | |
| **Ysgolion arbennig** | | |
| Asesiadau statudol | 0 | |
| Adolygiadau statudol | 938,700 | |
| **Cyfanswm** | **938,700** | **9,013,400** |
| **Byrddau iechyd** | | |
| Asesiadau statudol | 1,829,100 | |
| Adolygiadau statudol | 1,082,600 | |
| **Cyfanswm** | **2,911,700** | |
| **Gyrfa Cymru** | | |
| Asesiadau - Cynlluniau Dysgu a Sgiliau | 354,700 | |
| Adolygiadau | 274,800 | |
| **Cyfanswm** | **629,500** | |
| TAAAC | **152,000** | |
| **Cyfanswm** | **152,000** | |
| **Sefydliadau addysg bellach** | | |
| Adolygiadau | **228,600** | |
| Anghytundebau | **800** | |
| Apelau – Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog | **0** | |
| Apelau – AAD | **0** | |
| **Cyfanswm** | **229,400** | |
| **Cyfanswm** | **28,536,850** | |

Tabl 7: costau rheolaidd bras opsiwn gwneud dim i rieni ac i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghytundeb, prisiau 2016-17

| | | **2016-17 (£)** |
|---|---|---|
| **Rhieni** | | |
| | Apelau | 817,550 |
| | Anghytundebau | 2,861,050 |
| **Cyfanswm y gost i rieni** | | **3,678,600** |
| **Darparwyr gwasanaethau** | | |
| | Gwasanaethau datrys anghydfod – anghytundebau – cymhorthdal | 288,710 |
| | Gwasanaethau datrys anghydfod – apelau – cymhorthdal | 31,800 |
| **Cyfanswm y gost i ddarparwyr gwasanaethau** | | **320,510** |

8.35 Gellir rhannu costau'r system bresennol rhwng y canlynol:

- asesiadau ac adolygiadau statudol
- asesiadau ac adolygiadau anstatudol
- anghytundebau ac apelau sy'n ymwneud â'r datganiadau.

8.36 Tabl Mae Tabl 8 yn dangos mai'r amcangyfrif o gost cynnal asesiadau ac adolygiadau statudol oedd tua £19,931,200 ar sail prisiau 2016-17. O'r swm hwn, gwariwyd tua £11,882,400 ar asesu ac £8,048,800 ar adolygu.

Tabl 8: costau bras cynnal asesiadau ac adolygiadau statudol, prisiau 2016-17, yn ôl sefydliad

| | Asesiadau statudol (£) | Adolygiadau statudol (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | 7,980,700 | 4,023,600 | 12,004,300 |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol | 307,800 | 182,100 | 489,900 |
| Ysgolion y brif ffrwd | 1,410,100 | 1,547,000 | 2,957,100 |
| Ysgolion arbennig[50] | 0 | 938,700 | 938,700 |
| Byrddau iechyd | 1,829,100 | 1,082,600 | 2,911,700 |
| Gyrfa Cymru | 354,700 | 274,800 | 629,500 |
| Cyfanswm | **11,882,400** | **8,048,800** | **19,931,200** |

50 Mae Deloitte (2015) yn nodi na amcangyfrifwyd faint sy'n cael ei wneud i asesu anghenion. Nid yw hyn yn golygu nad oes camau yn cael eu cymryd i asesu anghenion, ond bod ysgolion arbennig wedi'i chael yn her dadelfennu 'asesu anghenion' a'r cymorth a roddir bob dydd i ddysgwyr, gan eu bod yn asesu anghenion dysgwyr yn barhaus yn hytrach na gwneud hynny fel gweithgarwch penodol (tudalen 20).

Tabl 9: costau bras cynnal asesiadau ac adolygiadau anstatudol, prisiau 2016-17

| | Asesiadau anstatudol (£) | Adolygiadau anstatudol (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|
| Ysgolion y brif ffrwd | **2,959,300** | **2,158,300** | **5,117,600** |

8.37 Mae Tabl 9 uchod yn nodi'r amcangyfrif o gostau cynnal asesiadau ac adolygiadau anstatudol[51]. Yr amcangyfrif o gost cynnal asesiadau anstatudol oedd tua £5,117,600 ar sail prisiau 2016-17. O'r swm hwn, gwariwyd tua £2,959,300 ar asesiadau anstatudol a thua £2,158,300 ar adolygiadau anstatudol.

8.38 Yn ogystal â chostau cynnal asesiadau ac adolygiadau statudol, mae yna gostau i awdurdodau lleol, TAAAC a rhieni yn sgil anghytundebau ynghylch penderfyniadau am asesiadau ac adolygiadau statudol, ac apelau yn erbyn y penderfyniadau hynny.

8.39 Mae Tabl 10 isod yn nodi'r amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â datrys anghytundebau am ddatganiadau. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost datrys anghytundebau bob blwyddyn yw tua £5,167,810 (ar sail prisiau 2016-17). Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario tua £2,018,050 y flwyddyn ar ddatrys anghytundebau. O'r swm hwn, amcangyfrifir bod £1,633,100 yn cael ei wario ar ymateb i anghytundebau a £384,950 ar wasanaethau datrys anghydfodau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni sy'n anghytuno ag awdurdodau lleol. Amcangyfrifir costau o ryw £288,710 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau yn sgil eu cymhorthdal ar gyfer cost gwasanaethau datrys anghydfodau ar gyfer anghytundebau. Yn ogystal, amcangyfrifir costau o £2,861,050 i rieni yn sgil anghytundebau ag awdurdodau lleol am ddatganiadau.

[51] Fel y gwelwch, dim ond ar ysgolion y brif ffrwd y mae'r costau yn disgyn. Er y gallai asiantaethau eraill fod wedi cymryd rhan, i ryw raddau, mewn asesiadau ac adolygiadau anstatudol, ni wnaeth Deloitte (2015) gasglu data yn ôl cynlluniau statudol a chynlluniau anstatudol. Mae'r holl gostau sy'n disgyn ar wasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd awdurdodau lleol yn ymwneud â chynlluniau statudol.

Tabl 10: costau bras datrys anghytundebau am ddatganiadau, prisiau 2016-17[52]

| | **Y gost bob blwyddyn (£)** |
|---|---|
| Y gost i awdurdod lleol wrth ymateb i anghytundebau | 1,633,100 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod, anghytundebau – y gost i awdurdod lleol | 384,950 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod, anghytundebau – y gost i ddarparwyr gwasanaethau | 288,710 |
| Y gost i rieni ar gyfartaledd | 2,861,050 |
| **Cyfanswm** | **5,167,810** |

8.40 Fel mae Tabl 11 yn ei nodi, yr amcangyfrif o gost anghytundebau am ddatganiadau a fydd yn cael eu cyfeirio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yw £2,089,950. Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario tua £1,088,600 y flwyddyn ar gostau sy'n ymwneud ag apelau, sef tua £1,083,300 ar gostau sy'n ymwneud ag amddiffyn a £5,300 ar wasanaethau datrys anghydfodau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni. Amcangyfrifir costau o ryw £31,800 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau yn sgil eu cymhorthdal at gost y gwasanaeth. Amcangyfrifir bod rhieni yn gwario tua £817,550 y flwyddyn ar gostau sy'n ymwneud ag apelau.

Tabl 11: costau bras apelau i TAAAC, prisiau 2016-17

| | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|
| TAAAC[53] | 152,000 |
| Cost amddiffyn apêl i awdurdod lleol | 1,083,300 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – apelau – y gost i awdurdodau lleol | 5,300 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – apelau – y gost i ddarparwyr gwasanaethau | 31,800 |
| Rhieni[54] | 817,550 |
| **Cyfanswm** | **2,089,950** |

[52] Gweler Tabl 16 i gael costau awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau, a Thabl 44 i gael y costau cyfartalog i rieni

[53] Mae'r costau a ysgwyddir gan TAAAC a nodir yn yr adran hon yn cyfeirio at gostau'r rhaglen yn unig. Nid ydynt yn cynnwys costau gweinyddol.

[54] Mae'r costau i rieni yn amrywio o £5,522 lle mae rhiant yn defnyddio gwasanaethau eirioli i £9,572 lle nad yw rhieni yn manteisio ar wasanaethau eirioli eu hunain ond yn talu am y costau proffesiynol i gyd. Ffynonellau: Kids First (2013).

8.41 Mae'r adran nesaf yn nodi manylion y costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau statudol ac anstatudol i gefnogi pobl ifanc ag ADY.

## Costau yn ôl Sector

### Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

8.42 Mae Deloitte (2015)[55] yn amcangyfrif mai'r arian a fuddsoddwyd gan wasanaethau addysg awdurdodau lleol mewn anghenion addysgol arbennig rhwng 2011-12 a 2013-14 oedd £461,600,000[56].

### Asesiadau statudol

8.43 Gan fod gan awdurdodau lleol brosesau amrywiol ar gyfer cynllunio darpariaeth anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys nifer y staff, gradd y staff a'r amser y mae'r broses yn ei chymryd, ni fu'n bosibl nodi union gost cynnal asesiad. Fodd bynnag, mae modd amcangyfrif cyfartaledd cost asesiad ar sail amcangyfrif Deloitte (2015) o'r arian sy'n cael ei wario gan wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar asesu a nifer yr asesiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol bob blwyddyn.

8.44 Mae Deloitte yn amcangyfrif bod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol wedi gwario tua £461,600,000 rhwng 2011-12 a 2013-14. O'r swm hwn, amcangyfrifwyd bod £25,800,000 wedi'i wario ar asesiadau. Hynny yw, aeth tua 6% o wariant gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar asesiadau.

8.45 Casglwyd data ar nifer yr asesiadau a gynhaliwyd gan wasanaethau addysg awdurdodau lleol tan 2012[57]. Nid yw union nifer yr asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer 2013-14 ar gael felly. Fodd bynnag, roedd modd amcangyfrif nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn ystod 2013-14 drwy ddefnyddio'r amcangyfrif o gost asesiadau 2011-12 a 2012-13.

---

[55] Deloitte (2015) Ymchwiliad i'r cyllid a ddarperir i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau a/neu anableddau dysgu (Llywodraeth Cymru: Caerdydd). http://gov.wales/docs/dcells/publications/150706-final-report-en.pdf

[56] Mae hyn yn cynnwys gwariant ar gynlluniau statudol ac anstatudol, cyllido llefydd i blant o dan 5 oed sydd ag anghenion addysgol arbennig nad ydynt mewn meithrinfa a gynhelir a thaliadau AAA rhwng un awdurdod a'r llall.

[57] http://dera.ioe.ac.uk/17898/1/130619-pupils-statements-special-educational-needs-january-2013-en.pdf

8.46 Yn 2011-12, cynhaliodd awdurdodau lleol 1,944 o asesiadau[58] ar gost o ryw £9,362,000 yn ôl ein hamcangyfrif. Amcangyfrifwyd mai cost asesiad i awdurdod lleol yn ystod 2011-12 oedd tua £4,800, felly.

8.47 Yn 2012-13, cynhaliodd awdurdodau lleol 1,870 o asesiadau ar gost o tua £8,702,500, sy'n gost o tua £4,650 yr asesiad. A chymryd bod cost cynnal asesiadau yn ystod 2013-14 yr un fath, yn fras, ag yn 2011-12 a 2012-13, mae modd amcangyfrif nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn 2013-14.

8.48 Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol wedi gwario £7,735,500 ar asesiadau yn ystod 2013-14. Gan ddefnyddio gwariant 2013-14 a'r amcangyfrif o £4,750 ar gynnal asesiad rhwng 2011-12 a 2012-13, amcangyfrifir bod 1,634 o asesiadau wedi'u cynnal yn 2013-14 (gweler Tabl 12 isod).

Tabl 12: yr amcangyfrif o wariant gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar asesiadau fesul blwyddyn

| | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **prisiau 2016-17**[59] |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant ar AAA (£) | 167,500,000 | 155,700,000 | 138,400,000 | 142,786,300 |
| Amcangyfrif o'r gwariant ar asesiadau (£) | 9,362,000 | 8,702,500 | 7,735,500 | 7,980,700 |
| Nifer yr asesiadau | 1,944 | 1,870 | 1,634 | 1,629 |
| Cost pob asesiad (£) | 4,800 | 4,650 | 4,750 | 4,900 |

8.49 Amcangyfrifir cost o £7,980,700 i awdurdodau lleol ar gynnal asesiadau bob blwyddyn ar sail prisiau 2016-17.

**Cost asesiad i awdurdod lleol**

8.50 Casglwyd data ar nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol Cymru tan 2012. Roedd modd cyfrifo'r swm a wariwyd, felly, gan bob awdurdod lleol yn 2011-12 a 2012-13.

8.51 Amcangyfrifwyd y gost i bob awdurdod lleol yn 2013-14 drwy gymryd nifer cyfartalog yr asesiadau a gynhaliwyd rhwng 2011-12 a 2012-13 gan bob

[58]Mae hyn yn cynnwys asesiadau a gwblhawyd ac sy'n parhau.
[59] Costau 2013-14 wedi’u huwchraddio i brisiau 2016-17.

awdurdod lleol fel cyfran o gyfanswm nifer cyfartalog yr asesiadau a gynhaliwyd rhwng 2011-12 a 2012-13.

8.52 Defnyddiwyd y gyfran i amcangyfrif faint o'r cyfanswm o 1,634 o asesiadau a gynhaliwyd gan bob awdurdod lleol.

8.53 Mae Tabl 13 isod yn nodi amcangyfrif o'r arian a gaiff ei wario ar gynnal asesiadau yn ôl awdurdod lleol.

**Yr amser sy'n cael ei dreulio ar asesiadau**

8.54 Mae Deloitte (2015) yn amcangyfrif bod yr amser a gymerir i adolygu ceisiadau am asesiadau statudol (i benderfynu a oes angen datganiad o anghenion addysgol arbennig) yn amrywio o 1 i 2.25 awr a bod yr amser a gymerir i gyflawni asesiadau statudol yn amrywio o 24 i 65 awr. Amcangyfrifir, felly, bod adolygu ceisiadau a chynnal asesiadau statudol yn cymryd rhwng 25 a 67.25 o oriau i awdurdodau lleol gynnal asesiad statudol.

Tabl 13: nifer yr asesiadau[60] bob blwyddyn yn ôl awdurdod lleol

| | **Asesiadau gwirioneddol** | | **Asesiadau a amcangyfrifwyd** | **Amcangyfrif o'r gost (£)** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod lleol** | 2011 | 2012 | 2013 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2016-17 |
| Ynys Môn | 32 | 32 | 27 | 154,110 | 148,920 | 129,800 | 133,910 |
| Gwynedd | 62 | 76 | 59 | 298,580 | 353,680 | 279,890 | 288,760 |
| Conwy | 37 | 35 | 31 | 178,190 | 162,880 | 146,030 | 150,660 |
| Sir Ddinbych | 46 | 30 | 33 | 221,530 | 139,610 | 154,140 | 159,030 |
| Sir y Fflint | 66 | 72 | 59 | 317,850 | 335,070 | 279,890 | 288,760 |
| Wrecsam | 46 | 49 | 41 | 221,530 | 228,030 | 192,680 | 198,790 |
| Powys | 69 | 51 | 51 | 332,290 | 237,340 | 243,380 | 251,090 |
| Ceredigion | 12 | 2 | 6 | 57,790 | 9,310 | 28,390 | 29,290 |
| Sir Benfro | 45 | 73 | 51 | 216,710 | 339,720 | 239,330 | 246,920 |
| Sir Gaerfyrddin | 202 | 176 | 162 | 972,800 | 819,060 | 766,660 | 790,960 |
| Abertawe | 189 | 177 | 157 | 910,200 | 823,710 | 742,320 | 765,850 |
| Castell-nedd Port Talbot | 130 | 159 | 124 | 626,060 | 739,940 | 586,150 | 604,730 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 47 | 80 | 54 | 226,350 | 372,300 | 257,580 | 265,740 |
| Bro Morgannwg | 37 | 44 | 35 | 178,190 | 204,760 | 164,280 | 169,490 |
| Rhondda Cynon Taf | 167 | 193 | 154 | 804,250 | 898,170 | 730,150 | 753,290 |
| Merthyr Tudful | 32 | 47 | 34 | 154,110 | 218,730 | 160,230 | 165,310 |
| Caerffili | 115 | 106 | 95 | 553,820 | 493,300 | 448,230 | 462,440 |
| Blaenau Gwent | 117 | 20 | 59 | 563,450 | 93,080 | 277,860 | 286,670 |
| Torfaen | 47 | 26 | 31 | 226,350 | 121,000 | 148,060 | 152,750 |
| Sir Fynwy | 58 | 41 | 42 | 279,320 | 190,800 | 200,790 | 207,150 |
| Casnewydd | 146 | 170 | 135 | 703,110 | 791,130 | 640,910 | 661,220 |
| Caerdydd | 242 | 211 | 194 | 1,165,430 | 981,940 | 918,770 | 947,890 |
| **Cyfanswm** | **1944** | **1870** | **1634** | **9,362,020** | **8,702,480** | **7,735,520** | **7,980,700** |

## Adolygiadau

8.55 Mae Deloitte (2015) yn awgrymu bod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol wedi gwario £11,700,000 ar adolygu datganiadau rhwng 2011-12 a 2013-14. Hynny yw, aeth tua 2.5% o gyfanswm gwariant awdurdodau lleol o £461,600,000 ar adolygiadau.

8.56 Ni wnaeth Deloitte ddarparu manylion gwariant awdurdodau lleol ar adolygu datganiadau fesul blwyddyn. Fodd bynnag, mae modd amcangyfrif gwariant awdurdodau lleol bob blwyddyn ar adolygu datganiadau ar sail y rhagdybiaeth

[60] Wedi'u cwblhau ac yn parhau

bod canran y gwariant yn ystod pob un o'r tair blynedd yn gyson â thua 2.5% o gyfanswm y gwariant.

8.57 Fel y mae Tabl 14 isod yn ei nodi, roedd cost cynnal adolygiad rhwng 2011-12 a 2013-14 yn amrywio rhwng £310 a £260. Nid yw'n glir pam mae'r amcangyfrif o gost cynnal adolygiad rhwng 2011-12 a 2013-14 wedi gostwng £50 fesul adolygiad. Defnyddir y gost gyfartalog o £290 ar gyfer cynnal adolygiad yn ystod y cyfnod hwn, felly, i gyfrifo pris 2016-17.

8.58 Ar sail prisiau 2016-17, amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario £4,023,600 ar gynnal adolygiadau o ddatganiadau.

Tabl 14: amcangyfrif o wariant gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar adolygiadau fesul blwyddyn

| | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **Cost gyfartalog** | **prisiau 2016-17**[61] |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant (£) | 167,500,000 | 155,700,000 | 138,400,000 | 153,866,700 | 158,743,100 |
| Amcangyfrif o'r gwariant ar adolygiadau (£)[62] | 4,245,600 | 3,946,500 | 3,508,000 | 3,900,000 | 4,023,600 |
| Nifer yr adolygiadau[63] | 13,800 | 13,600 | 13,300 | 13,600 | 14,000 |
| Cost pob adolygiad (£) | **310** | **290** | **260** | **290** | **300** |

8.59 Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario cyfanswm o £12,004,300 y flwyddyn yn asesu ac yn adolygu datganiadau, sef tua £7,980,700 ar asesiadau (gweler Tabl 12) a £4,023,600 ar adolygiadau (gweler Tabl 14).

[61] Costau cyfartalog 2011-12 i 2013-14 wedi'u huwchraddio i brisiau 2016-17.
[62] Ar sail tua 2.5% o gyfanswm y gwariant blynyddol ar anghenion addysgol arbennig.
[63] A chymryd bod pob datganiad yn cael ei adolygu unwaith bob blwyddyn.

## Anghytundebau ac Apelau

### Anghytundebau am fod eisiau datganiad neu am gael datganiad

8.60 At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, mae'r anghytundebau wedi'u grwpio i'r rheini sy'n ymwneud â bod eisiau datganiad a'r rheini sy'n ymwneud â chael datganiad. Mae anghytundebau am fod eisiau datganiad yn cynnwys anghytundebau am benderfyniad awdurdod lleol i beidio ag asesu ac anghytundebau am benderfyniad awdurdod lleol i beidio â rhoi datganiad. Mae anghytundebau am gael datganiad yn ymwneud â phenderfyniadau awdurdod lleol am gynnwys y datganiad.

8.61 Yn ogystal â chostau asesu ac adolygu datganiadau, mae costau yn codi i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag anghytundebau am ddatganiadau. Mae'r costau yn codi yn sgil darparu gwasanaethau datrys anghytundeb i blant, pobl ifanc a rhieni sy'n anghytuno â phenderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch datganiadau, ac mae yna gostau i awdurdodau lleol wrth ymateb i'r anghytundebau hynny.

8.62 Ni fu'n bosibl nodi union nifer yr anghytundebau y gwnaeth awdurdodau lleol ddelio â nhw yn 2013/14, gan nad yw'r data hyn ar gael i'r cyhoedd[64]. Serch hynny, mae wedi bod yn bosibl amcangyfrif costau gan ddefnyddio nifer yr achosion y deliodd SNAP Cymru â nhw. Ar hyn o bryd, mae SNAP Cymru wedi'i gomisiynu gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru i ddarparu gwasanaeth partneriaethau rhieni a gwasanaethau datrys anghytundeb i blant, pobl ifanc a rhieni.

8.63 Ar gyfartaledd, mae SNAP Cymru yn codi tua £574,400 y flwyddyn ar awdurdodau lleol am wasanaethau partneriaethau rhieni a gwasanaethau datrys anghydfod. Mae cyllid gan brosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn golygu bod SNAP yn gallu rhoi cymorth ychwanegol i deuluoedd sy’n agored i niwed. Mae SNAP yn derbyn tua £814,200 y flwyddyn ar gyfer y gwasanaethau partneriaethau rhieni a gwasanaethau datrys anghydfod.

[64] Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol unigol. Fodd bynnag, nid oedd y data ar gael.

8.64 Mae'n annhebygol y bydd pob rhiant sy'n anghytuno â phenderfyniad awdurdod lleol i beidio â rhoi datganiad, neu'n apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath, yn defnyddio gwasanaethau datrys anghytundeb a ariennir gan yr awdurdod lleol. Amcangyfrifir isod yr isafswm costau y gall awdurdodau lleol eu disgwyl.

8.65 Yn ystod y cyfnod 30 mis rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2016, deliodd SNAP Cymru â thua 12,600 o achosion ar ran 20 o awdurdodau lleol. Roedd 1,743 o'r 12,600 o achosion yn ymwneud â datganiadau AAA. Roedd 1,723[65] yn achosion ynghylch datrys anghytundebau, ac 20 yn achosion a gyfeiriwyd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

8.66 Cyfanswm cost gyfartalog gwasanaethau datrys anghydfod i gefnogi achos o anghytundeb yw £875[66]. Amcangyfrifir mai cost gyfartalog pob achos i ddatrys anghydfod sy'n anghytundeb i awdurdodau lleol yw £500. Caiff gweddill y gost - £375 – ei dalu gan SNAP Cymru, drwy godi arian, defnyddio cronfeydd elusennol ac oriau gwirfoddoli[67].

8.67 Cyfanswm cost gwasanaethau datrys anghydfodau a oedd yn anghytundebau dros y cyfnod 30 mis rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2016 ar draws 20 o awdurdodau lleol, felly, oedd £1,507,188. O hyn, amcangyfrifir mai'r gost i'r 20 o awdurdodau lleol oedd tua £861,250 ac mai'r gost i SNAP Cymru oedd £645,938. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm cost blynyddol o £602,875[68]. O hwnnw amcangyfrifir bod £344,500 i'w dalu gan yr 20 o awdurdodau lleol, a £258,375 i'w dalu gan SNAP Cymru (gweler Tabl 15 isod). O gyfrifo'r ffigurau ar gyfer 22 awdurdod lleol ar sail y ffigurau ar gyfer 20 awdurdod lleol, mae hyn yn gyfystyr â 758 o achosion[69] ar gost a amcangyfrifir o £663,163 y flwyddyn. O hwnnw amcangyfrifir bod £378,950 i'w dalu gan awdurdodau lleol, a £284,213 o gymhorthdal. Ar sail prisiau 2016-17, mae hyn yn cyfateb i

---

65 C yfrifwyd y ffigurau ar sail 1,722.5 yn hytrach nag 1,723 (3,485/2)-20=1,722.5
66 Ffynhonnell: SNAP Cymru.
67 Cost o £26 yr awr (ffynhonnell: SNAP Cymru)
68 (1,722.5/30)*12=689 o achosion y flwyddyn ar draws 20 o awdurdodau lleol. 689 o achosion ar gost gyfartalog o £875=£602,875
69 (1,722.50/30)/20=2.87 o achosion fesul awdurdod lleol bob mis. (2.87*12)*22= 757.9 o achosion bob blwyddyn ar draws 22 o awdurdodau lleol

amcangyfrif cost o ryw £673,660. O hwnnw byddai £384,950 i’w dalu gan awdurdodau lleol, a £288,710 o gymhorthdal.

Tabl 15: gwasanaethau datrys anghydfod awdurdodau lleol ar gyfer anghytundebau ynghylch bod eisiau datganiad neu ynghylch cael datganiad

| **Cost achosion sy’n ymwneud ag anghytundebau am ddatganiad – ac eithrio apelau** | | **Prisiau 2016/17** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y materion dros y cyfnod 30 mis – 20 ALl | 3,485 | |
| Cyfanswm nifer yr achosion dros 30 mis – 20 ALl | 1,743 | |
| Nifer yr achosion a oedd yn ymwneud ag apelau | 20 | |
| Cyfanswm yr achosion a oedd yn anghytundebau dros 30 mis – 20 ALl (heb gynnwys yr achosion a oedd yn ymwneud ag apelau) | 1,723 | |
| Nifer yr achosion a oedd yn anghytundebau bob mis ar draws 20 awdurdod lleol | 57 | |
| Amcangyfrif o nifer yr achosion a oedd yn anghytundebau bob blwyddyn ar draws 20 awdurdod lleol | 689 | |
| Cost gyfartalog pob achos o ddatrys anghytundeb | 875 | |
| Cost gyfartalog pob achos o ddatrys anghytundeb i ALl | 500 | |
| Cymhorthdal cyfartalog SNAP Cymru fesul achos anffurfiol | 375 | |
| Amcangyfrif o’r gost gyfartalog bob blwyddyn ar draws 20 awdurdod lleol | **602,875** | **612,410** |

| | | |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r gost gyfartalog i ALlau bob blwyddyn ar draws 20 awdurdod lleol | 344,500 | 349,950 |
| Amcangyfrif o gymhorthdal cyfartalog SNAP bob blwyddyn ar draws 20 awdurdod lleol | 258,375 | 262,460 |
| **Amcangyfrif o'r gost bob blwyddyn – Cymru gyfan (22 ALl)** | **663,163** | **673,660** |
| Amcangyfrif o'r gost bob blwyddyn i ALlau – Cymru gyfan | 378,950 | 384,950 |
| Amcangyfrif o'r cymhorthdal i ddarparwyr gwasanaethau bob blwyddyn – Cymru gyfan | 284,213 | 288,710 |

8.68 Yn ogystal â'r gwasanaethau datrys anghydfod, mae yna gostau i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundebau. Ni wyddom beth yw'r gost i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymateb i anghytundebau, gan nad oes data yn cael eu casglu[70]. Fodd bynnag, mae modd amcangyfrif y gost ar sail cost gwasanaethau datrys anghytundeb a chost amddiffyn apêl i awdurdodau lleol.

8.69 Mae Holtom et al (2014)[71] yn amcangyfrif mai cost amddiffyn achos yr apelir i TAAAC yn ei gylch yw £10,000 i awdurdodau lleol[72]. Ar gyfartaledd, cost gwasanaethau datrys anghydfod i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni drwy'r broses apelio yw £4,125 ar gyfer pob achos[73]. Mae cost amddiffyn achos yn TAAAC, felly, 2.42 o weithiau yn fwy i awdurdodau lleol na chost darparu gwasanaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni drwy'r broses apelio.

[70] Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am wybodaeth am gost ymateb i gwynion. Nid oedd data ar gael.
[71] Gwerthusiad o Brosiect Peilot ar Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Ewch i: http://dera.ioe.ac.uk/20424/1/140626-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal-en.pdf
[72] Darparwyd yr amcangyfrif o £10,000 gan un o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr astudiaeth beilot.
[73] Ffynhonnell: SNAP Cymru.

8.70 Ni wyddom beth yw'r gost i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundebau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae modd amcangyfrif y gost hon ar sail y rhagdybiaeth bod y gymhareb rhwng y gost i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundeb a chost datrys anghytundeb drwy wasanaeth datrys anghydfod awdurdod lleol, yr un fath â'r gymhareb rhwng y gost i awdurdodau lleol yn sgil amddiffyn achos yr apelir yn ei gylch i TAAAC a chost darparu gwasanaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni drwy'r broses apelio. Hynny yw, bydd y gost i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundeb 2.42 o weithiau yn fwy na chost datrys anghytundeb drwy wasanaeth datrys anghydfod awdurdod lleol (gweler Tabl 16 isod).

8.71 Rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2016, cost gyfartalog pob anghytundeb a gafodd ei ddatrys drwy wasanaeth datrys anghytundeb awdurdod lleol oedd tua £875. A chymryd bod y costau i'r awdurdod lleol yn sgil ymateb i anghytundeb 2.42 o weithiau yn fwy na chost anghytundeb a gefnogir drwy wasanaeth datrys anghydfod awdurdod lleol, amcangyfrifir costau o £2,121 i awdurdodau lleol ar gyfer pob anghytundeb yr ymatebir iddo. Ar y sail hon, amcangyfrifir bod awdurdodau lleol wedi gwario tua £1,607,670 y flwyddyn rhwng 2013-14 a 2015-16 yn sgil ymateb i 758 o anghytundebau bob blwyddyn yng Nghymru, ar gyfartaledd.

8.72 Ar sail prisiau 2016-17, amcangyfrifir cost o tua £1,633,100 i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundebau am ddatganiadau.

8.73 Fel y mae Tabl 16 isod yn ei nodi, amcangyfrifir cost o tua £2,306,760 y flwyddyn mewn perthynas ag anghytundebau ac apelau, ar sail prisiau 2016-17. O hwnnw, amcangyfrifir costau o £2,018,050 i awdurdodau lleol, a chost cymhorthdal o £288,710. Mae hyn yn cynnwys anghytundebau am fod eisiau datganiad ac am gael datganiad - hynny yw, anghytundebau ynghylch peidio â rhoi datganiad ac anghytundebau ynghylch cynnwys y datganiad.

Tabl 16: y gost bob blwyddyn i awdurdodau lleol yn sgil anghytundebau ynghylch bod eisiau datganiad neu ynghylch cael datganiad

| | Cost pob apêl (£) | Ffactor mewn perthynas â chost yr apêl | Cost pob anghytundeb (£) | Nifer yr anghytundebau | Cyfanswm y gost bob blwyddyn – anghytundebau (£) | Cyfanswm y gost bob blwyddyn prisiau 2016-17 – anghytundebau (£) | Y gost i'r awdurdod lleol – fesul anghytundeb (£) | Cymhorthdal – fesul anghytundeb (£) | Cyfanswm y gost i'r awdurdod lleol – anghytundeb (£) | Cyfanswm y cymhorthdal – anghytundeb (£) | Cyfanswm y gost i'r awdurdod lleol – anghytundeb – prisiau 2016-17 (£) | Cyfanswm y cymhorthdal – anghytundeb – prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth datrys anghytundeb yr ALl | 4,125 | | 875 | 758 | 663,160 | 673,660 | 500 | 375 | 378,950 | 284,210 | 384,950 | 288,710 |
| Gwasanaethau addysg yr ALl | 10,000 | 2.42 | 2,121 | 758 | 1,607,670 | 1,633,100 | 2,121 | 0 | 1,607,670 | 0 | 1,633,100 | 0 |
| **Cyfanswm** | | | | | **2,270,830** | **2,306,760** | | | **1,986,620** | **284,210** | **2,018,050** | **288,710** |

**Anghytundebau sy'n ymwneud â bod eisiau datganiad**

8.74 Mae modd dadelfennu costau awdurdodau lleol sy'n codi yn sgil anghytundebau rhwng y rheini sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad a'r rheini sy'n ymwneud â chynnwys y datganiad.

8.75 Rhwng 2013-14 a 2015-16, daeth 284 o apelau i law yn TAAAC. Roedd 150 (53%) ohonynt yn ymwneud â pheidio â chael datganiad ac 134 (47%) ynghylch cael datganiad (gweler Tabl 17 isod).

8.76 A chymryd bod cyfran yr anghytundebau ynghylch peidio â chael datganiad yr un fath â'r apelau i TAAAC ynghylch peidio â chael datganiad (53%), gellir amcangyfrif bod 402 o'r 758 o anghytundebau y flwyddyn rhwng 2013-14 a 2015-16 yn ymwneud â pheidio â chael datganiad, a bod 356 yn ymwneud â chael datganiad.

Tabl 17: apêl yn ôl math, 2013/14 i 2015/16

| | 2015-16 | 2015-16 | 2014-15 | 2014-15 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 i 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o apêl | Nifer yr apelau | % | Nifer yr apelau | % | Nifer yr apelau | % | **Cyfanswm** | **Cyfartaledd** | % |
| Gwrthod asesu | 41 | 39 | 40 | 39 | 26 | 33 | 107 | 36 | 38 |
| Gwrthod rhoi datganiad | 11 | 10 | 14 | 14 | 10 | 13 | 35 | 12 | 12 |
| Gwrthod ailasesu | 3 | 3 | 0 | 0 | 1 | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Dod â datganiad i ben | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 3 | 4 | 1 | 1 |
| **Peidio â chael datganiad** | **57** | **54** | **54** | **53** | **39** | **50** | **150** | **50** | **53** |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 2 a 3 | 11 | 10 | 11 | 11 | 10 | 13 | 32 | 11 | 11 |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 2, 3 a 4 | 24 | 23 | 18 | 18 | 18 | 23 | 60 | 20 | 21 |
| Cynnwys datganiadau - rhan 3 yn unig | 5 | 5 | 8 | 8 | 4 | 5 | 17 | 6 | 6 |
| Cynnwys datganiadau - rhan 4 yn unig | 5 | 5 | 8 | 8 | 5 | 6 | 18 | 6 | 6 |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 3 a 4 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 7 | 2 | 2 |
| **Cael datganiad** | **48** | **46** | **47** | **47** | **39** | **50** | **134** | **45** | **47** |
| **Cyfanswm** | **105** | **100** | **101** | **100** | **78** | **100** | **284** | **95** | **100** |

8.77 Amcangyfrifir mai cyfanswm cost darparu gwasanaethau datrys anghytundeb awdurdodau lleol mewn perthynas â 402 o achosion lle mae rhieni eisiau datganiad yw tua £357,040 y flwyddyn, ar sail prisiau 2016-17. O hwnnw, amcangyfrifir bod tua £204,020 yn gost i'r awdurdodau lleol a £153,020 yn cael ei dalu gan gymhorthdal.

8.78 Yn ogystal, bydd yna gostau i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i rieni sy'n anghytuno â pheidio â chael datganiad. Amcangyfrifir costau o £865,540 y flwyddyn i awdurdodau lleol, ar sail prisiau 2016-17, yn sgil ymateb i'r 402 o achosion lle mae rhieni yn anghytuno â phenderfyniadau am beidio â chael datganiad.

8.79 O gyfuno cost gwasanaethau datrys anghydfod a chost ymateb i rieni, amcangyfrifir costau o £1,069,570 y flwyddyn i awdurdodau lleol, ar sail prisiau 2016-17, yn sgil ymateb i 402 o anghytundebau am beidio â chael datganiad a bod £153,020 yn cael ei dalu gan gymhorthdal (gweler Tabl 18 isod).

Tabl 18: costau i awdurdodau lleol yn sgil anghytundebau yn ôl math o anghytundeb, prisiau 2016-17

| | **Cost (100 %)** | **Peidio â chael datganiad (53%)** | **Cael datganiad (47%)** | **Peidio â chael datganiad (53%) – costau ALl** | **Cael datganiad (47%) – costau ALl** | **Peidio â chael datganiad (53%) - cymhorthdal** | **Cael datganiad (47%) – cymhorthdal** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau datrys anghytundeb | 673,660 | 357,040 | 316,620 | 204,020 | 180,920 | 153,020 | 135,690 |
| Ymateb yr awdurdod lleol | 1,633,100 | 865,540 | 767,560 | 865,550 | 767,560 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,306,760** | **1,222,580** | **1,084,180** | **1,069,570** | **948,480** | **153,020** | **135,690** |

8.80 Fel y mae Tabl 18 yn ei nodi, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau sy’n gysylltiedig ag anghytundebau ynghylch cael datganiad yw £1,084,180 ar sail prisiau 2016-17 yn sgil y 356 o anghytundebau bob blwyddyn sy'n ymwneud â chael datganiad. O hwnnw, amcangyfrifir cyfanswm costau o £948,480 y flwyddyn i awdurdodau lleol ar sail prisiau 2016-17. Gellir rhannu hyn rhwng tua £180,920 ar wasanaethau datrys anghytundeb awdurdodau lleol a £767,560 ar ymateb i anghytundebau ynghylch bod eisiau datganiad. Caiff y swm sy’n weddill, a amcangyfrifir yn £135,690, ei dalu drwy gymhorthdal gan ddarparwyr gwasanaethau datrys anghytundebau.

**Apelau am benderfyniadau sy'n ymwneud â bod eisiau datganiad neu sy'n ymwneud â chael datganiad**

8.81 Yn ogystal ag anghytundebau am ddatganiadau, mae costau i awdurdodau lleol pan fydd rhieni yn apelio i TAAAC mewn ymateb i benderfyniadau awdurdodau lleol am ddatganiadau.

8.82 Mae awdurdodau lleol yn darparu mynediad i wasanaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni i apelio i TAAAC lle nad oes modd datrys anghytundeb ynghylch penderfyniad.

8.83 Mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaethau datrys anghytundeb lle bydd rhieni yn dymuno cyfeirio anghytundeb i TAAAC. Lle caiff achos ei ddatrys drwy wasanaeth datrys anghytundeb, pan na chaiff ei gyfeirio i dribiwnlys, cost gwasanaethau SNAP Cymru, ar gyfartaledd, yw £2000. Cost gyfartalog cefnogi teulu o’r adeg pan fynegant eu pryderon cychwynnol neu adeg yr anghytundeb drwy gydol y cyfnod hyd yr apêl i TAAAC yw £4,125. Cost datrys anghydfod ffurfiol i awdurdodau lleol yw £600.

8.84 Yn ystod y cyfnod 30 mis rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2016, ymdriniodd SNAP Cymru â chyfanswm o 20 o achosion a gyfeiriwyd i dribiwnlys. Mae hynny’n un achos i bob awdurdod lleol dros gyfnod y 30 mis, ar gyfartaledd. Mae’n cyfateb i ryw 9 achos y flwyddyn ar draws 22 o awdurdodau lleol, ar gyfartaledd, neu 0.4 achos y flwyddyn i bob un o’r 22 o awdurdodau lleol. Ar sail y rhagdybiaeth y byddai’r gost gyfartalog o £600 yn sgil gwasanaethau datrys anghydfod, lle cyfeirir

achos i dribiwnlys, yr un fath ar draws pob awdurdod lleol, amcangyfrifir y byddai'r gost i awdurdodau lleol yn rhyw £5,300.

8.85 Amcangyfrifir bod SNAP Cymru yn rhoi cymhorthdal o £3,525 am bob achos o ddatrys anghydfod a gyfeirir i dribiwnlys. Amcangyfrifir mai cyfanswm y cymhorthdal a roddir bob blwyddyn yw tua £31,800.

8.86 Yn ogystal â chost gwasanaethau datrys anghydfodau, bydd costau i wasanaethau addysg awdurdodau lleol yn sgil cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn penderfyniadau am asesiadau ar gyfer datganiadau mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys paratoi'r amddiffyniad ymlaen llaw a chostau sy'n codi ar y diwrnod.

8.87 Nid yw data ar y gost i awdurdodau lleol yn sgil amddiffyn achosion yn TAAAC ar gael i'r cyhoedd. Mae Holtom et al (2014)[74], er yn cydnabod ei bod yn anodd nodi union ffigurau y costau i awdurdodau lleol yn sgil herio achos yn TAAAC, yn amcangyfrif tua £10,000 yn 2013. Mae hyn yn cyfateb i £10,317 ar sail prisiau 2016-17.

8.88 Ar sail prisiau 2016-17, amcangyfrifir cost o tua £1,083,300 y flwyddyn i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i 105 o apelau.

8.89 Fel y mae Tabl 19 yn ei nodi isod, amcangyfrifir cost o tua £1,120,400 y flwyddyn yn sgil darparu mynediad i wasanaethau datrys anghydfod ac ymateb i apelau i TAAAC, ar sail prisiau 2016-17. O hwnnw, amcangyfrifir costau o ryw £1,088,600 i awdurdodau lleol, a chymhorthdal o ryw £31,800.

[74] http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140626-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal-en.pdf

Tabl 19: cost apelau i TAAC i awdurdodau lleol, prisiau 2016-17

| Apelau i TAAAC (2015-16) | Cyfanswm cost gwasanaethau datrys anghytundeb – apelau (£) | Cost gwasanaethau datrys anghytundeb – ALl (£) | Cymhorthdal (£) | Cost amddiffyn achos i awdurdodau lleol | Cyfanswm y gost i awdurdodau lleol | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 105 | 37,100 | 5,300 | 31,800 | 1,083,300 | 1,088,600 | 1,120,400 |

**Apelau am benderfyniadau sy'n ymwneud â bod eisiau datganiad**

8.90 Gan fod data ynghylch math o apêl yn cael eu casglu, mae modd dadelfennu'r gost i awdurdodau lleol, rhwng apelau sy'n ymwneud â bod eisiau datganiad ac apelau sy'n ymwneud â chael datganiad.

8.91 Fel y mae Tabl 20 yn ei nodi, yn ystod 2015/16 gwnaed 57 (54%) o apelau i TAAAC ynghylch penderfyniadau yn ymwneud â pheidio â chael datganiad[75] a 48 (46%) o apelau ynghylch penderfyniadau yn ymwneud â chael datganiad.

Tabl 20: apelau i TAAAC 2015-16, yn ôl math

| Math o apêl | Nifer yr apelau | Canran |
|---|---|---|
| Gwrthod asesu | 41 | 39 |
| Gwrthod rhoi datganiad | 11 | 10 |
| Gwrthod ailasesu | 3 | 3 |
| Dod â datganiad i ben | 2 | 2 |
| **Peidio â chael datganiad** | **57** | **54** |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 2 a 3 | 11 | 10 |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 2, 3 a 4 | 24 | 23 |
| Cynnwys datganiadau - rhan 3 yn unig | 5 | 5 |
| Cynnwys datganiadau - rhan 4 yn unig | 5 | 5 |
| Cynnwys datganiadau - rhannau 3 a 4 | 3 | 3 |
| **Cael datganiad** | **48** | **46** |
| Cyfanswm | **105** | **100** |

[75] Mae hyn yn gyson â'r cyfartaledd o 53% rhwng 2013-14 a 2015-16 a nodir yn Nhabl 17 uchod.

8.92 Ar sail y rhagdybiaeth bod y rhaniad yn y gyfran rhwng peidio â chael datganiad a chael datganiad yr un fath yn y 9 achos a gafodd gymorth y gwasanaethau datrys anghydfod â'r rhaniad yn y gyfran honno o ran yr apelau yn 2015-16, amcangyfrifir cost o tua £14,900 y flwyddyn am ddarparu gwasanaethau datrys anghytundebau ar gyfer apelau ynghylch peidio â chael datganiad, ar sail prisiau 2016-17. O hwnnw, bydd £2,900 o gostau i awdurdodau lleol a £17,200 i'w dalu drwy gymhorthdal gan ddarparwyr y gwasanaethau. Amcangyfrifir cost o £585,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol yn sgil amddiffyn 57 o apelau am beidio â chael datganiad, ar sail prisiau 2016-17 (gweler Tabl 21 isod).

8.93 Amcangyfrifir cost o £605,000 y flwyddyn yn sgil darparu gwasanaethau datrys anghytundeb ac amddiffyn apelau ynghylch peidio â chael datganiad, ar sail prisiau 2016-17 (gweler Tabl 21 isod). O hwnnw, amcangyfrifir costau o £587,900 i awdurdodau lleol, a chostau darparwyr gwasanaethau o £17,200.

Tabl 21: costau awdurdodau lleol yn sgil apelau, yn ôl apêl, prisiau 2016-17

| | POB APEL | Peidio â chael datganiad (54%) | Cael datganiad (46%) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau datrys anghytundeb – cyfanswm y gost | 37,100 | 20,000 | 17,100 |
| Gwasanaethau datrys anghytundeb – y gost i ALl | 5,300 | 2,900 | 2,400 |
| Gwasanaethau datrys anghytundeb - cymhorthdal | 31,800 | 17,200 | 14,600 |
| Cost amddiffyn i awdurdodau lleol | 1,083,300 | 585,000 | 498,300 |
| Cyfanswm y gost i awdurdodau lleol | 1,088,600 | 587,900 | 500,700 |
| Cyfanswm | 1,120,400 | 605,000 | 515,400 |

8.94 Fel y mae Tabl 21 yn ei nodi, amcangyfrifir cost o £17,100, ar sail prisiau 2016-17, yn sgil darparu gwasanaethau datrys anghytundeb i gefnogi apelau ynghylch cael datganiad. O hwnnw, amcangyfrifir cost o £2,400 i awdurdodau lleol a £10,300 o gymhorthdal. Amcangyfrifir cost o ryw £498,300 y flwyddyn, ar sail prisiau 2016-17, i awdurdodau lleol sy'n amddiffyn 48 o apelau ynghylch cael datganiad. Amcangyfrifir cyfanswm cost o £515,400 y flwyddyn, ar sail prisiau 2016-17, yn sgil darparu gwasanaethau datrys anghytundeb ac amddiffyn apelau ynghylch cael datganiad. O hwnnw, amcangyfrifir costau o ryw £500,700 i awdurdodau lleol a £14,600 fel cymhorthdal.

Tabl 22: crynodeb o gostau opsiwn 1 i wasanaethau addysg awdurdodau lleol, yn ôl gweithgaredd

| | **Prisiau 2016-17** |
|---|---:|
| Asesiadau | 7,980,700 |
| Adolygiadau | 4,023,600 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – anghytundebau – costau ALl | 384,950 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – anghytundebau – cymhorthdal | 288,710 |
| Ymateb i anghytundebau | 1,633,100 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – apelau – costau ALl | 5,300 |
| Gwasanaethau datrys anghydfod – apelau – cymhorthdal | 31,800 |
| Amddiffyn apelau | 1,083,300 |
| **Cyfanswm** | **15,431,460** |

### Ysgolion

### Asesiadau ac adolygiadau

8.95 Yn ôl amcangyfrifon Deloitte (2015), gwariodd ysgolion gyfanswm o £511,600,000 ar anghenion addysgol arbennig rhwng 2011-12 a 2013-14 (gweler Tabl 23 isod i gael manylion y blynyddoedd a'r mathau o ysgolion). O'r swm hwn, gwariwyd £12,500,000 ar asesiadau statudol ac anstatudol a £13,200,000 ar adolygu cynlluniau statudol ac anstatudol (gweler Tabl 24 isod i gael amcangyfrif o'r gwariant yn ôl math o ysgol).

Tabl 23: amcangyfrif o wariant ysgolion ar AAA yn ôl math o ysgol

| | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | 2011-12 i 2013-14 (£) | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion y brif ffrwd | 76,200,000 | 92,600,000 | 86,500,000 | 255,300,000 | 89,241,400 |
| Ysgolion arbennig | 80,900,000 | 85,700,000 | 89,700,000 | 256,300,000 | 92,542,800 |
| **Pob ysgol** | **157,100,000** | **178,300,000** | **176,200,000** | **511,600,000** | **181,784,200** |

Tabl 24: amcangyfrif o wariant ysgolion 2011-12 i 2013-14 ar asesiadau ac adolygiadau yn ôl math o ysgol

| | Asesiadau (£m) | Adolygiadau (£m) |
|---|---|---|
| Ysgolion y brif ffrwd | 12,500,000 | 10,600,000 |
| Ysgolion arbennig[76] | 0 | 2,600,000 |
| Cyfanswm | **12,500,000** | **13,200,000** |

8.96 Fodd bynnag, ni wnaeth Deloitte ddadelfennu gwariant ar asesiadau ac adolygiadau yn ôl cynlluniau statudol ac anstatudol, ac ni ddarparwyd costau yn ôl blwyddyn.

[76] Mae Deloitte (2015) yn nodi na amcangyfrifwyd faint sy'n cael ei wneud i asesu anghenion. Nid yw hyn yn golygu nad oes camau yn cael eu cymryd i asesu anghenion, ond bod ysgolion arbennig wedi'i chael yn her dadelfennu 'asesu anghenion' a'r cymorth a roddir bob dydd i ddysgwyr, gan eu bod yn asesu anghenion dysgwyr yn barhaus yn hytrach na gwneud hynny fel gweithgarwch penodol (tudalen 20).

Tabl 25: canran gwariant ysgolion ar asesiadau ac adolygiadau fel canran o gyfanswm y gwariant ar AAA yn 2011-12 i 2013-14 yn ôl math o ysgol

| | **Gwariant ar asesiadau (%)** | **Gwariant ar adolygiadau (%)** |
|---|---|---|
| Ysgolion y brif ffrwd | 5 | 4 |
| Ysgolion arbennig[77] | 0 | 1 |

8.97 Mae Tabl 26 isod yn nodi amcangyfrif o'r gwariant gan ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig ar asesiadau ac adolygiadau bob blwyddyn. Cyfrifwyd y gwariant blynyddol ar asesiadau ac adolygiadau ar sail y ganran a wariwyd gan ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig ar asesiadau ac adolygiadau rhwng 2011-12 a 2013-14 (gweler Tabl 25 uchod) mewn perthynas â'u hamcangyfrif o'u gwariant blynyddol ar anghenion addysgol arbennig (Tabl 23 uchod).

8.98 Er enghraifft, rhwng 2011-12 a 2013-14, defnyddiodd ysgolion y brif ffrwd tua 5% o gyfanswm eu gwariant anghenion addysgol arbennig ar asesiadau. Yn 2013-14, gwariodd ysgolion y brif ffrwd £86,500,000. A chymryd bod tua 5% o hwn wedi'i wario ar asesiadau, gwariodd ysgolion y brif ffrwd tua £4,235,200 ar asesiadau yn 2013-14. Mae hyn yn cyfateb i £4,369,400 ar sail prisiau 2016-17.

[77] Mae Deloitte (2015) yn nodi na amcangyfrifwyd faint sy'n cael ei wneud i asesu anghenion. Nid yw hyn yn golygu nad oes camau yn cael eu cymryd i asesu anghenion, ond bod ysgolion arbennig wedi'i chael yn her dadelfennu 'asesu anghenion' a'r cymorth a roddir bob dydd i ddysgwyr, gan eu bod yn asesu anghenion dysgwyr yn barhaus yn hytrach na gwneud hynny fel gweithgarwch penodol (tudalen 20).

Tabl 26: amcangyfrif o wariant ysgolion y brif ffrwd ac ysgolion arbennig ar asesiadau ac adolygiadau bob blwyddyn

| | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | 2011-12 i 2013-14 (£) | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Asesiadau - ysgolion y brif ffrwd | 3,730,900 | 4,533,900 | 4,235,200 | 12,500,000 | 4,369,400 |
| Asesiadau - ysgolion arbennig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Asesiadau - pob ysgol** | **3,730,900** | **4,533,900** | **4,235,200** | **12,500,000** | **4,369,400** |
| Adolygiadau - ysgolion y brif ffrwd | 3,163,800 | 3,844,700 | 3,591,500 | 10,600,000 | 3,705,300 |
| Adolygiadau - ysgolion arbennig | 820,700 | 869,400 | 909,900 | 2,600,000 | 938,700 |
| **Adolygiadau - pob ysgol** | **3,984,500** | **4,714,100** | **4,501,400** | **13,200,000** | **4,644,000** |
| **Cyfanswm** | **7,715,400** | **9,248,000** | **8,736,600** | **25,700,000** | **9,013,400** |

8.99 Er mwyn dadelfennu'r gost i ysgolion yn sgil cynnal asesiadau ac adolygiadau yn ôl y rhai statudol (datganiadau) a'r rhai anstatudol (cynlluniau addysg unigol), ystyriwyd cyfran yr amser dreuliodd ysgolion ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol.

8.100 Roedd yr amser a dreuliwyd ar asesiadau ac adolygiadau yn amrywio'n sylweddol o un ysgol i'r llall. Mae Tabl 27 isod yn nodi'r cyfnodau amrywiol a dreuliwyd ar asesiadau ac adolygiadau yn ôl math.

8.101 Fel y mae Tabl 27 isod yn ei ddangos, mae'r amser a dreuliwyd gan ysgolion ar asesiadau statudol yn amrywio'n fawr, o 90 i 720 o funudau ar bob asesiad. Mae'r amser a dreuliwyd ar asesiadau anstatudol hefyd yn amrywio, o 60 i 180 o funudau.

8.102 Yn ogystal, roedd yna gryn amrywiaeth yn yr amser a dreuliwyd ar adolygu cynlluniau statudol, o 60 i 600 o funudau, ac ar adolygu cynlluniau anstatudol, o 10 i 120 o funudau.

8.103 Defnyddiwyd canol yr ystod i amcangyfrif cyfran yr amser a dreuliwyd ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol. O gofio'r amrywiaeth yn yr amser a dreuliwyd ar bob gweithgaredd a'r diffyg data ar ba mor aml y treuliwyd

amser ar bob gweithgaredd, efallai nad yw canol yr ystod yn amcan cywir iawn. Dylid trin yr amcangyfrif o gyfran yr amser a dreuliwyd ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol, a'r costau a ddyrannwyd, fel enghraifft eglurhaol, felly.

Tabl 27: amser a dreuliwyd ar asesiadau ac adolygiadau, yn ôl math

| | Ystod amser (munudau) | | Pwynt canol (£) |
|---|---|---|---|
| | Lleiafswm | Uchafswm | |
| Asesiadau - datganiad | 90 | 720 | 405 |
| Asesiadau - cynlluniau addysg unigol | 60 | 180 | 120 |
| Adolygiadau - datganiad | 60 | 600 | 330 |
| Adolygiadau - cynlluniau anstatudol | 10 | 120 | 65 |

Ffynhonnell: Deloitte (2015)

8.104 Yn ogystal ag amcangyfrif faint o amser mae ysgolion yn ei dreulio ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol, roedd angen gwybod nifer yr adolygiadau a'r asesiadau statudol ac anstatudol er mwyn cyfrifo'r gwariant ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol.

8.105 Gwyddom nifer yr asesiadau statudol a gynhelir bob blwyddyn (gweler Tabl 12 uchod) ac mae gennym amcan o nifer yr adolygiadau o asesiadau statudol (gweler Tabl 14 uchod). Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth yw nifer yr asesiadau ar gyfer cynlluniau addysg unigol a gynhelir bob blwyddyn, gan nad yw'r data hyn yn cael eu casglu.

Tabl 28: amcangyfrif o nifer yr asesiadau ar gyfer datganiadau a chynlluniau addysg unigol a gynhelir gan ysgolion bob blwyddyn

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| Disgyblion â datganiadau | 13,806 | 13,567 | 13,342 |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer datganiadau a gynhelir | 1,944 | 1,870 | 1,634 |
| Asesiadau fel cyfran o bob datganiad (%) | 14 | 14 | 12 |
| Disgyblion â chynlluniau addysg unigol (disgyblion sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy) | 91,506 | 92,685 | 94,500 |
| Amcangyfrif o nifer yr asesiadau ar gyfer cynlluniau addysg unigol | 12,885 | 12,775 | 11,572 |

8.106 Mae'r amcangyfrif o nifer yr asesiadau ar gyfer cynlluniau addysg unigol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod nifer yr asesiadau ar gyfer cynlluniau addysg unigol, fel cyfran o bob cynllun addysg unigol, yr un fath â nifer yr asesiadau ar gyfer datganiadau, fel cyfran o bob datganiad (gweler Tabl 28 uchod).

8.107 Mae'r amcangyfrif o'r gost i ysgolion yn sgil asesiadau ac adolygiadau yn ôl math yn seiliedig ar gyfran yr amser dreuliodd ysgolion ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol. Nodir yr amser cyfartalog dreuliodd ysgolion ar bob gweithgaredd yn Tabl 29 isod ac mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth bod cynlluniau statudol ac anstatudol yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn[78].

[78] Caiff cynlluniau addysg unigol eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn, ond fel rheol caiff un o'r adolygiadau hyn eu cynnal yn ystod y cyfarfod gyda rhieni, felly nid oes cost ychwanegol i'r ail adolygiad.

Tabl 29: amser a dreuliwyd gan ysgolion ar asesiadau ac adolygiadau yn ôl math

| | Yr amser cyfartalog a dreuliwyd (munudau) | | |
|---|---|---|---|
| | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** |
| Asesiadau - datganiad | 787,320 | 757,350 | 661,675 |
| Asesiadau - cynlluniau addysg unigol | 1,546,177 | 1,533,022 | 1,388,615 |
| **Cyfanswm y munudau asesu** | **2,333,497** | **2,290,372** | **2,050,290** |
| Adolygiadau - datganiad | 4,555,980 | 4,477,110 | 4,402,860 |
| Adolygiadau - cynlluniau anstatudol | 5,947,890 | 6,024,525 | 6,142,500 |
| **Cyfanswm y munudau adolygu** | **10,503,870** | **10,501,635** | **10,545,360** |

8.108 Defnyddiwyd cyfran yr amcangyfrif o'r amser dreuliodd ysgolion yn asesu ac yn adolygu cynlluniau statudol ac anstatudol er mwyn dadelfennu'r gost o gynnal asesiadau ac adolygiadau yn ôl math o adolygiad a math o ysgol. Nodir hyn yn Nhabl 30 isod.

8.109 Mae Tabl 30 isod yn nodi'r amcangyfrif o'r amser a dreuliwyd gan ysgolion yn asesu datganiadau a chynlluniau addysg unigol fel cyfran o'r amser a dreuliwyd ar asesiadau; ac mae'n nodi'r amser a dreuliwyd yn adolygu datganiadau a chynlluniau addysg unigol fel cyfran o'r amser a dreuliwyd ar adolygiadau.

Tabl 30: cyfran o'r amser a dreuliwyd gan ysgolion ar adolygiadau ac asesiadau statudol ac anstatudol

| | 2011-12 (%) | 2012-13 (%) | 2013-14 (%) |
|---|---|---|---|
| Asesiadau – datganiad | 34 | 33 | 32 |
| Asesiadau - cynlluniau addysg unigol | 66 | 67 | 68 |
| **Cyfanswm y munudau asesu** | **100** | **100** | **100** |
| Adolygiadau – datganiad | 43 | 43 | 42 |
| Adolygiadau - cynlluniau addysg unigol | 57 | 57 | 58 |
| **Cyfanswm y munudau adolygu** | **100** | **100** | **100** |

8.110 Mae Tabl 31 isod yn nodi’r costau wedi'u dadgyfuno i ysgolion yn sgil cynnal asesiadau ac adolygiadau (gweler Tabl 26) yn ôl y rheini sy’n statudol (datganiadau) a’r rheini sy’n anstatudol (cynlluniau addysg unigol).

Tabl 31: amcangyfrif o wariant ysgolion ar asesiadau ac adolygiadau yn ôl math o adolygiad a math o ysgol

| | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad AAA - ysgolion y brif ffrwd | 76,200,000 | 92,600,000 | 86,500,000 | 89,241,400 |
| Buddsoddiad AAA - ysgolion arbennig | 80,900,000 | 85,700,000 | 89,700,000 | 92,542,800 |
| Buddsoddiad AAA - pob ysgol | 157,100,000 | 178,300,000 | 176,200,000 | 181,784,200 |
| **Asesiadau - ysgolion y brif ffrwd (£)** | **3,730,900** | **4,533,900** | **4,235,200** | **4,369,400** |
| Datganiad | 1,258,800 | 1,499,200 | 1,366,800 | 1,410,100 |
| Cynllun datblygu unigol | 2,472,100 | 3,034,700 | 2,868,400 | 2,959,300 |
| **Asesiadau - ysgolion arbennig**[79] | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Datganiad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun addysg unigol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Asesiadau - pob ysgol (£)** | **3,730,900** | **4,533,900** | **4,235,200** | **4,369,400** |
| Datganiad | 1,258,800 | 1,499,200 | 1,366,800 | 1,410,100 |
| Cynllun addysg unigol | 2,472,100 | 3,034,700 | 2,868,400 | 2,959,300 |
| **Adolygiadau - ysgolion y brif ffrwd** | **3,163,800** | **3,844,700** | **3,591,500** | **3,705,300** |
| Datganiad | 1,372,300 | 1,639,100 | 1,499,500 | 1,547,000 |
| Cynllun addysg unigol | 1,791,500 | 2,205,600 | 2,092,000 | 2,158,300 |
| **Adolygiadau - ysgolion arbennig** | **820,700** | **869,400** | **909,900** | **938,700** |
| Datganiad | 820,700 | 869,400 | 909,900 | 938,700 |
| Cynllun addysg unigol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Adolygiadau - pob ysgol** | **3,984,500** | **4,714,100** | **4,501,400** | **4,644,000** |
| Datganiad | 1,728,250 | 2,009,700 | 1,879,400 | 1,939,000 |
| Cynllun addysg unigol | 1,791,500 | 2,205,600 | 2,092,000 | 2,158,300 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **7,715,400** | **9,248,000** | **8,736,600** | **9,013,400** |

8.111 Mae Tabl 32 isod yn nodi'r costau i ysgolion yn sgil cynnal adolygiad ac asesiad unigol yn ôl math o ysgol a math o asesiad.

[79] Mae Deloitte (2015) yn nodi na amcangyfrifwyd faint sy'n cael ei wneud i asesu anghenion. Nid yw hyn yn golygu nad oes camau yn cael eu cymryd i asesu anghenion, ond bod ysgolion arbennig wedi'i chael yn her dadelfennu 'asesu anghenion' a'r cymorth a roddir bob dydd i ddysgwyr, gan eu bod yn asesu anghenion dysgwyr yn barhaus yn hytrach na gwneud hynny fel gweithgarwch penodol (tudalen 20).

Tabl 32: cost adolygiadau ac asesiadau unigol yn ôl math o ysgol a math o adolygiad ac asesiad

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | prisiau 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Asesiadau - ysgolion y brif ffrwd (£) | 3,730,905 | 4,533,882 | 4,235,213 | 4,369,439 |
| Nifer y datganiadau a aseswyd | 1,944 | 1,870 | 1,634 | 1,634 |
| Cyfanswm cost asesu datganiadau (£) | 1,258,804 | 1,499,204 | 1,366,799 | 1,410,117 |
| **Cost fesul asesiad o ddatganiad - ysgolion y brif ffrwd (£)** | **648** | **802** | **837** | **864** |
| Nifer y cynlluniau addysg unigol a aseswyd | 12,885 | 12,775 | 11,572 | 11,572 |
| Cyfanswm cost asesu cynlluniau addysg unigol | 2,472,101 | 3,034,678 | 2,868,414 | 2,959,322 |
| **Cost fesul asesiad o gynllun addysg unigol - ysgolion y brif ffrwd (£)** | **192** | **238** | **248** | **256** |
| Adolygiadau - ysgolion y brif ffrwd (£) | 3,163,807 | 3,844,732 | 3,591,461 | 3,705,284 |
| Cyfanswm cost adolygu datganiadau (£) | 1,372,279 | 1,639,105 | 1,499,494 | 1,547,017 |
| Nifer y datganiadau a adolygwyd | 13,098 | 12,738 | 12,530 | 12,530 |
| **Cost adolygu datganiad - ysgolion y brif ffrwd (£)** | **105** | **129** | **120** | **124** |
| Cyfanswm cost adolygu cynlluniau addysg unigol (£) | 1,791,528 | 2,205,626 | 2,091,967 | 2,158,267 |
| Nifer y cynlluniau addysg unigol a adolygwyd | 89,940 | 91,053 | 92,773 | 92,773 |
| **Cost adolygu cynllun addysg unigol - ysgolion y brif ffrwd (£)** | **20** | **24** | **23** | **24** |
| Adolygiadau - ysgolion arbennig | 820,679 | 869,372 | 909,949 | 938,700 |
| Cyfanswm cost adolygu datganiadau (£) | 820,679 | 869,372 | 909,949 | 938,700 |
| Nifer y datganiadau a adolygwyd | 343 | 386 | 388 | 388 |
| **Cost adolygu datganiad - ysgolion arbennig (£)** | **2,393** | **2,252** | **2,345** | **2,419** |

### Anghytundebau

8.112 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn casglu data am gwynion, ni chaiff data am nifer, math na chanlyniad y cwynion eu casglu'n ganolog. Nid oes modd, felly, nodi union nifer y cwynion a ddaw i law ysgolion sy'n anghytundebau am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

8.113 Canfu ymchwil a wnaed gan McKenna a Day (2012)[80] ar ran Adran Addysg Lloegr fod nifer y cwynion a dderbynid gan ysgolion yn isel, ac mai un, ar gyfartaledd,

[80] McKenna, K. ac L. Day (2012) Parents' and Young People's Complaints about Schools. Ewch i: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183559/DFE-RR193.pdf

oedd yn dod i law am bob 100 o ddisgyblion bob blwyddyn academaidd, mewn dwy ran o dair o ysgolion cynradd ac uwchradd[81].

8.114 O ragdybio bod y sefyllfa yn debyg yng Nghymru, at ddibenion enghreifftiol amcangyfrifir bod 2,893 o gwynion wedi dod i law ysgolion yng Nghymru yn ystod 2013/14. Fodd bynnag, ni wyddom pa gyfran o'r cwynion hyn oedd yn ymwneud â darpariaeth ddysgu ychwanegol.

8.115 Canfu McKenna a Day mai'r materion a nodwyd amlaf oedd bwlio, anghenion addysgol arbennig, ymddygiad athrawon a gwaharddiadau. Fodd bynnag, nid oedd yr ymchwil yn nodi nac yn amcangyfrif cyfran y cwynion a oedd yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig.

8.116 Ni fu'n bosibl, felly, amcangyfrif nifer na chostau cwynion a dderbyniwyd gan ysgolion yng Nghymru sy'n ymwneud â darpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd**

8.117 Mae Deloitte yn amcangyfrif bod gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gwario tua £17,500,000 ar anghenion addysgol arbennig dros y tair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14 (gweler Tabl 33 isod). Mae hyn yn cynnwys gwariant ar addysg plant sy'n derbyn gofal ag anghenion addysgol arbennig ac ar leoliadau dysgwyr ôl-16 ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae gwariant 2013-14 wedi'i addasu i adlewyrchu prisiau 2016-17, gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Mae hyn yn rhoi ffigur o £6,293,300.

8.118 Mae Deloitte yn amcangyfrif bod byrddau iechyd wedi gwario tua £42,500,000 ar anghenion addysgol arbennig ac ar anawsterau a/neu anableddau dysgu rhwng 2011-12 a 2013-14 (gweler Tabl 33 isod). Mae hyn yn cynnwys gwariant cyllideb rhaglen y byrddau iechyd ar anawsterau dysgu a chyfraniad y byrddau iechyd i leoliadau arbenigol ôl-16. Amcangyfrifir cost o £15,165,900 ar sail prisiau 2016-17.

[81] Mae McKenna a Day yn defnyddio'r ffigur at ddibenion enghreifftiol, o ystyried y sampl bach o ysgolion y mae'r cyfrifiadau yn seiliedig arno.

Tabl 33: gwariant gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar AAA

| | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | 2011-12 i 2013-14 (£) | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol | 5,600,000 | 5,800,000 | 6,100,000 | 17,500,000 | 6,293,300 |
| Byrddau iechyd | 13,700,000 | 14,100,000 | 14,700,000 | 42,500,000 | 15,165,900 |
| **Cyfanswm** | **19,300,000** | **19,900,000** | **20,800,000** | **60,000,000** | **21,459,200** |

8.119 Ni wnaeth Deloitte amcangyfrif y swm wariodd y gwasanaethau cymdeithasol ar asesiadau ac adolygiadau o anghenion addysgol arbennig ac o anawsterau a/neu anableddau dysgu. Ni amcangyfrifodd chwaith wariant byrddau iechyd ar asesiadau ac adolygiadau o anghenion addysgol arbennig ac o anawsterau a/neu anableddau dysgu. Amcangyfrifwyd cost cynnal asesiadau ac adolygiadau i wasanaethau cymdeithasol ar sail casgliadau ymchwil o ran costau datganiadau a gynhaliwyd gan Craston et al (2014)[82].

8.120 Mae Tabl 34 isod yn nodi casgliadau'r ymchwil fel cost ganran i bob grŵp o asiantaethau yn sgil cynnal asesiad, fel cyfartaledd ar draws naw ardal ddaearyddol.

[82] Craston, M., Carr, C., Spivack, R. a G. Thom (2014) Evaluation of the Special Educational Needs and Disability Pathfinder Programme: understanding the comparative costs of delivering the EHC planning and SEN statementing processes for newcomers to the SEN system (Yr Adran Addysg: Llundain). Ewch i: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/342285/RR356B_-_Comparative_Costs_Evaluation.pdf
Nod cam cychwynnol y gwerthusiad (Medi 2011-Mawrth 2013) oedd cymharu costau proses gynllunio Addysg, Iechyd a Gofal a phroses ddatganiadau anghenion addysgol arbennig. Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar ddwy astudiaeth achos ac yn cwmpasu naw ardal ddaearyddol.

Tabl 34: cyfartaledd cost cynnal asesiadau statudol i asiantaethau yn Lloegr

| **Grŵp asiantaeth** | Cyfartaledd % |
|---|---|
| AAA[83] | 81.34 |
| Iechyd arbenigol[84] | 15.87 |
| Gofal cymdeithasol | 2.67 |
| Arall | 0.13 |
| Cyfanswm | 100.00 |

8.121 A chymryd bod canran y rhaniad mewn costau yr un fath ar draws asiantaethau yng Nghymru, gellir nodi y byddai tua 81% o gostau asesu statudol, ar gyfartaledd, yn disgyn ar wasanaethau addysg awdurdodau lleol ac ysgolion y brif ffrwd, 16% ar fyrddau iechyd, a 3% ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

8.122 Amcangyfrifir bod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol wedi gwario, ar gyfartaledd, tua £4,750 ar bob asesiad statudol rhwng 2011-12 a 2013-14 (gweler Tabl 12 uchod) ac amcangyfrifir bod ysgolion y brif ffrwd wedi gwario tua £750 ar bob asesiad statudol (gweler Tabl 35 isod).

8.123 Ar gyfartaledd, felly, amcangyfrifir bod pob asesiad statudol wedi costio tua £5,500 i wasanaethau addysg awdurdodau lleol ac ysgolion y brif ffrwd. Cymerir bod hyn yn 81% o gyfanswm cost asesiadau statudol, sy'n rhoi ffigur o tua £6,750 ar gyfer pob asesiad statudol. Rhennir y £1,250 (19%) sy'n weddill rhwng byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae byrddau iechyd yn gwario, ar gyfartaledd, tua £1,050 ar bob asesiad ac mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn gwario, ar gyfartaledd, tua £200 ar bob asesiad (gweler Tabl 35 isod).

8.124 Amcangyfrifir cost o £1,150 i fyrddau iechyd ar bob asesiad statudol (ar sail prisiau 2016/17) a £200 i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

---

[83] Mae Craston et al (2014) yn cynnwys y canlynol yn y grŵp Anghenion Addysgol Arbennig: tîm AAA yr ALl, seicolegwyr addysgol, staff ysgolion, y tîm pontio, gweithwyr portage proffesiynol ac athrawon cynghori.

[84] Mae Craston et al (2014) yn cynnwys y canlynol yn y grŵp iechyd: therapyddion iaith a lleferydd, pediatregydd cymunedol, comisiynwyr clinigol, nyrsys cymunedol, therapyddion galwedigaethol ac ymwelwyr iechyd.

Tabl 35: amcangyfrif o'r gwariant ar bob asesiad statudol 2011-12 i 2013-14

| Asiantaeth | Gwariant fesul asesiad statudol (£) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | Cyfartaledd | prisiau 2016-17 |
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | 4,800 | 4,650 | 4,750 | 4,750 | 4,900 |
| Ysgolion y brif ffrwd | 650 | 800 | 850 | 750 | 900 |
| Cyfanswm (81%) | **5,450** | **5,450** | **5,550** | **5,500** | **5,800** |
| Byrddau iechyd (16%) | 1,050 | 1,050 | 1,100 | 1,050 | 1,150 |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (3%) | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Cyfanswm cost pob asesiad statudol | **6,700** | **6,700** | **6,900** | **6,750** | **6,950** |

8.125 Fel y mae Tabl 36 isod yn ei ddangos, rhwng 2011-12 a 2013-14, amcangyfrifwyd bod byrddau iechyd wedi gwario tua £1,942,800 bob blwyddyn, ar gyfartaledd, ar asesiadau a bod gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gwario tua £326,900. Mae hyn yn cyfateb i tua £1,829,100 y flwyddyn i fyrddau iechyd, a £307,800 y flwyddyn i wasanaethau cymdeithasol ar sail prisiau 2016-17.

Tabl 36: cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir ar asesiadau statudol yn ôl asiantaeth

| Asiantaeth | Cyfanswm y gwariant ar asesiadau statudol (£) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | Cyfartaledd | prisiau 2016-17 |
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | 9,362,000 | 8,702,500 | 7,735,500 | 8,600,000 | 7,980,700 |
| Ysgolion y brif ffrwd | 1,258,800 | 1,499,200 | 1,366,800 | 1,374,900 | 1,410,100 |
| Byrddau iechyd (16%) | 2,068,600 | 1,987,000 | 1,772,900 | 1,942,800 | 1,829,100 |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (3%) | 348,100 | 334,300 | 298,300 | 326,900 | 307,800 |
| **Cyfanswm** | 13,037,500 | 12,523,000 | 11,173,500 | 12,244,600 | 11,527,700 |

8.126 A chymryd bod cyfraniad byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i'r broses adolygu yn rhannu yn ôl yr un ganran â'r broses asesu, amcangyfrifir bod byrddau

iechyd wedi gwario tua £1,049,300 ar adolygiadau yn 2013-14, a bod gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gwario tua £176,500. Ar sail prisiau 2016-17, mae hyn yn cyfateb i wariant o tua £1,082,600 gan fyrddau iechyd ar adolygiadau bob blwyddyn, a thua £182,100 gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Gyrfa Cymru**

8.127 Mae Deloitte yn amcangyfrif bod Gyrfa Cymru wedi gwario £2.2m ar anghenion addysgol arbennig ac ar anawsterau a/neu anableddau dysgu rhwng 2011-12 a 2013-14, a bod £0.74m wedi'i wario yn ystod 2013/14 (gweler Tabl 37 isod). Mae Deloitte yn amcangyfrif bod 64%, ar gyfartaledd, o gyfanswm gwariant Gyrfa Cymru ar gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu dros y tair blynedd wedi mynd ar asesiadau. Mae hyn yn cynnwys asesu anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, yn ogystal ag unrhyw gais pellach am gyllid i Weinidogion Cymru ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol (lle mae'n ofynnol). Gwariwyd y 36% sy'n weddill ar adolygu datganiadau.

Tabl 37: Gwariant Gyrfa Cymru ar AAA/AAD yn ôl gweithgarwch a blwyddyn

| Maes | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | 2011-12 i 2013-14 (£) | cyfartaledd (£) | prisiau 2016-17 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesu angen (64%)[85] | 499,200 | 422,400 | 473,600 | 1,395,200 | 465,050 | 488,600 |
| Adolygu datganiadau (36%) | 280,800 | 237,600 | 266,400 | 784,800 | 261,600 | 274,800 |
| **Cyfanswm gwariant ar AAA/AAD** | **780,000** | **660,000** | **740,000** | **2,180,000** | **726,650** | **763,400** |

8.128 Yn 2013-14, rhoddodd Gyrfa Cymru gefnogaeth i 1,103 o ddysgwyr drwy gynlluniau dysgu a sgiliau, sydd ar gyfartaledd yn cymryd deg awr i'w datblygu. O'r rhain, roedd 119 yn cynnwys ceisiadau am gyllid mewn sefydliadau addysg

[85] Mae asesu angen yn cynnwys cwblhau ceisiadau am gyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol a chefnogi drwy gynlluniau dysgu a sgiliau.

bellach arbenigol. Mae pob un o'r ceisiadau hyn yn golygu 35 o oriau ychwanegol gan staff. Defnyddiwyd yr amser sy'n ofynnol i gwblhau asesiadau a cheisiadau am gyllid i ddadelfennu cyfanswm cost asesu angen i gost cynnal asesiad a chost ceisiadau i Weinidogion Cymru.

8.129 Fel y mae Tabl 38 isod yn ei ddangos, yn 2013-14 amcangyfrifir bod Gyrfa Cymru wedi gwario tua £343,800 yn cynnal asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau a thua £129,800 ar geisiadau i gyllido lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol. Mae hyn yn cyfateb i wario £354,700 ar asesiadau a £133,900 ar geisiadau i gyllido lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol, ar sail prisiau 2016-17.

Tabl 38: Cyfran yr amser a'r gwariant ar asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau a cheisiadau am gyllid ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol, yn ôl blwyddyn

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | prisiau 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau | 1,398 | 1,166 | 1,103 | 1,103 |
| Yr amser a gymerwyd i gwblhau asesiad cynllun dysgu a sgiliau (munudau) | 600 | 600 | 600 | 600 |
| Cyfanswm yr amser a gymerwyd i gwblhau asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau (munudau) | 838,800 | 699,600 | 661,800 | 661,800 |
| Nifer y ceisiadau am gyllid i fynd i goleg arbenigol annibynnol | 71 | 72 | 119[86] | 119 |
| Yr amser a gymerwyd i gwblhau cais am gyllid | 149,100 | 151,200 | 249,900 | 249,900 |
| **Cyfanswm yr amser a gymerwyd (munudau)** | **987,900** | **850,800** | **911,700** | **911,700** |
| Cyfran yr amser a dreuliwyd ar asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau (%) | 85 | 82 | 73 | 73 |
| Cyfran yr amser a dreuliwyd ar geisiadau am gyllid (%) | 15 | 18 | 27 | 27 |
| Amcangyfrif o'r gwariant ar gwblhau asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau (£) | 402,100 | 389,400 | 343,800 | 354,700 |
| Amcangyfrif o'r gwariant ar gwblhau ceisiadau am gyllid (£) | 71,500 | 84,200 | 129,800 | 133,900 |
| Cyfanswm y gwariant ar asesiadau | 499,200 | 422,400 | 473,600 | 488,600 |

8.130 Mae Deloitte yn amcangyfrif bod £784,800 (36%) o gyfanswm gwariant Gyrfa Cymru ar anghenion addysgol arbennig ac ar anawsterau a/neu anableddau dysgu dros y tair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14 wedi'i wario ar adolygiadau blynyddol i ddysgwyr â datganiad fel rhan o'r broses bontio i addysg bellach. Mae Deloitte yn amcangyfrif bod pob adolygiad wedi cymryd dwy awr, ar gyfartaledd.

[86] Er bod y 119 o adolygiadau a gynhaliwyd yn 2013-14 yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r 71 a gynhaliwyd yn 2011-12, defnyddiwyd y ffigur uchaf i gyfrifo prisiau 2016-17, gan fod hyn yn adlewyrchu'r duedd gynyddol yn y lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Yn 2011-12, 256 o leoliadau a gafwyd mewn colegau arbenigol annibynnol o gymharu â 278 yn 2013-14 - cynnydd o 22. Mae'r duedd gynyddol o ran lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol wedi parhau. Yn 2015-16, ariannodd Llywodraeth Cymru 300 o leoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol.

8.131 Mae Tabl 39 isod yn nodi'r cyfanswm a wariwyd gan Gyrfa Cymru bob blwyddyn ar gynnal adolygiadau ynghyd â chost pob adolygiad rhwng 2011-12 a 2013-14.

Tabl 39: cost pob adolygiad o ddatganiad, yn ôl blwyddyn

| | 2011-12 (£) | 2012-13 (£) | 2013-14 (£) | Cyfanswm | Cyfartaledd | 2016-17 prisiau (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar adolygiadau (£) | 280,800 | 237,600 | 266,400 | 784,800 | 261,600 | 274,800 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd | 5,234 | 4,298 | 4,668 | 14,200 | 4,733 | 4,668 |
| Cost pob adolygiad | 54 | 55 | 57 | | 55 | 59 |

8.132 Fel y mae Tabl 39 yn ei nodi, yn 2013-14 gwariodd Gyrfa Cymru tua £266,400 ar adolygu datganiadau. Mae hyn yn cyfateb i £274,800 ar sail prisiau 2016/17.

8.133 Amcangyfrifir mai cyfanswm cost cynnal asesiadau cynlluniau dysgu a sgiliau, paratoi ceisiadau am gyllid ac adolygu datganiadau i Gyrfa Cymru, ar sail prisiau 2016-17, yw tua £763,400 y flwyddyn (gweler Tabl 37 uchod).

**Sefydliadau addysg bellach yn y brif ffrwd**

8.134 Yn 2013-2014, derbyniodd sefydliadau addysg bellach gyllid penodol a phrif ffrwd o £7,500,000 ar gyfer darpariaeth anawsterau a/neu anableddau dysgu. Daw'r cyllid hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru, a cheir ei ddefnyddio, er enghraifft, ar gyfer cymorth un-i-un gyda dysgwyr a gweithwyr cymorth cyfathrebu. Y cyfanswm cyllid penodol a phrif ffrwd a dderbyniwyd gan sefydliadau addysg bellach rhwng 2011-12 a 2013-14 oedd £22,200,000.

8.135 Mae Deloitte yn awgrymu y gallai cyfran fach o'r cyllid fod at ddibenion asesu anghenion ac adolygiadau blynyddol. Fodd bynnag, nid oedd modd i Deloitte ddadelfennu'r gwariant ar y ddau faes hwn. Eto i gyd, roedd yn bosibl amcangyfrif y costau i sefydliadau addysg bellach sy’n codi yn sgil adolygu cynlluniau ac ymateb i gwynion ar sail y rhagdybiaeth bod y costau i sefydliadau addysg bellach yn cyfateb i gostau ysgolion ac awdurdodau lleol.

8.136 Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad statudol i bobl ifanc gael cynllun gan eu coleg na chanllawiau sy'n nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan gynlluniau i gefnogi pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn ystod eu haddysg bellach. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach yn cwrdd â dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i gytuno ar y cymorth sy'n ofynnol, a chaiff dogfennaeth o ryw fath ei chwblhau a'i hadolygu bob blwyddyn.

8.137 Mae yna 8,905 o bobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (heb gynnwys pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog)[87] yn mynd i sefydliad addysg bellach. A chymryd y bydd y gost i sefydliadau addysg bellach yn sgil adolygu'r cynlluniau i bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn cyfateb i'r £24 a ysgwyddir gan ysgolion y brif ffrwd ar hyn o bryd am adolygu cynlluniau addysg unigol (gweler Tabl 32 uchod), amcangyfrifir bod y gost i sefydliadau addysg bellach yn sgil adolygu 8,905 o gynlluniau tua £213,700 y flwyddyn.

8.138 Ar hyn o bryd, mae yna 120 o bobl ifanc mewn sefydliadau addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog[88]. A chymryd y bydd y gost i sefydliadau addysg bellach yn sgil adolygu cynlluniau'r coleg ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu dwys a lluosog yn cyfateb i £124, sef cost adolygu datganiad i ysgolion y brif ffrwd (gweler Tabl 32 uchod), amcangyfrifir cost o tua £14,900 y flwyddyn i sefydliadau addysg bellach.

Tabl 40: amcangyfrif o'r gost i sefydliadau addysg bellach yn sgil cynnal adolygiadau CDU

| | Cost unigol | Nifer | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|
| Adolygu cynlluniau – pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog | 124 | 120 | 14,900 |
| Adolygu cynlluniau - pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu | 24 | 8,905 | 213,700 |
| **Cyfanswm** | | **9,025** | **228,600** |

[87] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/UniqueLearnersEnrolledFurtherEducationInstitutions-by-PrimaryDisability-Gender

[88] Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog nam gwybyddol/anhawster dysgu dwys. sy'n arwain at oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Yn ogystal, maent yn amlygu un neu fwy o'r canlynol: namau symud arwyddocaol, namau arwyddocaol ar y synhwyrau, a/neu anghenion gofal iechyd cymhleth neu ddibyniaeth ar dechnoleg.

8.139 Amcangyfrifir, felly, gyfanswm cost o tua £228,600 y flwyddyn i sefydliadau addysg bellach yn sgil adolygu cynlluniau colegau a chynlluniau dysgu a sgiliau.

8.140 Mae sefydliadau addysg bellach hefyd yn debygol o dderbyn rhai cwynion am y cymorth maent yn ei ddarparu i bobl ifanc ag ADY.

8.141 Fel y nodir uchod, mae yna 120 o bobl ifanc hyd at 25 oed mewn sefydliadau addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Os bydd pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn anghytuno ynghylch cynnwys eu cynllun ar yr un gyfradd ag y mae pobl ifanc ag AAA mewn ysgolion ar hyn o bryd yn anghytuno ynghylch cynnwys eu datganiad, amcangyfrifir y bydd sefydliadau addysg bellach yn derbyn un cwyn y flwyddyn ynghylch cynnwys eu cynllun[89]. A chymryd bod y gost i sefydliadau addysg bellach wrth ymateb i gwynion yr un fath â'r gost i awdurdodau lleol (£2,121), amcangyfrifir y gallai sefydliadau addysg bellach wynebu cost o tua £800 y flwyddyn wrth ymateb i gwynion am y cymorth y maent yn ei ddarparu i bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog.

8.142 Yn ogystal, 8,905 o bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn AB yng Nghymru. Yn yr un modd ag ysgolion (gweler paragraff 8.113) ni chaiff data am nifer, math na chanlyniad y cwynion eu casglu'n ganolog. Nid oes modd, felly, nodi union nifer y cwynion a ddaw i law colegau sy'n anghytundebau am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Felly, ni fu modd amcangyfrif nifer na chost y cwynion presennol am gynlluniau coleg ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n dilyn AB yng Nghymru. Nid yw'r costau hyn, felly, yn hysbys.

8.143 Amcangyfrifir, felly, fod yna gostau o £229,400 y flwyddyn i sefydliadau addysg bellach wrth adolygu cynlluniau gan golegau a chynlluniau dysgu a sgiliau, ac wrth

[89] Yn 2015-16, roedd yna 107,668 o bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion, a defnyddiwyd gwasanaethau datrys anghytundeb awdurdodau lleol tua 758 o weithiau. Hynny yw, defnyddiodd 0.7% o bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion wasanaethau datrys anghytundeb. A chymryd bod 47%[89] o'r anghytundebau hyn yn ymwneud â datganiadau, defnyddiodd 0.33% o'r bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion wasanaethau datrys anghytundeb i ddelio â chwynion ynghylch cynnwys eu datganiad.

ymateb i gwynion am y cymorth maent yn ei ddarparu i bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac anawsterau dysgu dwys a lluosog.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**

8.144 Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn clywed ac yn penderfynu ar apelau sy'n ymwneud â rhai penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â datganiadau.

8.145 Yn 2015-16 gwnaed 105 o apelau i TAAAC ynghylch rhai penderfyniadau gan awdurdodau lleol. Roedd 57 (54%) o apelau yn ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol am beidio â chael datganiad, a 48 (46%) yn ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol am gael datganiad (gweler Tabl 20 uchod).

8.146 Amcangyfrifir bod yr achosion oedd yn ymwneud â chael datganiad yn costio deirgwaith yn fwy na'r achosion oedd yn ymwneud â pheidio â chael datganiad[90]. Y rheswm am hyn yw cymhlethdod achosion sy'n ymwneud â chael datganiad. Yn ogystal, caiff cyfran uwch o achosion sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad eu gollwng cyn cael eu clywed[91]. Mewn achosion o'r fath, er bod yna gostau gweinyddol, nid oes costau o ran gwrando ar yr achosion yn y tribiwnlys[92].

8.147 Yn 2015-16, roedd costau TAAAC yn rhyw £149,700[93]. O'r swm hwn, amcangyfrifir bod tua £107,300 (72%) yn sgil achosion a oedd yn ymwneud â

[90] Ffynhonnell: TAAAC.
[91] Wrth ddadansoddi apelau rhwng 2012 a 2015 mewn perthynas â gwrthod asesu/ailasesu/datganiad, canfu TAAAC fod 79.5% o achosion wedi'u gollwng cyn cyrraedd cam datganiad yr achos (sef y terfyn amser o ran tystiolaeth ar gyfer cyflwyno datganiad achos mewn perthynas â'r apêl a gyflwynwyd), o gymharu â 45% o achosion a oedd yn ymwneud â chynnwys datganiadau. Lle caiff achosion eu gollwng mor gynnar â hyn, dim ond 10% o'r gwaith/amser fyddai wedi bod yn ofynnol o gymharu â'r gwaith/amser a fyddai'n cael ei wneud a'i dreulio ar achos sy'n cyrraedd gwrandawiad. Gollyngwyd 8.5% arall o achosion gwrthod cyn cyrraedd gwrandawiad (21% ar gyfer achosion cynnwys datganiadau), a oedd yn golygu tua 55% o'r amser/gwaith a gâi ei dreulio a'i wneud ar achos sy'n cyrraedd gwrandawiad. Dim ond 12% o achosion gwrthod a gyrhaeddodd wrandawiad (a oedd yn golygu 100% o amser/gwaith ar achos). Roedd hyn yn cymharu â 34% o achosion cynnwys datganiadau a gyrhaeddodd wrandawiad, lle defnyddiwyd 100% o'r costau.
[92] Er bod achosion apelio sy'n cael eu gollwng cyn cael eu clywed yn y tribiwnlys yn golygu costau is i'r tribiwnlys, nid ydynt o reidrwydd yn golygu costau is i'r apelydd nac i'r awdurdod lleol, gan y gall costau llunio achos neu amddiffyniad fod yr un fath, p'un a yw'r achos yn cael ei glywed ai peidio. Wrth gyfrifo'r costau i rieni ac awdurdodau lleol, felly, mewn perthynas ag apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad, nid yw'r costau wedi'u haddasu.
[93] Y ffigur gwirioneddol oedd £149,704.97. Mae hyn yn cynnwys costau hyfforddiant i aelodau o tua £30,000.

chael datganiad a thua £42,500 (28%) yn sgil achosion a oedd yn ymwneud â pheidio â chael datganiad[94].

8.148 Ar sail prisiau 2016-17, amcangyfrifir costau o £152,000 i TAAAC - tua £108,900 ohono yn sgil achosion sy'n ymwneud â chael datganiad, a £43,100 yn sgil achosion sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad.

8.149 Mae Tabl 41 isod yn nodi amcangyfrif o'r gost i TAAAC yn sgil apelau sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch peidio â chael datganiadau a chost apelau sy'n ymwneud â phenderfyniadau am gynnwys datganiadau, ar sail prisiau 2016-17.

Tabl 41: y gost i TAAAC yn sgil apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol, prisiau 2016-17, yn ôl math o apêl

| | **Cyfanswm cost (£)** | **Cost fesul apêl** |
|---|---:|---:|
| Peidio â chael datganiad | 43,100 | 756 |
| Cael datganiad | 108,900 | 2,269 |
| **Cyfanswm** | **152,000** | |

**Plant, pobl ifanc a rhieni**

8.150 Mae'r system asesu ac adolygu bresennol yn rhy gymhleth. Gall hyn fod yn rhwystr i ymyrraeth gynnar, gan greu oedi wrth geisio rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc pan fo'i angen arnynt. O ganlyniad, gall anghenion gynyddu yn ddiangen, gan effeithio'n negyddol ar y person ifanc.

8.151 Gall cymhlethdod y broses bresennol o asesu a chynllunio mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig arwain at ddryswch, pryder a rhwystredigaeth i rieni, gall eu hynysu a gall arwain at golli hyder yn y system, hyd yn oed lle ymddengys bod yr arferion sydd ar waith yn rhai da a bod yna lefel gymharol o foddhad gyda'r canlyniadau[95].

[94] (1*57) +(3*48) =201 (neu 57 o unedau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad a 144 o unedau sy'n ymwneud â chael datganiad = 201 o unedau cost). Cost apelau sy'n ymwneud â chael datganiad yw (£149,704.97/201) * 144=£107,251 a chost apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad yw £149,704.97/201 *57 =£42,454.

[95] http://www.natcen.ac.uk/media/25055/parental-confidence-special-educational.pdf

8.152 Lle mae pobl ifanc a rhieni am herio penderfyniadau sy'n ymwneud â rhoi datganiad neu gynnwys datganiad, gall y costau fod yn sylweddol i rieni.

8.153 Yn 2013, cynhaliodd Kids First arolwg o brofiadau rhieni o'r tribiwnlys Special Educational Needs and Disability (SEND) yn Lloegr. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i rieni ynghylch costau gwneud apêl i dribiwnlys SEND[96]. Roedd y gost i rieni yn amrywio o ddim cost i fwy na £30,000[97]. Nid oedd unrhyw gost i 42% o rieni (n=110), ac roedd dros £20,000 o gostau i 10% o rieni (n=25) (gweler Tabl 42 isod).

8.154 Lle roedd yn rhaid i rieni dalu pobl broffesiynol (hynny yw, ni wnaethant ddefnyddio gwasanaethau cymorth am ddim gan elusen neu nid oeddent yn gallu eirioli drostyn nhw'u hunain), roedd y costau yn rhyw £9,600, ar gyfartaledd (n=150). Lle defnyddiodd rhieni wasanaethau cymorth am ddim a/neu roeddent yn gallu eirioli drostyn nhw'u hunain, canfu'r arolwg mai cost cofrestru apêl i rieni, ar gyfartaledd, oedd £5,500 (n=260).

Tabl 42: cost gwneud apêl i rieni

| Cost | Nifer y rhieni | Canran (%) |
|---|---|---|
| Dim cost | 110 | 42 |
| Llai na £5,000 | 72 | 28 |
| £5,000 i £20,000 | 53 | 20 |
| Dros £20,000 | 25 | 10 |

Ffynhonnell: Kids First (2013)

8.155 Ar sail casgliadau arolwg Kids First (2013), roedd cyfanswm y gost i rieni yn 2013-14 yn sgil cofrestru 78 o apelau gyda TAAAC yn amrywio rhwng £430,700, lle defnyddiodd rhieni wasanaethau am ddim, a £746,600, lle defnyddiwyd gwasanaethau proffesiynol yn unig[98].

---

Papur ffocws polisi AAA y Comisiwn Archwilio (2002); y Comisiwn Archwilio, Statutory assessment and statements of SEN: in need of review?; Tennant, R., Callanan, M., Snape, D., Palmer, I. a Read, J. (2008) SEN Disagreement Resolution Services: National Evaluation, DCSF Research Report RR054.

[96] http://www.mertonmencap.org.uk/pdfs/SEND-Tribunal-Survey-Results-August2013.pdf

[97] Nododd un rhiant ddyled o £80,000 ar ôl talu am apêl i Dribiwnlys ail haen

[98] Nid yw costau rhieni yn cynrychioli costau rhieni sy'n defnyddio SNAP Cymru. Er bod ffigurau achosion SNAP Cymru wedi'u defnyddio, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod y bydd yna fwy o rieni yn dilyn trywydd anghytundebau, gan na fydd pob rhiant yn defnyddio gwasanaethau SNAP Cymru. Mae'r ffigurau a ddefnyddir, felly, yn cyfeirio at rieni yn gyffredinol, nid dim ond y rhieni hynny sy'n defnyddio gwasanaethau SNAP Cymru.

8.156 Mae Tabl 43 yn nodi'r gost i rieni, lle mae'r gost isaf gyfartalog yn seiliedig ar gyfartaledd o £5,500 (lle defnyddiodd rhieni wasanaethau cymorth am ddim neu lle roeddent yn eirioli drostyn nhw'u hunain) ac mae'r achos uchaf cyfartalog yn seiliedig ar ffigur o £9,600 (lle na ddefnyddiodd rhieni wasanaethau cymorth am ddim neu eirioli drostyn nhw'u hunain). Amcangyfrifir ystod costau o £598,200 i £1,036,900 i rieni yn 2016-17. Pwynt canol yr ystod yw £817,550.

Tabl 43: ystod cyfartalog costau cofrestru apêl i rieni

| | Apelau i TAAAC | Y gost isaf gyfartalog | Y gost uchaf gyfartalog | Y pwynt canol cyfartalog |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 86 | 474,900 | 823,200 | 649,050 |
| 2012-13 | 73 | 403,100 | 698,800 | 550,950 |
| 2013-14 | 78 | 430,700 | 746,600 | 588,650 |
| 2014-15 | 101 | 557,700 | 966,800 | 762,250 |
| 2015-16 | 105 | 579,800 | 1,005,100 | 792,450 |
| prisiau 2016-17 | 105 | 598,200 | 1,036,900 | 817,550 |

8.157 Yn ogystal â chostau sy'n ymwneud â chofrestru apelau, mae yna gostau hefyd i rieni sy'n anghytuno â phenderfyniadau a gymerir gan awdurdodau lleol. Fel y mae Tabl 44 isod yn ei nodi, amcangyfrifir bod rhieni wedi gwario cyfanswm o £2,773,150 yn 2013-14 yn datrys anghytundebau ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn cyfateb i £2,861,050 ar sail prisiau 2016-17.

Tabl 44: cost gyfartalog datrys anghydfod i rieni

| | **Cost pob apêl** | **Ffactor** | **Cost pob anghydfod** | **Anghydfodau bob blwyddyn** | **2013-14 (£)** | **prisiau 2016-17 (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y gost i'r rhiant - heb gymorth gwasanaethau datrys anghytundeb | 9,572 | 2.32 | 4,641 | 758 | 3,517,400 | 3,628,900 |
| Y gost i'r rhiant - gyda chymorth gwasanaethau datrys anghytundeb | 5,522 | 1.34 | 2,677 | 758 | 2,028,900 | 2,093,200 |
| **Y gost gyfartalog i'r rhiant** | | | **3,659** | | **2,773,150** | **2,861,050** |

8.158 Ar sail prisiau 2016-17, amcangyfrifir cyfanswm costau o tua £3,678,600 (gweler Tabl 7) i rieni yn sgil anghytundebau (£2,861,050, gweler Tabl 44) ac apelau (£817,550, gweler Tabl 43) mewn ymateb i benderfyniadau gan awdurdodau lleol am ddatganiadau.

**Opsiwn 2: disodli cynlluniau anghenion addysgol arbennig a chynlluniau anawsterau a/neu anableddau dysgu â CDU statudol i'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol**

8.159 O dan opsiwn 2, byddai'r cynlluniau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol a chynlluniau dysgu a sgiliau, yn cael eu tynnu ynghyd o dan un cynllun datblygu unigol statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, caiff y gofynion presennol o ran pwy sy'n gorfod cyfrannu at y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynlluniau eu diwygio gyda'r nod o wneud y system yn fwy effeithlon ac effeithiol.

8.160 Ar hyn o bryd, wrth lunio asesiad, rhaid i awdurdod lleol ofyn am gyngor gan:

- riant y plentyn;
- y pennaeth (neu'r unigolyn cyfatebol);
- yr awdurdod iechyd, sy'n gorfod cael cyngor gan ymarferydd meddygol sydd wedi'i gofrestru'n llawn;
- seicolegydd addysg;
- awdurdod gwasanaethau cymdeithasol; ac
- unrhyw gyngor arall sydd, ym marn yr awdurdod, yn briodol er mwyn sicrhau asesiad boddhaol[99].

8.161 O dan opsiwn 2, dim ond pan fydd yn berthnasol y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ofyn am gyngor gan weithwyr proffesiynol. Lle nad oes gan blentyn neu berson ifanc unrhyw anghenion meddygol neu iechyd, er enghraifft, ni fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ofyn am gyngor y bwrdd iechyd.

8.162 O dan opsiwn 2, gall awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i wahodd seicolegwyr addysg i gymryd rhan yng nghyfarfodydd asesu ac adolygu CDU.

8.163 O dan y system bresennol, daw datganiadau i ben pan aiff person ifanc i addysg bellach, a chaiff cynlluniau dysgu a sgiliau statudol eu datblygu ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy difrifol a chymhleth. Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am

[99] Gweler Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 (2002 Rhif 152).

ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n mynd i addysg bellach.

8.164 O dan opsiwn 2, caiff cynlluniau dysgu a sgiliau eu disodli gan CDUau a chaiff y cyfrifoldeb am ddatblygu neu gynnal CDUau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc ei drosglwyddo i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol. Bydd gan sefydliadau addysg bellach gyfrifoldeb statudol, lle bo'n briodol, am ddatblygu[100] a chynnal CDUau i ddysgwyr sydd ag ADY ac y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt.

8.165 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Crynodeb o'r costau**

8.166 Fel y mae Tabl 45 isod yn ei ddangos, os gweithredir opsiwn 2, mae potensial i arbed tua £822,885 y flwyddyn o ran gweinyddu cyhoeddus (gan ystyried canol yr ystod).

8.167 Mae nifer o brosesau cyfrifo sy'n defnyddio ystod canol ffordd. Mae Tabl 45 yn nodi'r gwahaniaeth rhwng opsiynau 1 a 2 fel costau ac arbedion tebygol. Lle defnyddir ystod canol ffordd, mae colofn olaf y tabl yn nodi'r costau a'r manteision o ystyried yr ystod canol ffordd.

[100] Gan y bydd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynd i addysg bellach o'r ysgol CDU, disgwylir i nifer y CDUau y bydd yn rhaid i sefydliadau addysg bellach eu datblygu fod yn isel iawn.

Tabl 45: cymharu costau opsiynau 1 a 2, yn ôl sefydliad

| | Opsiwn 1 (£) | Opsiwn 2 (£) | Y gwahaniaeth (£) | Y gwahaniaeth gan gynnwys pwynt canol yr ystod (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | 7,980,700 | 7,980,700 | 0 | 0 |
| Asesiadau statudol | 4,023,600 | 4,023,600 | 0 | 0 |
| Adolygiadau statudol | 384,950 | 180,920 | -204,030 | -102,015 |
| Gwasanaethau datrys anghytundebau a ariennir gan awdurdodau lleol - anghytundebau | 1,633,100 | 767,560 | -865,541 | -432,770 |
| Ymateb i anghytundebau | 5,300 | 2,400 | -2,900 | -1,450 |
| Gwasanaethau datrys anghytundeb a ariennir gan awdurdodau lleol - apelau | 1,083,300 | 498,300 | -585,000 | -292,500 |
| Ymateb i apelau | 0 | 107,400 | 107,400 | 107,400 |
| Adolygiadau CDU - addysg bellach | 0 | 16,400 | 16,400 | 15,950 |
| Apelau - addysg bellach[101] | 0 | 15,500 | 15,500 | 15,500 |
| Gwasanaethau datrys anghytundebau a ariennir gan awdurdodau lleol - addysg bellach | 0 | 2,200 | 2,200 | 2,200 |
| Awdurdodau lleol - ymateb i anghytundebau - addysg bellach | **15,110,950** | **13,594,980** | **-1,515,970** | **-687,685** |
| **Cyfanswm** | **15,110,950** | **14,423,265** | **-687,685** | **-828,285** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | | | | |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | 307,800 | 307,800 | 0 | 0 |
| Asesiadau statudol/ Asesiadau CDU | 182,100 | 182,100 | 0 | 0 |
| Adolygiadau statudol /Adolygiadau CDU | **489,900** | **489,900** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **489,900** | **489,900** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | | | | |
| **Ysgolion y brif ffrwd** | 1,410,100 | 1,410,100 | 0 | 0 |
| Asesiadau statudol/ Asesiadau CDU | 1,547,000 | 1,547,000 | 0 | 0 |
| Adolygiadau statudol /Adolygiadau CDU | 2,959,300 | 2,959,300 | 0 | 0 |
| Asesiadau anstatudol /Asesiadau CDU | 2,158,300 | 2,158,300 | 0 | 0 |
| Adolygiadau anstatudol/ Adolygiadau CDU | **8,074,700** | **8,074,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **8,074,700** | **8,074,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | | | | |
| **Ysgolion arbennig** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Asesiadau statudol/ Asesiadau CDU | 938,700 | 938,700 | 0 | 0 |
| Adolygiadau statudol/ Adolygiadau CDU | **938,700** | **938,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **938,700** | **938,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | | | | |
| **Byrddau iechyd** | 1,829,100 | 1,829,100 | 0 | 0 |
| Asesiadau statudol/ Asesiadau CDU | 1,082,600 | 1,082,600 | 0 | 0 |

[101] Gwnaed gostyngiad o £450 gan mai dyma ganol ystod y gost a amcangyfrifir, sef £0-900, am wasanaethau datrys anghydfod mewn achosion sy'n mynd i'r tribiwnlys (gweler paragraff 8.186)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau statudol/ Adolygiadau CDU | **2,911,700** | **2,911,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **2,911,700** | **2,911,700** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | | | | |
| **Gyrfa Cymru** | 354,700 | 0 | -354,700 | -354,700 |
| Asesiadau - Cynlluniau Dysgu a Sgiliau | | | | |
| Adolygiadau | 274,800 | 274,800 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **629,500** | **274,800** | **-354,700** | **-354,700** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | **629,500** | **274,800** | **-354,700** | **0** |
| **TAAAC** | | | | |
| Apelau - yr ystod oedran presennol | 152,000 | 108,900 | -43,100 | -21,600 |
| Apelau - yr ystod oedran estynedig | 0 | 12,500 | 12,500 | 6,300 |
| **Cyfanswm** | **152,000** | **121,400** | **-30,600** | **-15,300** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | **152,000** | **136,700** | **-15,300** | **-15,300** |
| **Sefydliadau addysg bellach** | | | | |
| Adolygiadau | 228,600 | 228,600 | 0 | 0 |
| Anghytundebau | 800 | 800 | 0 | 0 |
| Apelau - Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 0 | 2,600 | 2,600 | 2,600 |
| Apelau - AAD | 0 | 41,300 | 41,300 | 20,600 |
| **Cyfanswm** | **229,400** | **273,300** | **43,900** | **23,200** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | **229,400** | **250,100** | **20,700** | **20,700** |
| **Cyfanswm** | **28,536,850** | **26,679,480** | **-1,857,370** | **-1,034,485** |
| **Cyfanswm gan gynnwys canol yr ystod** | **28,536,850** | **27,502,365** | **-1,034,485** | **-822,885** |

8.168 Fel y mae Tabl 51 yn ei nodi, gallai darparwyr gwasanaethau arbed amcangyfrif o £150,770 y flwyddyn a gallai rhieni arbed tua £832,375 y flwyddyn, ar gyfartaledd.

8.169 Costau gros yw'r costau pontio[102] a nodir yn yr adran hon, gan fod Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau i awdurdodau lleol ac i TAAAC i gefnogi gweithredu'r bil.

[102] Costau untro yw'r costau pontio.

Tabl 46: costau pontio gros

| | Gweithgaredd | Cost | Costau cyfleoedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | Hyfforddiant - swyddogion asesu ac adolygu | | 18,200 | **18,200** |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol | Hyfforddiant - cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal[103] | | 3,800 | |
| | Hyfforddi gweithwyr cymdeithasol | | 114,900 | **118,700** |
| TAAAC | Hyfforddiant – aelodau'r tribiwnlys | 35,100 | | |
| | Aelodau ychwanegol | 25,300 | | |
| | Diweddaru cyhoeddiadau, ffurflenni a phrosesau | 50,500 | | **100,900** |
| | | | | **237,800** |

8.170 Fel y mae Tabl 46 yn ei nodi, y costau pontio ar gyfer opsiwn 2 yw £237,800. Amcangyfrifir y bydd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn wynebu costau cyfleoedd o £18,200, y bydd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn wynebu costau cyfleoedd o £118,700, ac y bydd TAAAC yn wynebu costau pontio o £100,900.

**Llywodraeth Cymru**

**Costau rheolaidd**

8.171 Nid oes unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn sgil opsiwn 2.

**Costau pontio**

8.172 Mae'r costau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r bil wedi'u nodi'n fanwl yn Nhabl 5 uchod.

[103] Cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal.

**Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol**

**Costau rheolaidd**

8.173 Fel y nodir uchod yn Nhabl 45, amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario £12,004,300 y flwyddyn yn asesu (£7,980,700) ac yn adolygu (£4,023,600) datganiadau.

8.174 Yn gyffredinol, ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol o dan opsiwn 2. Yn hytrach, mae casgliadau'r asesiad effaith rheoleiddiol yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol arbed tua £687,685 (gan ystyried canol yr ystod).

8.175 Ar hyn o bryd, mae sefydliadau addysg bellach, ysgolion neu feithrinfeydd a gynhelir yn cwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau a/neu anableddau dysgu. Disgwylir i hyn barhau o dan opsiwn 2.

8.176 O dan opsiwn 2, ni fyddai awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o asesiadau ac adolygiadau CDU. Yn hytrach, dim ond lle na fyddai modd, yn rhesymol, i sefydliad addysg bellach, ysgol neu feithrinfa a gynhelir ddiwallu anghenion dysgwr y byddai angen i'r awdurdod lleol helpu i asesu neu adolygu CDU, neu lle mae angen ailystyried penderfyniad sefydliad addysg bellach, ysgol neu feithrinfa a gynhelir ar ADY neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol dysgwr.

8.177 Mae plant a phobl ifanc na all ysgolion neu feithrinfeydd a gynhelir gwrdd â'u hanghenion addysgol arbennig yn perthyn i'r grŵp o blant a phobl ifanc sy'n debygol o gael datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn helpu i asesu ac adolygu datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am y grŵp hwn o dan opsiwn 2. Ni fyddai unrhyw gyfrifoldebau na chostau ychwanegol, felly, i wasanaethau addysg awdurdodau lleol mewn perthynas â CDUau pobl ifanc mewn lleoliadau ysgol neu feithrinfeydd a gynhelir.

8.178 Fodd bynnag, bydd gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau newydd mewn perthynas â CDUau pobl ifanc mewn addysg bellach. Ar hyn o bryd, bydd pob dysgwr sydd â datganiad yn yr ysgol yn cael cynllun dysgu a sgiliau wrth fynd i addysg bellach. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru i ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau, ar gost o tua £354,700 y flwyddyn.

8.179 O dan opsiwn 2, ni fydd Gyrfa Cymru yn gyfrifol bellach am ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau gan y bydd CDUau yn eu disodli. Y grŵp dysgwyr sy'n cael cynlluniau dysgu a sgiliau ar hyn o bryd yw'r rheini â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n mynd i golegau arbenigol annibynnol yn gyffredinol.

8.180 Gan y bydd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal CDUau ar gyfer y bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, disgwylir i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol yn gyffredinol am gynnal CDUau y bobl ifanc a fyddai, o dan y drefn bresennol, â chynllun dysgu a sgiliau. Ni fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun newydd i bobl ifanc sy'n mynd i addysg bellach, gan y bydd y CDU yn dal yn berthnasol. Yn hytrach, y cyfrifoldeb ychwanegol i awdurdodau lleol fydd adolygu CDUau i'r bobl ifanc sydd mewn addysg bellach.

8.181 Yn 2015-16, roedd 298 o bobl ifanc, oedd ag anghenion cymhleth, yn mynd i golegau arbenigol annibynnol. Ar sail cost gyfartalog o £300 am bob adolygiad[104], amcangyfrifir cost ychwanegol o £89,400 i awdurdodau lleol yn sgil adolygu'r CDUau hyn.

8.182 Mae rhai pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn mynd i addysg bellach y brif ffrwd. Yn 2014-15[105] roedd 120 o bobl ifanc, oedd ag anghenion cymhleth, yn mynd i sefydliad addysg bellach[106]. Bydd cyfran o'r bobl ifanc hyn yn derbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol gan yr awdurdod lleol i'w cefnogi mewn addysg

[104] Cost gyfartalog adolygu datganiad i awdurdodau lleol rhwng 2011-12 a 2013-14 oedd £290 (gweler Tabl 14 uchod) neu £300 ar sail prisiau 2016-17.
[105] Dyma'r data diweddaraf oedd ar gael wrth ysgrifennu.
[106] Cyfeirir at yr anghenion hyn fel anawsterau dysgu dwys a lluosog. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/UniqueLearnersEnrolledFurtherEducationInstitutions-by-PrimaryDisability-Gender

bellach. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal eu CDU. Ni wyddom beth fydd cyfran y bobl ifanc ag anghenion cymhleth a fydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. At ddibenion enghreifftiol, cymerwn y bydd gan 50% o bobl ifanc CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Hynny yw, bydd gan wasanaethau addysg awdurdodau lleol y cyfrifoldeb ychwanegol o adolygu 60 CDU y flwyddyn. Amcangyfrifir cost ychwanegol o £18,000 y flwyddyn[107] yn sgil adolygu'r CDUau y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal i bobl ifanc sy'n mynd i sefydliad addysg bellach.

8.183 Amcangyfrifir, felly, y bydd awdurdodau lleol yn wynebu costau ychwanegol o £107,400 yn sgil adolygu CDUau i bobl ifanc sydd mewn addysg bellach.

8.184 Mae yna risg y gallai awdurdodau lleol wynebu costau ychwanegol yn sgil y posibilrwydd o fwy o apelau i TAAAC gan bobl ifanc sydd â CDUau awdurdodau lleol sy'n symud i addysg bellach neu sydd mewn addysg bellach.

8.185 Os bydd pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth/ anawsterau dysgu dwys a lluosog yn apelio ynghylch cynnwys eu CDU ar yr un gyfradd ag y mae pobl ifanc â datganiadau yn apelio ar hyn o bryd am gynnwys eu datganiad, amcangyfrifir y gwneir tair apêl ynghylch cynnwys CDUau bob dwy flynedd[108]. Fel y nodir uchod, amcangyfrifir cost o £10,317 yn sgil ymateb i apêl. Cost tair apêl yw £30,951 bob dwy flynedd. Ar gyfer pob blwyddyn, felly, mae cost o tua £15,500.

8.186 Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn cyllido gwasanaethau datrys anghytundeb i gefnogi pobl ifanc a rhieni sy'n apelio i TAAAC. Amcangyfrifir bod darparu gwasanaethau datrys anghytundeb ar gyfer pob apêl yn costio £4,125. Cost darparu gwasanaethau ar gyfer tair apêl yw £12,375. Y gost flynyddol, felly, yw tua £6,200 y flwyddyn. Gan na wyddom a fydd pobl ifanc a rhieni yn dewis defnyddio'r gwasanaethau datrys anghytundeb, y gost yw £0-6,200, gyda chanol ystod o £3,100. O hwnnw, amcangyfrifir costau ychwanegol o ryw £450 i

[107] 50% o'r bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, sy'n mynd i sefydliadau addysg bellach yw 120/2=60. Amcangyfrifir mai cost pob adolygiad yw £300. 60*300=£18,000, felly.

[108] Pe bai 358 o bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn apelio ar gyfradd o 0.84%, byddai yna 3 apêl bob blwyddyn neu 1.42 apêl ynghylch cynnwys.

awdurdodau lleol a chostau ychwanegol o ryw £2,650 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod.

8.187 Amcangyfrifir mai cost ychwanegol yr apelau i TAAAC yw tua £18,600. O hwnnw, amcangyfrifir costau ychwanegol o £15,950 i awdurdodau lleol a chostau o £2,650 i ddarparwyr gwasanaethau.

8.188 Yn ogystal, mae yna risg y bydd yna gostau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil anghytundebau am gynnwys y cynlluniau. Ar hyn o bryd, mae yna 9,323[109] o bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac anawsterau dysgu dwys a lluosog mewn addysg bellach yng Nghymru. A chymryd y bydd pobl ifanc mewn addysg bellach yn defnyddio gwasanaethau datrys anghytundeb ar yr un gyfradd ag y mae plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau datrys anghytundeb ynghylch eu datganiadau, mae yna bosibilrwydd y gallai tua 31 o bobl ifanc ychwanegol ddefnyddio gwasanaethau a ariennir gan awdurdodau lleol i ddatrys anghytundebau am gynnwys eu CDU[110].

8.189 Amcangyfrifir cyfanswm cost o £875 yn sgil pob anghytundeb a gefnogir drwy wasanaethau datrys anghytundeb. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm cost 31 o achosion ychwanegol a gefnogir drwy wasanaethau datrys anghytundeb yw tua £27,100. O hwnnw, amcangyfrifir costau o £15,500 i awdurdodau lleol a chostau o £11,600 i wasanaethau datrys anghydfod.

8.190 Yn ogystal, bydd yna gostau i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i anghytundebau am gynnwys cynlluniau a gynhelir gan yr awdurdod lleol. A chymryd bod awdurdodau lleol yn cynnal 60 CDU i bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog mewn sefydliadau addysg bellach, a 298 CDU i bobl ifanc sy'n mynd i golegau arbenigol annibynnol, a bod pobl ifanc mewn addysg bellach yn

[109] 9,025 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach a 298 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog mewn colegau arbenigol annibynnol.

[110] O’r 107,668 o bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig, gwelwyd 758 o achosion o anghytuno lle defnyddiwyd gwasanaethau a ariannwyd gan awdurdodau lleol. Hynny yw, defnyddiodd 0.7% o'r bobl ifanc ag AAA wasanaethau a ariennir gan awdurdodau lleol ar gyfer anghytundebau, ynghylch cael datganiad a chynnwys y datganiad. Amcangyfrifir bod 47% o'r anghytundebau yn ymwneud â chynnwys y cynllun, gan leihau'r ganran i 0.33.

anghytuno â chynnwys eu cynlluniau ar yr un raddfa â phobl ifanc yn yr ysgol, amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i un anghytundeb ychwanegol y flwyddyn, ar gost o tua £2,200[111].

8.191 Mae yna bosibilrwydd felly o gostau ychwanegol o £29,300 y flwyddyn yn sgil anghytundebau am gynnwys CDUau a godir gan bobl ifanc mewn addysg bellach. O hwnnw, amcangyfrifir costau ychwanegol o £17,700 i awdurdodau lleol a chostau ychwanegol o £11,600 i ddarparwyr gwasanaethau.

8.192 Mae yna bosibilrwydd o gostau ychwanegol o £155,300 yn sgil ehangu cwmpas cynlluniau statudol i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed sydd mewn addysg bellach. O hwnnw, amcangyfrifir costau ychwanegol o £141,050 i awdurdodau lleol (sef £107,400 yn ychwanegol yn sgil adolygiadau, £15,950 yn sgil apelau a £17,700 yn sgil anghytundebau), ac amcangyfrifir costau ychwanegol o £14,250 i ddarparwyr gwasanaethau (sef £2,650 yn sgil apelau a £11,600 yn sgil anghytundebau).

**Manteision**

8.193 O gymharu ag opsiwn 1, mae disgwyl llai o gostau i wasanaethau addysg awdurdodau lleol o dan opsiwn 2 am ddau reswm. Yn gyntaf, mae disgwyl llai o anghytundebau ynghylch penderfyniadau am asesu a rhoi CDUau nag a welir ar hyn o bryd gyda datganiadau; ac yn ail, dylai awdurdodau lleol elwa yn sgil llai o benderfyniadau yn cael eu cyfeirio i TAAAC.

8.194 Ar hyn o bryd, mae yna gymhelliad i rieni wthio awdurdodau lleol i roi datganiad gan fod diogelwch statudol i'r ddarpariaeth mewn datganiadau. Lle bydd awdurdodau lleol yn penderfynu peidio â rhoi datganiad, gall hyn arwain at anghytundebau costus a/neu apêl i TAAAC yn erbyn y penderfyniad i beidio â rhoi'r datganiad.

8.195 Mae opsiwn 2 yn cael gwared â'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol a chynlluniau anstatudol, gan y bydd pob cynllun i gefnogi pobl ifanc ag anghenion

[111] Pe bai 358 o bobl ifanc yn anghytuno am gynnwys eu CDU ar raddfa o 0.33%, byddai 1.2 o anghytundebau. Pe bai un anghytundeb ar gost o £2,155 (prisiau 2016-17), byddai'n gyfanswm cost o ryw £2,200 y flwyddyn.

dysgu ychwanegol yn statudol. Mae opsiwn 2, felly, yn cael gwared â'r cymhelliad i rieni bwyso am ddatganiad gan awdurdodau lleol.

8.196 Gan y ceir gwared â'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol, disgwylir y bydd y costau presennol, sy'n gysylltiedig ag anghytundebau ynghylch penderfyniadau i beidio â rhoi datganiad, yn cael eu harbed.

8.197 Fel y nodir uchod yn Nhabl 18, amcangyfrifir cyfanswm cost o £2,306,760 yn sgil 758 o anghytundebau am ddatganiadau. Amcangyfrifir cyfanswm cost o £1,222,580 yn sgil y 402 o anghytundebau am beidio â chael datganiad. Ceir gwared â'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol o dan opsiwn 2. Ni fydd yr anghytundebau am beidio â chael cynllun statudol yn codi, felly. Mae yna bosibilrwydd, felly, y gellid arbed cyfanswm o £1,222,580 y flwyddyn. Disgwylir i awdurdodau lleol arbed tua £1,069,570 y flwyddyn ac i ddarparwyr gwasanaethau arbed tua £153,020 y flwyddyn.

8.198 Yn ogystal, fel y nodir yn Nhabl 21, amcangyfrifir cyfanswm costau o £1,120,400 yn sgil 105 o apelau ynghylch penderfyniadau am beidio â chael datganiad ac am gael datganiad. O hwnnw, amcangyfrifir costau o tua £1,088,600[112] i awdurdodau lleol ac amcangyfrifir costau o ryw £31,800 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod. Amcangyfrifir cyfanswm cost o ryw £599,900 yn sgil y 57 o apelau am beidio â chael datganiad. O hwnnw, amcangyfrifir cost o ryw £587,900 i awdurdodau lleol a £17,200 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod. Gan y ceir gwared â'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol a chynlluniau anstatudol o dan y system newydd, ni fydd apelau am beidio â chael datganiad yn codi. Mae yna bosibilrwydd, felly, y gellid arbed tua £599,900 y flwyddyn.

[112] Yn sgil £5,300 a arbedir o ran cyllido gwasanaethau eirioli a £1,083,300 o ran ymateb i apelau.

Tabl 47: arbedion disgwyliedig i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod, opsiwn 2

| | Achosion bob blwyddyn | Y gost bob blwyddyn (£) | Canol yr ystod (£) |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** - Gwasanaeth datrys anghytundebau awdurdodau lleol - anghytundebau | 758 | 384,950 | |
| **Opsiwn 2** - Gwasanaeth datrys anghytundebau awdurdodau lleol - anghytundebau | 356 | 180,920 | |
| **Arbediad** | | **-204,030** | **-102,015** |
| **Opsiwn 1** - Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol – anghytundebau | 758 | 1,633,110 | |
| **Opsiwn 2** - Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol – anghytundebau | 356 | 767,560 | |
| **Arbediad** | | **-865,550** | **-432,780** |
| **Opsiwn 1** - Gwasanaeth datrys anghytundebau awdurdodau lleol – apelau | 105 | 5,300 | |
| **Opsiwn 2** - Gwasanaeth datrys anghytundebau awdurdodau lleol – apelau | 48 | 2,400 | |
| **Arbediad** | | **-2,900** | **-1,450** |
| **Opsiwn 1** - Awdurdodau lleol - ymateb i apelau | 105 | 1,083,300 | |
| **Opsiwn 2** - Awdurdodau lleol - ymateb i apelau | 48 | 498,300 | |
| **Arbediad** | | **-585,000** | **-292,500** |
| **Cyfanswm a arbedir i awdurdodau lleol** | | **-1,657,480** | **-828,740** |
| **Opsiwn 1** – darparwyr gwasanaethau datrys anghytundebau – anghytundebau | | 288,710 | |
| **Opsiwn 2** – darparwyr gwasanaethau datrys anghytundebau – anghytundebau | | 135,690 | |
| **Arbediad** | | **-153,020** | **-76,510** |
| **Opsiwn 1** – darparwyr gwasanaethau datrys anghytundebau – apelau | | 31,800 | |
| **Opsiwn 2** – darparwyr gwasanaethau datrys anghytundebau – apelau | | 14,600 | |
| **Arbediad** | | **-17,200** | **-8,600** |
| **Arbediad i ddarparwyr gwasanaethau** | | **-170,220** | **-85,110** |
| **Cyfanswm a arbedir** | | **-1,827,700** | **-913,850** |

8.199 Mae yna bosibilrwydd y gellid arbed £1,827,700 yn sgil cael gwared ag anghytundebau ac apelau ynghylch peidio â chael datganiadau (gweler Tabl 47 uchod). O hwnnw, amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol yn arbed £1,657,480 ac y bydd darparwyr yn arbed £170,220.

8.200 Fodd bynnag, mae yna risg hefyd na fydd y fantais hon yn cael ei gwireddu'n llawn.

8.201 O dan opsiwn 2, caiff CDUau eu cynnal gan awdurdodau lleol a chan ysgolion. Mae'n bosibl y gallai rhieni anghytuno â phenderfyniadau awdurdodau lleol i beidio â chynnal CDU. Er yr ystyrir y risg hon yn un isel, nid oes modd rhagweld sut y bydd pobl yn ymddwyn ac, felly, nid oes modd rhagweld hyd a lled y risg. Amcangyfrifir arbediad o tua £0-1,657,480 y flwyddyn i awdurdodau lleol, felly, sy'n arbediad canol ystod o £828,740. Wrth ystyried y costau ychwanegol o £141,050 a nodir ym mharagraff 8.192 uchod, mae yna bosibilrwydd y gallai awdurdodau lleol arbed tua £1,516,430 y flwyddyn o dan opsiwn 2, ac arbediad canol ystod o £687,690. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn arbed £0-170,220, ac arbediad canol ystod o £85,110. O ystyried y gost ychwanegol o £14,250 a nodir ym mharagraff 8.192 uchod, amcangyfrifir y gallai darparwyr arbed tua £155,970, gydag arbediad canol ystod o £70,860. Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau yn arbed cyfanswm o tua £1,672,400, gydag arbediad canol ystod o £758,550.

**Costau pontio**

8.202 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion mewn unedau cynhwysiant sy'n gyfrifol am asesiadau ac adolygiadau mewn perthynas â datganiadau. Bydd angen i'r swyddogion hyn ddilyn hyfforddiant sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau newydd, gan gynnwys hyfforddiant ar y gofynion deddfwriaethol a gyflwynir o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r rheini a nodir yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i gyd-fynd â'r Ddeddf. Yn ogystal, bydd angen i swyddogion ddilyn hyfforddiant ar y prosesau a'r gweithgarwch bob dydd sy'n ymwneud â datblygu a chynnal CDUau.

8.203 Ni chesglir data ar nifer y swyddogion asesu ac adolygu a gyflogir gan awdurdodau lleol, felly nid oes modd nodi'r union gostau cyfleoedd a ddisgwylir yn sgil yr hyfforddiant. Fodd bynnag, mae modd nodi, at ddibenion enghreifftiol, y costau cyfleoedd posibl ar sail nifer y swyddogion asesu ac adolygu a gyflogir gan Gyngor Dinas Casnewydd.

8.204 Yn 2007-08, cyflogodd Cyngor Dinas Casnewydd ddau swyddog asesu ac adolygu cynorthwyol a dau swyddog asesu ac adolygu[113]. Yn ystod 2007-08, roedd gan Gyngor Dinas Casnewydd 860[114] o blant a phobl ifanc â datganiadau. Roedd yna un swyddog, felly, i bob 215 o blant a phobl ifanc â datganiadau.

8.205 Yn 2015-16, roedd gan 13,318 o blant a phobl ifanc ddatganiad[115]. A chymryd bod gan swyddogion asesu ac adolygu ledled Cymru lwyth achosion tebyg i Gyngor Dinas Casnewydd, amcangyfrifir bod 62 o swyddogion asesu ac adolygu yng Nghymru.

8.206 Amcangyfrifir y byddai cwrs hyfforddi deuddydd yn creu cost cyfle o £18,200[116].

8.207 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu deunyddiau hyfforddi ar gyfer awdurdodau lleol. Disgwylir i'r deunyddiau hyn gael eu caffael oddi wrth arbenigwyr hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae is-grŵp arbenigol o'r grŵp gweithredu strategol ADY wrthi'n ystyried y gofynion hyfforddi, a bydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau o fynd ati. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod yr hyfforddiant gyda'r bobl berthnasol. Trafodir y cyfrwng i'w ddefnyddio, er enghraifft e-ddysgu.

8.208 Gan na wyddom beth fydd natur yr hyfforddiant, ni fu'n bosibl nodi union gost y deunyddiau hyfforddi i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif costau o £390,000 ar gyfer datblygu sgiliau craidd, codi ymwybyddiaeth ac adnoddau yn ystod y cyfnod gweithredu, 2017-18 i 2020-21 (gweler Tabl 5 uchod).

---

113 Swyddogion asesu ac adolygu cynorthwyol a gyflogir ar bwynt colofn gyflog (SCP) 26-28 llywodraeth leol a swyddogion asesu ac adolygu a gyflogir ar bwynt colofn gyflog 33-36 llywodraeth leol. Cyflog cyfartalog o £35,167 ar sail graddfeydd cyflog llywodraeth leol 2016-17, gan gynnwys argostau.

114 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision

115 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision

116 Ar sail cyflog o £35,167 y flwyddyn, gan gynnwys argostau, 48 wythnos, cost bob dydd yw £146.53. Byddai dau ddiwrnod ar gost o £146.53 ar gyfer 58 o gyflogeion yn £16,997.39.

## Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

### Costau

8.209 Ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn sgil gweithredu opsiwn 2.

### Manteision

8.210 O dan opsiwn 2, dim ond pan fyddai eu mewnbwn o fudd i'r dysgwr y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn asesiad neu adolygiad. Bydd angen y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd yr asesiad/adolygiad yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal; plant â chynllun gofal a chymorth; dysgwr a leolwyd gyda darparwr arbenigol ôl-16; neu lle gall eu cyfraniad fod o werth ychwanegol.

8.211 Mae yna bosibilrwydd, felly, y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd rhan mewn nifer lai o asesiadau ac adolygiadau. Gan na wyddom faint o'r 200 (amcangyfrif) o asesiadau a gynhelir bob blwyddyn sy'n ymwneud â phobl ifanc y tu allan i'r grŵp gorfodol a nodir yn y paragraff uchod, nid oes modd amcangyfrif yr arbedion posibl.

### Costau pontio

8.212 Bydd yna rai costau pontio i adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen i weithwyr cymdeithasol fod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o dan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ond ni fydd angen iddynt newid eu harferion. Nid oes disgwyl unrhyw newidiadau, er enghraifft, i'r adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynant i'r cydlynydd ADY/cydlynydd CDU. O ran y dull o ddatblygu CDUau sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae awdurdodau lleol wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r arfer.

8.213 Mae yna 1,363[117] o weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Amcangyfrifir cost cyfle o tua £114,900 yn sgil cwrs hyfforddi hanner diwrnod i 1,363 o weithwyr cymdeithasol[118].

8.214 Yn ogystal, disgwylir i'r cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal ym mhob awdurdod lleol ddilyn cwrs hyfforddi undydd ar y system newydd. Amcangyfrifir cost cyfle o £3,800[119] yn sgil hyfforddi 22 o gydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal.

8.215 Amcangyfrifir, felly gyfanswm cost cyfle o £118,700 i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Cost untro fyddai hyn a fyddai'n daladwy yn 2017-18.

**Ysgolion**

**Costau**

8.216 Ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i ysgolion yn sgil opsiwn 2. Bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag ADY yr un fath â'r nifer sydd ag anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd. Ni ddisgwylir i'r galw am ddarpariaeth i gefnogi pobl ifanc ag ADY gynyddu, felly.

8.217 Ni fydd cynnydd chwaith yn nifer y bobl ifanc fydd â hawl i gynllun a gynhelir gan eu hysgol. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn helpu i asesu ac adolygu datganiadau a chynlluniau addysg unigol, a bydd hyn yn parhau o dan opsiwn 2 mewn perthynas â CDUau.

**Costau pontio**

8.218 Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol i ysgolion yn sgil cyflwyno CDUau yn lle datganiadau a chynlluniau addysg unigol, gan y bydd modd i'r broses bontio

---

[117] 2014-15. Dyma'r data diweddaraf oedd ar gael wrth ysgrifennu. Gweler: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Staffing/staffoflocalauthoritysocialservicesdepartments-by-localauthority-posttitle

[118] Cyflog sylfaenol o £30,645 ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, prisiau 2014-15 (gweler http://www.pssru.ac.uk/project-pages/unit-costs/2015/index.php), £39,839 gan gynnwys argostau. Cost cyflog hanner diwrnod o £83, am 48 wythnos. Cost pob hanner diwrnod, ar sail prisiau 2016-17, yw £84.31. Cyfanswm y gost ar sail prisiau 2016-17 yw £114,915.

[119] Ar sail cyflog o £39,839 gan gynnwys argostau, 2014-15. Cost diwrnod o £168.62 am 48 wythnos. Cost diwrnod o £171.29, prisiau 2016-17. Cost 22 o gydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal - £3,768.34.

ddigwydd pan fyddai awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynnal yr adolygiad blynyddol fel rheol.

8.219 Mae yna risg y gallai adolygiadau, yn sgil cyflwyno CDUau yn lle datganiadau a chynlluniau addysg unigol, gymryd yn hirach nag y mae adolygiadau yn eu cymryd ar hyn o bryd, gan na fydd y system mor gyfarwydd â'r system bresennol. Ystyrir mai risg fach yw hon, serch hynny. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion eisoes yn defnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion ac, felly, byddant yn gyfarwydd â'r dull sy'n sail i CDUau. Yn ogystal, bydd mwyafrif yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y CDU wedi'i chynnwys yn y datganiad neu'r cynllun addysg unigol presennol.

8.220 Lle nad yw ysgolion wedi datblygu cynlluniau addysg unigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig sy'n destun cymorth Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, yn unol ag argymhelliad Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[120], bydd yna gostau ychwanegol gan y bydd angen adnoddau ychwanegol.

8.221 Nid yw unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu CDUau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun cymorth Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ond sydd heb gynllun addysg unigol, wedi'u cynnwys yn yr asesiad effaith hwn. Y rheswm am hyn yw nad yw'r adnoddau ychwanegol yn deillio o weithredu darpariaethau'r bil, gan mai'r disgwyl yw y bydd yna gynlluniau addysg unigol wedi'u llunio eisoes.

8.222 Disgwylir y bydd cydlynwyr ADY yn dilyn hyfforddiant fel rhan o'r hyfforddiant cychwynnol ar gyfer eu rôl newydd (gweler yr adran ar gydlynwyr cymorth anghenion addysgol arbennig mewn addysg isod).

**Manteision**

8.223 Gan fod y prosesau ar gyfer asesu ac adolygu CDUau yn fwy hyblyg nag ar gyfer datganiadau, bydd CDUau yn hwyluso ymyriadau cynnar. Bydd hyn o fantais i ysgolion gan fod disgwyl i ymyriadau cynnar gadw sefyllfaoedd sy'n peri problem

[120] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-en.pdf

rhag gwaethygu, gan osgoi defnyddio mwy a mwy o adnoddau o'r herwydd. Nid oedd yn bosibl mesur yr union fanteision sy'n gysylltiedig ag ymyriadau cynnar.

**Gyrfa Cymru**

**Costau**

8.224 Amcangyfrifir bod Gyrfa Cymru yn gwario tua £763,400 y flwyddyn ar asesu ac adolygu cynlluniau ar gyfer plant a phobl ifanc. O'r swm hwn, caiff £354,700 ei wario ar ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau, caiff £133,900 ei wario ar wneud ceisiadau am gyllid (gweler Tabl 38 uchod), a chaiff £274,800 ei wario ar adolygu datganiadau (gweler Tabl 37 uchod).

8.225 O dan opsiwn 2, ni fydd Gyrfa Cymru yn gyfrifol bellach am ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau gan y bydd CDUau yn eu disodli. Hefyd, ni wneir ceisiadau am gyllid o dan opsiwn 2.

8.226 Ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i Gyrfa Cymru yn sgil cyflwyno opsiwn 2.

**Manteision**

8.227 Mae cyflwyno un cynllun sy'n dilyn person ifanc drwy gydol ei daith addysgol yn golygu na fydd angen datblygu cynlluniau dysgu a sgiliau cyn i bobl ifanc fynd i addysg bellach. Yn hytrach, bydd y broses gynllunio yn digwydd fel rhan o'r broses o adolygu'r CDU.

8.228 Mae Gyrfa Cymru yn gwario tua £354,700 y flwyddyn ar ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau. Gan y bydd cynlluniau dysgu a sgiliau yn cael eu disodli gan CDUau, amcangyfrifir y bydd tua £354,700 yn cael ei arbed bob blwyddyn. Yn y tymor byr, 2018-19 i 2019-20, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido Gyrfa Cymru, gan y bydd rôl Gyrfa Cymru yn newid o ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gynnal CDUau ar gyfer y grŵp penodol hwn o bobl ifanc. Bydd y cyfnod pontio hwn yn sicrhau bod yr wybodaeth y mae Gyrfa Cymru wedi'i chasglu am golegau arbenigol annibynnol yn cael ei throsglwyddo i awdurdodau lleol.

**Costau pontio**

8.229 Fel y nodwyd uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido Gyrfa Cymru yn ystod y cyfnod dwy flynedd rhwng 2018-19 a 2019-20. Mae yna gost bontio i Lywodraeth Cymru, felly, o tua £709,400. Nid yw'r gost hon wedi'i chynnwys yn y crynodeb o'r costau pontio a nodir yn Nhabl 46 uchod, ond mae wedi'i chynnwys yng nghrynodeb Llywodraeth Cymru o'r costau pontio a nodir yn Nhabl 5 uchod.

**Byrddau iechyd**

8.230 O dan opsiwn 2, byddai disgwyl i fyrddau iechyd gyfrannu i CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol fel y bo'n briodol. Ar hyn o bryd mae byrddau iechyd yn cyfrannu at gynlluniau statudol ac anstatudol dysgwyr sydd yn yr ysgol. Ni ddisgwylir, felly, y bydd yr opsiwn hwn yn golygu mwy o waith i'r Byrddau o ran asesu angen ac adolygu cynlluniau dysgwyr ag ADY sydd yn yr ysgol.

8.231 Ar hyn o bryd, dim ond tra bydd pobl ifanc yn yr ysgol y bydd y cynlluniau statudol yn berthnasol iddynt. Mae opsiwn 2 yn ehangu cwmpas y cynlluniau statudol i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed, os ydynt yn dal mewn addysg.

8.232 Ar hyn o bryd, mae gan bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n mynd i sefydliad addysg bellach arbenigol gynllun dysgu a sgiliau statudol. Lle bydd angen gofal meddygol ar berson ifanc tra bydd mewn sefydliad addysg bellach arbenigol, gofynnir i'r bwrdd iechyd gyfrannu i'r cynllun dysgu a sgiliau. O dan opsiwn 2, bydd yr arfer hwn yn parhau, a gofynnir i fyrddau iechyd gyfrannu i'r CDU. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i fyrddau iechyd, felly, lle bydd person ifanc yn mynd i sefydliad addysg bellach arbenigol.

8.233 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i bobl ifanc sydd ag anghenion llai cymhleth gael cynllun anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol, felly, i awdurdodau lleol na sefydliadau addysg bellach drafod gyda byrddau iechyd wrth gynllunio neu adolygu cynlluniau i bobl ifanc sydd angen gofal iechyd neu feddygol tra byddant mewn sefydliad addysg bellach.

8.234 Bydd opsiwn 2 yn cyflwyno gofyniad i fyrddau iechyd helpu gydag asesiadau ac adolygiadau lle bydd gan bobl ifanc anghenion gofal iechyd sy'n effeithio ar eu

haddysg. Nid oes disgwyl i'r gofyniad ychwanegol hwn olygu costau ychwanegol, gan y bydd pobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd eisoes yn hysbys ers eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n debygol, felly y caiff anghenion gofal iechyd eu hasesu cyn i'r person ifanc fynd i addysg bellach, fel rhan o'r broses CDU.

**Manteision**

8.235 Bydd opsiwn 2 yn fwy hyblyg na'r system bresennol. Dim ond lle mae yna angen sy'n galw am ddarpariaeth iechyd briodol y bydd angen i fyrddau iechyd gyfrannu at CDU. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wahodd y bwrdd iechyd i gyfrannu at bob asesiad ac adolygiad o ddatganiadau, p'un a oes yna angen iechyd ai peidio.

8.236 Ni fyddai staff gwasanaethau iechyd, felly, yn gwneud mwy na'r hyn maent yn ei wneud eisoes, ac efallai y byddant yn gwneud llai, pan fydd hynny'n briodol. Ni fu'n bosibl amcangyfrif unrhyw arbedion posibl yn sgil cyfraniad llai gan y byrddau at gynlluniau lle nad oes angen mewnbwn o'r fath, gan na wyddom sawl datganiad sydd angen mewnbwn o ran cyngor iechyd ar hyn o bryd.

**Costau pontio**

8.237 Bydd angen i staff byrddau iechyd fod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o dan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Efallai bod yna rai costau pontio sy'n gysylltiedig, ond disgwylir i staff ddod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r system newydd drwy weithgareddau codi ymwybyddiaeth a gynhelir gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (gweler yr adran isod ynghylch cydlynwyr iechyd strategol, tudalennau 286-293).

8.238 Ni fydd angen hyfforddiant ymarfer ar staff byrddau iechyd, gan na fydd unrhyw newid i'r arferion presennol mewn perthynas â chyfrannu at CDUau. Yn benodol, caiff adroddiadau eu llunio a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â'r trefniadau presennol.

8.239 Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu deunyddiau codi ymwybyddiaeth (gweler yr adran am y costau gweithredu i Lywodraeth Cymru uchod).

**Risgiau**

8.240 Mae yna bosibilrwydd y gallai anghenion iechyd ychwanegol gael eu nodi gan fod cynlluniau statudol yn cael eu hehangu i gynnwys pobl ifanc mewn addysg bellach.

8.241 Gan mwyaf, fodd bynnag, byddai anghenion dysgwyr ag ADY wedi cael eu nodi fel rhan o'u CDU cyn mynd i addysg bellach, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth iechyd ofynnol.

8.242 Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio neu adolygu cynlluniau addysgol y rheini sydd mewn addysg bellach, ond mae'n ddyletswydd ar sefydliadau addysg bellach i ofalu am eu dysgwyr a byddent yn eu cyfeirio at y GIG yn ôl yr angen. Rhagwelir y bydd niferoedd y dysgwyr a fydd yn manteisio ar y ddarpariaeth ôl-16 yn parhau'n gymharol debyg i'r lefelau cyfredol. Dylai cyfradd yr achosion newydd a gyfeirir at fyrddau iechyd, felly, mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 y nodir bod ganddynt ADY, barhau'n gymharol gyson.

8.243 Fodd bynnag, gallai cyflwyno proses gynllunio statudol ar gyfer y rheini mewn addysg ôl-16 gynnwys dysgwyr sydd ag anghenion iechyd nad ydynt, efallai, wedi'u nodi o'r blaen. Gallai hyn godi, er enghraifft, lle mae person ifanc yn cael damwain neu'n datblygu salwch meddwl.

8.244 Nid oes modd nodi union nifer y dysgwyr sy'n mynd i sefydliad addysg bellach ac sy'n mynd ymlaen i ddatblygu angen gofal iechyd. Ni fu'n bosibl, felly, amcangyfrif unrhyw gostau ychwanegol. Felly, nid yw’r gost hon yn hysbys.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**

**Costau rheolaidd**

8.245 Yn gyffredinol, tybir y gallai TAAAC weld gostyngiad yn ei gostau rheolaidd o tua £15,300 yn sgil opsiwn 2. Ni wyddom faint yn union a arbedir. Y rheswm am hyn yw y gallai'r gost gynyddu hyd at £12,500 ac y gellid arbed hyd at £43,100.

**Costau**

8.246 Mae yna risg y gallai nifer yr apelau i TAAAC gynyddu o dan opsiwn 2, yn sgil y newidiadau yn oedran y plant a'r bobl ifanc fyddai â hawl i apelio.

8.247 Ar hyn o bryd, caiff pob plentyn a pherson ifanc dros ddwy oed hyd at ddiwedd eu cyfnod gorfodol yn yr ysgol, a phob person ifanc sy'n hŷn na'r oedran gorfodol hyd at 19 oed sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol, apelio ynghylch peidio â chael datganiad anghenion addysgol arbennig, neu os oes ganddynt ddatganiad, gallant apelio yn erbyn cynnwys eu datganiad.

8.248 O dan opsiwn 2, gall pob person ifanc 0-25 oed apelio ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch peidio â chael CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol neu, os oes ganddynt CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, gallant apelio yn erbyn y ddarpariaeth y cytunwyd arni (neu na chytunwyd arni) yn eu CDU. Caiff yr hawl i apelio ei hymestyn i'r rheini sy'n 0-2 oed ac i'r bobl ifanc hynny, nad ydynt yn yr ysgol, ac sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed ac mewn addysg bellach. Hynny yw, mae opsiwn 2 yn ymestyn yr hawl i apelio i blant o dan ddwy oed ac i bobl ifanc sydd am fynd i addysg bellach, neu sydd eisoes mewn addysg bellach.

8.249 Ystyrir bod y risg o fwy o apelau i TAAAC mewn perthynas â'r rheini sy'n 0-2 oed yn fach. Lle bydd yna fater yn codi mewn perthynas â'r grŵp hwn a allai ei gwneud yn anodd iddynt ddysgu, megis anhawster iaith a lleferydd, caiff y mater ei nodi gan ymwelydd iechyd, a'i gyfeirio i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

8.250 Ni wyddom beth yw hyd a lled y risg o ran pobl ifanc mewn addysg bellach. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anghenion cymhleth yn apelio ynghylch cynnwys eu cynllun ar yr un gyfradd ag y mae plant a phobl ifanc yn yr ysgol sydd ag anghenion addysgol arbennig yn apelio yn erbyn cynnwys eu datganiad[121].

[121] Yn 2015-16, roedd gan 13,318 o bobl ifanc ddatganiadau mewn ysgolion, a chyflwynwyd 105 o apelau. Hynny yw, cyflwynodd 0.84% o bobl ifanc â datganiadau apelau. Ar gyfartaledd, mae 47% o'r apelau yn ymwneud â chynnwys y datganiadau.

8.251 Fel y mae Tabl 48 isod yn ei nodi, yn 2014-15 roedd yna 120 o bobl ifanc mewn addysg bellach oedd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog[122]. Mae yna 298 o bobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n mynd i goleg arbenigol annibynnol. Os bydd y 418 hyn yn apelio ynghylch cynnwys eu CDU ar yr un gyfradd ag y mae pobl ifanc mewn ysgolion yn apelio ar hyn o bryd am gynnwys eu datganiad, disgwylir tua thair apêl ynghylch cynnwys CDUau bob dwy flynedd[123]. Amcangyfrifir cost o £2,269 (gweler tabl 41 uchod) i TAAAC am apêl ynghylch cael datganiad. Cost tair apêl fyddai £6,807. Gallem weld cost ychwanegol i TAAC bob blwyddyn, felly, o tua £3,400.

Tabl 48: pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau a ddarperir yn gyffredinol gan y darparwr dysgu, 2014-15

| | Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog | Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu |
|---|---|---|
| Dan 16 | 0 | 270 |
| 16 | 30 | 2,300 |
| 17 | 20 | 2,055 |
| 18 | 15 | 1,295 |
| 19 | 20 | 945 |
| 20 i 24 | 35 | 2,075 |
| | **120** | **8,905** |

Ffynhonnell: StatsCymru[124]

8.252 Yn ogystal, mae yna risg y gallai fod yna gostau ychwanegol i TAAAC os bydd pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg bellach yn apelio am gynnwys eu CDU ar yr un gyfradd ag y mae pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion yn apelio ar hyn o bryd am gynnwys eu datganiad. Yn 2015-16, roedd gan 107,668 o bobl ifanc mewn ysgolion anghenion addysgol arbennig a chyflwynwyd 105 o apelau. Hynny yw, cyflwynodd

[122] Dyma'r data diweddaraf oedd ar gael wrth ysgrifennu. Gweler: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

[123] Pe bai 418 o bobl ifanc yn apelio ar gyfradd o 0.79%, byddai tair apêl bob blwyddyn neu 1.5 apêl am gynnwys.

[124] Dyma'r data diweddaraf oedd ar gael wrth ysgrifennu. Gweler: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender

0.1% o bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion apelau i TAAAC.

8.253 Pe bai 0.1% o'r 8,905 o bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg bellach yn apelio i TAAAC, amcangyfrifir y byddai tua pedair apêl ynghylch cynnwys CDUau bob blwyddyn[125]. Amcangyfrifir cost o £2,269 (gweler tabl 41 uchod) i TAAAC am apêl ynghylch cael datganiad. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm cost ychwanegol pedair apêl am gynnwys CDU i TAAAC fyddai tua £9,100 y flwyddyn.

8.254 Gallai ehangu'r ystod oedran i gynnwys pobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n mynd i sefydliadau addysg bellach a cholegau arbenigol annibynnol, felly, arwain at gost reolaidd ychwanegol i TAAAC o £12,500 y flwyddyn.

8.255 Fodd bynnag, ni wyddom i ba raddau y bydd pobl ifanc yn apelio ar y lefelau a nodir uchod. Ar y naill law, gallai'r risg fod yn fach iawn gan y bydd pobl ifanc sy'n mynd i addysg bellach yn hysbys i ysgolion a/neu awdurdodau lleol ers peth amser, felly dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae anghytundebau yn debygol o godi ynghylch cael CDU neu am ddarpariaeth, er enghraifft lle bydd person ifanc wedi datblygu problem iechyd ddifrifol yn sydyn sy'n effeithio ar ei addysg. Ar y llaw arall, mae yna dystiolaeth i awgrymu bod adegau pontio yn gallu arwain at apelau ychwanegol[126]. Er bod symud o'r ysgol i addysg bellach yn debygol o fod yn bwynt pontio pwysig i bobl ifanc lle mae risg uwch o apêl, dim ond yn achos pobl ifanc sydd yn eu blwyddyn astudio gyntaf y mae hyn yn wir. Mae'n annhebygol y bydd pobl ifanc yn eu hail neu eu trydedd blwyddyn o addysg bellach yn apelio mor aml â'r rheini yn eu blwyddyn gyntaf. Gan na wyddom faint o'r bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu fydd yn apelio yn erbyn

[125] Pe bai 8,905 o bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn apelio ar gyfradd o 0.1%, byddai 8.68 o apelau neu 4.08 o apelau am gynnwys.

[126] Ar sail dadansoddiad o apelau a gynhaliwyd gan TAAAC mewn perthynas â'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. O'r 240 o apelau a ddaeth i law yn ystod y tair blynedd rhwng 2012 a 2015, amcangyfrifir (ar sail oedran a manylion y plant yn eu papurau achos) bod 45 o apelau yn ymwneud â phontio, sy'n cyfateb i 19% o'r apelau a gofrestrwyd. Pan rannwyd y 240 o achosion ag 13 (nifer y blynyddoedd ysgol), roedd hyn yn awgrymu bod 18 o apelau wedi'u cofrestru yn ôl blwyddyn ysgol (7.5% o gyfanswm yr achosion). Mae hyn yn dynodi bod nifer yr apelau yn sgil cyfnodau pontio (19%) yn mwy na dyblu o gymharu ag apelau bob blwyddyn yn gyffredinol.

cynnwys eu CDU, defnyddir £6,300, sef pwynt canol y gost reolaidd ychwanegol bosibl i TAAAC o £12,500 y flwyddyn.

**Costau pontio**

8.256 Bydd angen i aelodau presennol y tribiwnlys gael hyfforddiant er mwyn deall y system newydd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn gost o tua £35,100[127]. Mae'r costau yn seiliedig ar:

- hyfforddiant undydd ar gyfer yr aelodau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r ystyriaethau cyfreithiol ychwanegol wrth ddelio â phobl ifanc hyd at 25 oed
- paratoad undydd am hyfforddiant gan un o gadeiryddion y tribiwnlys
- hyfforddiant dau ddiwrnod ar gyfer holl aelodau'r tribiwnlys
- digwyddiad hyfforddiant dilynol undydd tua chwe mis ar ôl cychwyn y system newydd i adolygu'r sefyllfa. Gallai hyn arwain at hyfforddiant hanner diwrnod ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi
- dau ddiwrnod i grwpiau defnyddwyr - er mwyn darparu gwybodaeth a delio ag unrhyw bryderon a fynegir ynghylch y system newydd.

8.257 Er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r tribiwnlys yr wybodaeth sy'n ofynnol sy'n cwmpasu'r ystod oedran estynedig, disgwylir y bydd angen dau aelod ychwanegol ar TAAAC sydd â gwybodaeth am addysg bellach. Cost recriwtio a sefydlu dau aelod o'r tribiwnlys yw £25,300[128].

8.258 Bydd angen i'r tribiwnlys hefyd ddiwygio'i ddogfennau, ei gyhoeddiadau, ei ffurflenni a'i brosesau gweinyddol, gan gynnwys:

- rheolau gweithdrefnol y tribiwnlys
- canllawiau, ffurflenni, gwefan a DVD y tribiwnlys
- cyfarwyddiadau
- llawlyfr yr aelodau.

Bydd yna gostau pontio i TAAAC yn sgil yr adnoddau dynol fydd eu hangen er mwyn sicrhau bod pob gofyniad statudol yn cael ei ymgorffori'n gywir yng

[127] Ffynhonnell: TAAAC
[128] Ffynhonnell: TAAAC

nghyhoeddiadau, ffurflenni a phrosesau'r tribiwnlys. Mae'n debygol y caiff y gwaith ei wneud gan swyddog gweithredol, gan gymryd 15 mis. Amcangyfrifir cost o tua £40,500[129].

Tabl 49: amcangyfrif o gyfran gwariant TAAAC ar apelau sy'n ymwneud ag asesiadau a rhoi datganiadau

| | **Costau rheolaidd - opsiwn 1 prisiau 2016-17** | **Costau pontio 2017-18** | **Costau rheolaidd - opsiwn 2 prisiau 2016-17** | **Y gwahaniaeth yn y costau rheolaidd** | **Y gwahaniaeth yn y costau rheolaidd gan gynnwys canol yr ystod** |
|---|---|---|---|---|---|
| TAAAC | 152,000 | 100,900 | 108,900 | -43,100 | -21,600 |
| | | | | | |
| Cyfanswm | **152,000** | **100,900** | **108,900** | **-43,100** | **-21,600** |

**Manteision**

8.259 Ar hyn o bryd, mae yna gostau o tua £43,100 y flwyddyn i TAAAC ar apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad (gweler Tabl 41 uchod). Mae dileu’r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol - datganiadau a chynlluniau addysg unigol - yn dileu'r sail dros apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad.

8.260 Gan na fydd TAAAC yn clywed apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad, gallai TAAAC arbed £43,100 y flwyddyn. Ystyrir mai dyma'r swm mwyaf posibl a gaiff ei arbed, gan y bydd gan TAAAC rai costau sefydlog, na fydd yn lleihau'n berffaith yn unol â gostyngiadau yn niferoedd yr apelau.

8.261 Er y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc CDU statudol o dan opsiwn 2, bydd yna wahaniaethau o ran sut cânt eu gweinyddu. Caiff CDUau eu cynnal naill ai gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol. Mae yna risg, felly, na chaiff yr arbedion

[129] Ar sail cyflog cyfartalog swyddog gweithredol, sef £32,400 gan gynnwys argostau.

cost a amcangyfrifir eu cyflawni gan y gallai plant, pobl ifanc a rhieni apelio yn erbyn peidio â chael CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

8.262 Caiff CDUau ar gyfer y nifer fach o blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth eu datblygu a'u cynnal gan awdurdodau lleol, tra bydd ysgolion yn datblygu ac yn cynnal CDUau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion llai cymhleth. Bydd plant, pobl ifanc a rhieni yn gallu herio penderfyniadau awdurdodau lleol i beidio â datblygu a/neu gynnal CDU. Er y bydd opsiwn 2, felly, yn cael gwared ag apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad, gallai'r apelau sy'n ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol i beidio â datblygu a chynnal CDU gymryd eu lle.

8.263 Nid oes modd nodi union nifer yr apelau posibl ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol i beidio â datblygu neu gynnal CDU. Amcangyfrifir ystod o arbedion cost, felly, o £0-43,100. At ddibenion enghreifftiol, defnyddir y pwynt canol, sef £21,600, wrth gyfrifo costau a manteision cyffredinol y bil.

**Risgiau**

8.264 Mae yna risg y bydd opsiwn 2 yn arwain at heriau ychwanegol ynghylch cynnwys CDU.

8.265 Mae ehangu diogelwch statudol i gynnwys pob person ifanc ag ADY yn cynyddu'n sylweddol nifer y cynlluniau sydd â diogelwch statudol. Ar sail data 2015-16, byddai opsiwn 2 yn cynyddu nifer y disgyblion sydd â chynlluniau statudol o 13,318 o i 107,668. Hynny yw, o dan opsiwn 2, bydd gan 94,350 yn rhagor o ddisgyblion gynllun statudol (gweler Tabl 2 uchod). Disgwylir y bydd y CDUau ychwanegol yn rhai a gynhelir gan ysgolion, yn hytrach na chan awdurdodau lleol.

8.266 Ni ddisgwylir cynnydd yn nifer yr apelau i TAAAC am gynnwys cynlluniau statudol i bobl ifanc, gan y bydd y 94,350 o CDUau ychwanegol yn rhai a gynhelir gan ysgolion, ac ni ellir cyfeirio CDUau a gynhelir gan ysgolion yn uniongyrchol i TAAAC. Yn hytrach, disgwylir i anghytundebau gael eu datrys yn lleol, drwy drafodaeth rhwng y rhieni a'r ysgol yn y lle cyntaf.

8.267 Bydd disgwyl i rieni sydd â phryderon am gynlluniau a gynhelir gan yr ysgol eu codi gyda'r ysgol honno. Lle na all rhieni ddatrys y pryderon sydd ganddynt am y cynllun gyda'r ysgol, gallant eu codi gyda'r awdurdod lleol. Mae yna risg, felly, y bydd yna fwy o anghytundebau i awdurdodau lleol ddelio â nhw. Fodd bynnag, disgwylir i'r risg hon fod yn fach gan fod CDUau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion, a chanfuwyd bod y dull hwn, o gymharu â'r system bresennol, yn gwella profiad pobl o'r broses ac yn meithrin llawer mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y broses, yn benodol ymhlith rhieni a gofalwyr, sy'n cael eu cynnwys yn y broses benderfyniadau ac yn chwarae rôl ganolog ynddi (Holtom a Lloyd-Jones, 2014).

8.268 Lle na fydd plant, pobl ifanc a rhieni yn fodlon â chanlyniad proses yr awdurdod lleol, dyna pryd y cânt apelio i TAAAC, er enghraifft, lle bydd yr awdurdod lleol wedi gwrthod cais i gynnal y CDU. Ni ddisgwylir i hyn arwain at gynnydd yn nifer yr apelau gan fod hon yn broses debyg i'r un bresennol. Lle na fydd plant, pobl ifanc a rhieni yn fodlon, er enghraifft, y gall yr ysgol gyflawni'r ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc, gallant wneud cais am asesiad statudol gan yr awdurdod lleol. Lle bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio ag asesu neu beidio â rhoi datganiad, gall plant, pobl ifanc a rhieni apelio i TAAAC yn erbyn y penderfyniad hwn.

**Sefydliadau addysg bellach**

8.269 Amcangyfrifir y gallai opsiwn 2 arwain at gostau rheolaidd ychwanegol o £23,200 i sefydliadau addysg bellach.

**Costau**

8.270 Ar hyn o bryd, mae sefydliadau addysg bellach wrthi’n helpu i adolygu cynlluniau dysgu a sgiliau a chynlluniau eu colegau ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Ar hyn o bryd, mae sefydliadau addysg bellach hefyd yn gorfod ymateb i gwynion a ddaw i law am y gefnogaeth y maent yn ei darparu i bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Fel y nodir uchod, amcangyfrifir

bod yna gostau o tua £229,400[130] y flwyddyn i sefydliadau addysg bellach yn sgil adolygu cynlluniau dysgu a sgiliau a chynlluniau eu colegau ac ymateb i unrhyw gwynion am ddarpariaeth. Nid oes disgwyl i sefydliadau addysg bellach wynebu costau ychwanegol o dan opsiwn 2 mewn perthynas â chynnal CDUau.

8.271 Fodd bynnag, gallai ehangu'r hawl i apelio i bobl ifanc mewn addysg bellach arwain at gostau ychwanegol i sefydliadau addysg bellach. Mae yna risg y gallai fod yna gostau ychwanegol i sefydliadau addysg bellach lle bydd pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn apelio ynghylch cynnwys eu CDU a gynhelir gan y sefydliadau. Mae gan 120 o bobl ifanc sy'n mynd i sefydliadau addysg bellach anawsterau dysgu dwys a lluosog. A chymryd y bydd 50% o'r cynlluniau yn cael eu cynnal gan y sefydliadau, byddai 60 cynllun. A chymryd bod pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn apelio ynghylch cynnwys eu datganiad ar yr un gyfradd ag y mae pobl ifanc mewn ysgolion yn cwyno ynghylch cynnwys eu datganiad, amcangyfrifir y byddai un apêl bob pedair blynedd[131]. A chymryd bod y gost i sefydliadau addysg bellach yn sgil ymateb i apelau yr un fath â'r gost i awdurdodau lleol, amcangyfrifir y byddai cost ymateb i apelau bob blwyddyn tua £2,600[132].

8.272 Mae yna risg y gallai'r 8,905 o bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu apelio i TAAAC. Pe bai pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn apelio i TAAAC ar yr un gyfradd â phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion (0.1%), gallai hynny olygu pedair apêl ynghylch cynnwys CDU bob blwyddyn. A chymryd bod sefydliadau addysg bellach yn wynebu'r un costau ag awdurdodau lleol wrth ymateb i apêl, amcangyfrifir y gallai sefydliadau addysg bellach wynebu cost ychwanegol o £41,268[133] y flwyddyn.

[130] Cyfuniad o £226,600 ar adolygiadau (gweler Tablau 40 a 45) ac £800 ar gwynion (gweler Tabl 45)
[131] Yn 2015-16 roedd gan 13,318 o bobl ifanc mewn ysgolion ddatganiadau a gwnaed 105 apêl. Hynny yw, gwnaeth 0.79% o bobl ifanc â datganiadau apelau. Ar gyfartaledd, mae 47% o apelau yn ymwneud â chynnwys datganiadau. Pe bai 60 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn apelio ar gyfradd o 0.79%, byddai un apêl bob dwy flynedd neu un apêl ynghylch cynnwys datganiad bob pedair blynedd.
[132] Amcangyfrifir cost o tua £10,317 i awdurdodau lleol yn sgil ymateb i apêl. Chwarter y gost hon yw £2,579.25.
[133] Mae 4 apêl ar gost o £10,317/apêl yn dod i £41,268.

8.273 Fodd bynnag, ystyrir bod y risg yn isel gan y disgwylir i anghytundebau am gynnwys CDUau a gynhelir gan sefydliadau addysg bellach gael eu datrys yn lleol.

8.274 Hefyd, cyn i berson ifanc fynd i addysg bellach, ni fydd rhwymedigaeth ar sefydliadau addysg bellach i dderbyn cyfrifoldeb gan yr awdurdod lleol am gynnal CDU lle na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gynnal y CDU.

8.275 Lle bydd dysgwr wedi dechrau mewn addysg bellach, a'r sefydliad addysg bellach o'r farn bod gan y dysgwr ADY nad yw'r sefydliad addysg bellach o'r farn y byddai'n rhesymol i'r sefydliad ddarparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar ei gyfer, gall y sefydliad addysg bellach gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod benderfynu ar anghenion y dysgwr a pharatoi'r CDU.

8.276 Lle bydd sefydliad addysg bellach wedi derbyn cyfrifoldeb am CDU, ond wedyn yn teimlo na all gynnal y CDU am nad yw'n gallu darparu cymorth priodol ar gyfer y person ifanc, gall y sefydliad addysg bellach wneud cais i'r awdurdod lleol ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU.

8.277 Gan fod risg apelau i TAAAC gan bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn cael ei hystyried yn isel, gallai fod yna gostau ychwanegol o rhwng £0 a £41,268 y flwyddyn i sefydliadau addysg bellach. Defnyddir cost canol yr ystod, sef £20,600. Mae yna bosibilrwydd, felly, y gallai sefydliadau addysg bellach wynebu costau rheolaidd ychwanegol o £23,200 yn sgil ymateb i apelau gan bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (£20,600) a chan bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (£2,600).

**Costau pontio**

8.278 Disgwylir y bydd Cydlynydd ADY y sefydliad addysg bellach yn mynd i gwrs hyfforddi deuddydd i ddysgu am y gofynion deddfwriaethol newydd. Bydd disgwyl i'r Cydlynydd ADY hefyd gydweithio ag asiantaethau eraill, megis swyddogion yr awdurdod lleol a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, wrth weithredu

gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r Cydlynydd ADY wedi'i nodi isod yn yr adran am gydlynu anghenion dysgu ychwanegol.

**Manteision**

8.279 Gallai sefydliadau addysg bellach elwa ar arbedion o ran costau o ganlyniad i CDPau a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliadau addysg bellach yn cynnal ac yn adolygu cynlluniau ar gyfer 120 o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. O dan y cynllun newydd, bydd cyfran o'r cynlluniau hyn yn cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol. Felly, awdurdodau lleol yn hytrach na'r sefydliadau addysg bellach fydd yn gyfrifol am reoli a threfnu'r broses adolygu. Bydd hyn yn arbed arian i'r sefydliadau addysg bellach. Fodd bynnag, ni fu modd amcangyfrif beth yn union fydd yr arbedion hyn. Felly, nid yw'r arbedion hyn yn hysbys.

8.280 Disgwylir i sefydliadau addysg bellach a phobl ifanc elwa yn sgil cyflwyno un cynllun ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Bydd cael un cynllun, sy'n dilyn person ifanc drwy gydol ei addysg, yn darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am y person ifanc ynghyd â thystiolaeth am y cymorth sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer y person ifanc. Drwy beidio â gorfod dechrau o'r dechrau, bydd modd i'r sefydliad addysg bellach ddyrannu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

8.281 Bydd y person ifanc yn elwa ar y ffaith bod y broses bontio yn rhan o'r broses barhaus o adolygu ei CDU, yn hytrach na bod honno yn broses ar wahân. Dylai cael un cynllun sicrhau bod y gwaith cynllunio yn digwydd yn brydlon; yn effeithlon i'r person ifanc gan na fydd angen cynnal cyfarfodydd ychwanegol nac ailadrodd gwybodaeth a roddwyd o'r blaen; a dylai sicrhau bod y gefnogaeth a roddir yn effeithiol gan y bydd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

8.282 Ni fu'n bosibl nodi'r union fanteision ariannol i sefydliadau addysg bellach nac i bobl ifanc a'u rhieni.

### Plant, pobl ifanc a rhieni

8.283 Pan fydd rhieni yn mynd ati i anghytuno neu apelio, mae hynny'n creu cryn gostau. Fel y mae Tabl 51 isod yn ei nodi, amcangyfrifir y bydd rhieni yn wynebu costau o £3,678,600 y flwyddyn, ar gyfartaledd, yn sgil anghytundebau ac apelau. Yn gyffredinol, ni fydd yna gostau ychwanegol i rieni yn sgil opsiwn 2. Yn hytrach, amcangyfrifir y bydd rhieni yn arbed tua £980,475 y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac yn arbed £832,375 y flwyddyn o ystyried y costau ychwanegol o £148,100..

### Costau

8.284 Fel y nodir uchod, mae yna bosibilrwydd y gallem weld 32 o anghytundebau ychwanegol ynghylch cynnwys cynlluniau yn sgil ehangu CDUau i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed mewn addysg bellach. Ar gyfartaledd, mae anghytundeb yn costio £3,775[134] i rieni. Mae yna bosibilrwydd, felly, y gallai fod yna gostau ychwanegol o tua £120,800 y flwyddyn i rieni.

8.285 Mae ehangu hawliau apelio i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag anghenion cymhleth mewn addysg bellach yn debygol o arwain at dair apêl bob dwy flynedd ynghylch cynnwys CDUau. Ar gyfartaledd, mae apêl yn costio £7,787[135] i riant. Byddai tair apêl ychwanegol, felly, yn costio £23,359, gan gostio tua £11,700 yn flynyddol.

8.286 Mae yna bosibilrwydd hefyd y gwelwn bedair apêl ychwanegol y flwyddyn ynghylch cynnwys CDUau gan bobl ifanc sydd ag anghenion llai cymhleth mewn addysg bellach. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir cost o tua £31,100 i rieni yn sgil yr apelau hyn. Ni wyddom faint o risg yw hyn gan y disgwylir i anghytundebau gael eu datrys ar lefel leol. Gallai rhieni, felly, wynebu costau o £0-31,100. Defnyddir cost canol yr ystod, sef £15,600.

Gallai rhieni, felly, wynebu cyfanswm costau ychwanegol o tua £148,100 y flwyddyn.

[134] Mae Tabl 44 yn nodi mai £3,659 oedd y gost gyfartalog yn 2013, sy'n cyfateb i £3,774.96 yn 2016-17.
[135] Mae Tabl 44 yn nodi mai £7,547 oedd y gost gyfartalog yn 2013, sy'n cyfateb i £7,786.19 yn 2016-17.

Tabl 50: cymharu'r gost i rieni yn sgil ehangu CDUau i gynnwys pobl ifanc mewn addysg bellach hyd at 25 oed

| | Opsiwn 1 Achosion bob blwyddyn | Opsiwn 1 Y gost bob blwyddyn (£) | Opsiwn 2 Achosion bob blwyddyn | Opsiwn 2 Y gost bob blwyddyn (£) | Y gost ychwanegol (£) | Y gost ychwanegol gan gynnwys canol yr ystod (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anghytundebau | 0 | 0 | 32 | 120,800 | 120,800 | 120,800 |
| Apelau - Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 0 | 0 | 1.5 | 11,700 | 11,700 | 11,700 |
| Apelau - AAD | 0 | 0 | 4 | 31,100 | 31,100 | 15,600 |
| | | | **Cyfanswm** | **163,600** | **163,600** | **148,100** |

**Manteision**

8.287 Bydd plant, pobl ifanc a rhieni yn elwa mewn nifer o ffyrdd yn sgil cyflwyno opsiwn 2.

8.288 Dylai plant, pobl ifanc a rhieni elwa ar gael system lai cymhleth. Gall y broses bresennol o greu datganiad gymryd hyd at 26 wythnos i'w chwblhau, sy'n groes i egwyddor ymyriadau cynnar ac yn creu oedi o ran y cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc. Gall hyn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau.

8.289 Mae opsiwn 2 yn cynnig dull mwy hyblyg o asesu ac adolygu, a fydd yn lleihau pa mor hir mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau a threfnu darpariaeth. Gallai hyn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau pobl ifanc. Gallai leihau'r gyfradd, er enghraifft, o ran gwahardd pobl ifanc ag ADY o'r ysgol gan fod modd gwneud penderfyniadau yn gyflym o ran cael cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd oherwydd eu hymddygiad. Dylai cael system lai cymhleth leihau dryswch, pryder a rhwystredigaeth i rieni.

8.290 Ar hyn o bryd, mae rhieni yn talu symiau sylweddol o arian i fynd ati i anghytuno ag awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau i beidio â rhoi datganiad[136]. Fel y nodir yn Nhabl 51 isod, ar hyn o bryd amcangyfrifir bod rhieni

[136] http://www.mertonmencap.org.uk/pdfs/SEND-Tribunal-Survey-Results-August2013.pdf

yn gwario £2,861,050 y flwyddyn, ar gyfartaledd, ar ddatrys anghytundebau, ac £817,550 y flwyddyn, ar gyfartaledd, ar apelau i TAAAC.

8.291 O dan opsiwn 2, bydd gwneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol yn gwneud i ffwrdd ag anghytundebau ac apelau am benderfyniadau sy'n ymwneud â pheidio â chael cynllun statudol.

8.292 Bydd rhieni yn elwa ar ostyngiad yn y costau sy'n gysylltiedig â herio penderfyniadau. Amcangyfrifir y gallai rhieni arbed tua £980,475 y flwyddyn, ar gyfartaledd, - £758,575 mewn perthynas ag anghytundebau a £221,900 mewn perthynas ag apelau.

8.293 Yn gyffredinol, ar ôl cyfrif y costau ychwanegol posibl o ryw £148,100 y flwyddyn yn sgil ehangu'r ystod oedran, ochr yn ochr â’r arbedion posibl o £980,475 mae disgwyl i rieni arbed tua £832,375 y flwyddyn.

Tabl 51: cymharu'r costau rheolaidd i rieni ac i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghytundeb, prisiau 2016-17

| | Opsiwn 1 Achosion bob blwyddyn | Opsiwn 1 - y gost bob blwyddyn (£) | Opsiwn 2 Achosion bob blwyddyn | Opsiwn 2 - y gost bob blwyddyn (£) | Opsiwn 2 - mantais (£) | Opsiwn 2 - mantais gan gynnwys canol yr ystod (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhieni** | | | | | | |
| Anghytundeb - heb gymorth gan wasanaethau datrys anghydfod a ariennir gan yr awdurdod lleol | 758 | 3,628,900 | 356 | 1,704,600 | -1,924,300 | -962,150 |
| Anghytundeb - gyda chymorth gan wasanaethau datrys anghydfod a ariennir gan yr awdurdod lleol | 758 | 2,093,200 | 356 | 983,200 | -1,110,000 | -555,000 |
| **Cyfartaledd** | | **2,861,050** | | **1,343,900** | -1,517,150 | **-758,575** |
| **Cyfartaledd gan gynnwys canol yr ystod** | | **2,861,050** | | **2,102,475** | **-758,575** | **-758,575** |
| **Opsiwn 1**: Apelau - heb gymorth gan wasanaethau datrys anghydfod a ariennir gan yr awdurdod lleol | 105 | 1,036,900 | 48 | 474,000 | -562,900 | -281,450 |
| **Opsiwn 1**: Apelau - gyda chymorth gan wasanaethau datrys anghydfod a ariennir gan yr awdurdod lleol | 105 | 598,200 | 48 | 273,500 | -324,700 | -162,350 |
| **Cyfartaledd** | | **817,550** | | **373,750** | **-443,800** | **-221,900** |
| **Cyfartaledd gan gynnwys canol yr ystod** | | 817,550 | | 595,650 | -221,900 | -221,900 |
| **Cyfanswm** | | 3,678,600 | | 1,717,650 | -1,960,950 | -980,475 |
| **Cyfartaledd gan gynnwys canol yr ystod** | | **3,678,600** | | **2,698,125** | **-980,475** | **-980,475** |
| Anghytundebau | | 0 | 32 | 120,800 | 120,800 | 120,800 |
| Apelau – anawsterau dysgu dwys a lluosog | | 0 | 2 | 11,700 | 11,700 | 11,700 |
| Apelau – anawsterau a/neu anableddau dysgu | | 0 | 4 | 31,100 | 31,100 | 15,600 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol** | | **0** | | **163,600** | **163,600** | **148,100** |
| **Cyfanswm cyfartalog** | | **3,678,600** | | **1,881,250** | **-1,797,350** | **-832,375** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cyfartalog gan gynnwys canol yr ystod** | | **3,678,600** | | **2,846,225** | **832,375** | **-964,975** |
| **Darparwyr gwasanaethau** | | | | | | |
| Anghytundebau | | 288,710 | 356 | 135,690 | -153,020 | -76,510 |
| Apelau | | 31,800 | | 14,600 | -12,000 | -6,000 |
| Anghytundebau – ehangu’r oedran i 25 | | 0 | | 5,300 | 2,650 | 2,650 |
| Apelau – ehangu’r oedran i 25 | | 0 | | 23,200 | 11,600 | 11,600 |
| **Cyfanswm y darparwyr** | | **320,510** | | **178,790** | **-150,770** | **-68,260** |

**Risgiau**

8.294 O dan opsiwn 2, bydd cynlluniau'r ysgol yn gynlluniau statudol. Mae yna risg y bydd hyn yn cynyddu'r disgwyliadau mewn ffordd nad yw'n realistig ac, o ganlyniad, y bydd yna gynnydd yn yr anghytundebau a'r costau cysylltiedig. Ni fu modd amcangyfrif y gost hon, ac felly nid yw’r gost yn hysbys.

8.295 Fodd bynnag, disgwylir i'r risg hon fod yn fach gan fod CDUau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion, a chanfuwyd bod y dull hwn, o gymharu â'r system bresennol, yn gwella profiad pobl o'r broses ac yn meithrin llawer mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y broses, yn benodol ymhlith rhieni a gofalwyr, sy'n cael eu cynnwys yn y broses benderfyniadau ac yn chwarae rôl ganolog ynddi (Holtom a Lloyd-Jones, 2014).

## Datrys anghydfodau

8.296 Fel y nodir uchod, mae'r data ariannol a gasglwyd gan Deloitte yn cyfeirio at 2011-12 i 2013-14. Defnyddiwyd y ffigurau hyn yn yr adran hon ynghylch datrys anghydfodau, lle mai dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae prisiau 2013-14 hefyd wedi'u nodi ar sail prisiau heddiw (2016-17) gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Yn ogystal, at ddibenion cymharu, nodwyd pob cost ar sail prisiau 2016-17.

### Opsiwn 1: gwneud dim

8.297 O dan opsiwn 1, byddai'r dull presennol o ddatrys anghydfod yn parhau.

8.298 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau mewn perthynas â phenderfyniadau am ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig. Yn fwy cyffredinol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau am ddarpariaeth addysgol arbennig rhwng ysgolion a phlant, eu rhieni a phobl ifanc.

8.299 Ar hyn o bryd, mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Mewn gwerthusiad diweddar o'r math hwn o gynllunio yng Nghymru, daeth Holtom a Jones (2014) i'r casgliad, er ei bod yn rhy gynnar i farnu a fyddai gostyngiad yn nifer ac amlder anghytundebau, fod yna dystiolaeth bod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, a'r broses o ran cynlluniau datblygu unigol wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiad teuluoedd o'r system. Roedd staff ysgolion, yn benodol, yn teimlo bod y broses fwy cydweithredol ac anffurfiol yn cynnig cyfle i feithrin ymddiriedaeth rhieni a gofalwyr, yn ogystal â'u hyder, gan leihau nifer ac amlder anghydfodau ac anghytundebau.

8.300 Felly, gallai'r costau sy'n deillio o wneud dim byd, fel y nodir isod, fod yn oramcangyfrif.

**Crynodeb o'r costau**

Tabl 52: Opsiwn 1 - crynodeb o'r costau i ddatrys anghydfodau

| | 2016-17[137] (£) |
|---|---|
| Gwasanaethau awdurdodau lleol i ddatrys anghydfodau - anghytundebau | 384,950 |
| Awdurdodau lleol – ymateb i anghytundebau | 1,633,100 |
| Gwasanaethau awdurdodau lleol i ddatrys anghydfodau - apelau | 5,300 |
| Awdurdodau lleol – ymateb i apelau[138] | 1,083,300 |
| **Cyfanswm awdurdodau lleol** | **3,106,650** |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)[139] | 152,000 |
| **Cyfanswm TAAAC** | **152,000** |
| **Cyfanswm gweinyddu cyhoeddus** | **3,258,650** |
| Darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod - anghytundebau[140] | 288,710 |
| Darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod - apelau[141] | 31,800 |
| **Darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod – cyfanswm** | **320,510** |
| Rhieni – anghytundebau[142] | 2,861,050 |
| Rhieni – apelau[143] | 817,550 |
| **Rhieni - cyfanswm** | **3,678,600** |
| **Cyfanswm** | **7,257,760** |

8.301 Mae Tabl 52 uchod yn rhoi crynodeb o’r costau sy’n gysylltiedig â datrys anghydfodau, fel y nodir yn Nhabl 6. Nid yw’r costau sy’n gysylltiedig â datrys anghydfodau wedi’u nodi ar wahân yn Nhabl 70 a Thabl 71 gan eu bod wedi’u cynnwys yn y costau sy’n gysylltiedig â chynlluniau datblygu unigol. Fel y mae Tabl 52 yn ei ddangos, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost sy’n ymwneud ag anghydfodau a’u datrys yw tua £7,257,760 y flwyddyn.

137 Newidiwyd prisiau 2013-14 i adlewyrchu prisiau 2016-17 gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC.
138 Gweler Tabl 19
139 Gweler paragraffau 8.145-8.150. Mae’r costau i TAAAC a nodir yn yr adran hon yn cyfeirio at gostau sy'n ymwneud â gwrandawiadau, gan gynnwys y llywydd, yr aelodau a'r costau ar gyfer lleoliad y gwrandawiad. Yn ogystal, maent yn cynnwys ad-dalu treuliau a hyfforddiant ar gyfer aelodau. Nid yw'r costau'n cynnwys costau gweinyddol.
140 Gweler Tabl 43
141 Gweler Tabl 19
142 Gweler Tabl 44
143 Gweler Tabl 15

8.302 Amcangyfrifir bod awdurdodau lleol yn gwario £3,106,650 y flwyddyn ar anghytundebau ac apelau. Mae hyn yn cynnwys costau o £2,018,050 er mwyn delio ag anghytundebau (£384,950 i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau a £1,633,100 o ganlyniad i ymateb i anghydfodau). Mae'r £1,088,600 sy'n weddill yn deillio o'r broses ymdrin ag apelau (£5,300 er mwyn darparu mynediad i wasanaethau datrys anghytundeb a £1,803,300 yn sgil ymateb i apelau) [144]. Amcangyfrifir costau o £320,510 i ddarparwyr mewn cymhorthdal i wasanaethau datrys anghydfod (£288,710 yn sgil anghytundebau a £31,800 yn sgil apelau).

8.303 Amcangyfrifir bod costau i TAAAC, sy'n gwrando ar apelau yn erbyn rhai penderfyniadau am ddatganiadau anghenion addysgol arbennig a wnaed gan awdurdodau lleol, o tua £152,000 y flwyddyn.

8.304 Mae costau hefyd i rieni o ganlyniad i anghytundebau neu apelau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ynghylch darpariaeth addysgol arbennig. Amcangyfrifir bod y gost flynyddol i rieni tua £3,678,600 (£2,861,050 yn sgil anghytundebau a £817,550 yn sgil apelau).

**Manteision**

8.305 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

---

[144] Gweler hefyd yr adran ar gynlluniau i roi cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, opsiwn 1.

**Opsiwn 2: ehangu cwmpas y trefniadau i ddatrys anghydfodau**

8.306 Mae opsiwn 2 yn wahanol i opsiwn 1 mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, caiff y trefniadau eu hehangu i gynnwys pob person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini mewn addysg bellach hyd at 25 mlwydd oed.

8.307 Yn ail, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi *a* datrys anghytundebau. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi *neu* ddatrys anghydfodau.

8.308 Ar y cyfan, ni ddisgwylir y bydd opsiwn 2 yn arwain at unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, TAAAC, darparwyr gwasanaethau neu ar gyfer rhieni. Yn hytrach, disgwylir arbed cyfanswm o £920,840 – arbediad o £156,690 i weinyddu cyhoeddus a £765,600 i rieni (gweler Tabl 54). Gan fod angen mwy o dystiolaeth i benderfynu a fydd yr arbedion posibl yn cael eu gwireddu, nid yw’r arbedion wedi’u cynnwys yn Nhablau 70 a 71. Yn hytrach, rhagdybiwyd y bydd y costau yn aros yr un peth ag opsiwn 1. Ni fu’n bosibl amcangyfrif yr arbedion posibl i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod mewn manylder, ac felly ni wyddom beth yn union yw’r arbedion hyn.

8.309 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Costau**

**Awdurdodau lleol**

**Gwasanaethau datrys anghytundebau**

8.310 Gallai fod rhai costau ychwanegol i awdurdodau lleol o ganlyniad i ehangu gwasanaethau datrys anghytundebau i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed sydd mewn addysg bellach.

8.311 A chymryd bod cyfran y bobl ifanc mewn addysg bellach sy'n anghytuno â phenderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol yr un peth â chyfran pobl ifanc sy'n anghytuno â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol am gynnwys eu datganiad, mae'n bosibl y gallai fod cost ychwanegol i awdurdodau lleol o tua

£760 y flwyddyn, a chost ychwanegol o £570 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod (gweler Tabl 54).

8.312 Fel y nodir yn yr adran ynghylch cynlluniau i roi cymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau i ddatrys, ar gyfartaledd, 356 o anghytundebau y flwyddyn ynghylch cynnwys datganiadau. Yn 2015-16, roedd gan 13,318 o bobl ifanc yng Nghymru ddatganiad. Hynny yw, roedd 2.7% o bobl ifanc â datganiad yn anghytuno â chynnwys y datganiad.

8.313 Mae 120 o bobl ifanc o dan 25 mlwydd oed mewn addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog[145]. A bwrw y bydd gan 50% o bobl ifanc mewn addysg bellach gynllun datblygu unigol gan yr awdurdod lleol, a bod 2.7% ohonynt yn anghytuno â chynnwys eu CDU, byddai tri o anghytundebau ychwanegol bob dwy flynedd yn cael cymorth oddi wrth wasanaethau awdurdodau lleol i ddatrys anghydfodau. Y gost gyfartalog ar gyfer anghytundeb, lle nad oes apêl i dribiwnlys yw £889[146]. Felly, amcangyfrifir mai cost ychwanegol datrys anghytundebau am gynnwys cynlluniau yw tua £1,330 y flwyddyn. O hwnnw, mae cost o £760 i awdurdodau lleol a £570 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod (gweler Tabl 54).

8.314 Mae risg hefyd, fel y nodir yn yr adran ar gynlluniau i roi cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y gallai estyn yr hawl i apelio i TAAAC i gynnwys pobl ifanc mewn addysg bellach hyd at 25 mlwydd oed, arwain at apelau ychwanegol i TAAAC. A bwrw bod canran y bobl ifanc mewn addysg bellach sy'n apelio yn erbyn cynnwys eu cynllun yr un peth â chanran pobl ifanc mewn ysgolion sy'n cwyno am gynnwys eu cynllun, disgwylir y bydd un person ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog mewn addysg bellach yn apelio i

[145] Wrth ysgrifennu, dyma'r data diweddaraf sydd ar gael. Gweler: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender
Yn ogystal, mae 8,940 o bobl ifanc o dan 25 mlwydd oed sydd mewn addysg bellach. Nid yw canran pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu y byddai ganddynt gynlluniau a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn hysbys, gan nad yw difrifoldeb yr anawsterau a/neu anableddau dysgu yn hysbys.
[146] Prisiau 2016-17.

TAAAC am gynnwys ei gynllun bob pedair blynedd[147]. Y gost gyfartalog i awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau datrys anghytundeb i roi cymorth i bobl ifanc a'u rhieni i apelio i TAAAC yw tua £4,125. Felly, amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol i wasanaethau datrys anghydfod yw tua £1,030 y flwyddyn. O hwnnw, mae cost o ryw £150 y flwyddyn i awdurdodau lleol a thua £880 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod (gweler Tabl 54).

**Osgoi anghytundebau**

8.315 Disgwylir y bydd trefniadau sydd wedi'u cynllunio i osgoi anghytundebau yn arwain at arbedion o ran costau i awdurdodau lleol.

8.316 Nid yw'n bosibl pennu'r gwir gost i awdurdodau lleol yn sgil sefydlu arferion i osgoi anghytundebau, gan nad yw'r arferion wedi'u rhagnodi yn y Bil[148].

8.317 Fodd bynnag, mae'n bosibl cyflwyno enghraifft esboniadol drwy gyfeirio at yr arferion a sefydlwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ers 2012-13, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflogi gweithiwr cymorth i deuluoedd o ran ADY sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth i blant, pobl ifanc a rhieni sy'n mynd drwy broses y datganiad. Nod y rôl yw gwella cyfathrebu â theuluoedd, drwy esbonio proses y datganiad a'r penderfyniadau, er mwyn lleihau gwrthdaro ac anghytundebau[149].

8.318 Y gost flynyddol ar gyfer y gweithiwr cymorth i deuluoedd yw tua £43,600 (gan gynnwys argostau)[150]. Yn ogystal â chostau staffio, amcangyfrifir bod cost o £1,100 y flwyddyn ar gyfer costau teithio[151]. Pe bai pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mabwysiadu'r un dull, amcangyfrifir y byddai'r gost ychwanegol tua

---

[147] Byddai 120 o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn apelio ar gyfradd o 0.46% yn arwain at 0.56 o apelau bob blwyddyn neu 0.26 o apelau am gynnwys.
[148] Disgwylir y bydd y cod anghenion dysgu ychwanegol newydd yn nodi'r diben a'r egwyddorion sy'n sail i arferion a ddilynir er mwyn osgoi anghytundebau. Ni ddisgwylir y bydd y cod yn fanwl o ran yr arferion y dylai awdurdodau lleol eu sefydlu.
[149] http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140626-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal-en.pdf
[150] Cyflog o £32,524 y flwyddyn, yn ogystal ag argostau ar sail prisiau 2013-14. Mae hyn yn cyfateb i £43,641 ar sail prisiau 2016-17.
[151] Costau petrol. Yn seiliedig ar y grant a hawliwyd yn Sir Gaerfyrddin, sef £527 ar gyfer cyfnod o 6 mis o fis Hydref 2012 i fis Mawrth 2013.

£915,600 o ran costau staffio a £23,100[152] o ran costau teithio. Hynny yw, amcangyfrifir y byddai'r gost ychwanegol yn £938,700 y flwyddyn.

8.319 Yn 2015-16, Sir Gaerfyrddin oedd â’r boblogaeth disgyblion anghenion addysgol arbennig bedwaredd fwyaf yng Nghymru[153]. Felly, byddai'r amcangyfrif hwn ar ben uchaf y raddfa, gan na fyddai angen i rai awdurdodau lleol gyflogi gweithiwr cymorth i deuluoedd ar sail amser llawn.

8.320 Er y bydd cost i gyflwyno dulliau i osgoi anghytundebau, disgwylir y bydd y manteision yn fwy na'r gost.

8.321 Mae'r data ynghylch nifer yr apelau yn Sir Gaerfyrddin, er nad ydynt yn dystiolaeth bendant, yn awgrymu bod y rôl yn cael effaith ar leihau nifer yr apelau a wneir i TAAAC.

8.322 Cyn i'r gweithiwr cymorth i deuluoedd gael ei benodi, roedd tua 10 apêl ar gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin bob blwyddyn[154] (gweler 53 a Ffigur 1 isod). Ers penodi'r gweithiwr cymorth i deuluoedd, mae 1.5 o apelau y flwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu gwneud yn Sir Gaerfyrddin[155]. Hynny yw, bu gostyngiad o tua 8.5 o apelau y flwyddyn i TAAAC yn Sir Gaerfyrddin.

8.323 Mae perygl bod y gostyngiad hwn yn oramcangyfrif gan fod cynnydd yn nifer yr achosion dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2007-08 a 2010-11, pan wnaed cyfanswm o 62 o apelau[156], sef 15.5 o apelau y flwyddyn ar gyfartaledd i TAAAC.

---

[152] Gan fod Sir Gaerfyrddin eisoes yn cyflogi gweithiwr cymorth dysgu o ran ADY, mae'r amcangyfrif ar gyfer y gost ychwanegol yn seiliedig ar y 21 o awdurdodau lleol sy'n weddill.
[153] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision
[154] Yn ystod y cyfnod o ddeg mlynedd rhwng 2002-03 a 2011-12, cafodd 98 o apelau eu gwneud yn Sir Gaerfyrddin. Gweler tabl 53.
[155] Yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2012-13 a 2015-16, roedd cyfanswm o chwe apêl yn Sir Gaerfyrddin – dwy yn 2012-13, dim un yn 2013-14, un yn 2014-15 a thair yn 2015-16. Gweler tabl 53.
[156] Roedd y cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r cynlluniau peilot i ddiwygio ADY, a'r ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith rhieni y byddai datganiadau yn cael eu disodli gan gynlluniau datblygu unigol.

Os ydym yn diystyru'r blynyddoedd 2007-08 i 2010-11, mae chwe apêl y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n awgrymu gostyngiad o 4.5 o apelau y flwyddyn[157].

8.324 Amcangyfrifir bod pob apêl i TAAAC yn costio £10,917 i Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae tua £600 o'r ffigur hwnnw ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfodau a ariennir gan awdurdodau lleol[158] ac mae £10,317[159] ar gyfer costau amddiffyniad yr awdurdod lleol. Felly, amcangyfrifir bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lleihau cost apelau tua £49,100 y flwyddyn ar gyfartaledd. O dynnu cost y gweithiwr cymorth teulu o'r darlun, yr arbediad net yw tua £4,400. Pe bai'r arbediad hwn yn cael ei ddyblygu ledled Cymru, amcangyfrifir y byddai awdurdodau lleol yn arbed £96,800. Yn ogystal, amcangyfrifir bod darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn rhoi cymhorthdal o £3,525 am bob achos a gefnogir i TAAAC. Gan mai dim ond tua 9% o achosion a gefnogir gan y darparwyr (cyfartaledd o ryw 9 achos o'r nifer cyfartalog o 95 o achosion apêl), mae'n anodd nodi'r union arbedion posibl i ddarparwyr gwasanaethau. Nid yw'r arbediad posibl yn hysbys felly.

---

[157] Wrth gyfrifo'r gostyngiadau posibl yn nifer yr apelau y gellir eu sicrhau yn sgil cyflwyno arferion i osgoi anghytundebau, gwnaed hyn yn annibynnol ar gynigion eraill sy'n ceisio lleihau gwrthdaro o fewn y system bresennol. Ni addaswyd y gostyngiad yn nifer yr apelau, felly, i ystyried y newidiadau arfaethedig i gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol. Hynny yw, ni chafwyd gwared ar apelau sy'n ymwneud â pheidio â chael datganiad. Os cyflwynir y ddarpariaeth i gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol a gweithwyr cymorth ADY ledled Cymru, mae nifer yr apelau a gaiff eu hosgoi yn sgil cyflwyno'r gweithwyr cymorth i deuluoedd â phlentyn ag ADY yn debygol o fod yn llai na'r gostyngiad o 4.5 y flwyddyn, sef y nifer a amcangyfrifir, gan y bydd rhai o'r rhain wedi'u hosgoi drwy gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol. Nid yw hyn yn effeithio ar y costau a'r manteision cyffredinol a amcangyfrifir yn sgil cyflwyno darpariaethau'r bil, gan fod yr arbedion posibl o ganlyniad i gyflwyno gweithwyr cymorth i deuluoedd â phlentyn ag ADY wedi'u nodi at ddibenion enghreifftiol yn unig a heb eu cynnwys yn y tablau sy'n crynhoi cyfanswm costau a manteision darpariaethau'r bil.


[158] Ffynhonnell: SNAP Cymru. Ar sail y gost gyfartalog rhwng Hydref 2014 ac Ebrill 2016.

[159] 10,000 wedi'i addasu i adlewyrchu prisiau 2016-17.

Tabl 53: apelau i TAAAC yn Sir Gaerfyrddin a Thorfaen

| | Apelau a gofrestrwyd - Sir Gaerfyrddin | Apelau a gofrestrwyd - Torfaen | Apelau a gofrestrwyd - Cymru |
|---|---|---|---|
| 2002/03 | 8 | 8 | 139 |
| 2003/04 | 5 | 3 | 117 |
| 2004/05 | 6 | 4 | 127 |
| 2005/06 | 5 | 1 | 150 |
| 2006/07 | 5 | 4 | 118 |
| 2007/08 | 19 | 9 | 94 |
| 2008/09 | 17 | 5 | 92 |
| 2009/10 | 13 | 4 | 106 |
| 2010/11 | 13 | 8 | 112 |
| 2011/12 | 7 | 2 | 86 |
| 2012/13 | 2 | 0 | 73 |
| 2013/14 | 0 | 4 | 78 |
| 2014/15 | 1 | 6 | 101 |
| 2015/16 | 3 | 4 | 105 |

Ffigur 1: apelau i TAAAC 2003-04 i 2015-16




8.325 Nid oes ymchwil wedi cael ei gwneud i benderfynu a oes cysylltiad rhwng penodi'r gweithiwr cymorth i deuluoedd a'r gostyngiad yn nifer yr apelau i TAAAC yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n bosibl, fodd bynnag, ystyried effaith y gweithiwr cymorth i deuluoedd drwy gymharu tueddiadau ledled Cymru.

8.326 Wrth gymharu'r cyfnod 2002-03 i 2006-07 yn erbyn y cyfnod 2012-13 i 2015-16, mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad o 4.5 o apelau y flwyddyn ar gyfartaledd o'i chymharu â Chymru gyfan, sydd wedi gweld gostyngiad o tua dwy

apêl y flwyddyn. Felly, er bod gostyngiad yn nifer yr apelau ar draws Cymru yn gyffredinol, mae'r gostyngiad wedi bod yn llawer mwy yn Sir Gaerfyrddin.


8.327 Mae hefyd yn bosibl cymharu'r cyfnod 2002-03 i 2006-07 yn erbyn y cyfnod 2012-13 i 2015-16, o ran nifer yr apelau fel cyfran o'r boblogaeth ysgol (gweler Ffigur 2 isod). Yn ystod y cyfnod 2002-03 i 2006-07, roedd dwy apêl ar gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol, o gymharu â 0.5 o apelau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol yn ystod y cyfnod 2012-13 i 2015-16. Hynny yw, gwelodd Sir Gaerfyrddin ostyngiad o 1.5 o apelau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â gostyngiad o un apêl am bob 10,000 ar draws Cymru.

8.328 Mae'n bosibl y gallai'r gostyngiad yn nifer yr apelau yn Sir Gaerfyrddin fod wedi digwydd o ganlyniad i gyflwyno'r broses cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion fel rhan o'r cynllun peilot ADY, yn hytrach nag yn sgil penodi'r gweithiwr cymorth. Er mwyn ystyried hyn, mae'n bosibl cymharu'r gostyngiad mewn apelau yn Sir Gaerfyrddin ag unrhyw ostyngiad mewn apelau yn Nhorfaen, a oedd hefyd yn ymwneud â'r cynllun peilot ADY[160] yn ogystal â chyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, ond ni chyflwynwyd rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd yn Nhorfaen.

8.329 Wrth gymharu'r cyfnod 2002-03 i 2006-07 yn erbyn y cyfnod 2012-13 i 2014-15, roedd gostyngiad o 0.5 o apelau y flwyddyn ar gyfartaledd yn Nhorfaen o'i gymharu â Sir Gaerfyrddin, lle y gwelwyd gostyngiad o 4.5 o apelau y flwyddyn ar gyfartaledd.

[160] Roedd Sir Gaerfyrddin a Thorfaen yn ffurfio cynllun peilot B, a sefydlwyd i ddatblygu a threialu model rhyngddisgyblaethol er mwyn nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth. Y cyfnod datblygu oedd 2009 i 2011, a dilynwyd hyn gan y cynllun peilot yn ystod 2012. Felly, byddai cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth a/neu ddifrifol wedi cael ei roi ar waith erbyn 2012-13 yn Sir Gaerfyrddin, pan gyflwynwyd rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd. Mae Torfaen yn gweithredu fel cymharydd, gan fod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi cael ei gyflwyno ar yr un pryd, ond ni chyflwynwyd rôl y gweithiwr cymorth.

Ffigur 2: apelau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol 2003-04 i 2015-16




8.330 Mae casgliad tebyg yn dod i’r amlwg wrth gymharu nifer yr apelau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol yn Sir Gaerfyrddin ac yn Nhorfaen. Fel y nodir uchod, gwelwyd gostyngiad o 1.5 o apelau yn Sir Gaerfyrddin rhwng y cyfnod 2002-03 i 2006-07 a 2012-13 i 2014-15. Yn ystod yr un cyfnod, ni welwyd gostyngiad yn nifer yr apelau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol yn Nhorfaen. Felly, gallwn gasglu bod rôl y gweithiwr cymorth, yn hytrach na chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, wedi cael effaith i leihau nifer yr apelau yn Sir Gaerfyrddin.

8.331 Er bod angen gwneud ymchwil i gadarnhau'r casgliad hwn, nid yw'n syndod gan fod rôl y gweithiwr cymorth wedi'i chyflwyno i ganolbwyntio ar broses y datganiad, tra bwriedir i gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion weithio ar gyfer pob person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, fel ffordd o ymgysylltu â phlant, rhieni a phobl ifanc yn y broses benderfynu. Byddai disgwyl, felly, i'r gweithiwr cymorth i deuluoedd gael mwy o effaith ar anghytundebau ar lefel apêl, ac y byddai cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael mwy o effaith ar osgoi anghytundebau yn fwy cyffredinol.

8.332 Yn ogystal ag osgoi apelau, disgwylir y bydd awdurdodau lleol hefyd yn osgoi anghytundebau. Nid yw’n hysbys pa gyfran o anghytundebau a gaiff eu hosgoi unwaith y bydd dulliau osgoi anghytundebau wedi cael eu rhoi ar waith. Ni fu’n

bosibl, felly, gyfrifo'n ariannol y manteision cost posibl a fyddai'n deillio o roi'r dulliau hyn ar waith. Felly, nid yw’r arbedion hyn yn hysbys.

**Manteision**

8.333 Fel y nodir yn Tabl 54 isod, gallai opsiwn 2 leihau costau i awdurdodau lleol a TAAAC tua £156,690 y flwyddyn.

Tabl 54: crynodeb o amcangyfrif y costau a'r manteision posibl, opsiwn 2

| | Arbedion a chostau (£) |
|---|---|
| Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol – anghytundebau (cynyddu’r ystod oed hyd at 25 mlwydd oed) | 760 |
| Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol – apelau (cynyddu’r ystod oed hyd at 25 mlwydd oed) | 150 |
| Arbedion net o ran apelau ledled Cymru o ganlyniad i weithwyr cymorth i deuluoedd o ran ADY | -96,800 |
| **Cyfanswm** | **-95,890** |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | -60,800 |
| **Cyfanswm TAAAC** | **-60,800** |
| **Cyfanswm gweinyddu cyhoeddus** | **-156,690** |
| Darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod – anghytundebau (cynyddu’r ystod oed hyd at 25 mlwydd oed) | 570 |
| Darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod – apelau (cynyddu’r ystod oed hyd at 25 mlwydd oed) | 880 |
| **Cyfanswm y darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod** | **1,450** |
| Rhieni | -765,600 |
| **Cyfanswm y rhieni** | **-765,600** |
| **Cyfanswm yr arbedion** | **-920,840** |

8.334 Amcangyfrifir y gallai rhieni arbed £765,600, pe bai'r gostyngiad yn nifer yr apelau a gyflawnwyd yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddyblygu ledled Cymru (gweler paragraff 8.345 isod). Yn ogystal, disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod weld gostyngiad cyffredinol yn eu costau gan y byddai disgwyl i nifer yr anghytundebau a’r anghydfodau a gefnogir i TAAAC ostwng. Gan mai dim ond tua 9% o achosion o’r fath a gefnogir gan y darparwyr ar hyn o bryd (cyfartaledd o ryw

9 achos o’r nifer cyfartalog o 95 o achosion apêl), mae’n anodd amcangyfrif yr union arbedion posibl i ddarparwyr gwasanaethau. Nid yw’r arbediad posibl yn hysbys felly.

**Awdurdodau lleol**

8.335 Bydd rhai costau rheolaidd i awdurdodau lleol o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau datrys anghytundebau a gwasanaethau datrys anghytundebau ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed. Amcangyfrifir y bydd hyn tua £910 y flwyddyn. Yn ogystal, disgwylir costau o £1,450 i ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfod yn sgil cymhorthdal i wasanaethau datrys anghydfod i bobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed.

8.336 Dylai'r gost hon gael ei gwrthbwyso gan arbedion posibl drwy opsiwn 2. Fel y nodir uchod, mae tystiolaeth galonogol oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n awgrymu y gallai cyflwyno dulliau i osgoi anghytundebau arwain at arbedion posibl i awdurdodau lleol o £96,800 y flwyddyn.

8.337 Gan nad yw’n hysbys pa ddulliau y bydd awdurdodau lleol yn eu mabwysiadu, nid yw'n bosibl datgan gydag unrhyw sicrwydd y bydd yr arbedion hyn yn cael eu gwireddu. Tybir, fodd bynnag, y bydd awdurdodau lleol a darparwyr yn elwa o leiaf i'r graddau na fydd costau net iddynt wrth gyflwyno dulliau i osgoi anghytundebau.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**

**Costau**

8.338 Ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i TAAAC o ganlyniad i roi opsiwn 2 ar waith.

**Manteision**

8.339 Gan nad yw’n hysbys pa ddulliau y bydd awdurdodau lleol yn eu mabwysiadu wrth roi arferion i osgoi anghytundebau ar waith, nid yw'n bosibl nodi gydag unrhyw sicrwydd y manteision posibl i TAAAC.

8.340 Fodd bynnag, gellir dangos yr arbedion posibl i TAAAC ar sail amcangyfrif o'r gostyngiad ar gyfartaledd yn nifer yr apelau i TAAAC ers i'r gweithiwr cymorth i deuluoedd gael ei benodi yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

8.341 Rhwng 2012-13 a 2015-16, roedd y gost ar gyfartaledd i TAAAC yn £1,600 ar gyfer pob apêl. Byddai'r gostyngiad a welwyd yn Sir Gaerfyrddin, sef 4.5 o achosion y flwyddyn ar gyfartaledd, wedi arwain at arbedion i TAAAC o tua £7,200 y flwyddyn rhwng 2012-13 a 2015-16 – cyfanswm yr arbedion a amcangyfrifir yw £28,800.

8.342 Os bydd y gostyngiad hwn yn nifer yr apelau yn cael ei ddyblygu ledled Cymru, gallai hynny olygu gostyngiad o 42% yn nifer yr apelau i TAAAC. Mae'r lleihad yn nifer yr apelau yn Sir Gaerfyrddin o 6 i 1.5 rhwng 2002-03 i 2006-07 a 2012-13 i 2015-16 yn cynrychioli gostyngiad o 75%. Roedd y gostyngiad ar draws Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn 32%. Felly, mae'r gwahaniaeth yn cyfateb i ostyngiad o 43%. Mae'n bosibl, felly, pe bai'r gostyngiad yn cael ei ddyblygu ledled Cymru, gallem weld lleihad yn nifer yr apelau ar gyfartaledd o 89 y flwyddyn i 51 y flwyddyn, sef 38 yn llai o achosion y flwyddyn. Ar sail cost gyfartalog o £1,600 ar gyfer pob apêl, mae'n bosibl y gallai TAAAC arbed £60,800 y flwyddyn.

8.343 Mae angen gwneud ymchwil bellach i benderfynu a oes cysylltiad rhwng cyflwyno'r gweithiwr cymorth a'r gostyngiad yn nifer yr apelau a welwyd yn Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, nid yw’n hysbys a fydd pob awdurdod lleol yn mabwysiadu'r un arfer â Sir Gaerfyrddin er mwyn rhoi opsiwn 2 ar waith. O ganlyniad, nid yw'n bosibl amcangyfrif gydag unrhyw sicrwydd a fydd unrhyw arbedion cost posibl i TAAAC o ganlyniad i opsiwn 2. Felly, arbedion posibl yw'r arbedion a nodir yn Tabl 54. Fodd bynnag, nid yw'r arbedion hyn wedi cael eu cynnwys yn Nhabl 70 a Thabl 71 sy'n nodi'r costau a'r arbedion cyffredinol ar gyfer yr opsiynau a ffefrir.

**Plant, pobl ifanc a rhieni**

8.344 Bydd plant a phobl ifanc yn elwa lle y bydd anghytundebau'n cael eu hosgoi ac os na fydd eu sylw'n cael ei dynnu oddi ar eu hastudiaethau gan ansicrwydd.

8.345 Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod costau cyfartalog i rieni o £7,738[161] wrth wneud apêl i TAAAC. Byddai gostyngiad o 4.5 o apelau y flwyddyn, felly, wedi arwain at arbedion i rieni yn Sir Gaerfyrddin o tua £34,800 y flwyddyn. Pe bai'r ffigur hwn yn cael ei ddyblygu ledled Cymru, byddai rhieni yn arbed tua £765,600.

8.346 Yn ogystal, mae costau cyfartalog o £3,817 i rieni ar hyn o bryd[162] wrth anghytuno â phenderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol. Gan nad yw'n hysbys pa gyfran o anghytundebau a gaiff eu hosgoi o dan opsiwn 2, nid yw'n bosibl nodi'r manteision o ran cost ar gyfer rhieni.

8.347 Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch a yw'r gostyngiad yn nifer yr apelau yn deillio o gyflwyno'r gweithwyr cymorth i deuluoedd o ran ADY, darperir yr arbedion posibl ar gyfer rhieni at ddibenion enghreifftiol. Nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn Nhabl 70 a Thabl 71, sy'n amlinellu crynodeb o'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r opsiynau a ffefrir.

**Risgiau**

8.348 Mae'n bosibl y gallai'r gofyniad clir i sefydlu trefniadau ar gyfer osgoi yn ogystal â datrys anghydfodau gynyddu'r costau. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, lle nad yw'r trefniadau osgoi a datrys yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol ac, o ganlyniad, bydd costau'n cynyddu, yn hytrach na'n bod yn gweld yr arbedion disgwyliedig. Er mwyn cefnogi'r broses o roi trefniadau osgoi a datrys anghytundebau ar waith mewn modd effeithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn annog rhannu arferion da ar draws awdurdodau lleol. Yn ogystal, bydd casgliadau ac argymhellion yn sgil y broses fonitro a gwerthuso ar ôl rhoi'r trefniadau ar waith yn cael eu rhannu ag awdurdodau lleol i annog gweithredu'r trefniadau yn effeithiol.

[161] Ar sail cost 2013-14 o £7,500, wedi'i haddasu i adlewyrchu prisiau 2016-17.
[162] Ar sail cost 2013-14 o £3,700, wedi'i haddasu i adlewyrchu prisiau 2016-17.

## Cyfrifoldeb am sicrhau a chyllido darpariaeth addysg bellach arbenigol

8.349 Fel y nodir uchod, mae'r data ariannol a gasglwyd gan Deloitte yn cyfeirio at 2011-12 i 2013-14. Defnyddiwyd y ffigurau hyn yn yr adran hon ar sicrhau a chyllido darpariaeth addysg bellach lle mai dyna'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae prisiau 2013-14 hefyd wedi'u hamlinellu ar sail prisiau heddiw (2016-17) gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Yn ogystal, at ddibenion cymharu, mae'r costau i gyd wedi'u nodi ar sail prisiau 2016-17.

## Opsiwn 1: gwneud dim

8.350 O dan opsiwn 1, byddai'r cyfrifoldebau presennol o ran sicrhau a chyllido addysg ôl-16 arbenigol yn parhau.

8.351 Nid oes goblygiadau o ran cost ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Costau**

**Gyrfa Cymru**

8.352 Mae cyllido lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn dechrau drwy gynnal asesiad o dan adran 140 o Ddeddf 2000. Caiff asesiadau adran 140 (a140), sy'n arwain at ddatblygu Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gyfer y person ifanc, eu cynnal ar ran Gweinidogion Cymru gan Gyrfa Cymru.

8.353 Fel y mae Tabl 55 isod yn ei ddangos, yn 2013-14 cynhaliodd Gyrfa Cymru 1,103 o asesiadau a140 ar gost o £343,800[163] a chwblhaodd 119 o geisiadau am gyllid i fynd i goleg arbenigol annibynnol ar gost o £129,800 (gweler hefyd Dabl 38 uchod). A chymryd bod y lefel hon o weithgarwch yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, amcangyfrifir y bydd cost cynnal asesiad a140 a'r ceisiadau yn dod i gyfanswm o £488,600 y flwyddyn (ar sail prisiau 2016-17)[164].

[163] Nid yw'r gost hon wedi'i chynnwys yn y tablau cryno gan ei bod wedi'i chynnwys yn yr adran ar gynlluniau i gefnogi pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

[164] Addaswyd prisiau 2013-14 i adlewyrchu prisiau 2016-17 gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Ar sail yr un nifer o geisiadau yn 2016-17 ag yn 2013-14.

Tabl 55: cost ceisiadau am gyllid i Gyrfa Cymru

| | 2013-14 | Y gost flynyddol reolaidd |
|---|---|---|
| | | - |
| Nifer y ceisiadau am gyllid i fynd i goleg arbenigol annibynnol | 119 | - |
| | | |
| Amcangyfrif o'r gwariant ar gwblhau ceisiadau am gyllid (£) | 129,800 | 133,900 |
| **Cyfanswm y gwariant (£)** | **129,800** | **133,900** |

**Llywodraeth Cymru**

8.354 Yn 2015-16, daeth y gost o gyllido lleoliadau i bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn colegau arbenigol annibynnol i £12,054,251 i Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir cost o £12,244,983 i Lywodraeth Cymru yn 2016-17 (gweler Tabl 56 isod).

8.355 Yn ogystal, gwariodd Llywodraeth Cymru £195,720 ar gyflogau[165] swyddogion a fu'n asesu ceisiadau am gyllid i bobl ifanc dros 16 oed[166]. Amcangyfrifir cost o £12,440,703 i Lywodraeth Cymru yn 2016-17, felly.

**Byrddau iechyd**

8.356 Mae Tabl 56 isod yn dangos amcangyfrif o'r costau rheolaidd i fyrddau iechyd lleol yn sgil cyllido lleoliadau colegau arbenigol annibynnol, sef £903,893. Ni ddisgwylir i'r gost hon newid o dan opsiwn 2.

[165] Canol ystodau cyflog 2016-17, gan gynnwys argostau. Swyddogion gweithredol £32,424; Swyddogion gweithredol uwch (HEO) £43,200 ac Uwch-swyddogion gweithredol (SEO) £55,248.

[166] Mae'r tîm ceisiadau cyllid ôl-16 yn cynnwys un uwch-swyddog gweithredol (SEO), un swyddog gweithredol uwch (HEO) a thri swyddog gweithredol. Defnyddiwyd man canol graddfeydd cyflog y swyddi ac eithrio yn achos y swyddogion gweithredol, lle defnyddiwyd cyfartaledd yr holl raddfeydd cyflog. Ychwanegwyd argost o 30% at y cyflogau.

Tabl 56: cost flynyddol lleoliadau colegau arbenigol annibynnol yn ôl corff cyllido

| | 2015/16 | Y gost flynyddol reolaidd[167] |
|---|---|---|
| Nifer y dysgwyr | 298[168] | - |
| Cyfanswm cost y lleoliadau (£) | 18,577,467 | 18,871,415 |
| Llywodraeth Cymru (£) | 12,054,251 | 12,244,983 |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (£) | 5,633,402 | 5,722,538 |
| Byrddau iechyd (£) | 889,813 | 903,893 |
| Cyfartaledd cost y lleoliadau (£) | 62,264 | 63,249 |
| Ystod y costau – isel (£) | 7,136 | 7,249 |
| Ystod y costau – uchel (£) | 196,333 | 199,440 |

**Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol**

8.357 Mae Tabl 56 uchod yn dangos amcangyfrif o'r costau rheolaidd i wasanaethau cymdeithasol yn sgil lleoliadau colegau arbenigol annibynnol, sef £5,722,538. Ni ddisgwylir i'r costau hyn newid o dan opsiwn 2.

**Estyn**

8.358 Hyd at fis Medi 2016, roedd chwe coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yr oedd Estyn yn eu harolygu a'u monitro mewn cylch chwe mlynedd. Roedd y colegau'n cael eu monitro bob blwyddyn yn gyffredinol, ac eithrio blwyddyn yr arolygiad[169]. Fel rhan o'r arolygiadau a'r ymweliadau monitro, mae'r arolygwyr yn gwerthuso:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant
- y safonau a gyrhaeddir gan y rheini sy'n derbyn yr addysg a'r hyfforddiant hwnnw; ac

[167] Addaswyd prisiau 2015-16 i adlewyrchu prisiau 2016-17 gan ddefnyddio'r datchwyddydd CMC. Ar sail yr un nifer o ddysgwyr ag anghenion tebyg ag yn 2015-16.
[168] Total learners in ISCs at various stages of study.
[169] O fis Medi 2016, cyflwynwyd cylch arolygu saith mlynedd. Yn ogystal, agorwyd seithfed coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru ym mis Medi 2016. I gael rhagor o wybodaeth am arolygu colegau arbenigol annibynnol, gweler: https://www.estyn.gov.wales/document/guidance-inspection-independent-specialist-colleges.

- a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheini sy'n darparu'r addysg a'r hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

8.359 Ar gyfartaledd mae Estyn yn treulio 16.5 diwrnod yn arolygu coleg annibynnol ar gost o ryw £14,500. Amcangyfrifir bod y broses fonitro yn cymryd 6.5 diwrnod ym mhob coleg arbenigol annibynnol ar gost o ryw £5,700 fesul coleg arbenigol annibynnol.

8.360 Caiff pob coleg arbenigol annibynnol ei arolygu bob chwe mlynedd, ac felly ar gyfartaledd byddai un coleg yn cael ei arolygu bob blwyddyn. Amcangyfrifir cost flynyddol o £14,500 ar gyfer y gwaith o arolygu colegau arbenigol annibynnol felly. Yn ogystal, byddai Estyn yn monitro chwe choleg arbenigol annibynnol bob blwyddyn ar gost flynyddol o ryw £34,200.

8.361 Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol gyfartalog o arolygu a monitro'r chwe choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yw tua £48,700[170].

Tabl 57: cost flynyddol arolygiadau ac ymweliadau monitro colegau arbenigol annibynnol i Estyn

| | Y gost bob blwyddyn (£) |
|---|---|
| Arolygu | 14,500 |
| Monitro | 34,200 |
| **Cyfanswm** | **48,700** |

8.362 Mae Tabl 58 isod yn darparu crynodeb o'r costau presennol yn ôl gweithgarwch ac asiantaeth. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y system bresennol yw £19,249,734 y flwyddyn. Gellir rhannu hyn yn £19,201,034 ar gyfer sicrhau darpariaeth a £48,700 ar gyfer monitro ac arolygu colegau arbenigol annibynnol. Dyma’r amcangyfrif gorau o'r gost flynyddol reolaidd ar gyfer yr opsiwn o wneud dim.

[170] Wrth ysgrifennu, roedd seithfed coleg arbenigol annibynnol Cymru i fod i ddechrau cymryd myfyrwyr o fis Medi 2016.

Tabl 58: crynodeb o gost flynyddol sicrhau ac arolygu darpariaeth arbenigol

| | **Sicrhau darpariaeth** | **Arolygu a monitro colegau arbenigol annibynnol** |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (gweinyddu) | 195,720 | - |
| Llywodraeth Cymru (darpariaeth) | 12,244,983 | - |
| Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (darpariaeth) | 5,722,538 | - |
| Byrddau iechyd (darpariaeth) | 903,893 | - |
| Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol | - | - |
| Gyrfa Cymru[171] | 133,900 | - |
| Estyn | - | 48,700 |
| **Cyfanswm**[172] | **19,201,034** | **48,700** |

**Manteision**

8.363 Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

8.364 O dan y trefniadau presennol, pan fydd dysgwyr yn symud o'r ysgol i addysg bellach, maent yn symud o ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig i ddeddfwriaeth anawsterau a/neu anableddau dysgu. O dan y system newydd, yr un ddeddfwriaeth fydd yn berthnasol i bob dysgwr drwy gydol yr ysgol ac addysg bellach.

8.365 Mae'r ffaith nad un cynllun sydd gan bobl ifanc o'r ysgol i addysg bellach yn golygu nad yw'r wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo o reidrwydd gyda'r person ifanc wrth symud o'r naill i'r llall.

8.366 O dan y trefniadau presennol, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu anghenion ac am sicrhau darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 oed (neu 19 oed lle mae'r person ifanc mewn ysgol arbennig). O

[171] Nid yw'r costau o £354,700 sy'n deillio o asesu anghenion pobl ifanc a datblygu'r Cynlluniau Dysgu a Sgiliau wedi'u cynnwys gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr adran ar y cynlluniau i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Byddai eu cynnwys yma, felly, yn golygu ein bod yn eu cyfrif ddwywaith.

[172] Mae'r system hon yn seiliedig ar anghenion. Mae'r costau, felly, yn mynd i fyny neu i lawr bob blwyddyn yn dibynnu ar nifer ac anghenion y dysgwyr sy'n dod drwy'r system y flwyddyn honno.

hynny ymlaen, cyfrifoldeb Gyrfa Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, yw asesu anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr sy'n mynd i addysg bellach.

8.367 Mae'n bosibl i'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol wedi'i chasglu am y dysgwr yn ystod ei yrfa ysgol gael ei cholli yn ystod y cyfnod pontio. Yn wahanol i awdurdodau lleol, nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas gyda'r person ifanc, ac felly mae'r wybodaeth sydd ganddynt i seilio penderfyniadau arni yn gyfyngedig.

8.368 Hefyd, mae'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r person ifanc a'i rieni yn dod i ben ac mae'n rhaid i'r rhieni ddatblygu perthynas newydd gyda Llywodraeth Cymru. Gall hyn fod yn rhwystredig i bobl ifanc a'u rhieni.

**Opsiwn 2: pennu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY**

8.369 O dan opsiwn 2, lle mae gan ddysgwyr Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol, byddai'r cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth ôl-16, gan gynnwys darpariaeth arbenigol, yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol.

8.370 Yn ogystal, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi rhestr o ddarparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol. Lle nad yw darparwyr yn cytuno â phenderfyniadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhestr, ee lle gwrthodir rhestru sefydliad, bydd darparwyr arbenigol yn gallu apelio i dribiwnlys.

8.371 Ni fyddai awdurdodau lleol yn gallu rhoi person ifanc mewn darpariaeth ôl-16 arbenigol annibynnol nad oedd ar y rhestr o golegau arbenigol annibynnol a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

8.372 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a darparwyr ôl-16 i nodi'r ddarpariaeth y mae ei hangen i fodloni anghenion y dysgwr, ac i sicrhau ei bod ar gael.

8.373 Disgwylir i opsiwn 2 arwain at gostau pontio o £9,520 (gweler Tabl 59 isod) a mantais o £133,580 bob blwyddyn.

8.374 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Costau**

**Gyrfa Cymru**

8.375 O dan opsiwn 2, ni fydd Gyrfa Cymru yn gyfrifol bellach am ddatblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau gan y bydd CDUau yn eu disodli.

8.376 Dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu sy'n cael Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar hyn o bryd. Gan y bydd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal CDUau ar gyfer y bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, disgwylir i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am lunio a chynnal nifer fach

o'r cynlluniau hyn ar gyfer y grŵp o bobl ifanc sydd â Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, darperir ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn sefydliad addysg bellach. Lle bo'n briodol, felly, y sefydliad addysg bellach fydd yn cynnal y rhan fwyaf o CDUau y grŵp hwn o ddysgwyr.

8.377 Ni wneir ceisiadau am gyllid o dan opsiwn 2. Ni fydd unrhyw gostau i Gyrfa Cymru, felly, o dan opsiwn 2. Fel y nodwyd uchod (gweler paragraff 8.28 uchod), bydd yna gyfnod pontio o ddwy flynedd (2018-19 i 2019-20) pan fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Gyrfa Cymru i helpu awdurdodau lleol i nodi lleoliadau addas. Mae yna gost dros dro, felly, i Lywodraeth Cymru o ryw £709,400 (gweler Tabl 5) i gael gweld y costau gweithredu i Lywodraeth Cymru)[173].

8.378 Bydd trosglwyddo'r gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau a140 a gwneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid i fynd i goleg arbenigol annibynnol yn golygu y bydd Gyrfa Cymru yn cael llai o gyllid. Fel y nodwyd uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru am ddwy flynedd ar ôl cyflwyno opsiwn 2.

**Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol**

8.379 Bydd y gyllideb bresennol a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i sicrhau a chyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol yn cael ei throsglwyddo i awdurdodau lleol wrth iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol. At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, rhagdybir y bydd yn cyfateb i’r gwariant presennol o £12,440,703 y flwyddyn[174] Ni fydd unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol i awdurdodau lleol, felly, yn sgil opsiwn 2[175].

[173] Nid yw'r gost hon wedi'i chynnwys yn nhablau cryno yr adran hon gan ei bod wedi'i chynnwys yn yr adran ar gynlluniau i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Byddai ei chynnwys yma, felly, yn golygu y gallai gael ei chyfrif ddwywaith.

[174] Prisiau 2016-17. Darpariaeth addysgol arbennig o £12,244,983 a chostau cyflog o £195,720, gweler Tabl 58.

[175] O dan opsiwn 2, ni fydd angen i awdurdodau lleol gynnal proses geisiadau. Ni fydd unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol, felly.

8.380 Mae Llywodraeth Cymru hefyd am ddarparu cyllid rheolaidd[176] am ddwy flynedd ar gyfer Gyrfa Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth o Gyrfa Cymru i awdurdodau lleol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant gan Gyrfa Cymru i awdurdodau lleol. Ni ddisgwylir unrhyw gostau pontio i awdurdodau lleol, felly.

**Llywodraeth Cymru**

8.381 Bydd yna gostau i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu a chynnal y rhestr o golegau arbenigol annibynnol.

8.382 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gweinyddol a fydd yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod darparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol wedi cyflwyno'r holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf i gael bod ar y rhestr a gyhoeddir, ac i gael aros arni. Bydd y swyddogion hefyd yn adolygu adroddiadau arolygu a monitro blynyddol Estyn i sicrhau na chodwyd unrhyw bryderon[177]. Byddant yn diweddaru'r wybodaeth ar y rhestr a gyhoeddir am unrhyw newidiadau i ddarpariaeth ôl-16 arbenigol annibynnol a nodir gan y darparwr.

8.383 O 2016-17 y disgwyl yw gweld saith coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru[178]. Rydym yn disgwyl i bob un wneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr a gyhoeddir.

8.384 Ar hyn o bryd, mae 64 o golegau arbenigol annibynnol yn Lloegr wedi'u cofrestru ar y rhestr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Disgwylir i rai darparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol yn Lloegr wneud cais i gael bod ar restr Cymru, yn enwedig y rheini sydd ar ffin Cymru-Lloegr. Er na wyddom faint ohonynt fydd yn gwneud cais i gael eu cofrestru ar y rhestr, gallwn ddisgwyl o leiaf cymaint â nifer y darparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol y mae'r cohort presennol o ddysgwyr Cymru yn eu defnyddio.

[176] Bydd cyllid pontio o £709,400 ar gael i Gyrfa Cymru (gweler Tabl 5).
[177] Caiff y rhain eu hanfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru ac wedyn at yr ysgol, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r ysgol i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd.
[178] Mae coleg arbenigol annibynnol newydd wedi'i sefydlu yng Nghymru, ac mae disgwyl iddo ddechrau derbyn dysgwyr o 2016/17. Wrth ysgrifennu, nid oedd y coleg hwn wedi dechrau gweithredu.

8.385 Yn ystod 2014-15 a 2015-16, roedd dysgwyr o Gymru yn mynd i sefydliadau 10 darparwr ôl-16 arbenigol annibynnol yn Lloegr.

8.386 Amcangyfrifir costau gweinyddol o ryw £320. Mae hyn yn seiliedig ar swyddog gweithredol Llywodraeth Cymru'n treulio tua 60 munud ar bob un o'r 17 cais a wneir gan ddarparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol i fod ar y rhestr[179]. Cost drosiannol untro fyddai hyn a fyddai'n daladwy yn 2017-18.

8.387 Yn ogystal, bydd yn rhaid i golegau arbenigol annibynnol sydd am gael eu hystyried ar gyfer y rhestr a gyhoeddir roi gwybodaeth ariannol i Lywodraeth Cymru. Caiff yr wybodaeth honno ei hasesu gan swyddogion Llywodraeth Cymru (fel rhan o wiriad 'iechyd' ariannol). Disgwylir i'r gwiriadau ariannol gael eu gwneud gan uwch-swyddog gweithredol (SEO) a dylai gymryd 30 munud i asesu pob cais. Amcangyfrifir cost o tua £280 i asesu 17 o geisiadau gan ddarparwyr ôl-16 arbenigol annibynnol i gael bod ar y rhestr[180]. Disgwylir costau pontio o £320 i Lywodraeth Cymru, felly, yn 2017-18 a chostau rheolaidd o £280 y flwyddyn.

**Gwasanaethau Cymdeithasol a Byrddau Iechyd**

8.388 Fel y nodwyd uchod (paragraff 8.357 a 8.356), ni ddisgwylir i'r costau newid o dan yr opsiwn hwn i wasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd o ran cyllido lleoliadau arbenigol.

**Estyn**

8.389 O dan opsiwn 2, bydd Estyn yn parhau i fonitro colegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Bydd y gost ar gyfer monitro coleg arbenigol annibynnol yr un peth ag opsiwn 1[181].

179 Ar sail cyflog cyfartalog swyddog gweithredol yn 2016-17 o £32,424 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £704.87 (46 wythnos) a chost fesul awr o £19.05 (37 awr). Cyfanswm y gost yw £323.86.

180 Ar sail cyflog cyfartalog uwch-swyddog gweithredol (SEO) yn 2016-17 o £55,248 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £1201.04 (46 wythnos) a chost fesul 30 munud o £16.23 (37 awr). Cyfanswm y gost yw £275.92.

181 At ddibenion enghreifftiol, mae'r RIA yn cymryd bod nifer y colegau arbenigol annibynnol wedi aros yn sefydlog ar chew coleg a bod y cylch arolygu wedi aros yr un peth. Nid yw'r naill na'r llall o'r newidiadua hyn o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil.

8.390 Bydd Estyn hefyd yn asesu'r wybodaeth a ddarperir gan golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru sy'n gwneud cais i gael bod ar y rhestr a gyhoeddir. Amcangyfrifir costau o tua £9,200[182] i Estyn a fydd yn cynnal saith asesiad. Cost drosiannol untro fyddai hyn a fyddai'n daladwy yn 2017-18.

**Manteision**

8.391 O dan opsiwn 2, disgwylir arbed £133,580 y flwyddyn (gweler Tabl 59 isod), yn sgil cael gwared â'r angen i Gyrfa Cymru wneud ceisiadau i Weinidogion Cymru sicrhau a chyllido lleoladau.

8.392 Gwnaed i ffwrdd hefyd â'r angen i Gyrfa Cymru ddatblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau. Mae cyflwyno un cynllun sy'n dilyn person ifanc drwy gydol ei daith addysgol yn golygu na fydd angen datblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau cyn i bobl ifanc fynd i addysg bellach. Yn hytrach, bydd y broses gynllunio yn digwydd fel rhan o'r broses o adolygu'r CDU. Nid yw'r fantais hon wedi'i chynnwys yn y crynodeb o'r costau ar gyfer yr adran hon gan ei bod wedi'i chynnwys yn yr adran ar gynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

8.393 Byddai'r cydberthnasau sydd wedi'u meithrin yn cael eu cadw ac ni fydd yr wybodaeth y mae'r awdurdod lleol wedi'i chasglu am y person ifanc yn cael ei cholli pan aiff i addysg bellach.

[182] Ar sail 1.5 diwrnod ar gyfradd ddyddiol o £878. Cyfanswm y gost yw £9,219.

Tabl 59: y gwahaniaeth mewn costau

| | **Costau blynyddol - gwneud dim** | **Costau pontio 2017-18 i 2020-21** | **Costau blynyddol - opsiwn 2** | **Y gwahaniaeth o ran costau rheolaidd** |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru - gweinyddu** | 195,720 | 320 | 280 | -195,400 |
| **Llywodraeth Cymru - darpariaeth** | 12,244,983 | | 0 | -12,244,983 |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol - darpariaeth** | 5,722,538 | | 5,722,538 | 0 |
| **Byrddau iechyd - darpariaeth** | 903,893 | | 903,893 | 0 |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | 0 | | 12,440,703 | 12,440,703 |
| **Gyrfa Cymru** | 133,900 | | 0 | -133,900 |
| **Estyn** | 48,700 | 9,200 | 48,700 | 0 |
| **Cyfanswm** | **19,249,734** | **9,520** | **19,116,114** | **-133,580** |

8.394 Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol yn galluogi gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i gydweithio wrth ddatblygu'r ddarpariaeth a negodi'r gost. Yn hyn o beth, mae'r awdurdod lleol mewn sefyllfa well na swyddogion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo pecynnau cymorth lleol yn ogystal â darparu gwell trefniadau pontio rhwng ysgolion ac addysg bellach a thu hwnt.

8.395 Yn ogystal, byddai ymgymryd â rôl uniongyrchol yn caniatáu i'r awdurdod lleol gydweithio â sefydliadau addysg bellach a darparwyr arbenigol lleol wrth ddatblygu darpariaeth leol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn hwyluso'r ffordd i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gydgynllunio lleoliadau ar sail anghenion plant a phobl ifanc tra byddant yn dal yn yr ysgol. Gellid ehangu darpariaeth ôl-16 ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn lleol felly. Gallai hyn leihau'r arfer o'u lleoli mewn sir neu wlad arall, gan sicrhau arbedion yn sgil hynny. Byddai pobl ifanc a'u teuluoedd yn elwa ar opsiwn darpariaeth leol.

8.396 Ni fu'n bosibl amcangyfrif nifer y lleoliadau lleol a fyddai'n cael eu trefnu yn lle'r lleoliadau mewn sir neu wlad arall. Nid ydym yn gwybod yn iawn beth fyddai hyd a lled y fantais hon, felly.

8.397 Dylai rhestr Gweinidogion Cymru o golegau arbenigol annibynnol roi sicrwydd i awdurdodau lleol ac i bobl ifanc ynghylch safonau ac ansawdd yr addysgu.

8.398 Bydd hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael, gan y bydd y rhestr a gyhoeddir yn amlinellu'r ddarpariaeth benodol y gall pob coleg arbenigol annibynnol ei chynnig.

8.399 Bydd y rhestr yn hwyluso'r ffordd i awdurdodau lleol osod pobl ifanc mewn colegau arbenigol annibynnol priodol, a allai sicrhau defnydd mwy effeithiol o arian cyhoeddus yn sgil deilliannau positif i'r bobl ifanc.

**Risgiau**

8.400 Mae yna risg y caiff yr wybodaeth y mae Gyrfa Cymru wedi'i chasglu am ddarpariaeth ôl-16 arbenigol ei cholli, o ran y cymorth y gall ei ddarparu i grwpiau penodol o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn ei dro, mae yna risg y gallai hyn arwain at leoliadau amhriodol a mwy o apeliadau ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol.

8.401 Disgwylir i'r risg hon fod yn isel a gellir ei chadw'n isel drwy sicrhau bod Gyrfa Cymru yn trosglwyddo gwybodaeth i awdurdodau lleol. Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru am ddarparu cyllid rheolaidd am ddwy flynedd i Gyrfa Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth o Gyrfa Cymru i awdurdodau lleol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant gan Gyrfa Cymru i awdurdodau lleol.

8.402 Mae yna risg y gallai'r costau gynyddu lle bydd colegau arbenigol annibynnol yn apelio i'r tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhestr, ee gwrthod rhestru sefydliad. Fodd bynnag, ystyrir bod hon yn risg fach iawn yng ngoleuni profiad o drefniadau tebyg mewn perthynas â chofrestru ysgolion annibynnol.

8.403 O dan opsiwn 2, mae'r hawl i apelio sydd gan golegau arbenigol annibynnol yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhestr yn debyg i'r hawl i apelio sydd gan ysgolion annibynnol yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chofrestru[183]. Mae profiad o'r system a ddefnyddir i gofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dangos na chyflwynwyd unrhyw apeliadau ers iddi gael ei sefydlu yn 2002. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd:

- y cydweithio agos gydag Estyn;
- y cymhelliant sy'n codi o'r cysylltiad rhwng cofrestru a gallu'r darparwr i weithredu;
- y cyfle i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn rhoi sylw i unrhyw safonau nad ydynt wedi eu bodloni'r tro cyntaf, ac erbyn pryd y byddant yn gwneud hynny.

8.404 Dilynir dull tebyg wrth weithredu'r rhestr er mwyn lleihau'r posibilrwydd o herio.

[183] Mae'r system i gofrestru ysgolion annibynnol o dan Ran 10 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi'r hawl i berchennog ysgol annibynnol apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cofrestru'r ysgol neu ganslo'r cofrestriad. Gwneir yr apeliadau hyn i Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y mae ei hawdurdodaeth yn cwmpasu Cymru a Lloegr.

## Cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig

8.405 Mae 66 ysgol annibynnol yng Nghymru[184], ac mae 31 ohonynt wedi cael 'cymeradwyaeth gyffredinol' i dderbyn dysgwyr sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

8.406 Ar hyn o bryd, mae yna ddwy system ddeddfwriaethol wahanol ar gyfer 'cofrestru' a 'cymeradwyo' ysgolion annibynnol yng Nghymru o safbwynt anghenion addysgol arbennig[185].

8.407 Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol yn y sector annibynnol gael ei gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Caiff pob ysgol annibynnol ei harolygu gan Estyn fel rhan o gylch arolygu saith mlynedd. Cyflwynwyd y cyfnod arolygu hwn ym mis Medi 2016.

8.408 Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol i gael derbyn plant a phobl ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol. Gall sefydliadau naill ai geisio cymeradwyaeth pan fyddant yn gwneud cais i fod yn ysgol annibynnol gofrestredig neu, os yw ysgol wedi cofrestru eisoes, gall gyflwyno cais ar gyfer newid sylweddol. Yn y ddau achos, rhaid nodi'r math o anghenion addysgol arbennig y gellir darparu ar eu cyfer. Bydd ysgolion annibynnol sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn cael eu monitro bob blwyddyn gan Estyn.

8.409 Os nad yw ysgol annibynnol wedi'i chymeradwyo i dderbyn plant â datganiad anghenion addysgol arbennig, mae modd i awdurdod lleol geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli un plentyn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol. Ers 2008, mae 24 ysgol ar draws Cymru a Lloegr wedi

[184] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Independent-Schools/Schools/schools-by-localauthorityregion-year
[185] Mae adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gofrestru o safbwynt anghenion addysgol arbennig, ac mae adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru er mwyn derbyn plentyn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

derbyn disgyblion ar sail cydsyniad Gweinidogion Cymru[186]. Yn yr achos hwn, ni fydd yr ysgol annibynnol y mae'r dysgwr yn cael ei dderbyn iddi yn cael ei monitro'n flynyddol gan Estyn.

8.410 Mae nifer y ceisiadau am gydsyniad i dderbyn dysgwr â datganiad anghenion addysgol arbennig i ysgol annibynnol yn seiliedig ar y galw. Felly, gall y niferoedd amrywio o un flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, yn ystod 2014/15 cafwyd 17[187] cais am gydsyniad i dderbyn disgyblion i chwe ysgol annibynnol yng Nghymru, o'i gymharu â chwe[188] chais ar gyfer tair ysgol annibynnol yn ystod 2015/16. Roedd nifer y ceisiadau ar gyfer ysgolion yn Lloegr yn fwy sefydlog. Yn ystod 2014/15, cafwyd saith cais ar gyfer chwe ysgol annibynnol yn Lloegr, o'i gymharu â deg cais ar gyfer saith ysgol annibynnol yn 2015/16. Felly, cafwyd cyfanswm o 40 cais yn ystod 2014/15 a 2015/16 ar gyfer 18 ysgol[189] yng Nghymru a Lloegr.

8.411 Mae modd i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i dalu am le i blentyn neu berson ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Cymru, cyhyd ag y bo'r awdurdod sy'n cynnal y datganiad yn fodlon bod y trefniadau'n addas.

## Opsiwn 1: gwneud dim

8.412 O dan opsiwn 1, bydd y trefniadau presennol ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol sydd am dderbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yn parhau.

### Costau

8.413 Fel y mae Tabl 60 a Thabl 61 yn nodi, amcangyfrifir mai cost opsiwn 1 yw £451,020. Mae hyn yn cynnwys cost o £63,420 ar gyfer cofrestru, cymeradwyaeth

---

[186] Mae'r cofnodion yn mynd yn ôl i Fai 2008. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad i 24 ysgol nad ydynt wedi cofrestru i dderbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol, i dderbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae 14 o'r ysgolion hyn bellach wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.
[187] Blwyddyn ariannol. Ac eithrio ceisiadau nad oedd eu hangen gan fod yr ysgol eisoes wedi'i chofrestru.
[188] Blwyddyn ariannol. Ac eithrio ceisiadau nad oedd eu hangen gan fod yr ysgol eisoes wedi'i chofrestru.
[189] Cyfanswm nifer yr ysgolion unigol y gwnaeth awdurdodau lleol gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru iddynt gael derbyn dysgwr â datganiad anghenion addysgol arbennig rhwng 2014-15 a 2015-16 yw 18 yn hytrach na 22. Y rheswm am hyn yw bod rhai ceisiadau yn 2015-16 yn ymwneud â chydsyniad i osod dysgwr mewn ysgol lle rhoddwyd cydsyniad i osod person ifanc yn 2014-15.

gyffredinol a chydsyniad unigol, a £387,600 ar gyfer arolygu a monitro. Estyn sy'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau, sef £414,550.

Tabl 60: cost cofrestru, cymeradwyaeth gyffredinol a chydsyniad unigol yn ôl corff

| | Cofrestru a chymeradwyaeth (£) | Newid sylweddol (£) | Cydsyniad unigol (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 9,600 | 25 | 1,000 | 10,625 |
| Llywodraeth Cymru | 70 | 5 | 110 | 185 |
| Estyn | 45,700 | 650 | 5,900 | 52,250 |
| Gwasanaeth addysg awdurdodau lleol | 0 | 0 | 360 | 360 |
| **Cyfanswm** | **55,370** | **680** | **7,370** | **63,420** |

Tabl 61: cost arolygu a monitro

| | Arolygu pob ysgol annibynnol (£) | Arolygu ysgolion annibynnol nad ydynt wedi'u cymeradwyo (£) | Arolygu ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo (£) | Monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Estyn | 210,700 | 136,100 | 74,600 | 151,600 | 362,300 |
| Ysgolion | 10,400 | 5,500 | 4,900 | 14,900 | 25,300 |
| **Cyfanswm** | **221,100** | **141,600** | **79,500** | **166,500** | **387,600** |

**Cost y broses o gofrestru a chael cymeradwyaeth gyffredinol**

**Llywodraeth Cymru**

8.414 Ar ôl derbyn cais i gofrestru[190] ysgol annibynnol, bydd Llywodraeth Cymru'n gwirio bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir a bod yr holl waith papur angenrheidiol wedi'i gyflwyno, cyn anfon y cais ymlaen at Estyn.

8.415 Rhwng 2011/12 a 2015/16, daeth 19 cais i law[191] ar gyfer cofrestru ysgol annibynnol, sef tua phedwar y flwyddyn ar gyfartaledd. Rhyw £18[192] oedd y gost i

[190] Bydd unrhyw gais lle mae sefydliad wedi nodi ei ddymuniad i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, yn cael ei ystyried ar gyfer cymeradwyaeth gyffredinol hefyd ar yr un pryd. Dyma broses gofrestru integredig. Nid oes proses ar wahân ar gyfer cael cymeradwyaeth gyffredinol.

Lywodraeth Cymru ar gyfer cwblhau'r broses wirio ar gyfer pob cais cyn ei anfon ymlaen at Estyn, ac ymateb i'r ysgol yn dilyn argymhelliad Estyn. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost bob blwyddyn yw tua £70[193].

**Estyn**

8.416 Mae gan Estyn broses dair rhan[194] ar gyfer arolygu ceisiadau i gofrestru fel ysgol annibynnol:

- asesiad o'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais
- ymweliad cyn cofrestru ac adroddiad i Lywodraeth Cymru yn amlinellu ei argymhelliad
- ymweliad ar ôl cofrestru.

8.417 Mae Estyn yn cymryd 13 diwrnod ar gyfartaledd i gwblhau'r broses arolygu fel y nodwyd uchod, ar gost o ryw £11,400[195] ar gyfer pob cais i gofrestru. Felly, cyfanswm y gost ar sail pedwar cais i gofrestru ysgol annibynnol bob blwyddyn yw £45,700 (gweler Tabl 60 uchod).

8.418 Ar ôl cofrestru, mae Estyn yn arolygu ysgolion annibynnol fel rhan o'r cylch arolygu saith mlynedd cyffredinol. Mae Estyn yn treulio rhwng 17 a 35 diwrnod yn arolygu ysgol annibynnol, yn dibynnu ar faint yr ysgol. Y gost gyfartalog ar gyfer arolygu ysgol annibynnol yw £21,072[196].

8.419 Mae'r rhan fwyaf o arolygiadau o ysgolion annibynnol cymeradwy yn cymryd 17 diwrnod ar gost o £14,926[197], ac mae'r rhan fwyaf o arolygiadau o ysgolion

---

[191] 2 yn 2011/12, 5 yn 2012/13, 2 yn 2013/14, 3 yn 2014/15 a 7 yn 2015/16.

[192] Yn seiliedig ar swyddog gweithredol yn treulio awr ar bob cais. Cyflog cyfartalog o £31,200 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £678.26 (46 wythnos) a chost bob awr o £18.33 (37 awr). Mae'r costau cyflog ar gyfer 2014/15 a 2015/16 yr un peth.

[193] £18*4 cais y flwyddyn=£72

[194] Os yw sefydliad wedi nodi ei fod yn dymuno derbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, bydd Estyn yn ystyried fel rhan o'i broses gofrestru a ddylid argymell bod y sefydliad yn cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

[195] Yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol o £878. Mae'r gyfradd hon wedi'i seilio ar y gyllideb gyfan o £11.594 miliwn wedi'i rhannnu â chyfanswm nifer y diwrnodau o weithgaredd AEM sydd ar gael mewn blwyddyn (60AEM*220 diwrnod gwaith=13,200 diwrnod).

[196] Ffynhonnell: Estyn

[197] Ffynhonnell: Estyn

annibynnol nad ydynt wedi'u cymeradwyo yn cymryd 31 diwrnod ar gost o £27,218[198].

8.420 Mae Estyn yn arolygu 10 ysgol annibynnol ar gyfartaledd bob blwyddyn ar gost o ryw £210,700 y flwyddyn. O'r ysgolion hyn, bydd cyfartaledd o bump yn ysgolion annibynnol cymeradwy. Mae'n costio £14,926 ar gyfer arolygu pob ysgol annibynnol gymeradwy. Felly, rhyw £74,600 y flwyddyn yw'r gost i Estyn ar gyfer arolygu pum ysgol o'r fath bob blwyddyn.

8.421 Bydd y pum ysgol annibynnol sy'n weddill yn ysgolion nad ydynt wedi'u cymeradwyo, ac mae'n cymryd 31 diwrnod i arolygu ysgolion o'r fath ar gost o £27,218. Golyga hyn ei fod yn costio rhyw £136,100 y flwyddyn i arolygu'r pum ysgol annibynnol nad ydynt wedi'u cymeradwyo. Felly, cyfanswm y gost i Estyn ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol yw £210,700 (gweler Tabl 61 uchod).

8.422 Yn ogystal ag arolygu, mae Estyn yn mynd ati bob blwyddyn i fonitro ysgolion annibynnol sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Amcangyfrifir bod y broses fonitro'n cymryd 6.5 diwrnod ar gost o ryw £5,700 fesul ysgol. Y gost i Estyn ar gyfer monitro 31 ysgol annibynnol gymeradwy yng Nghymru fyddai rhyw £176,900 y flwyddyn, pe bai'r monitro'n digwydd bob blwyddyn. Gan fod Estyn yn cynnal ymweliadau monitro chwe blynedd o bob saith am fod un o'r blynyddoedd yn arolygiad llawn, y gost flynyddol ar gyfartaledd i Estyn ar gyfer ymweliadau monitro yw tua £151,600[199] (gweler Tabl 61 uchod).

8.423 Cyfanswm y gost i Estyn ar gyfer arolygu a monitro ysgolion yw £362,300 y flwyddyn.

---

[198] Ffynhonnell: Estyn

[199] Mae ymweliad monitro unigol yn costio £5,707 i Estyn, ac mae cynnal ymweliad monitro blynyddol i 31 ysgol yn costio £176,917. Felly, y gost flynyddol gyfratalog ar gyfer chwe o bob saith blynedd yw (176,917/7)*6= 151,643.

**Ysgolion annibynnol**

8.424 Ar hyn o bryd, mae angen i sefydliadau sy'n dymuno cofrestru i fod yn ysgol annibynnol wneud cais i Lywodraeth Cymru[200]. Os yw sefydliad yn dymuno cofrestru i fod yn ysgol annibynnol sy'n derbyn pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, bydd angen i'r sefydliad nodi'r anghenion addysgol arbennig y gellir darparu ar eu cyfer fel rhan o'r broses gofrestru.

8.425 Amcangyfrifir bod ysgolion yn treulio dwy awr yn casglu'r gwaith papur angenrheidiol ac yn cwblhau'r ffurflen gais. A chymryd bod y ffurflen gais yn cael ei chwblhau gan y pennaeth arfaethedig, amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw £100 fesul ysgol[201]. Felly, cyfanswm y gost bob blwyddyn ar sail pedwar cais i gofrestru ysgol annibynnol yw tua £400.

8.426 Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae angen i ysgolion gyflwyno cynlluniau o'r ysgol wrth raddfa mewn metrau sgwâr yn dangos safle'r ysgol a manylion yr holl adeiladau. Ni fu modd pennu cost fesul ysgol ar gyfer y gofyniad hwn oherwydd bod amgylchiadau pob ysgol yn wahanol. Er enghraifft, efallai bod gan rai ysgolion gynlluniau eisoes a ddrafftiwyd gan bensaer fel rhan o gais am ganiatâd cynllunio, neu efallai bydd rhai'n dewis drafftio cynlluniau'n fewnol neu gomisiynu pensaer i ddatblygu'r cynlluniau.

8.427 Bydd perchennog/perchnogion yr ysgol yn gorfod cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r perchennog yn cynnwys y rheini sydd â'r cyfrifoldeb am lywodraethu'r ysgol, megis aelodau'r bwrdd llywodraethu. Mae gwiriad gan y DBS yn costio £44 ar hyn o bryd[202]. Bydd nifer y gwiriadau sydd eu hangen yn dibynnu ar nifer y perchnogion. At ddibenion enghreifftiol, tybir bod gan bob ysgol fwrdd llywodraethwyr sydd â rhwng 15 a 30 o aelodau[203], sy'n costio

[200] Ceir gwybodaeth ynghylch cofrestru ysgol annibynnol yn y ddogfen isod (Saesneg yn unig): http://gov.wales/docs/dcells/publications/141126-independent-school-registration-handbook-en.pdf
[201] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £50 yr awr (37 awr).
Canllaw IAPS: https://www.hcrlaw.com/wp-content/uploads/2015/06/Independent-Schools-%E2%80%93-IAPS-Guide-to-Salaries-2015.pdf
Canllaw NASUWT: http://www.nasuwt.org.uk/consum/groups/public/@salariespensionsconditions/documents/nas_download/nasuwt_014603.pdf
[202] https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/overview
[203] http://www.moderngovernor.com/wp-content/uploads/2011/06/Who-Governs-the-Governors.pdf

£1,000 ar gyfartaledd fesul ysgol[204]. Felly, tua £4,000 yw'r cyfanswm bob blwyddyn ar gyfer pedair ysgol.

8.428 Cynhelir ymweliad ag ysgolion cyn ac ar ôl iddynt gofrestru. Bydd staff yn helpu i baratoi ar gyfer yr ymweliadau, yn cwrdd â'r arolygwyr, yn tywys yr arolygwyr o amgylch yr ysgol ac yn ymateb i geisiadau ganddynt am ragor o wybodaeth. Bydd disgwyl i'r ysgol dreulio diwrnod a hanner ar weithgareddau'n ymwneud ag ymweliad cyn cofrestru a dau ddiwrnod ar weithgareddau'n ymwneud ag ymweliad ar ôl cofrestru. Amcangyfrifir mai £1,300 fesul ysgol yw'r gost i ysgolion[205]. Felly, y gost bob blwyddyn ar gyfer pedair ysgol yw tua £5,200.

8.429 Felly, byddai'n costio rhyw £2,400 i ysgolion gwblhau'r broses gofrestru[206], sy'n gyfanswm o tua £9,600 ar gyfer pedair ysgol bob blwyddyn (gweler Tabl 60 uchod).

8.430 Ar ôl cofrestru, bydd ysgolion yn cael eu harolygu gan Estyn fel rhan o'r cylch arolygu saith mlynedd. Bydd disgwyl i ysgolion dreulio tri diwrnod ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r arolygiad, a hynny unwaith bob saith mlynedd. A chymryd bod y pennaeth yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, amcangyfrifir mai'r gost i ysgolion fydd tua £1,100[207] fesul arolygiad, gyda chost gyfartalog o ryw £160[208] y flwyddyn. Felly, amcangyfrifir cost o £10,400[209] y flwyddyn ar gyfer y 66 ysgol annibynnol gofrestredig yng Nghymru. O'r cyfanswm hwn, £4,900 yw'r gost o arolygu'r 31 ysgol annibynnol gymeradwy (gweler Tabl 61 uchod).

8.431 Os yw ysgol yn llwyddo i gael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, bydd yn destun proses fonitro flynyddol. Caiff y gwaith monitro ei wneud chwe blynedd o bob saith am fod arolygiad llawn unwaith bob chwe blynedd. A chymryd bod ysgol yn treulio 1.5 diwrnod ar weithgareddau

---

[204] Nifer cyfartalog o lywodraethwyr 22,5*44=990.

[205] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £373 y diwrnod.

[206] £1,000 ar gyfartaledd ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, £1,300 ar ymweliadau cyn ac ar ôl cofrestru a £100 ar y cais

[207] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £373 y diwrnod. 3*£373=£1,119

[208] 1/7 o'r gost o £1,100 fesul arolygiad. Cost o £157 fesul arolygiad i bob ysgol.

[209] £157.88*66=£10,420.08

sy'n gysylltiedig ag ymweliad monitro, fel tywys yr arolygydd a darparu gwybodaeth bellach, amcangyfrifir mai'r gost i ysgolion yw £560 fesul ymweliad[210], gyda chost gyfartalog flynyddol o ryw £480[211] fesul ysgol. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i'r 31 ysgol gymeradwy yng Nghymru yw tua £14,900 y flwyddyn.

**Cost - newid sylweddol i dderbyn pobl ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig**

**Llywodraeth Cymru**

8.432 Os nad yw ysgol annibynnol wedi gofyn am gael derbyn plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig wrth gofrestru, ac felly cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn plant a phobl ifanc â datganiadau anghenion addysgol arbennig, gall yr ysgol wneud cais dilynol am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i wneud hynny.

8.433 Ar ôl i gais ddod i law ar gyfer newid sylweddol i dderbyn plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, mae Llywodraeth Cymru'n gwirio bod y cais yn gyflawn cyn gofyn am sylwadau Estyn.

8.434 Mae'n cymryd tua 30 munud i Lywodraeth Cymru wirio cais ac mae'r broses hon yn costio rhyw £9 fesul cais[212]. Yn ystod blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16, un cais yn unig ddaeth i law ar gyfer newid sylweddol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig[213]. A chymryd bod un cais bob dwy flynedd ar gyfartaledd, amcangyfrifir mai £5 y flwyddyn yw'r gost i Lywodraeth Cymru (gweler Tabl 60 uchod).

**Estyn**

8.435 Ar ôl cael cais gan Lywodraeth Cymru i ystyried cais am newid sylweddol gan ysgol annibynnol, mae Estyn yn cynnal asesiad cyn gwneud ei argymhelliad.

---

[210] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £373 y diwrnod.

[211] 6/7 o £560 yw £467.

[212] Yn seiliedig ar swyddog gweithredol yn treulio awr ar bob cais. Cyflog cyfartalog o £31,200 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £678.26 (46 wythnos) a chost bob awr o £18.33 (37 awr).

[213] Nid yw data'n ymwneud â newidiadau sylweddol cyn Medi 2014 wedi'u dadelfennu yn ôl y math o newid y gwneir cais amdano.

Amcangyfrifir bod y broses asesu'n cymryd 1.5 diwrnod ar gost o ryw £1,300 fesul cais. A chymryd bod angen asesu un cais ar gyfer newid sylweddol bob dwy flynedd, amcangyfrifir mai'r gost i Estyn yw £650 y flwyddyn (gweler Tabl 60 uchod).

8.436 Mae Estyn yn monitro'r ysgolion hynny sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig, yn flynyddol. Amcangyfrifir bod y broses fonitro yn cymryd 6.5 diwrnod ar gost o ryw £5,700 fesul ysgol. A chymryd bod un ysgol bob dwy flynedd yn cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig, y gost bob blwyddyn fyddai £2,850. Fodd bynnag, cynhelir ymweliadau monitro chwe blynedd o bob saith am fod arolygiad llawn unwaith bob chwe blynedd. Felly, rhyw £2,400 y flwyddyn[214] yw'r gost ar gyfer cynnal ymweliadau monitro ag ysgolion ychwanegol sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn pobl ifanc â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae'r gost ar gyfer monitro'r ysgolion sydd newydd gael eu cofrestru wedi'i chynnwys yn y gost ar gyfer monitro pob un o'r 31 ysgol gymeradwy yng Nghymru (gweler paragraff 8.423 uchod)[215].

**Ysgolion annibynnol**

8.437 Os yw ysgol annibynnol yn penderfynu ar ôl cyflwyno cais ei bod yn dymuno derbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig, rhaid iddi gael cymeradwyaeth gyffredinol gan Lywodraeth Cymru. I gael cymeradwyaeth ar gyfer newid sylweddol mewn perthynas â darpariaeth anghenion addysgol arbennig, mae gofyn i ysgolion annibynnol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi niferoedd ac ystod oedran y disgyblion arfaethedig a darparu gwybodaeth am y math o anghenion addysgol arbennig y bydd yn darparu ar eu cyfer.

8.438 Ni ddisgwylir i'r gwaith o baratoi cais o'r fath i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig a chasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol[216]

[214] (£2,850/7)*6=£2,442.86.
[215] Mae'r ysgolion sydd newydd gael eu cymeradwyo wedi'u cynnwys yn y 31 ysgol y mae Estyn yn eu monitro, gan fod cyfanswm o 31 ysgol gymeradwy yng Nghymru. Felly, mae'r gost hon eisoes wedi'i chynnwys yn y gost o fonitro'r 31 ysgol hyn.
[216] Yn dibynnu ar nifer y disgyblion y bwriedir darparu ar eu cyfer, gall Llywodraeth Cymru ofyn am fanylion ynghylch y cwricwlwm a chynlluniau gwaith, a dau gopi o gynlluniau'r ysgol wrth raddfa mewn metrau sgwâr os gwnaed addasiadau i safle'r ysgol.

gymryd mwy nag awr. A chymryd bod y cais yn cael ei wneud gan y pennaeth, amcangyfrifir mai'r gost fesul ysgol yw £50. Cyfanswm y gost bob blwyddyn ar sail un cais bob dwy flynedd yw tua £25 (gweler Tabl 60 uchod).

8.439 Os yw ysgol yn llwyddo i gael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, bydd yn destun monitro blynyddol. Caiff y gwaith monitro ei wneud pum mlynedd o bob chwech am fod arolygiad llawn unwaith bob chwe blynedd. A chymryd bod ysgol yn treulio 1.5 diwrnod ar weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymweliad monitro, fel tywys yr arolygydd a darparu gwybodaeth bellach, amcangyfrifir mai'r gost i ysgolion fydd £560 fesul ymweliad[217], gyda chost gyfartalog flynyddol o ryw £480[218] fesul ysgol. Y gost bob blwyddyn ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n gwneud cais dilynol am newid sylweddol yw tua £240 (yn seiliedig ar un ysgol bob dwy flynedd). Mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y cyfanswm o£14,900 y flwyddyn ar gyfer pob un o'r 31 ysgol gymeradwy yng Nghymru [219].

**Cost - cydsyniad unigol i dderbyn dysgwyr â datganiad anghenion addysgol arbennig**

8.440 Os yw awdurdod lleol yn dymuno lleoli dysgwr mewn ysgol yng Nghymru a Lloegr nad yw wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig, rhaid i'r awdurdod gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud hynny.

8.441 Fel y nodwyd uchod, daeth 40 cais i law yn ystod 2014-15 a 2015-16 ar gyfer 18 ysgol yng Nghymru a Lloegr. Felly, 20 cais ar gyfartaledd ar gyfer naw ysgol yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn.

8.442 Mae'r broses yn cynnwys llenwi ffurflen gais a darparu dogfennau ategol, fel y datganiad anghenion addysgol arbennig. Amcangyfrifir y bydd awdurdodau lleol

[217] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £373 y diwrnod.
[218] 5/6 o £560 yw £467.
[219] Mae'r ysgolion sydd newydd gael eu cymeradwyo wedi'u cynnwys yn y 31 ysgol y mae Estyn yn eu monitro, gan fod cyfanswm o 31 ysgol gymeradwy yng Nghymru. Felly, mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y gost o fonitro'r 31 ysgol hyn.

yn treulio tua awr yn paratoi'r cais ar gost o ryw £18[220] fesul cais. Felly, rhyw £360 y flwyddyn yw cyfanswm y gost i awdurdodau lleol ar gyfer 20 cais bob blwyddyn (gweler Tabl 60 uchod).

8.443 Mae gofyn cynnwys tystiolaeth yn y cais hefyd bod yr ysgol yn gallu diwallu anghenion y dysgwr. Amcangyfrifir y bydd yn costio rhyw £50[221] i ysgolion baratoi cadarnhad ysgrifenedig o'u gallu i ddiwallu anghenion y dysgwr. Felly, rhyw £1,000 y flwyddyn yw cyfanswm y gost i ysgolion ar gyfer 20 cais bob blwyddyn (gweler Tabl 60 uchod).

8.444 Ar ôl cael cais ar gyfer ysgol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n anfon y cais ymlaen at Estyn. Mae Estyn yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o unrhyw arolygiadau a wnaed ac yn gwneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod Estyn yn treulio 1.5 diwrnod ar gyfartaledd yn ystyried yr wybodaeth ar gost o ryw £1,300 fesul cais. Felly, amcangyfrifir mai £5,900 y flwyddyn yw cyfanswm y gost i Estyn, ar sail 4.5 cais bob blwyddyn ar gyfer ysgolion yng Nghymru (gweler Tabl 60 uchod).

8.445 Bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar y cais ar sail argymhelliad Estyn. Amcangyfrifir bod Llywodraeth Cymru'n treulio awr yn asesu'r wybodaeth ar gost o ryw £24 fesul cais. A chymryd bod 4.5 cais y flwyddyn, amcangyfrifir mai tua £110 y flwyddyn yw'r gost i Lywodraeth Cymru (gweler Tabl 60 uchod).

8.446 Yn wahanol i ysgolion sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn pobl ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig, nid yw Estyn yn monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i dderbyn plentyn neu berson ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig.

**Manteision**

8.447 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

---

[220] Yn seiliedig ar swyddog gweithredol Llywodraeth Cymru yn treulio awr ar bob cais. Cyflog cyfartalog o £31,200 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £678.26 (46 wythnos) a chost bob awr o £18.33 (37 awr).
[221] Yn seiliedig ar gyflog pennaeth o £85,848 gan gynnwys argostau, £1,866 yr wythnos (46 wythnos) a £50 yr awr (37 awr).

**Anfanteision**

8.448 Bydd gofyn i Weinidogion Cymru barhau i weithredu dwy system ddeddfwriaethol wahanol sydd, i ryw raddau, yn cyflawni'r un gwaith â'i gilydd.

8.449 O dan y trefniadau presennol, byddai'n dal i fod yn bosibl i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gael eu lleoli mewn ysgol annibynnol sy'n cael ei harolygu fel rhan o'r cylch arolygu saith mlynedd ond nad yw'n cael ei monitro'n flynyddol. Byddai hyn yn digwydd lle nad oedd gan ysgol gymeradwyaeth gyffredinol Gweinidogion Cymru i dderbyn plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, ond lle'r oedd yr awdurdod lleol wedi cael cydsyniad i leoli plentyn â datganiad anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

8.450 Yn ogystal, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth y mae pob ysgol annibynnol yn gallu darparu ar ei gyfer. O dan y trefniadau presennol, nid oes gwybodaeth gyhoeddus ar gael ar gyfer yr holl ysgolion annibynnol o ran y ddarpariaeth addysgol arbennig y maent yn ei chynnig. Mae hyn yn cyfyngu ar y dewis i blant, pobl ifanc a rhieni.

**Opsiwn 2: diwygio'r system ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig**

8.451 Mae opsiwn 2 yn wahanol i'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn. Yn gyntaf, mae opsiwn 2 yn dileu'r system ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer cymeradwyo ysgolion annibynnol ac yn cyflwyno un proses ddeddfwriaethol ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn dysgwyr ag ADY.

8.452 Yn ail, fel rhan o'r broses gofrestru bydd gofyn i ysgolion annibynnol nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent yn gallu ei chynnig, yn hytrach na'r math o ADY y maent yn darparu ar eu cyfer.

8.453 Yn drydydd, gan y byddai'r system ddeddfwriaethol ar gyfer cymeradwyo ysgolion annibynnol yn cael ei dileu, gan gynnwys y gofyniad i gael cydsyniad ar gyfer lleoli dysgwyr unigol, mae opsiwn 2 yn cyflwyno cyfyngiad ar awdurdodau lleol. Golyga hyn na fyddant yn gallu rhoi dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru'n ysgol sy'n cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar y dysgwr.

8.454 Yn olaf, byddai opsiwn 2 yn cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi cofrestr o ysgolion annibynnol. Os na fydd ysgol annibynnol yn cytuno â phenderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru, fel penderfyniad i beidio â chynnwys yr ysgol yn y rhestr gyhoeddedig, gall yr ysgol apelio yn erbyn y penderfyniad.

8.455 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

**Crynodeb o'r costau**

8.456 Mae Tabl 62 a Thabl 63 isod yn nodi'r costau ar gyfer opsiwn 2. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost opsiwn 2 yw £497,710. Mae hyn yn cynnwys £56,410 o ganlyniad i gofrestru, newid sylweddol a chydsyniad unigol a £441,300 o ganlyniad i arolygu a monitro ysgolion annibynnol.

8.457 Mae hyn yn cymharu â chost o ryw £451,020 ar gyfer opsiwn 1 (gweler paragraff 8.414 uchod). Felly, y gwahaniaeth cyffredinol o ran cost yw tua £46,690 ychwanegol.

Tabl 62: cost flynyddol cofrestru, newid sylweddol a chydsyniad unigol yn ôl corff

| | Cofrestru a chymeradwyaeth (£) | Newid sylweddol (£) | Cydsyniad unigol (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 9,600 | 25 | 0 | 9,625 |
| Llywodraeth Cymru | 70 | 5 | 0 | 75 |
| Estyn | 45,700 | 650 | 0 | 46,350 |
| Gwasanaeth addysg awdurdodau lleol | 0 | 00.0 | 360 | 360 |
| **Cyfanswm** | **55,370** | **680** | **360** | **56,410** |

Tabl 63: cost flynyddol arolygu a monitro ysgolion annibynnol

| | Arolygu | Monitro blynyddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Estyn | 210,700 | 200,500 | 411,200 |
| Ysgolion | 10,400 | 19,700 | 30,100 |
| **Cyfanswm** | **221,100** | **220,200** | **441,300** |

8.458 Fel y mae Tabl 64 yn ei nodi, bydd costau pontio o ryw £55,770 yn gysylltiedig â gweithredu opsiwn 2. Costau i ysgolion annibynnol, Estyn a Llywodraeth Cymru fydd y rhain ac maent yn gysylltiedig â'r 41 ysgol annibynnol y mae disgwyl iddynt wneud cais i gofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae'r 41 ysgol yn cynnwys y 10 ysgol annibynnol yng Nghymru sydd â dysgwyr a leolwyd ar sail cydsyniad unigol, a'r 31 ysgol sydd wedi'u cymeradwyo'n gyffredinol ar hyn o bryd i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Disgwylir i'r costau pontio godi yn 2017-18.

Tabl 64: costau pontio sy'n gysylltiedig â diwygio manylion cofrestru i nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall ysgol ei chynnig

| | Cost bontio (£) |
|---|---|
| Ysgolion annibynnol sy'n gwneud cais ar gyfer newid sylweddol | 2,100 |
| Estyn | 53,300 |
| Llywodraeth Cymru | 370 |
| **Cyfanswm** | **55,770** |

8.459 Mae Tabl 65 isod yn nodi'r gwahaniaeth o ran cost rhwng opsiynau 1 a 2 mewn perthynas â chofrestru, cymeradwyaeth a chydsyniad. Nid oes newidiadau i'r costau yn ymwneud â chofrestru a newid sylweddol. O ran cydsyniad unigol, disgwylir arbed swm o ryw £7,010. Hynny am na fydd cydsyniad unigol yn bodoli o dan opsiwn 2, ac felly ni fydd y costau a ysgwyddir gan ysgolion annibynnol, Llywodraeth Cymru ac Estyn yn codi o dan opsiwn 2.

Tabl 65: y gwahaniaeth o ran cost rhwng opsiwn 1 ac opsiwn 2 - cofrestru, cymeradwyaeth a chydsyniad

| | Cofrestru (£) | Newid sylweddol (£) | Cydsyniad unigol (£) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol | 0 | 0 | -1,000 | -1,000 |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | -110 | -110 |
| Estyn | 0 | 0 | -5,900 | -5,900 |
| Gwasanaeth addysg awdurdodau lleol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | **-7,010** | **-7,010** |

8.460 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Nhabl 66 isod, bydd ysgolion annibynnol yn ysgwyddo costau ychwanegol o ganlyniad i'r nifer ychwanegol o ysgolion y mae disgwyl iddynt gael eu cofrestru i ddarparu ar gyfer pobl ifanc â Chynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a'r ymweliadau monitro ychwanegol yn sgil hyn. Disgwylir i'r gweithgarwch ychwanegol hwn arwain at gostau o ryw £4,800 i ysgolion a £48,900 i Estyn.

8.461 Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ychwanegol reolaidd i ysgolion annibynnol yw £3,800 y flwyddyn, a'r gost i Estyn yw £43,000.

Tabl 66: y gwahaniaeth o ran cost rhwng opsiwn 1 ac opsiwn 2 - arolygu a monitro

| | Arolygu pob ysgol annibynnol (£) | Monitro blynyddol ar ysgolion cymeradwy (£) |
|---|---|---|
| Estyn | 0 | 48,900 |
| Ysgolion | 0 | 4,800 |
| Cyfanswm | **0** | **53,700** |

## Costau

### Ysgolion annibynnol

8.462 O dan opsiwn 2, byddai adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn cael ei diddymu, ac felly bydd y dyblygu deddfwriaethol presennol yn cael ei ddileu[222].

8.463 Ni fydd costau na manteision ychwanegol yn deillio o'r newid hwn ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais i gofrestru fel ysgol ar ôl i'r Bil gael ei weithredu. Ar hyn o bryd, caiff y system bresennol ar gyfer cofrestru a chael cymeradwyaeth ei gweinyddu fel un system, gan fod cais i gofrestru ysgol annibynnol yn cynnwys yr un wybodaeth â'r hyn sydd ei angen i asesu a oes modd rhoi cymeradwyaeth i'r sefydliad i dderbyn plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol. Yn ogystal, bydd y system bresennol ar gyfer gwneud cais am newid sylweddol yn aros yr un peth o dan opsiwn 2. Felly, ni fydd costau na manteision ychwanegol i ysgolion sy'n dymuno gwneud cais dilynol i gofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy newid sylweddol.

8.464 Fodd bynnag, ceir costau pontio ar gyfer y 31 ysgol sydd eisoes wedi cofrestru i dderbyn pobl ifanc ag AAA yn gyffredinol. Yn ogystal, ceir costau rheolaidd a chostau pontio ar gyfer y 10 ysgol sydd wedi cael cydsyniad gan Weinidogion Cymru i leoli plant a phobl ifanc â datganiadau AAA.

8.465 Bydd y gost fesul ysgol annibynnol i ddiwygio eu cofrestriad er mwyn nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gellir ei chynnig, yr un peth â chost bresennol cais ar gyfer newid sylweddol. Hynny yw, £50 fesul ysgol. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i 41 ysgol gofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol yw £2,100 (gweler Tabl 64). Cost bontio untro yw hon, a fydd yn daladwy yn 2017/18.

8.466 Yn dilyn y newid sylweddol i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd y 10 ysgol annibynnol sydd wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli disgyblion unigol yn cael eu monitro'n flynyddol. Amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol ar gyfer hyn fydd £560 fesul ysgol ar gyfer pob ymweliad monitro. Gan fod ysgolion yn

[222] Mae adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 yn dyblygu gofynion adrannau 160 a 162 o Ddeddf Addysg 2002 yn y bôn. Bydd y safonau ysgolion sy'n gysylltiedig â Deddf 2002 yn cael eu diweddaru i gynnwys dwy safon a amlinellwyd yn y rheoliadau cymeradwyo sy’n ymwneud â Deddf Addysg 1996.

destun ymweliad monitro chwech o bob saith mlynedd, y gost fesul ysgol fydd tua £480 y flwyddyn a'r cyfanswm ychwanegol ar gyfer y 10 ysgol fydd tua £4,800 y flwyddyn. Rhyw £14,900 yw'r gost ar gyfer y 31 ysgol sydd eisoes yn cael eu monitro gan Estyn. Felly, rhyw £19,700 y flwyddyn fydd y gost ar gyfer 41 ysgol (gweler Tabl 63 uchod)..

8.467 Nid oes costau ychwanegol yn ymwneud ag arolygiadau, am fod pob ysgol annibynnol eisoes yn cael eu harolygu.

**Risgiau**

8.468 Mae yna risg y bydd pob un o'r 66 ysgol annibynnol yn ystyried bod angen iddynt gofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol, yn enwedig lle mae gan ddysgwyr lefel is o ADY megis math llai difrifol o ddyslecsia. Fodd bynnag, yn yr un modd ag ysgol brif ffrwd, gall ysgol annibynnol addasu arferion addysgu i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn.

8.469 I osgoi sefyllfa lle byddai angen i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir ganddynt, bydd Llywodraeth Cymru'n diweddaru Canllawiau Cofrestru a Gweithredu Ysgolion Annibynnol[223] er mwyn darparu cyngor ynghylch pa lefel o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd angen ei chofrestru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £18,000 ar gyfer diweddaru'r polisi a'r canllawiau ar ôl gweithredu'r Bil (gweler Tabl 5 uchod).

**Estyn**

8.470 Yn yr un modd ag opsiwn 1, bydd Estyn yn cynnal arolygiad cyn ac ar ôl cofrestru, a fydd yn cynnwys ystyriaeth o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r ysgol wedi gwneud cais i gofrestru ar ei chyfer. Disgwylir i'r gost y bydd Estyn yn ei hysgwyddo fod yr un peth â'r gost bresennol. Hynny yw, tua £11,400 ar gyfer pob cais i gofrestru, sef cyfanswm o ryw £45,700 y flwyddyn (gweler Tabl 62 uchod).

8.471 Mae disgwyl i Estyn ysgwyddo costau monitro blynyddol ychwanegol o dan opsiwn 2. Hynny am fod yn rhaid i unrhyw ysgol sy'n dymuno darparu darpariaeth

[223] http://gov.wales/docs/dcells/publications/141126-independent-school-registration-handbook-en.pdf

ddysgu ychwanegol gofrestru i wneud hynny, ac felly byddant yn destun monitro blynyddol gan Estyn.

8.472 A chymryd bod y 10 ysgol annibynnol sydd wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli disgybl unigol â datganiad anghenion addysgol arbennig yn cofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol, y gost ychwanegol i Estyn fydd rhyw £48,900 y flwyddyn.

8.473 £151,600 y flwyddyn (gweler Tabl 61 uchod) yw'r gost bresennol a ysgwyddir gan Estyn ar gyfer monitro'r 31 ysgol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost o dan opsiwn 2 ar gyfer monitro ysgolion sydd wedi cofrestru i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol fydd £200,500 (gweler Tabl 63 uchod).

8.474 Nid oes costau ychwanegol yn ymwneud ag arolygiadau, am fod pob ysgol annibynnol eisoes yn cael eu harolygu.

8.475 Bydd Estyn hefyd yn ysgwyddo cost untro o ganlyniad i'r gofyniad bod ysgolion yn cofrestru'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent yn bwriadu ei darparu. Mae disgwyl i'r 31 ysgol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo'n gyffredinol ynghyd â'r 10 ysgol sydd wedi derbyn disgyblion ar sail cydsyniad unigol, gyflwyno cais ar gyfer newid sylweddol i ddiwygio eu cofrestriad er mwyn nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y byddant yn ei darparu. Bydd y gost i Estyn ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn yr un peth â'r gost bresennol ar gyfer ystyried unrhyw gais arall am newid sylweddol, sef £1,300 fesul ysgol. Felly, amcangyfrifir mai £53,300 fydd cyfanswm y gost i Estyn ar gyfer ystyried 41 cais o'r fath. Cost bontio untro yw hon. Mae disgwyl i'r gost fod yn daladwy yn 2017-18 (gweler Tabl 64 uchod).

**Awdurdodau lleol**

8.476 Nid oes disgwyl i awdurdodau lleol ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o dan opsiwn 2. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn paratoi cais er mwyn cael cydsyniad gan Weinidogion Cymru i leoli plentyn neu berson ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo i dderbyn dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol. O

dan opsiwn 2, bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i fodloni eu hunain bod y lleoliad yn addas. Felly, mae disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â'r un gweithgarwch o dan opsiwn 1 ac opsiwn 2. Mae hyn yn golygu cost flynyddol o £360 i awdurdodau lleol.

**Llywodraeth Cymru**

8.477 Ni fydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol rheolaidd am fod cofrestr o ysgolion annibynnol eisoes ar gael.

8.478 Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo costau pontio yn ymwneud â newid y 41 ysgol annibynnol y mae disgwyl iddynt gofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua 30 munud i gofnodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, ar gost o ryw £9 fesul ysgol[224]. Felly, disgwylir mai rhyw £370 fydd y gost ar gyfer cofnodi darpariaeth ddysgu ychwanegol 41 ysgol. Cost bontio untro yw hon. Mae disgwyl i'r gost fod yn daladwy yn 2017-18 (gweler Tabl 64).

**Manteision**

8.479 Byddai cyhoeddi'r gofrestr o ysgolion annibynnol, ynghyd â newid y system gofrestru, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall ysgol ei darparu yn glir i wasanaethau addysg awdurdodau lleol a rhieni dysgwyr sydd ag ADY. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am y dewis o ddarpariaeth sydd ar gael, ac felly'n debygol o arwain at well dewis o ddarpariaeth i rieni a dysgwyr.

8.480 Byddai'r wybodaeth gliriach a fyddai ar gael drwy'r gofrestr gyhoeddedig a'r cyfyngiad ar awdurdodau lleol o ran lle y gallant leoli dysgwr, yn helpu i leihau'r risg o leoliadau amhriodol i ddysgwyr ag ADY mewn ysgolion annibynnol.

8.481 Mae opsiwn 2 yn sicrhau lefel o sicrwydd ar gyfer yr awdurdod lleol a rhieni o ran gallu'r ysgol annibynnol i fodloni anghenion y dysgwr, yn unol â'r hyn a nodir yn ei CDU. Yn ogystal, bydd pob ysgol annibynnol sydd wedi cofrestru eu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu monitro bob blwyddyn gan Estyn, gan roi sicrwydd

---

[224] Yn seiliedig ar swyddog gweithredol yn treulio awr ar bob cais. Cyflog cyfartalog o £31,200 gan gynnwys argostau, cost wythnosol o £678.26 (46 wythnos) a chost bob awr o £18.33 (37 awr).

i bob plentyn, person ifanc a'u rhieni am y ddarpariaeth ac ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol.

### Risgiau

8.482 Mae yna risg y gallai'r costau gynyddu lle bydd ysgolion annibynnol yn apelio i'r tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhestr, ee gwrthod rhestru ysgol annibynnol. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg yn fach iawn yng ngoleuni'r profiad a gafwyd o drefniadau tebyg ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol.

8.483 Ar hyn o bryd, mae gan ysgolion annibynniol hawl i apelio er mwyn herio penderfyniadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chofrestru [225]. Mae'r profiad a gafwyd hyd yn hyn o system gofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dangos na chyflwynwyd unrhyw apelau ers iddi gael ei sefydlu yn 2002.

### Anfanteision

8.484 Nid oes unrhyw anfanteision i opsiwn 2.

[225] Mae'r system i gofrestru ysgolion annibynnol o dan Ran 10 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi'r hawl i berchennog ysgol annibynnol apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cofrestru'r ysgol neu ganslo'r cofrestriad. Gwneir yr apeliadau hyn i Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y mae ei hawdurdodaeth yn cwmpasu Cymru a Lloegr.

## Sail statudol i gydlynwyr cymorth anghenion addysgol arbennig mewn addysg

8.485 Ar hyn o bryd, drwy gydlynydd anghenion addysgol arbennig yr ydym yn cydlynu cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion[226]. Mae'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth AAA i blant, gan gynnwys hyfforddi staff eraill, cydweithio ag ystod o asiantaethau ac â theuluoedd, addysgu a chefnogi plant a phobl ifanc, a chynnal cofnodion.

8.486 Er bod rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn rôl gydnabyddedig, ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion prif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion na sefydliadau addysg bellach ddynodi aelod o'u staff i gyflawni'r rôl.

8.487 Nid oes sail orfodol i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac nid yw Gweinidogion Cymru felly yn gallu rhagnodi ar hyn o bryd sut y dylid mynd ati i gyflawni rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r cod yn amlinellu prif gyfrifoldebau *posibl* rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, ond nid oes llawer o gyfarwyddyd am yr amser a'r gefnogaeth y dylid eu rhoi i'r rôl. Felly nid oes diffiniad clir o'r rôl ar lefel leol na chenedlaethol, a chyflawnir y rôl mewn sawl ffordd.

### Opsiwn 1: gwneud dim

8.488 O dan opsiwn 1, byddai'r dull presennol o gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau. Hynny yw, ni fyddai unrhyw ofyniad statudol i ysgolion, na lleoliadau addysg eraill, benodi Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig nac unrhyw ofyniad i sefydliadau addysg bellach sefydlu gwasanaethau cymorth.

[226] Yn wahanol i ysgolion prif ffrwd, mae ysgolion arbennig wedi'u cynllunio'n benodol i gyflenwi darpariaeth addysgol arbennig, ac felly nid oes angen i ysgolion arbennig benodi Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig i gydlynu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig.

## Cost

### Ysgolion

8.489 Mae 1,574[227] ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd. A chymryd bod cyfartaledd o un Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer pob ysgol[228] ar gyflog o £39,466.05[229] y flwyddyn, amcangyfrifir mai'r gost bob blwyddyn yw £62,119.600. Yn ogystal, bydd gan rai Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig hawl i gael lwfans AAA[230]. A chymryd bod 50% o Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn lwfans AAA o £4,030.65, amcangyfrifir mai'r gost gyffredinol yw £3,172,100 y flwyddyn. Felly, cyfanswm y gost i ysgolion ar gyfer cyflogi Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yw £65,291,700 y flwyddyn.

### Unedau cyfeirio disgyblion

8.490 Mae 28 uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r unedau hyn yn ddarparwyr arbenigol gan fod yr holl staff addysgu â phrofiad o ddarparu addysg i bobl ifanc â phroblemau ymddygiad, a allai fod ag anghenion addysgol arbennig hefyd. Yn wahanol i ysgolion, nid oes gan unedau cyfeirio disgyblion Gydlynydd

---

227 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-welshmediumtype

228 Ar gyfartaledd, mae'n debygol y bydd llai nag un Cydlynydd AAA ym mhob ysgol gan y bydd y bil ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu ddynodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Nid yw'r bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn fod wedi'i gyflogi gan yr ysgol. Bydd yn bosibl, felly, i ysgolion fanteisio ar glystyrau sydd eisoes yn bod neu drefniadau ffederal. Bydd y trefniant presennol sy'n ei gwneud yn bosibl i ysgolion bach rannu Cydlynydd AAA ac i ysgolion mwy o faint gyflogi mwy nag un Cydlynydd AAA, yn parhau felly ar ôl cyflwyno'r bil. At ddibenion amcangyfrif y costau cyfredol, fodd bynnag, defnyddir cyfartaledd o un Cydlynydd AAA fesul ysgol.

229 Cyflawnwyd rôl y Cydlynydd AAA mewn sawl ffordd. Gall fod yn gynorthwy-ydd addysgu lefel uwch (CALU), athro/athrawes neu aelod o'r grŵp arwain megis pennaeth blwyddyn, pennaeth adran neu ddirprwy bennaeth. Felly, nid yw'n bosibl pennu union gostau cyflog cenedlaethol Cydlynwyr AAA. At ddibenion amcangyfrif y costau cyfredol, defnyddiwyd y man canol ar gyfer athrawon dosbarth o fis Medi 2016 i fis Awst 2017, sef £30,358.50 (£39,466.05 gan gynnwys argostau).
Yn ogystal, ni wyddom faint o'i amser y mae Cydlynydd AAA yn ei dreulio'n cyflawni ei ddyletswyddau addysgu mewn perthynas â'r rôl. O ganlyniad, ni fu'n bosibl gwahanu'r gost o ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â rôl Cydlynydd AAA o gyfanswm y costau cyflog. Felly, mae'r costau cyflog yn debygol o fod wedi'u gorbrisio yn hytrach na'u tanbrisio.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550286/STPCD_2016_guidance.pdf

230 Mae'r lwfans AAA yn amrywio o £2,085 i £4,116 gyda man canol o £3,100.50 (£4,030.65 gan gynnwys argostau). Telir y lwfans AAA i athrawon dosbarth yn unig. Ni thelir y lwfans i gynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) nag i staff yn ystod cyflog y grŵp arwain. Ar hyn o bryd ni chesglir data ar nifer y Cydlynwyr AAA sy'n derbyn y lwfans AAA. Yn ogystal, ni wyddom pa gyfran o'r Cydlynwyr AAA sy'n athrawon dosbarth. Felly, ni fu modd pennu union gost cyfredol y lwfans AAA. At ddibenion amcangyfrif cost presennol y lwfans AAA, tybir bod 50% o'r Cydlynwyr AAA yn athrawon dosbarth sy'n derbyn y lwfans AAA.

Anghenion Addysgol Arbennig penodedig fel arfer. Fodd bynnag, mae aelod o staff yn cyflawni rôl cydlynu. At ddibenion enghreifftiol, tybir bod y rôl yn cael ei gyflawni gan un o'r staff addysgu ar gyflog o £39,466.05[231] y flwyddyn a chaiff pob Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig lwfans AAA cyfartalog o £4,030.65. Amcangyfrifir mai'r gost gyfredol i unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer cyflogi Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yw £1,217,900.

8.491 Mae 13 sefydliad addysg bellach yng Nghymru ar hyn o bryd. Er nad yw'n ofynnol, mae pob sefydliad addysg bellach yn darparu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ac mae ganddynt Gydlynydd Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu sydd â rôl sy'n debyg yn fras i rôl Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig mewn ysgolion. Gall yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r rôl fod yn aelod o'r staff addysgu neu'n un o staff y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. At ddibenion enghreifftiol, tybir bod y Cydlynydd Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu ar ystod gyflog debyg i'r Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig - £39,466.05[232]y flwyddyn. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm cost y rôl bresennol mewn sefydliadau addysg bellach yw £513,100.

8.492 Amcangyfrifir felly mai cyfanswm cost Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig a rolau tebyg yw £67,022,700 (gweler Tabl 67 isod).

Tabl 67: amcangyfrif o gost gyfredol Cydlynwyr AAA a rolau tebyg

| | Cost Cydlynwyr AAA (£) |
|---|---|
| Ysgolion | 65,291,700 |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | 1,217,900 |
| Sefydliadau Addysg Bellach | 513,100 |
| **Cyfanswm** | **67,022,700** |

**Manteision**

8.493 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

[231] At ddibenion amcangyfrif y costau cyfredol, defnyddiwyd y man canol ar gyfer athrawon dosbarth rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017, sef £30,358.50 (£39,466.05 gan gynnwys argostau). https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550286/STPCD_2016_guidance.pdf

[232] At ddibenion amcangyfrif y costau cyfredol, defnyddiwyd y man canol ar gyfer athrawon dosbarth rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017, sef £30,358.50 (£39,466.05 gan gynnwys argostau). https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550286/STPCD_2016_guidance.pdf

**Anfanteision**

8.494 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i leoliadau addysg benodi Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig. Er bod yna rai mewn ysgolion, nid oes gweithdrefn gyson ledled Cymru o ran pwy ddylai fod yn Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, pa gymwysterau ddylai fod ganddynt, a sut y dylid cyflawni'r rôl. Er bod Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn athrawon sydd wedi cymhwyso yn gyffredinol, mae hefyd yn bosibl i Gydlynwyr beidio â bod yn athrawon cymwysedig. Er enghraifft, gallai fod yn gynorthwyydd addysgu lefel uwch neu'n aelod o'r staff nad ydynt yn addysgu.

8.495 Er mwyn cyflawni'r rôl yn effeithiol, mae angen hyfforddiant penodol ar Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ar asesu ac addysgu pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg hyfforddiant penodol ar hyn o bryd ac felly diffyg cysondeb o ran gwybodaeth a sylfaen sgiliau Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig.

8.496 Mae yna gwestiwn hefyd ynghylch i ba raddau y mae athrawon wedi'u hyfforddi i asesu ac addysgu pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (gweler, er enghraifft, Rose, 2010 a ddyfynnwyd gan Holtom et al 2012)[233]. Mewn astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, daeth Holtom et al (2010)[234] i'r casgliad bod staff ym maes addysg yn gyffredinol hyderus yn eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth yn awgrymu, er bod asesu a gwahaniaethu yn eithriadau pwysig[235], fod yna sail weddol dda i'r hyder hwn.

8.497 Gall diffyg hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac athrawon olygu nad oes gan rai ysgolion ddigon o gapasiti i ddelio ag anghenion addysgol arbennig, gan arwain at asesiadau diangen gan yr awdurdod lleol

---

[233] http://dera.ioe.ac.uk/16170/1/120626learningneedsfinalen.pdf
[234] http://dera.ioe.ac.uk/22888/1/150330-sen-en.pdf
[235] Dull addysgol yw gwahaniaethu sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon deilwra eu dysgu, eu haddysgu a'u hasesu, gan addasu'r cwricwlwm yn ôl anghenion y plant, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn hytrach na disgwyl i'r disgyblion addasu i'r cwricwlwm cyfredol (Cole, R, (2008), *Educating Everybody's Children: Diverse Strategies for Diverse Learners*, Association for Supervision and Curriculum Development, Google Books, http://books.google.co.uk/books?id=ixmW-porsOAC; Rogers, C. (2007), *Experiencing an Inclusive Education: Parents and their Children with Special Educational Needs, British Journal of Sociology of Education*, 28, 1, pp55-68).

(gweler, er enghraifft, Rose, 2010 a ddyfynnir gan Holtom et al 2012)[236]. Yn ogystal, mae rhieni wedi mynegi pryderon ynghylch anghysondeb yn effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaeth Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ysgol eu plant[237].

[236] http://dera.ioe.ac.uk/16170/1/120626learningneedsfinalen.pdf

[237] Llywodraeth Cymru (2008) Datganiadau neu Rywbeth Gwell?: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf. Ewch i: http://gov.wales/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/ellscomitteerecommendations/summaryprogressenglish?lang=en

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl cydlynydd cymorth ADY statudol**

8.498 O dan opsiwn 2, byddai rôl statudol yn cael ei chyflwyno ar gyfer Cydlynydd ADY (anghenion dysgu ychwanegol). Bydd y Cydlynydd ADY yn gyfrifol am roi arweiniad strategol ar ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol.

8.499 Bydd y Cydlynydd ADY yn cydlynu ar lefel strategol ond ni fydd o reidrwydd yn gyfrifol am weithgareddau bob dydd yn ymwneud â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fel yr addysgu neu reoli unedau ADY arbenigol o fewn ysgolion. Disgwylir i'r swyddogaethau hyn barhau'n gyfrifoldeb i athrawon a chynorthwywyr addysgu lefel uwch.

8.500 Byddai'n ofynnol i bob lleoliad addysg, ac eithrio ysgolion arbennig, benodi Cydlynydd ADY. Yn wahanol i ysgolion prif ffrwd, mae ysgolion arbennig wedi'u cynllunio'n benodol i gyflenwi darpariaeth addysgol arbennig, ac felly nid oes angen i ysgolion arbennig benodi Cydlynydd ADY i gydlynu'r ddarpariaeth.

8.501 Disgwylir i'r Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar a gynhelir[238], fod yn athrawon cymwysedig. Mewn sefydliadau addysg bellach, byddant yn ymarferwyr addysgu. Yn ogystal, bydd yn rhaid i bob Cydlynydd ADY fod wedi dilyn rhaglen hyfforddiant ar lefel meistr.

8.502 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**Cost**

8.503 Nid oes costau ychwanegol parhaus ar gyfer ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach am fod ganddynt Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig neu rôl Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig eisoes. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm cost barhaus rôl y Cydlynydd ADY fydd £67,022,700 (gweler Tabl 67 uchod). Os nad yw'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig presennol yn athro cymwysedig er enghraifft, bydd angen rhoi'r cyfrifoldeb am gydlynu strategol i athro cymwysedig. Fodd bynnag, gall y swyddogaethau bob dydd sy'n cael eu harfer gan Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ar hyn o

[238]Ni fydd yn ofynnol i leoliadau blynyddoedd cynnar annibynnol benodi Cydlynydd ADY, ond bydd yn ofynnol iddynt gyfeirio pobl ifanc ag ADY i'r awdurdod lleol.

bryd, barhau i gael eu cyflawni gan gynorthwyydd addysgu lefel uwch er enghraifft. I'r perwyl hwn, disgwylir i'r costau aros yr un peth.

8.504 Serch hynny, bydd ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo costau trosglwyddo'n ymwneud â hyfforddi Cydlynwyr ADY. Disgwylir i'r costau trosglwyddo gyrraedd cyfanswm o £9,255,320 (gweler Tabl 68 isod).

Tabl 68: cost Cydlynwyr ADY

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion - cost gradd | 944,400 | 1,888,800 | 1,888,800 | 944,400 | 5,666,400 |
| Ysgolion - cost diwrnodau hyfforddi | 558,770 | 1,117,540 | 1,117,540 | 558,770 | 3,352,620 |
| **Cyfanswm ysgolion** | **1,503,170** | **3,006,340** | **3,006,340** | **1,503,170** | **9,019,020** |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion - cost gradd | 16,800 | 33,600 | 33,600 | 16,800 | 100,800 |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion - cost diwrnodau hyfforddi | 10,407 | 20,813 | 20,813 | 10,407 | 62,440 |
| **Cyfanswm Unedau Cyfeirio Disgyblion** | **27,207** | **54,413** | **54,413** | **27,207** | **163,240** |
| Sefydliadau addysg bellach - cost gradd | 7,800 | 15,600 | 15,600 | 7,800 | 46,800 |
| Sefydliadau addysg bellach - cost diwrnodau hyfforddi | 4,377 | 8,753 | 8,753 | 4,377 | 26,260 |
| **Cyfanswm Sefydliadau addysg bellach** | **12,177** | **24,353** | **24,353** | **12,177** | **73,060** |
| **Cyfanswm** | **1,542,554** | **3,085,106** | **3,085,106** | **1,542,544** | **9,255,320** |

### Ysgolion

8.505 Bydd ysgolion yn ysgwyddo costau trosglwyddo o ganlyniad i ariannu'r cymhwyster lefel meistr ar gyfer 1,574[239] Cydlynydd ADY. A bwrw bod cwrs astudio yn costio £3,600[240], cyfanswm y gost fyddai £5,666,400. Disgwylir y bydd y cwrs yn cael ei wneud ar sail ran-amser dros dair blynedd. Felly, a thybio bod 787 o Gydlynwyr ADY yn dechrau'r cwrs yn 2017/18 a 2018/19, amcangyfrifir mai'r gost yn 2017/18 fydd £944,400, y gost yn 2018/19 a 2019/20 fydd £1,888,800 a'r gost yn 2020/21 fydd £944,400.

8.506 Yn ogystal, bydd ysgolion yn ysgwyddo costau cyfle o ganlyniad i'r amser y bydd Cydlynwyr ADY yn ei dreulio y tu allan i'r ysgol yn astudio. Tybir y bydd athrawon yn treulio o leiaf 10 diwrnod yn mynychu prifysgol ac yn cwblhau aseiniadau[241]. Felly, amcangyfrifir mai'r gost cyfle fesul Cydlynydd ADY fydd £1,960[242], a'r cyfanswm fydd £3,352,620[243]. Disgwylir i'r gost hon gael ei rhannu dros bedair blynedd gyda chostau cyfle o £558,770 yn 2017/18, £1,117,540 yn 2018/19 a 2019/20 a £558,770 yn 2020/21.

8.507 Er mai cost cyfle a nodir yma, gallai fod yn gost ariannol i ysgolion os ydynt yn cyflogi staff cyflenwi i weithio yn lle'r Cydlynwyr ADY pan nad ydynt yn yr ysgol.

### Unedau Cyfeirio Disgyblion

8.508 Bydd unedau cyfeirio disgyblion yn ysgwyddo costau trosglwyddo o ganlyniad i ariannu'r cymhwyster lefel meistr ar gyfer 28 Cydlynydd ADY. A bwrw bod cwrs astudio yn costio £3,600[244], cyfanswm y gost fyddai £100,800. Disgwylir y bydd y cwrs gael ei wneud yn rhan-amser. Felly, a thybio bod cyfartaledd o 14 Cydlynydd ADY yn dechrau'r cwrs ym mlynyddoedd 2017-18 a 2018-19, amcangyfrifir mai'r

---

[239] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-welshmediumtype

[240] Yn seiliedig ar gwrs Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol Llywodraeth Cymru a ddarperir rhwng 2013/14 a 2016/17.

[241] Mae'r 10 diwrnod hyn yn gyfartaledd ar draws y cwrs gradd tair blynedd gan fod disgwyl i bob myfyriwr ddewis cymryd eu hamser astudio ar wahanol adegau yn ystod y cwrs.

[242] £39,466.05/195 diwrnod cytundebol + ((4030.65/195 diwrnod cytundebol)*.5) = £212.73 fesul diwrnod (£2,127.25 am 10 diwrnod).

[243] £2,130*1,574 o Gydlynwyr ADY = £3,352,620

[244] Yn seiliedig ar dendr Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol rhwng 2013/14 a 2016/17.

gost fydd £16,800 yn 2017/18, £33,600 yn 2018/19 a 2019/20 a £16,800 yn 2020/21.

8.509 Yn ogystal, bydd unedau cyfeirio disgyblion yn ysgwyddo costau cyfle o ganlyniad i'r amser y bydd Cydlynwyr ADY yn ei dreulio y tu allan i'r uned yn astudio. Tybir y bydd athrawon mewn unedau cyfeirio disgyblion yn treulio o leiaf 10 diwrnod yn mynychu prifysgol ac yn cwblhau aseiniadau[245]. Amcangyfrifir mai'r gost cyfle fesul Cydlynydd ADY fydd £2,230[246], a'r cyfanswm fydd £62,440. Disgwylir i'r gost gael ei rhannu dros bedair blynedd gyda chostau cyfle o £10,407 yn 2017/18, £20,813 yn 2018/19 a 2019/20 a £10,407 yn 2020/21.

8.510 Er mai cost cyfle a gyflwynir yma, gallai fod yn gost ariannol i unedau cyfeirio disgyblion os ydynt yn penderfynu cyflogi staff cyflenwi i weithio yn lle'r Cydlynwyr ADY pan nad ydynt yn yr uned.

**Sefydliadau Addysg Bellach**

8.511 Bydd sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo costau trosglwyddo o ganlyniad i ariannu'r cymhwyster lefel meistr ar gyfer 13 Cydlynydd ADY. A bwrw bod cwrs astudio yn costio £3,600[247], cyfanswm y gost fydd £46,800. Disgwylir i'r cwrs gael ei wneud yn rhan-amser. Felly, a thybio bod cyfartaledd o 6.5 Cydlynydd ADY yn dechrau'r cwrs ym mlynyddoedd 2017-18 a 2018-19, amcangyfrifir mai'r costau fydd £7,800 yn 2017/18, £15,600 yn 2018/19 a 2019/20 a £7,800 yn 2020/21.

8.512 Yn ogystal, bydd sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo costau cyfle o ganlyniad i'r amser y bydd Cydlynwyr ADY yn ei dreulio y tu allan i'r uned yn astudio. Tybir y bydd y Cydlynydd ADY yn treulio o leiaf 10 diwrnod yn mynychu prifysgol ac yn cwblhau aseiniadau[248]. Felly, os yw Cydlynydd ADY mewn sefydliad addysg bellach yn cael cyflog tebyg i Gydlynydd ADY mewn ysgol,

[245] Mae'r 10 diwrnod hyn yn gyfartaledd ar draws y cwrs gradd tair blynedd gan fod disgwyl i bob myfyriwr ddewis cymryd eu hamser astudio ar wahanol adegau yn ystod y cwrs.
[246] £39,466.05/195 diwrnod cytundebol + £4030.65/195 diwrnod cytundebol = £223.06 fesul diwrnod (£2,231 am 10 diwrnod).
[247] Yn seiliedig ar dendr Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol rhwng 2013/14 a 2016/17.
[248] Mae'r 10 diwrnod hyn yn gyfartaledd ar draws y cwrs gradd tair blynedd gan fod disgwyl i bob myfyriwr ddewis cymryd eu hamser astudio ar wahanol adegau yn ystod y cwrs.

amcangyfrifir mai'r gost fesul Cydlynydd fydd £2,020[249], a chyfanswm y costau cyfle fydd £26,260 ar gyfer yr 13 Cydlynydd ADY. Disgwylir i'r gost hon gael ei rhannu dros bedair blynedd gyda chostau cyfle o £4,377 yn 2017/18, £8,753 yn 2018/19 a 2019/20 a £4,377 yn 2020/21.

8.513 Er mai cost cyfle a gyflwynir yma, gallai fod yn gost ariannol i sefydliadau addysg bellach lle mae angen cyflogi staff cyflenwi i weithio yn lle'r Cydlynwyr ADY pan nad ydynt yn y sefydliad.

8.514 Ar ôl i'r Bil gael ei basio, bydd tîm gweithredu ADY Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nifer o weithgareddau'n gysylltiedig â'r cymhwyster lefel meistr mewn anghenion addysgol arbennig. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach i archwilio'r opsiynau cyflawni a gweinyddu grant gweithredu ADY Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Mae costau'r tîm gweithredu ADY wedi'u hamlinellu yn Nhabl 5 ac felly nid ydynt wedi'u nodi yma.

8.515 Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i'r awdurdodau lleol drwy grant gweithredu ADY awdurdodau lleol er mwyn helpu i dalu'r gost o ariannu'r cymhwyster lefel meistr. Nid yw cost y grant gweithredu ADY wedi'i chynnwys yma am fod yr wybodaeth hon wedi'i nodi yn Nhabl 5.

**Risgiau**

8.516 Mae yna risg y gallai'r costau pontio sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster lefel meistr fod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Byddai hyn yn codi os yw Cydlynydd ADY yn dechrau'r cymhwyser yn ystod y cyfnod gweithredu o bedair blynedd ond nad yw'n ei gwblhau am ei fod, er enghraifft, wedi ymddiswyddo. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth ar ba mor aml y mae Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn gadael eu swydd, ac felly nid yw'r gost hon yn hysbys ac ni fu modd ei amcangyfrif ar hyn o bryd.

8.517 Mae risg hefyd na fydd digon o gapasiti i hyfforddi'r holl Gydlynwyr ADY o fewn yr amserlen o bedair blynedd a nodir uchod. Byddai hyn yn golygu bod y costau

[249] £39,466.05/195 diwrnod cytundebol = £ 202.39 fesul diwrnod (£2,023.90 am 10 diwrnod).

gweithredu fesul blwyddyn yn llai na'r hyn a nodir uchod gan y byddai'r gost yn cael ei rhannu dros fwy o flynyddoedd.

**Manteision**

8.518 Bydd y gofyniad i benodi Cydlynydd ADU yn ehangu'r arfer bresennol. O dan opsiwn 2, bydd gofyn i bob lleoliad addysg, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach, benodi Cydlynydd ADY.

8.519 Byddai gwneud rôl y Cydlynydd ADY yn un statudol yn sicrhau bod y rôl wedi'i diffinio'n glir mewn rheoliadau ac yn y cod, ac yn sicrhau bod y rôl gydlynu yn cael ei chyflawni mewn ffordd gyson ledled Cymru.

8.520 Bydd cymhwyster penodol ar lefel meistr yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen er mwyn i'r Cydlynydd ADY gyflawni cyfrifoldebau'r rôl yn effeithiol, gan gynnwys hyfforddi a chefnogi staff eraill.

8.521 Bydd Cydlynydd ADY cymwysedig sydd wedi'i hyfforddi yn sicrhau bod gan bob lleoliad fynediad at unigolyn sydd â gwybodaeth a sgiliau lefel uwch ar draws yr ystod a'r mathau gwahanol o ADY. Bydd hyn yn golygu bod pob ymarferydd mewn lleoliad addysgol yn cael eu cefnogi'n well yn y dosbarth. Bydd hefyd yn sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu nodi'n gynharach a bod ymyriadau'n cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

8.522 Dylai cefnogaeth well gan Gydlynwyr ADY i ymarferwyr dosbarth a'u dysgwyr helpu i wella deilliannau dysgu a chyrhaeddiad dysgwyr ADY.

8.523 Ar lefel strategol, bydd Cydlynydd ADY cymwysedig yn gallu gweithredu systemau/dulliau gweithio ar gyfer y lleoliad cyfan a sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr yn well.

8.524 Bydd Cydlynydd ADY cymwysedig hefyd yn helpu i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol i wasanaethau arbenigol ac felly'n gwella gallu gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion y dysgwyr hynny sydd wir angen eu cefnogaeth. Dylai'r wybodaeth a'r sgiliau lefel uwch a gaiff y Cydlynydd ADY drwy'r cymhwyster fod

yn ddigonol i ddiwallu anghenion y mwyafrif o ddysgwyr yn eu lleoliad. Y Cydlynydd ADY fydd y pwynt cyswllt canolog ar gyfer y lleoliad ac felly bydd ganddo rôl benodol o ran nodi'r dysgwyr hynny y mae arnynt angen gwasanaeth arbenigol a'u hatgyfeirio yn ôl y gofyn.

**Anfanteision**

8.525 Nid oes unrhyw anfanteision i opsiwn 2.

**Risgiau**

8.526 Mae risg y gallai'r gofynion newydd o ran Cydlynwyr ADY gael eu hystyried yn rhy feichus. Gallai hyn wneud i bobl deimlo nad ydynt am barhau i fod yn Gydlynydd ADY neu ymgymryd â'r swydd o gwbl.

8.527 Fodd bynnag, ystyrir mai risg fach yw hon gan y bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i sicrhau na fydd y rôl yn rhy feichus. Bydd yn cynnwys, er enghraifft, grŵp gweithredu strategol ADY a'i is-grŵp arbenigol, a fydd yn canolbwyntio ar rôl y Cydlynydd ADY; ymgynghori ar fanylion y rôl sydd wedi'u nodi yn y rheoliad; a darparu hyfforddiant a chymorth i athrawon mewn perthynas â'r cynnig dysgu proffesiynol.

8.528 Mae hefyd risg y gallai'r cyfrifoldeb ychwanegol a'r cymhwyster uwch olygu bod yna ddisgwyliad o gyflogau uwch. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad rhwng y cymhwyster ar gyfer Cydlynydd ADY a chyflogau athrawon.

## Sail statudol i gydlynwyr strategol ym maes iechyd

8.529 Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i fyrddau iechyd benodi un prif unigolyn neu un pwynt cyswllt i fod â chyfrifoldeb strategol am ddarpariaeth iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

8.530 O dan opsiwn 1, byddai'r ddarpariaeth bresennol yn parhau. Hynny yw, byddai byrddau iechyd yn parhau i fabwysiadu amrywiol ddulliau o ddatblygu darpariaeth iechyd i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn strategol, ei chydlynu a'i goruchwylio. Yn ogystal, ni fyddai un dull safonol o sicrhau ansawdd perfformiad ac o ysgogi gwasanaethau i wella.

**Costau**

8.531 Ni fu'n bosibl nodi costau datblygu darpariaeth iechyd i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn strategol, ei chydlynu a'i goruchwylio, oherwydd yr amrywiaeth o ddulliau sydd wedi cael eu mabwysiadu gan fyrddau iechyd. Gan fod y rôl yn cael ei chyflawni eisoes, disgwylir mai lleiafswm y costau a nodir yn opsiwn 2 fydd y costau cyfredol. Hynny yw, tua £206,400[250] (gweler paragraff 8.539).

**Manteision**

8.532 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

**Anfanteision**

8.533 Er bod byrddau iechyd yn sicrhau darpariaeth anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd, a oruchwylir ac a gydlynir i ryw raddau, nid oes yna rôl arwain ffurfiol. Nid yw'n cael ei goruchwylio'n gyson nac yn strategol, felly, ledled GIG Cymru, ac nid yw o reidrwydd yn cael blaenoriaeth ar lefel ganolog, strategol. Nid oes un rôl glir wedi'i diffinio ac felly, nid oes yna deitl swydd na chyfres o gyfrifoldebau sy'n gyffredin i bob bwrdd. Ar ben hynny, nid oes un pwynt cyswllt yn aml iawn o fewn byrddau iechyd mewn perthynas â materion anghenion addysgol arbennig. Gallai

[250] Gan gynnwys argostau.

diffyg cydlynu ar gyfer dyletswyddau anghenion addysgol arbennig statudol gynyddu risg hawliadau esgeulustod neu achosi niwed i enw da y byrddau iechyd.

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg.**

8.534 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg. Byddai'n ofynnol i bob bwrdd iechyd benodi swyddog o'r fath.

8.535 Yn ôl pob tebyg, bydd yr unigolyn sy’n cyflawni rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn atebol i’r bwrdd. Bydd y rôl yn hwyluso’r gwaith o ddatblygu fframwaith effeithlon ac effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY, datrys problemau ar lefel leol, cyfeirio materion i’r bwrdd a hwyluso’r broses o fonitro i ba raddau y cydymffurfir â dyletswyddau statudol y bwrdd. Bydd gan y swyddog arweiniol gyfrifoldeb strategol am godi ymwybyddiaeth o’r darpariaethau yn y Bil ac am sefydlu systemau effeithlon i sicrhau bod gan y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud ag asesu ADY (gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, pediatreg gymunedol a gwasanaethau anabledd dysgu, timau gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol) y sgiliau i gynnal asesiadau priodol, amserol; llunio argymhellion, ar sail tystiolaeth, ar gyfer ymyriadau effeithiol; monitro canlyniadau; sicrhau ansawdd cyngor a meincnodi ar draws byrddau iechyd er mwyn cyfyngu ar unrhyw amrywiaeth o ran arfer neu ddisgwyliadau.

8.536 Bydd y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth iechyd bob dydd ar gyfer ADY yn cael ei rheoli a’i chydlynu’n effeithiol. Fodd bynnag, dylid dirprwyo elfennau gweithredol y swyddogaeth hon i weithiwr iechyd proffesiynol sydd mewn cysylltiad â’r plentyn neu’r person ifanc. Byddai’r gweithiwr iechyd proffesiynol yn gweithredu fel ‘cydlynydd iechyd’ ar lefel leol a byddai’n bwynt cyswllt allweddol i blant a phobl ifanc, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol.

8.537 Mae disgwyl y bydd y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â chymwysterau clinigol a phrofiad helaeth mewn agwedd ar ofal iechyd sy'n berthnasol i ADY, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i nyrsio meddygol (gofal sylfaenol neu eilaidd), bydwreigiaeth,

proffesiynau perthynol i iechyd neu iechyd cyhoeddus. Y disgwyl yw y caiff un diwrnod yr wythnos ei neilltuo i'r rôl am bob 200,000 o'r boblogaeth (sy'n cyfateb i un diwrnod yr wythnos am bob 40,000 o blant a phobl ifanc). Y boblogaeth yng Nghymru yw 3,092,000[251], felly byddai hyn yn cyfateb i dair swydd lawnamser[252]. Ar gyfartaledd, byddai gan bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg am tua 2 ddiwrnod yr wythnos.

8.538 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**Cost**

**Byrddau iechyd**

8.539 Gan y gall amryw uwch weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig ymgymryd â'r rôl, bydd y gost o ran cyflog yn dibynnu ar brif rôl yr unigolyn sy'n dod yn swyddog arweiniol. At ddibenion enghreifftiol, cymerer cyflog o tua £68,800[253]. Byddai cyfanswm y gost ar gyfer tri swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg, a benodir ar bwynt canol band 8, yn £206,400 (gan gynnwys argostau).

**Costau gweithredu**

**Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd**

8.540 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio swydd-ddisgrifiad ar gyfer rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg, a gynhwysir yn y cod ADY. Bydd y cod wedi cael ei gwblhau erbyn i'r Bil gael ei weithredu. Felly, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gostau suddedig. Ni fydd costau recriwtio allanol sy'n gysylltiedig â chyflwyno rôl y swyddog arweiniol, gan mai unigolyn sydd eisoes yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol fydd yn ymgymryd â'r rôl, yn ôl pob tebyg.

---

[251] Amcangyfrifon Blynyddol Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth: 2014 http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/2015-06-25

[252] (3,092,000/200,000)/5=3

[253] Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid 2016/2017, pwynt yng nghanol band 8a i fand 8c gan gynnwys argostau (£68,801). Byddai angen recriwtio unigolyn ar lefel band 8 a allai ddarparu'r mewnbwn strategol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

8.541 Yn y tymor byr, bydd gweithgareddau cychwynnol i sicrhau bod y swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig yn ymsefydlu yn effeithiol o fewn y byrddau iechyd. Yn benodol, bydd yna raglen ymsefydlu a hyfforddiant aml-asiantaethol a sefydlu cysylltiadau a pherthnasau gwaith perthnasol o fewn y bwrdd iechyd, a’r tu allan iddo.

8.542 Bydd angen i swyddogion arweiniol, nyrsys ysgol a chydlynwyr iechyd gymryd rhan mewn hyfforddiant aml-asiantaethol ynghylch y disgwyliadau cyffredin sy'n ymwneud â rôl a chyfrifoldebau'r swyddog arweiniol, gan gynnwys y swyddogaethau a ddirprwyir. Caiff y gost o ddatblygu’r hyfforddiant ei thalu o’r £390,000 ar gyfer y costau pontio sy’n gysylltiedig â datblygu sgiliau craidd, codi ymwybyddiaeth a datblygu adnoddau. Caiff y costau gweithredu eu talu drwy gyllid grant Llywodraeth Cymru. Cost drosiannol untro fydd hon. Ni fydd costau i’r byrddau iechyd gan y disgwylir y bydd y swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn dilyn yr hyfforddiant o fewn yr oriau a neilltuir iddynt i ddilyn y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus.

8.543 Bydd sefydlu perthnasau gwaith effeithiol rhwng byrddau iechyd a sefydliadau addysgol yn allweddol, er mwyn cyflwyno rôl newydd y swyddogion arweiniol yn ddidrafferth, ac i sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf ar gyfer y tymor hir. Gan eu bod yn weithwyr iechyd proffesiynol fydd â phrofiad helaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd gan y swyddogion arweiniol gysylltiadau eisoes ag ymarferwyr iechyd eraill. Bydd angen sefydlu a meithrin cysylltiadau â phob swyddog awdurdod lleol perthnasol a staff Sefydliadau Addysg Bellach. Bydd rhaid i'r swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig gysylltu â swyddogion yr awdurdodau lleol sydd o fewn ardal y bwrdd iechyd, yn ogystal â staff o'r rheini ymhlith yr 13 o Sefydliadau Addysg Bellach sydd â chysylltiadau ag ardal y bwrdd iechyd.

8.544 Mae gwaith yn mynd rhagddo i annog sefydlu'r cysylltiadau hyn nawr, cyn y daw'r ddyletswydd statudol ar fyrddau iechyd i rym, drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i gynorthwyo yn ystod y broses bontio[254] a gwaith partneriaid drwy Grŵp Gweithredu Strategol ADY Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y cysylltiadau

[254] Yn benodol, Cronfa Arloesi Llywodraeth Cymru.

wedi cael eu datblygu i raddau helaeth cyn i'r Bil gael ei weithredu. Felly, disgwylir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gostau suddedig[255].

8.545 Yn ogystal, rhagwelir y bydd swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig yn datblygu rhwydwaith cymorth i hwyluso gwaith meincnodi, gwella ansawdd a phrosesau archwilio, a rhannu arferion da. Mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb (rhwng dwywaith a phedair gwaith y flwyddyn ar y dechrau, hyd nes y bydd y gwasanaethau'n ymsefydlu, wedyn bob chwe mis) a chyfarfodydd fideogynadledda neu dros y ffôn er mwyn cyflawni hyn. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ychwanegol ar gyfer teithio fydd tua £330 y flwyddyn[256]. Ni fydd costau staff ychwanegol gan y bydd y rhwydwaith cymorth yn cael ei ddatblygu fel rhan o rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg.

**Manteision**

8.546 Byddai penodi swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg o fewn y byrddau iechyd yn hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd effeithiol, cydgysylltiedig er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc ag ADY, helpu byrddau iechyd i gyflawni eu cyfrifoldebau ADY, a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng byrddau iechyd a'u partneriaid wrth ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY. Byddai'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg hefyd yn sicrhau bod yna strwythur cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chasglu data am ansawdd, deilliannau a pherfformiad gwasanaethau; rheoli cwynion, a hwyluso'r broses o ddatrys gwrthdaro; symleiddio'r system i blant, pobl ifanc, rhieni a phartneriaid drwy ddarparu un pwynt cyswllt o fewn y byrddau iechyd ar gyfer materion ADY. Yn ogystal, dylai penodi swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg sicrhau bod darpariaeth ADY yn flaenoriaeth strategol briodol i fyrddau iechyd. Mae disgwyl i benodiad swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg gynnig manteision i'r dysgwr gan y bydd yn goruchwylio'r broses o sefydlu

[255] Mae hyn yn cynnwys cronfa Arloesi Llywodraeth Cymru o £1,100,000 a ddyfarnwyd i awdurdodau lleol yn 2016-17 i gefnogi datblygiad cysylltiadau a cydweithio (gweler tabl 5).

[256] Yn seiliedig ar gyfarfod y byrddau iechyd lleol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, a fyddai'n golygu teithio tua 730 o filltiroedd. Ar sail cyfradd o 45 o geiniogau y filltir, byddai'r gost i fyrddau iechyd lleol yn £328.50. Mae'r gyfradd o 45 o geiniogau y filltir yn seiliedig ar gytundeb lleol GIG Cymru ar ad-dalu costau teithio, yn weithredol o 1 Ionawr 2015 hyd at 31 Rhagfyr 2017, http://www.wales.nhs.uk/documents/NHSWalesSection17.pdf

ac integreiddio darpariaeth iechyd effeithiol mewn perthynas ag ADY, a thrwy sicrhau gwasanaethau iechyd priodol. Disgwylir y bydd cyflwyno rôl y swyddogion arweiniol hefyd yn hwyluso datblygu safonau ymarfer ar lefel Cymru gyfan drwy rannu'r sylfaen dystiolaeth, barn gyffredin gweithwyr proffesiynol, modelau sydd wedi cael eu gwerthuso, a gwelliannau o ran ansawdd a phrosesau archwilio, gan helpu i sefydlu tegwch cenedlaethol ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol ar draws GIG Cymru waeth beth fo'i lleoliad daearyddol.

8.547 Disgwylir y bydd cyflwyno rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg yn arwain at gydweithio ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, a allai gyfrannu at ganlyniadau gwell ar gyfer plant, gwneud rhieni yn hapusach a lleihau dyblygu gwaith.

**Risgiau**

8.548 Er bod byrddau iechyd yn cyflawni cyfrifoldebau'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg mewn ffordd wasgaredig ar hyn o bryd, ac felly, maent yn adnodd a fyddai'n elwa o gael gwell ffocws a threfn, mae yna risg y gallai cyflwyno'r rôl yn ffurfiol greu costau. Gan fod yr arferion cyfredol yn amrywiol ar draws y byrddau iechyd, ni fu modd amcangyfrif beth fydd y costau ychwanegol hyn, os o gwbl. Felly, nid yw'r gost hon yn hysbys.

8.549 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir gan GIG Cymru arnynt, eisoes yn derbyn y cymorth sydd ei angen. Mae'n bosibl, fodd bynnag, drwy roi ADY ar agenda strategol byrddau iechyd a gwella'r ffordd mae'r GIG yn rheoli swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ADY, y gallai cyflwyno rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg arwain at y darganfyddiad bod mwy o alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Nid yw'n bosibl mesur yr union gynnydd posibl yn y galw ond dylai ystyried rôl y prif swyddog yn gynnar sicrhau bod mesurau yn eu lle i gynllunio ar gyfer unrhyw alw newydd a'i reoli. Felly, nid yw'r gost hon yn hysbys.

8.550 Mae'r niferoedd ychwanegol o bobl 18-24 oed sydd erbyn hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y system ADY yn grŵp newydd o gleientiaid posibl nad ydynt wedi derbyn unrhyw gyfraniad gan GIG o'r blaen o ran cymorth dysgu. Nid yw hyn wedi

cael ei fesur hyd yn hyn, ond ni ddisgwylir y bydd yn cynnwys llawer o ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu nodi cyn 16 oed fel rhai sydd ag ADY.

## Sail statudol dros gydlynwyr y blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol

8.551 Ar hyn o bryd, nid yw’n ofynnol i awdurdodau lleol benodi rôl arweiniol nac un pwynt cyswllt i fod â chyfrifoldeb strategol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

8.552 O dan opsiwn 1, byddai’r dull darparu presennol yn parhau, hynny yw byddai awdurdodau lleol yn parhau i fabwysiadu dulliau amrywiol o gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol.

Costau

8.553 Ni fu’n bosibl cyfrifo cost bresennol cydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol oherwydd yr amrywiaeth yn y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol. Gan fod y rôl eisoes yn cael ei chyflawni, disgwylir i’r costau presennol gyfateb i’r rheini a nodir yn opsiwn 2, hynny yw tua £1,093,400 y flwyddyn (gweler paragraff 8.561).

Manteision

8.554 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

8.555 Er bod awdurdodau lleol yn cydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc sydd o dan oed ysgol gorfodol, nid oes model cyson na rôl arwain ffurfiol. Nid oes un rôl glir wedi’i chreu, ac felly nid oes un teitl swydd na chyfres benodol o gyfrifoldebau. Yn ogystal, yn aml nid oes un pwynt cyswllt o fewn awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant o dan oed ysgol gorfodol. Gallai’r diffyg o ran cydlynu dyletswyddau AAA statudol arwain at honiadau o esgeulustod neu niwed i enw da awdurdodau.

**Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol dynodedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

8.556 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar. Byddai gofyn i bob awdurdod lleol roi'r cyfrifoldeb i un unigolyn (fel yn achos cydlynydd ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach) am gydlynu swyddogaethau awdurdodau lleol o dan y Bil mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt yn mynd i leoliad cyn-ysgol a gynhelir.

8.557 Yn ogystal â chydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn cynnwys:

- Nodi ADY lefel is yn gynnar
- Atal ADY rhag datblygu, hynny yw nodi'r plant y mae yna oedi yn eu datblygiad, a allai droi'n ADY oni bai bod yna ymyriadau cynnar priodol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer
- Sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y sgiliau, y mecanweithiau a'r adnoddau priodol i atal ADY rhag datblygu a chefnogi plant bach sydd ag ADY.

8.558 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Cost reolaidd

**Awdurdodau lleol**

8.559 At ddibenion egluro, defnyddir cyflog o £49,700 i amcangyfrif costau rheolaidd cyflwyno swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar[257]. Amcangyfrifir cost reolaidd o ryw £1,093,400 y flwyddyn, felly, i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn cyflawni'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar, ni fydd hon yn gost reolaidd ychwanegol.

[257] Ar sail cyflog o £38,237 (Graddfa PO4, Colofn Gyflog 43) gyda 30% o argostau (£49,708,10)

Costau gweithredu

**Awdurdodau lleol**

8.560 Fel y mae tabl 62 isod yn ei nodi, amcangyfrifir costau trosglwyddo o £126,700 i awdurdodau lleol mewn perthynas â hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar. Mae'r amcangyfrif o gost hyfforddi swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar yr un model cost ag a ddefnyddir i amcangyfrif costau hyfforddi'r cydlynydd ADY. Hynny yw, cymerir yn ganiataol y caiff swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar eu hyfforddi i lefel meistr ar gost o £3,600 y radd, gyda chyfanswm amcangyfrif cost o £79,200 ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y byddant yn cymryd 10 diwrnod (gyda thâl) i astudio dros y cyfnod dwy flynedd ar amcangyfrif cost o £47,520[258]

Tabl 69: swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar – amcangyfrif cost trosglwyddo 2017-18 i 2020-21

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost y radd | 13,200 | 26,400 | 26,400 | 13,200 | 79,200 |
| Cost diwrnodau hyfforddi | 7,920 | 15,840 | 15,840 | 7,920 | 47,520 |
| **Cyfanswm y costau trosglwyddo** | **21,120** | **42,240** | **42,240** | **21,120** | **126,720** |

Manteision

8.561 Bydd y gofyniad i benodi swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn ehangu'r arfer presennol. O dan opsiwn 2, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol benodi swyddog arweiniol ADY ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

8.562 Bydd creu rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar a sicrhau bod y rôl yn cael ei diffinio'n glir mewn rheoliadau ac yn y cod yn arwain at gysondeb wrth gyflawni'r rôl gydlynu ledled Cymru.

[258] Ar sail cyflog wythnosol o £1,080.43 (cyflog blynyddol o £49,700, 46 wythnos) a chyfradd ddyddiol o £216.09, mae 10 diwrnod yn costio tua £2,160 fesul awdurdod lleol, gyda chyfanswm cost o £47,520 ar draws y 22 awdurdod lleol.

8.563 Bydd hyfforddiant penodol ar gyfer swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn ei gwneud yn bosibl iddynt gyflawni cyfrifoldebau’r rôl yn effeithiol.

8.564 Bydd swyddog arweiniol ADY cymwys ar gyfer y blynyddoedd cynnar hefyd yn helpu i nodi problemau ac ymyrryd yn gynnar, gan helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol i blant, gan gynnwys atal oedi mewn datblygiad rhag troi’n angen dysgu ychwanegol.

Anfanteision

8.565 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag Opsiwn 2.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg

8.566 O dan y system newydd, lle bydd CDU yn darparu bod math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

8.567 Yn ogystal, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'n rheolaidd eu trefniadau a threfniadau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ardal eu hawdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn ddigonol i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.568 Er y bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r graddau y mae eu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg yn bodloni'r galw ar lefel awdurdod, nid oes unrhyw drefniadau ar hyn o bryd i adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y cyflenwir y galw. Nid ydym yn gwybod felly i ba raddau y mae'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg yn cael ei fodloni ledled Cymru.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

8.569 O dan opsiwn 1, byddai'r arfer presennol yn parhau, hynny yw ni fydd yn ofynnol adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y cyflenwir y galw.

Costau

8.570 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Manteision

8.571 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

8.572 Ni chaiff y graddau y bodlonir y galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ledled Cymru ei asesu fel mater o drefn, ac felly ni fydd yn hysbys. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i wneud penderfyniadau polisi deallus ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg.

**Opsiwn 2: cyflwyno gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg**

8.573 O dan opsiwn 2, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ba raddau y cyflenwir y galw. Byddai gofyn i adolygiad o'r fath gael ei gynnal unwaith bob 5 mlynedd.

Cost reolaidd

Awdurdodau lleol

8.574 Ni fydd unrhyw gostau i awdurdodau lleol. O dan y system newydd, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu'r data a ddefnyddir fel sylfaen ar gyfer y gwaith o adolygu'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, ac i ba raddau y cyflenwir y galw.

Llywodraeth Cymru

8.575 Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tri diwrnod i swyddogion Llywodraeth Cymru lunio adolygiad o'r galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, ac i ba raddau y cyflenwir y galw.

8.576 A chymryd bod yr adolygiad yn cael ei ddrafftio gan uwch swyddog gweithredol, byddai'r gwaith drafftio yn costio tua £720[259]. Tua £140 fyddai'r costau bob blwyddyn, felly.

Manteision

8.577 Cyflwyno gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu i ba raddau y bydd y galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hwyluso'r ffordd i wneud penderfyniadau polisi deallus am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

---

[259] Ar sail cyflog cyfartalog SEO yn 2016-17, sef £55,248, gan gynnwys argostau, costau wythnosol o £1,201.04 (46 wythnos) a chyfradd ddyddiol o £240.21. Cyfanswm cost o £720.63.

Anfanteision

8.578 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Pwerau penderfynu ynghylch anghytundebau am gynnal cynlluniau

8.579 Ar hyn o bryd, daw cyfrifoldeb awdurdod lleol am ddatblygu a chynnal datganiad person ifanc i ben pan fydd y person ifanc yn gadael yr ysgol.

8.580 Lle bydd person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynd ymlaen i addysg bellach, bydd y sefydliad addysg bellach yn datblygu cynllun coleg ar ei gyfer.

8.581 O dan y system newydd, bydd CDUau yn dilyn y person ifanc o'r ysgol i addysg bellach. Bydd cyfrifoldeb am CDUau a gynhelir gan ysgolion yn trosglwyddo o'r ysgol i'r sefydliad addysg bellach pan fydd y person ifanc yn dechrau ar ei addysg bellach. Ar hyn o bryd, mae 8,905 o bobl ifanc sydd ag anhawster a/neu anabledd dysgu yn mynychu sefydliadau addysg bellach. Mae'n debygol mai cynllun addysg unigol sydd gan y bobl ifanc hyn yn hytrach na datganiad ac, felly, mae'n debygol y cânt gynllun a gynhelir gan y coleg o dan y system newydd.

8.582 Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am rai CDUau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal CDUau y 298 o bobl ifanc sy'n mynychu colegau arbenigol annibynnol a chyfran o CDUau y 120 o bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Nid yw'n bosibl nodi union nifer y bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Y rheswm am hyn yw nad yw nifer y bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach ac a oedd â datganiad yn yr ysgol yn hysbys. Mae'n bosibl bod gan rhwng 0 a 120 ddatganiad ac, felly, â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi cyrraedd addysg bellach. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rhagdybir bod awdurdodau lleol yn cynnal nifer canol ystod o 60 CDU.

8.583 O dan y system newydd, mae'n bosibl i awdurdodau lleol ofyn i sefydliad addysg bellach ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal cynllun. Byddai hyn yn digwydd mewn amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod modd i'r sefydliad addysg bellach fodloni'n rhesymol anghenion y person ifanc. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r sefydliad addysg bellach gytuno i gais gan yr awdurdod lleol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Gan na all

awdurdodau lleol ymwrthod â'u cyfrifoldeb am gynnal CDU hyd nes i'r sefydliad addysg bellach dderbyn y cyfrifoldeb am ei gynnal, gallai awdurdodau lleol barhau i orfod cynnal y CDUau er nad yw hynny'n briodol.

**Opsiwn 1: gwneud dim**

8.584 O dan opsiwn 1, lle bo sefydliad addysg bellach yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb am gynnal CDU myfyriwr sy'n cofrestru yn y sefydliad, y mae'r awdurdod lleol o'r farn y byddai'n briodol i'r sefydliad addysg bellach ei gynnal, byddai'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gynnal y CDU.

Cost

8.585 Ni fu'n bosibl cyfrifo cost opsiwn gwneud dim. Mae yna 120 o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Amcangyfrifir y bydd 60 CDU yn cael eu cynnal gan awdurdod lleol a 60 gan sefydliad addysg bellach. Mae yna botensial am anghytundeb ynghylch cyfran o'r 60 CDU yr amcangyfrifir y bydd sefydliadau addysg bellach yn gyfrifol am eu cynnal. Gan nad yw'n hysbys sawl anghytundeb a fydd yn codi, nid yw'n bosibl amcangyfrif nifer y CDUau y gallai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol eu cynnal er nad yw'n briodol i'r awdurdod lleol wneud hynny. Nid yw'n bosibl amcangyfrif cost opsiwn 1, felly.

Manteision

8.586 Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Anfanteision

8.587 O dan opsiwn 1, mae yna risg bod awdurdodau lleol yn cynnal CDUau sy'n amhriodol iddynt eu cynnal. Byddai hyn yn gosod baich a chost diangen ar awdurdodau lleol ac yn tanseilio effeithiolrwydd y system o ran rhoi'r cyfrifoldeb am gynnal cynlluniau i'r corff priodol, boed yn ysgol, yn sefydliad addysg bellach neu'n awdurdod lleol.

**Opsiwn 2: cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU**

8.588 Byddai opsiwn 2 yn cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU. Câi'r pŵer hwn ei ddefnyddio mewn achosion lle na all awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach gytuno ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU.

8.589 Lle bydd sefydliad addysg bellach yn gwrthod cais gan awdurdod lleol i dderbyn cyfrifoldeb am gynnal CDU, byddai'r awdurdod lleol yn gallu cyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru benderfynu yn ei gylch.

Cost

8.590 Ni fu'n bosibl amcangyfrif cost cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU. Mae yna 120 o bobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Amcangyfrifir y bydd 60 CDU yn cael eu cynnal gan awdurdod lleol a 60 gan sefydliad addysg bellach. Mae yna botensial am anghytundeb ynghylch cyfran o'r 60 CDU yr amcangyfrifir y bydd sefydliadau addysg bellach yn gyfrifol am eu cynnal. Gan nad yw'n hysbys sawl anghytundeb a fydd yn codi, nid yw'n bosibl amcangyfrif sawl gwaith y gofynnir i'r Gweinidogion ddod i benderfyniad. Nid yw cost opsiwn 2 yn hysbys, felly.

Manteision

8.591 Mae opsiwn 2 yn darparu ffordd o ddatrys anghytundebau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynnal CDU. Gallai hyn leihau, felly, unrhyw faich diangen ar awdurdodau lleol o ran cynnal CDUau.

Anfanteision

8.592 Nid oes unrhyw anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

## Crynodeb o gost a manteision cyflwyno'r opsiynau a ffefrir dros gyfnod o bedair blynedd

8.593 Mae Tablau 70 a 71 isod yn nodi amcangyfrif o gostau bras yr opsiynau gwneud dim a’r opsiynau a ffefrir dros gyfnod o bedair blynedd, yn ôl opsiwn a grŵp.

8.594 Mae’r tablau yn cyflwyno cost opsiwn 2 wedi’i haddasu, lle bo’n berthnasol, i ymgorffori’r cynnydd neu’r gostyngiad a amcangyfrifir yng nghost canol yr ystod. Mae Tabl 45, er enghraifft, yn nodi’r gost a amcangyfrifir ar gyfer opsiynau 1 a 2, ynghyd â’r gost a amcangyfrifir ar gyfer opsiwn 2 ar ôl iddi gael ei haddasu i ystyried y gostyngiad yng nghost canol yr ystod. Er enghraifft, yn hytrach na defnyddio’r gost a amcangyfrifir i wasanaethau addysg awdurdodau lleol, sef £13,594,980 y flwyddyn, addaswyd y gost i £14,423,265, sy’n lleihau’r arbediad posibl o £1,515,970 i £687,685 y flwyddyn (gweler Tabl 45). Defnyddir cost o £14,423,265 y flwyddyn yn y tabl cryno. Gwneir hyn er mwyn osgoi gorddatgan unrhyw arbedion posibl.

**Costau rheolaidd o ran gweinyddu cyhoeddus**

8.595 Yn gyffredinol, mae’r asesiad effaith rheoleiddiol yn awgrymu y gallai fod yna gost ychwanegol o £7,154,860 dros y cyfnod pedair blynedd o 2017-18 i 2020-2021, ar ôl ystyried yr holl gostau gweinyddu cyhoeddus (costau rheolaidd a chostau pontio). Mae hon yn gost ychwanegol o tua £1,788,715 y flwyddyn.

8.596 Mae yna bosibilrwydd y gallai darpariaethau'r bil olygu arbedion cost rheolaidd o £4,500,300 o ran gweinyddu cyhoeddus dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21. Yr arbedion bob blwyddyn o 2017-18 fyddai tua £1,125,075. Fel y nodwyd uchod, mae risgiau'n gysylltiedig â’r graddau y bydd yr arbedion posibl hyn yn cael eu gwireddu.

8.597 Disgwylir i'r arbedion gael eu gwireddu drwy ddarpariaethau yn y bil sy'n ceisio dileu natur wrthwynebol y broses ar gyfer datganiadau.

8.598 Yn ogystal â chydnabod yr arbedion a allai fod yn bosibl o ganlyniad i gyflwyno'r opsiynau a ffefrir, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hefyd yn cydnabod na

wyddom i ba raddau y bydd yr arbedion hyn yn cael eu gwireddu. Felly, defnyddiwyd canol yr ystod wrth gyfrif yr arbedion er mwyn osgoi eu gorddatgan.

8.599 Hefyd, lle nad oedd yn bosibl nodi'r arbedion posibl oherwydd yr amrywiaeth o arferion sy'n debygol o gael eu rhoi ar waith wrth weithredu darpariaethau'r bil, nodir arbedion enghreifftiol yn y testun ond nid yn y tabl crynhoi. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr arbedion y gellid eu gwireddu drwy gyflwyno gofyniad i osgoi a datrys anghytundebau. Er yr amcangyfrifwyd y gallai fod arbedion i TAAAC, er enghraifft, pe bai gweithwyr cymorth i deuluoedd â phlentyn ag ADY yn cael eu sefydlu ar draws Cymru mewn ymateb i'r gofyniad i osgoi anghytundebau, nid yw'r bil yn argymell arferion penodol. Felly, ni wyddom a fydd y gostyngiad o 38 apêl y flwyddyn yn cael ei wireddu. Yn sgil hyn, ystyriwyd bod yr arbedion posibl o £60,800 y flwyddyn yn enghreifftiol ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl sy'n crynhoi'r costau.

8.600 Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn awgrymu y bydd awdurdodau lleol yn arbed tua £2,750,740 mewn costau rheolaidd dros y cyfnod o bedair blynedd. Amcangyfrifir arbedion o £687,685 y flwyddyn o 2017-18, sy'n £31,258 ar gyfartaledd fesul awdurdod lleol bob blwyddyn. Disgwylir i'r arbedion hyn gael eu gwireddu drwy leihau natur ddadleuol y system bresennol a hynny drwy ddileu'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau statudol a chynlluniau anstatudol ac felly'r costau cysylltiedig ar gyfer darparu gwasanaethau datrys anghydfod, ynghyd â'r gost o ymateb i anghytundebau ac apelau.

8.601 Mae disgwyl i Gyrfa Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, arbed £1,954,400 dros y cyfnod o bedair blynedd. Rhyw £488,600 fydd yn cael ei arbed bob blwyddyn o 2017-18. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy ddileu'r gofyniad i gynnal asesiadau adran 140 a hefyd dileu'r angen i wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol. Fel y nodwyd yn Nhabl 5 uchod, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu Gyrfa Cymru yn 2018-19 a 2019-20.

8.602 Mae'n bosibl y gallai TAAAC arbed tua £61,200 o ran costau rheolaidd dros y cyfnod o bedair blynedd, sef £15,300 bob blwyddyn o 2017-18. Mae hyn yn

dibynnu ar y darpariaethau i leihau natur wrthwynebol y system a fydd yn arwain at lai o apelau. Mae'r risgiau a allai achosi i'r arbedion beidio â chael eu gwireddu wedi'u trafod yn fanwl uchod.

8.603 Disgwylir y bydd rhai sefydliadau yn ysgwyddo costau ychwanegol rheolaidd pan fydd y darpariaethau'n cael eu gweithredu. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau addysg bellach a allai weld cynnydd o £92,800 yn eu costau rheolaidd dros y cyfnod o bedair blynedd. Y gost ychwanegol reolaidd o 2017-18 fydd rhyw £23,200 y flwyddyn. Mae hyn yn gost reolaidd gyfartalog o tua £1,800 bob blwyddyn ar gyfer pob un o'r 13 sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Disgwylir i'r gost hon godi yn sgil y ddarpariaeth i ehangu cwmpas Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) er mwyn cynnwys pobl ifanc mewn addysg bellach hyd at 25 oed. Bydd hyn yn golygu bod sefydliadau addysg bellach yn cael cyfrifoldeb ychwanegol, sef adolygu CDUau ac ymateb i unrhyw anghytundebau a allai godi. Y gost a amcangyfrifwyd yw'r uchafswm sy’n bosibl oherwydd bod gan sefydliadau addysg bellach gynlluniau eu hunain ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Ni wyddom beth yw'r gost bresennol ar gyfer cynnal y cynlluniau hyn, ac felly nid oedd modd ei thynnu o'r costau a ddisgwylir ar gyfer ehangu cwmpas y CDUau i gynnwys pobl ifanc ag ADY mewn sefydliadau addysg bellach hyd at 25 oed. Yn sgil hyn, ni ragwelir y bydd y gost bosibl yn cael ei gwireddu'n llawn.

8.604 Mae disgwyl i Estyn ysgwyddo costau rheolaidd ychwanegol o £172,000 dros y cyfnod o bedair blynedd. Amcangyfrifir mai’r gost ychwanegol o 2017-18 fydd rhyw £43,000 y flwyddyn. Daw'r gost hon o ganlyniad i gynnydd disgwyliedig yn nifer yr ysgolion annibynnol y bydd Estyn yn gyfrifol am eu monitro.

**Costau pontio o ran gweinyddu cyhoeddus**

8.605 Amcangyfrifir mai £11,655,160 fydd cyfanswm y gost o weithredu'r Bil. Costau pontio Llywodraeth Cymru yw £1,972,510, a bydd y costau pontio sy’n weddill, sef £9,682,650, yn cael eu hysgwyddo gan naw corff sector cyhoeddus (gweler Tablau 70 a 71). Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid grant i sefydliadau yn y sector cyhoeddus dros y cyfnod o bedair blynedd i'w helpu i weithredu'r bil.

8.606 Bydd y rhan fwyaf o'r costau gweithredu'n deillio o'r gofyniad i ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion a sefydliadau addysg bellach gyflogi Cydlynydd ADY sydd â chymhwyster ôl-radd priodol. Amcangyfrifir mai'r gost er mwyn i'r Cydlynwyr ADY presennol ennill cymhwyster lefel meistr yw £9,255,320.

8.607 Mae disgwyl i'r costau gweithredu sy'n weddill, sef £427,330, ddeillio o weithredu darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Unigol, swyddogion arweiniol clinigol addysg dynodedig, cofrestru ysgolion annibynnol a’r ddarpariaeth addysgol arbennig ôl-16.

**Costau i rieni, ysgolion annibynnol a darparwyr gwasanaethau datrys anghydfod**

8.608 Yn gyffredinol, mae'n bosibl y gallai rhieni arbed tua £3,329,500 dros y cyfnod o bedair blynedd (gweler Tabl 72). Amcangyfrifir arbedion o £832,375 y flwyddyn. Mae hyn yn dibynnu ar y darpariaethau i leihau natur wrthwynebol y system a fydd yn lleihau nifer yr anghytundebau a'r apelau.

8.609 Amcangyfrifir costau ychwanegol o £17,300 i ysgolion annibynnol dros y pedair blynedd. Mae hyn yn cynnwys costau pontio o £2,100 a chostau rheolaidd o £15,200. Y gost ychwanegol o 2017-18 fydd £3,800 y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn yn gysylltiedig â'r darpariaethau sy'n newid y broses o gofrestru ysgolion annibynnol.

Amcangyfrifir y gallai darparwyr gwasanaethau arbed £293,840 dros y cyfnod pedair blynedd. Amcangyfrifir arbediad o £73,460 y flwyddyn o 2017-18.

Tabl 70: cost y bil yn ôl darpariaeth, 2016-17 i 2020-21

| | **Tabl** | **2016-17** | | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwneud dim** | | **Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir** | | | | | |
| | | (£) | Cyfanswm 4 blynedd – gwneud dim | (£) | (£) | (£) | (£) | Cyfanswm 4 blynedd – yr opsiwn a ffefrir | Gwahaniaeth o ran cost |
| **Cynlluniau datblygu unigol** | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | Tabl 45 | **15,110,950** | **60,443,800** | **14,423,265** | **14,423,265** | **14,423,265** | **14,423,265** | **57,693,060** | **-2,750,740** |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | Tabl 46 | | | **18,200** | **0** | **0** | **0** | **18,200** | **18,200** |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | Tabl 45 | **489,900** | **1,959,600** | **489,900** | **489,900** | **489,900** | **489,900** | **1,959,600** | **0** |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | Tabl 46 | | | **118,700** | **0** | **0** | **0** | **118,700** | **118,700** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion y brif ffrwd** | Tabl 45 | **8,074,700** | **32,298,800** | **8,074,700** | **8,074,700** | **8,074,700** | **8,074,700** | **32,298,800** | **0** |
| **Ysgolion arbennig** | Tabl 45 | **938,700** | **3,754,800** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **3,754,800** | **0** |
| **Byrddau iechyd lleol** | Tabl 45 | **2,911,700** | **11,646,800** | **2,911,700** | **2,911,700** | **2,911,700** | **2,911,700** | **11,646,800** | **0** |
| **Gyrfa Cymru** | Tabl 45 | **629,500** | **2,518,000** | **274,800** | **274,800** | **274,800** | **274,800** | **1,099,200** | **-1,418,800** |
| **TAAAC** | Tabl 45 | **152,000** | **608,000** | **136,700** | **136,700** | **136,700** | **136,700** | **546,800** | **-61,200** |
| **TAAAC** | Tabl 45 | | | **100,900** | **0** | **0** | **0** | **100,900** | **100,900** |
| **Sefydliadau Addysg Bellach** | Tabl 45 | **229,400** | **917,600** | **252,600** | **252,600** | **252,600** | **252,600** | **1,010,400** | **92,800** |
| **Cynlluniau datblygu unigol – costau rheolaidd** | | **28,536,850** | **114,147,400** | **27,502,365** | **27,502,365** | **27,502,365** | **27,502,365** | **110,009,460** | **-4,137,940** |
| **Cynlluniau datblygu unigol – cost bontio** | | | | **237,800** | **0** | **0** | **0** | **237,800** | **237,800** |
| **Datrys anghydfodau** | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau addysg** | Tabl 52 | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **awdurdodau lleol** | | | | | | | | | |
| **Datrys anghydfodau – costau rheolaidd** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Datrys anghydfodau – cost bontio** | | | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | Tabl 59 | **0** | **0** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **49,762,812** | **49,762,812** |
| **Gwasanaeth addysg awdurdodau lleol – trosglwyddiad Llywodraeth Cymru** | Tabl 59 | **0** | **0** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-49,762,812** | **-49,762,812** |
| **Gyrfa Cymru** | Tabl 59 | **133,900** | **535,600** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **-535,600** |
| **Llywodraeth Cymru** | Tabl 59 | **12,440,703** | **49,762,812** | **280** | **280** | **280** | **280** | **1,120** | **-49,761,692** |
| **Llywodraeth Cymru - trosglwyddiad i wasanaethau addysg** | Tabl 59 | **0** | **0** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **49,762,812** | **49,762,812** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **awdurdodau lleol** | | | | | | | | | |
| **Byrddau iechyd lleol** | Tabl 59 | **903,893** | **3,615,572** | **903,893** | **903,893** | **903,893** | **903,893** | **3,615,572** | **0** |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | Tabl 59 | **5,722,538** | **22,890,152** | **5,722,538** | **5,722,538** | **5,722,538** | **5,722,538** | **22,890,152** | **0** |
| **Estyn** | Tabl 59 | **48,700** | **194,800** | **48,700** | **48,700** | **48,700** | **48,700** | **194,800** | **0** |
| **Estyn** | Tabl 59 | | | **9,200** | **0** | **0** | **0** | **9,200** | **9,200** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 – costau rheolaidd** | | **19,249,734** | **76,998,936** | **19,116,114** | **19,116,114** | **19,116,114** | **19,116,114** | **76,464,456** | **-534,480** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 – cost bontio** | | | | **9,200** | **0** | **0** | **0** | **9,200** | **9,200** |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol** | | | | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | Tabl 60 a Tabl 65 | **185** | **740** | **75** | **75** | **75** | **75** | **300** | **-440** |
| **Estyn** | Tabl 60 a Tabl 61 | **414,550** | **1,658,200** | **457,550** | **457,550** | **457,550** | **457,550** | **1,830,200** | **172,000** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Estyn** | Tabl 64 | | | **53,300** | **0** | **0** | **0** | **53,300** | **53,300** |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | Tabl 62 | **360** | **1,440** | **360** | **360** | **360** | **360** | **1,440** | **0** |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol – costau rheolaidd** | | **415,095** | **1,660,380** | **457,985** | **457,985** | **457,985** | **457,985** | **1,831,940** | **171,560** |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol – cost bontio** | | | | **53,300** | **0** | **0** | **0** | **53,300** | **53,300** |
| **Cydlynydd ADY** | | | | | | | | | |
| **Ysgolion prif ffrwd – costau rheolaidd** | Table 67 | **65,291,700** | **261,166,800** | **65,291,700** | **65,291,700** | **65,291,700** | **65,291,700** | **261,166,800** | **0** |
| **Ysgolion prif ffrwd – costau pontio** | Tabl 68 | | | **1,503,170** | **3,006,340** | **3,006,340** | **1,503,170** | **9,019,020** | **9,019,020** |
| **Unedau Cyfeirio Disgyblion – costau rheolaidd** | Tabl 67 | **1,217,900** | **4,871,600** | **1,217,900** | **1,217,900** | **1,217,900** | **1,217,900** | **4,871,600** | **0** |
| **Unedau Cyfeirio Disgyblion - costau pontio** | | | | **27,207** | **54,413** | **54,413** | **27,207** | **163,240** | **163,240** |
| **Sefydliadau Addysg Bellach – costau rheolaidd** | Tabl 67 | **513,100** | **2,052,400** | **513,100** | **513,100** | **513,100** | **513,100** | **2,052,400** | **0** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau Addysg Bellach – costau pontio** | Tabl 68 | | | **12,177** | **24,353** | **24,353** | **12,177** | **73,060** | **73,060** |
| **Cydlynydd ADY – cyfanswm y costau rheolaidd** | | **67,022,700** | **268,090,800** | **67,022,700** | **67,022,700** | **67,022,700** | **67,022,700** | **268,090,800** | **0** |
| **Cydlynydd ADY – cyfanswm y costau pontio** | Tabl 68 | | | **1,542,554** | **3,085,106** | **3,085,106** | **1,542,554** | **9,255,320** | **9,255,320** |
| **Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg** | | | | | | | | | |
| **Byrddau iechyd lleol** | Gweler paragraff 8.540 | **206,400** | **825,600** | **206,400** | **206,400** | **206,400** | **206,400** | **825,600** | **825,600** |
| **Byrddau iechyd lleol** | | | | **330** | **0** | **0** | **0** | **330** | **330** |
| **Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig – costau rheolaidd** | | **206,400** | **825,600** | **206,400** | **206,400** | **206,400** | **206,400** | **825,600** | **825,600** |
| **Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg – cost bontio** | Gweler paragraff 8.559 | | | **330** | **0** | **0** | **0** | **330** | **330** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar** | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol – costau rheolaidd** | | **1,093,400** | **4,373,600** | **1,093,400** | **1,093,400** | **1,093,400** | **1,093,400** | **4,373,600** | **0** |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol – costau pontio** | | | | **126,700** | **0** | **0** | **0** | **126,700** | **126,700** |
| **Swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar – costau rheolaidd** | | **1,093,400** | **4,373,600** | **1,093,400** | **1,093,400** | **1,093,400** | **1,093,400** | **4,373,600** | **0** |
| **Swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar – costau pontio** | | | | **126,700** | **0** | **0** | **0** | **126,700** | **126,700** |
| **Adolygu'r ddarpariaeth ADY drwy'r Gymraeg** | | | | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru – costau rheolaidd** | | **0** | **0** | **140** | **140** | **140** | **140** | **560** | **560** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygu'r ddarpariaeth ADY drwy'r Gymraeg – costau rheolaidd** | | **0** | **0** | **140** | **140** | **140** | **140** | **560** | **560** |
| **Cyfanswm y costau rheolaidd** | | **116,524,179** | **466,096,716** | **115,399,104** | **115,399,104** | **115,399,104** | **115,399,104** | **461,596,416** | **-4,500,300** |
| **Costau pontio Llywodraeth Cymru - costau** | Tabl 5 | | | **497,510** | **757,300** | **612,700** | **105,000** | **1,972,510** | **1,972,510** |
| **Cyfanswm y costau pontio** | | | | **2,467,394** | **3,842,406** | **3,697,806** | **1,647,554** | **11,655,160** | **11,655,160** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM COSTAU CYFFREDINOL** | | **116,524,179** | **466,096,716** | **117,866,498** | **119,241,510** | **119,096,910** | **117,046,658** | **473,251,576** | **7,154,860** |

**Tabl 71: cost y bil yn ôl sefydliad, 2016-17 i 2020-21**

| | 2016-17 | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwneud dim | | Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir | | | | | |
| | (£) | Cyfanswm 4 blynedd – gwneud dim | (£) | (£) | (£) | (£) | Cyfanswm 4 blynedd – yr opsiwn a ffefrir | Gwahaniaeth o ran cost |
| **Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | | | | | | | | |
| **Cynlluniau datblygu unigol** | **15,110,950** | **60,443,800** | **14,423,265** | **14,423,265** | **14,423,265** | **14,423,265** | **57,693,060** | **-2,750,740** |
| **Cost bontio** | | | **18,200** | **0** | **0** | **0** | **18,200** | **18,200** |
| **Datrys anghydfodau** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | **0** | **0** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **12,440,703** | **49,762,812** | **49,762,812** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 – trosglwyddiad Llywodraeth Cymru** | **0** | **0** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-12,440,703** | **-49,762,812** | **-49,762,812** |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol** | **360** | **1,440** | **360** | **360** | **360** | **360** | **1,440** | **0** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar** | 1,093,400 | 4,373,600 | 1,093,400 | 1,093,400 | 1,093,400 | 1,093,400 | 4,373,600 | 0 |
| **Swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar – cost bontio** | | | 126,700 | 0 | 0 | 0 | 126,700 | 126,700 |
| **Cyfanswm costau rheolaidd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | **16,204,710** | **64,818,840** | **15,517,025** | **15,517,025** | **15,517,025** | **15,517,025** | **62,068,100** | **-2,750,740** |
| **Cyfanswm costau pontio gwasanaethau addysg awdurdodau lleol** | | | 144,900 | 0 | 0 | 0 | 144,900 | 144,900 |
| **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | | | | | | | | |
| **Cynlluniau datblygu unigol** | **489,900** | **1,959,600** | **489,900** | **489,900** | **489,900** | **489,900** | **1,959,600** | **0** |
| **Costau pontio** | | | **118,700** | **0** | **0** | **0** | **118,700** | **118,700** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | **5,722,538** | **22,890,152** | **5,722,538** | **5,722,538** | **5,722,538** | **5,722,538** | **22,890,152** | **0** |
| **Cyfanswm costau rheolaidd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | **6,212,438** | **24,849,752** | **6,212,438** | **6,212,438** | **6,212,438** | **6,212,438** | **24,849,752** | **0** |
| **Cyfanswm costau pontio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** | | | **118,700** | **0** | **0** | **0** | **118,700** | **118,700** |
| **Ysgolion prif ffrwd** | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau datblygu unigol** | **8,074,700** | **32,298,800** | **8,074,700** | **8,074,700** | **8,074,700** | **8,074,700** | **32,298,800** | **0** |
| **Cydlynydd ADY – costau rheolaidd** | **65,291,700** | **261,166,800** | **65,291,700** | **65,291,700** | **65,291,700** | **65,291,700** | **261,166,800** | **0** |
| **Cydlynydd ADY – costau pontio** | | | **1,503,170** | **3,006,340** | **3,006,340** | **1,503,170** | **9,019,020** | **9,019,020** |
| **Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg – costau rheolaidd** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm costau rheolaidd ysgolion prif ffrwd** | **73,366,400** | **293,465,600** | **73,366,400** | **73,366,400** | **73,366,400** | **73,366,400** | **293,465,600** | **0** |
| **Cyfanswm costau pontio ysgolion prif ffrwd** | | | **1,503,170** | **3,006,340** | **3,006,340** | **1,503,170** | **9,019,020** | **9,019,020** |
| **Ysgolion arbennig** | | | | | | | | |
| **Cynlluniau datblygu unigol** | **938,700** | **3,754,800** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **3,754,800** | **0** |
| **Cyfanswm – costau rheolaidd** | **938,700** | **3,754,800** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **938,700** | **3,754,800** | **0** |
| **Cyfanswm – costau pontio** | | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Byrddau iechyd** | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau datblygu unigol | 2,911,700 | 11,646,800 | 2,911,700 | 2,911,700 | 2,911,700 | 2,911,700 | 11,646,800 | 0 |
| Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 | 903,893 | 3,615,572 | 903,893 | 903,893 | 903,893 | 903,893 | 3,615,572 | 0 |
| Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg – costau rheolaidd | 206,400 | 825,600 | 206,400 | 206,400 | 206,400 | 206,400 | 825,600 | 0 |
| Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg – costau pontio | | | 330 | 0 | 0 | 0 | 330 | 330 |
| Cyfanswm byrddau iechyd – costau rheolaidd | 4,021,993 | 16,087,972 | 4,021,993 | 4,021,993 | 4,021,993 | 4,021,993 | 16,087,972 | 0 |
| Cyfanswm byrddau iechyd – costau pontio | | | 330 | 0 | 0 | 0 | 330 | 330 |
| Gyrfa Cymru | | | | | | | | |
| Cynlluniau datblygu unigol | 629,500 | 2,518,000 | 274,800 | 274,800 | 274,800 | 274,800 | 1,099,200 | -1,418,800 |
| Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 | 133,900 | 535,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -535,600 |
| Cyfanswm byrddau iechyd – costau rheolaidd | 763,400 | 3,053,600 | 274,800 | 274,800 | 274,800 | 274,800 | 1,099,200 | -1,954,400 |
| Cyfanswm costau pontio Gyrfa Cymru | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| TAAAC | | | | | | | | |
| Cynlluniau datblygu unigol | 152,000 | 608,000 | 136,700 | 136,700 | 136,700 | 136,700 | 546,800 | -61,200 |
| Cyfanswm costau rheolaidd TAAAC | 152,000 | 608,000 | 136,700 | 136,700 | 136,700 | 136,700 | 546,800 | -61,200 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau datblygu unigol** | | | **100,900** | | | | **100,900** | **100,900** |
| **Cyfanswm costau pontio TAAAC** | | | **100,900** | **0** | **0** | **0** | **100,900** | **100,900** |
| **Sefydliadau addysg bellach** | | | | | | | | |
| **Cynlluniau datblygu unigol** | **229,400** | **917,600** | **252,600** | **252,600** | **252,600** | **252,600** | **1,010,400** | **92,800** |
| **Datrys anghydfodau** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cydlynydd ADY – costau rheolaidd** | **513,100** | **2,052,400** | **513,100** | **513,100** | **513,100** | **513,100** | **2,052,400** | **0** |
| **Cydlynydd ADY – costau pontio** | | | **12,177** | **24,353** | **24,353** | **12,177** | **73,060** | **73,060** |
| **Cyfanswm costau rheolaidd sefydliadau addysg bellach** | **742,500** | **2,970,000** | **765,700** | **765,700** | **765,700** | **765,700** | **3,062,800** | **92,800** |
| **Cyfanswm costau pontio sefydliadau addysg bellach** | | | **12,177** | **24,353** | **24,353** | **12,177** | **73,060** | **73,060** |
| **Estyn** | | | | | | | | |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | **48,700** | **194,800** | **48,700** | **48,700** | **48,700** | **48,700** | **194,800** | **0** |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 – costau pontio** | | | **9,200** | **0** | **0** | **0** | **9,200** | **9,200** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cofrestru ysgolion annibynnol – costau rheolaidd** | 414,550 | 1,658,200 | 457,550 | 457,550 | 457,550 | 457,550 | 1,830,200 | 172,000 |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol – costau pontio** | | | 53,300 | 0 | 0 | 0 | 53,300 | 53,300 |
| **Cyfanswm costau rheolaidd Estyn** | **463,250** | **1,853,000** | **506,250** | **506,250** | **506,250** | **506,250** | **2,025,000** | **172,000** |
| **Cyfanswm costau pontio Estyn** | | | **62,500** | **0** | **0** | **0** | **62,500** | **62,500** |
| **Unedau Cyfeirio Disgyblion** | | | | | | | | |
| **Cydlynydd ADY – costau rheolaidd** | 1,217,900 | 4,871,600 | 1,217,900 | 1,217,900 | 1,217,900 | 1,217,900 | 4,871,600 | 0 |
| **Cydlynydd ADY – costau pontio** | | | 27,207 | 54,413 | 54,413 | 27,207 | 163,240 | 163,240 |
| **Cyfanswm costau rheolaidd sefydliadau addysg bellach** | **1,217,900** | **4,871,600** | **1,217,900** | **1,217,900** | **1,217,900** | **1,217,900** | **4,871,600** | **0** |
| **Cyfanswm Unedau Cyfeirio Disgyblion – costau pontio** | | | **27,207** | **54,413** | **54,413** | **27,207** | **163,240** | **163,240** |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16** | 12,440,703 | 49,762,812 | 280 | 280 | 280 | 280 | 1,120 | -49,761,692 |
| **Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16 – trosglwyddiad i wasanaethau addysg awdurdodau lleol** | 0 | 0 | 12,440,703 | 12,440,703 | 12,440,703 | 12,440,703 | 49,762,812 | 49,762,812 |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol** | 185 | 740 | 75 | 75 | 75 | 75 | 300 | -440 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygu darpariaeth ADY drwy'r Gymraeg – costau rheolaidd** | **0** | **0** | **140** | **140** | **140** | **140** | **560** | **560** |
| **Costau pontio Llywodraeth Cymru – costau** | | | **497,510** | **757,300** | **612,700** | **105,000** | **1,972,510** | **1,972,510** |
| **Cyfanswm costau rheolaidd Llywodraeth Cymru** | **12,440,888** | **49,763,552** | **12,441,198** | **12,441,198** | **12,441,198** | **12,441,198** | **49,764,792** | **1,240** |
| **Costau pontio Llywodraeth Cymru – costau** | | | **497,510** | **757,300** | **612,700** | **105,000** | **1,972,510** | **1,972,510** |
| **Cyfanswm y costau rheolaidd** | **116,524,179** | **466,096,716** | **115,399,104** | **115,399,104** | **115,399,104** | **115,399,104** | **461,596,416** | **-4,500,300** |
| **Cyfanswm y costau pontio** | | | **2,467,394** | **3,842,406** | **3,697,806** | **1,647,554** | **11,655,160** | **11,655,160** |
| **COSTAU CYFFREDINOL** | **116,524,179** | **466,096,716** | **117,866,498** | **119,241,510** | **119,096,910** | **117,046,658** | **473,251,576** | **7,154,860** |
| | | | | | | | | |

Tabl 72: cost y bil i rieni, ysgolion annibynnol a darparwyr gwasanaethau

| | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwneud dim** | | **Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir** | | | | | | |
| | Rheolaidd | Cyfanswm 4 blynedd – gwneud dim | Pontio | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Rheolaidd | Cyfanswm – yr opsiwn a ffefrir (gan gynnwys costau pontio) | Gwahaniaeth o ran cost |
| **Ysgolion annibynnol** | | | | | | | | | |
| **Cofrestru ysgolion annibynnol** | **35,925** | **143,700** | **2,100** | **39,725** | **39,725** | **39,725** | **39,725** | **161,000** | **17,300** |
| **Cyfanswm** | **35,925** | **143,700** | **2,100** | **39,725** | **39,725** | **39,725** | **39,725** | **161,000** | **17,300** |
| **Rhieni** | | | | | | | | | |
| **Apelau** | **817,550** | **3,270,200** | **0** | **595,650** | **595,650** | **595,650** | **595,650** | **2,382,600** | **-887,600** |
| **Anghytundebau** | **2,861,050** | **11,444,200** | **0** | **2,102,475** | **2,102,475** | **2,102,475** | **2,102,475** | **8,409,900** | **-3,034,300** |
| **Cyfanswm manteision** | **3,678,600** | **14,714,400** | **0** | **2,698,125** | **2,698,125** | **2,698,125** | **2,698,125** | **10,792,500** | **-3,921,900** |
| **Apelau – hawl estynedig i apelio** | **0** | **0** | **0** | **27,300** | **27,300** | **27,300** | **27,300** | **109,200** | **109,200** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anghytundebau – hawl estynedig i apelio | 0 | 0 | 0 | 120,800 | 120,800 | 120,800 | 120,800 | 483,200 | 483,200 |
| Cyfanswm costau | 0 | 0 | 0 | 148,100 | 148,100 | 148,100 | 148,100 | 592,400 | 592,400 |
| Cyfanswm costau | 3,678,600 | 14,714,400 | | 2,550,025 | 2,550,025 | 2,550,025 | 2,550,025 | 10,200,100 | -3,329,500 |
| Darparwyr gwasanaethau | | | | | | | | | |
| Apelau | 31,800 | 127,200 | | 20,600 | 20,600 | 20,600 | 20,600 | 82,400 | -44,800 |
| Anghytundebau | 288,710 | 1,154,840 | | 212,200 | 212,200 | 212,200 | 212,200 | 848,800 | -306,040 |
| Cyfanswm budd-daliadau darparwyr gwasanaethau | 320,510 | 1,282,040 | 0 | 232,800 | 232,800 | 232,800 | 232,800 | 931,200 | -350,840 |
| Apelau – ehangu'r hawl i apelio | 0 | 0 | 0 | 11,600 | 11,600 | 11,600 | 11,600 | 46,400 | 46,400 |
| Anghytundebau – ehangu'r hawl i apelio | 0 | 0 | 0 | 2,650 | 2,650 | 2,650 | 2,650 | 10,600 | 10,600 |
| Cyfanswm costau darparwyr gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 14,250 | 14,250 | 14,250 | 14,250 | 57,000 | 57,000 |
| Cyfanswm cyffredinol darparwyr gwasanaethau | 320,510 | 1,282,040 | 0 | 218,550 | 218,550 | 218,550 | 218,550 | 874,200 | -293,840 |

Tabl 73: Costau pontio Llywodraeth Cymru

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau Arbenigol Grŵp Gweithredu Strategol ADY | 5,000 | 5,000 | | | **10,000** |
| Datblygu sgiliau craidd, codi ymwybyddiaeth ac adnoddau | 100,000 | 50,000 | 135,000 | 105,000 | **390,000** |
| Cydymffurfio a monitro effaith | 80,000 | 130,000 | | | **210,000** |
| Rheoli'r prosiect gweithredu | 217,600 | 217,600 | 123,000 | | **558,200** |
| Datblygu cod ymarfer | 76,220 | | | | **76,220** |
| Adolygu polisi a chanllawiau | 18,000 | | | | **18,000** |
| Gyrfa Cymru | | 354,700 | 354,700 | | **709,400** |
| Lleoliadau arbenigol ôl-16 | 320 | | | | **320** |
| Cofrestru ysgolion annibynnol | 370 | | | | **370** |
| | **497,510** | **757,300** | **612,700** | **105,000** | **1,972,510** |

## Asesiadau o effeithiau penodol

8.610 Mae nifer o asesiadau o effeithiau penodol wedi eu cwblhau, ac mae crynodeb ohonynt isod. Lle mae asesiadau o effeithiau penodol wedi eu cyhoeddi, cyfeirir at hynny o dan y pennawd perthnasol.

**Cydraddoldeb**

8.611 Gwnaed dadansoddiad o'r effeithiau yn erbyn buddiannau chwe grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig (sef yn ôl oedran, anabledd, rhywedd neu drawsrywedd, hil, crefydd neu gred/dim cred, a chyfeiriadedd rhywiol), a dau grŵp arall a gyflwynwyd gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (priodas/partneriaeth sifil a beichiogrwydd/mamolaeth). Nod ein cynigion yw gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, a chafodd nifer o effeithiau cadarnhaol perthnasol eu nodi.

8.612 Bydd y Bil:

- yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o fewn yr ystod oedran penodol, gan y byddai o fudd i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag ADY, a phob person ifanc ag ADY hyd at 25 oed sydd mewn ysgol neu addysg bellach;
- yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc anabl sydd ag ADY;
- yn cefnogi Hawliau Dynol, yn enwedig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sy'n cael ei drafod yn fanylach isod).

8.613 Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu nodi. Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

8.614 Nod y diwygiadau yw gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc yn yr ystod oedran hon sydd ag ADY. Os yw awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'n cael gwybod y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc sydd yn yr ystod oedran hon ADY, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY ai peidio. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n mynychu lleoliad annibynnol (waeth a yw'n cael ei ariannu gan y rhieni ai peidio), sy'n cael eu haddysgu adref neu'n cael eu cadw'n gaeth. Os caiff ADY eu nodi gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu, mae gan bob blentyn hawl i Gynllun Datblygu Unigol (CDU), a bydd gan bobl ifanc mewn ysgolion neu sefydliadau

addysg bellach, neu'r rheini y mae angen darpariaeth ôl-16 arbenigol arnynt, hefyd hawl i CDU.

8.615 Cafodd fersiwn i bobl ifanc o'r ymgynghoriad *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol* ei llunio a'i dosbarthu, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod 2014 er mwyn casglu sampl o sylwadau a fyddai'n cynrychioli barn plant a phobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiadau pellach gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015, gan gynnwys fersiwn addas i blant o'r ddogfen ymgynghori, eglurhad hawdd ei ddeall o'r Bil drafft a gweithdai pwrpasol. Cafodd yr adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn a'r ymgynghoriad ehangach ei ystyried a'i ddefnyddio i ddatblygu'r Bil a rhaglen ehangach o ddiwygiadau.

8.616 Cyhoeddwyd esboniad 'hawdd ei ddarllen' o'r Bil ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017.

8.617 Nodwyd bod y Bil hwn yn cefnogi'r erthyglau canlynol:

- Erthygl 1 - Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.
- Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.
- Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 4 - Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.
- Erthygl 5 – Dylai hawliau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr i roi cyfarwyddyd ac arweiniad i'w plentyn wrth iddynt dyfu, er mwyn iddynt allu arfer eu hawliau'n llawn, gael eu parchu mewn ffordd sy'n cydnabod gallu cynyddol y plentyn i wneud ei ddewisiadau ei hun.
- Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.
- Erthygl 13 – Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw neu i eraill.
- Erthygl 16 - Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.
- Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

- Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu hunan-barch dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim.
- Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

8.618 Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/

**Effaith ar iechyd**

8.619 Mae ein cynigion yn cefnogi'r angen i nodi ac i ymyrryd mewn modd amserol er mwyn bodloni ADY plentyn neu berson ifanc. Lle byddai mantais i'r plentyn neu'r person ifanc, byddai hynny'n cynnwys cael mewnbwn a chyngor amserol gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd. Mae gweithredu ymyriadau mewn modd amserol yn gallu lleihau'r angen am ymyriadau mwy cymhleth a drutach yn nes ymlaen, ac felly'n helpu'r plentyn neu'r person ifanc i wireddu ei botensial, sy'n rhywbeth a fyddai o fantais i'w hiechyd hefyd. Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth, gwelir bod cefnogaeth gref i'r egwyddor bod ymyriadau cynnar effeithiol yn fwy cost-effeithiol nag ymyriadau sy'n digwydd rai blynyddoedd yn hwyrach, gan atal amrywiaeth eang o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol gwael, problemau sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd, ac wedyn tlodi ac anghydraddoldeb.

8.620 Mae gan y GIG fframweithiau eisoes i helpu i flaenoriaethu darpariaeth yn seiliedig ar angen. Byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd ddefnyddio'r fframweithiau hyn i benderfynu ynghylch y ddarpariaeth y byddant yn ei darparu i blant a phobl ifanc ag ADY. Ni fyddai cynllun statudol yn amharu ar y fframweithiau sydd eisoes ar waith. Mae defnyddio'r fframweithiau hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw newid i gostau darpariaeth y byrddau iechyd.

8.621 Bydd rôl newydd y Prif Swyddog Clinigol Addysgol Dynodedig (DELCO) a gyflwynir gan y Bil yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella graddau ac effeithiolrwydd y cydweithio rhwng adrannau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd y swyddog hwn yn rhan o'r gwaith o asesu ac adolygu CDU unigol. 'Cydlynwyr iechyd' sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant, rhieni a phobl ifanc fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn. Rôl strategol yw hon, ac felly bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y bwrdd iechyd yn rhoi mewnbwn priodol. Yn gyffredinol, bydd y rôl yn

sicrhau y bydd ADY ar agenda strategol y byrddau iechyd am y tro cyntaf – gydag arweinydd strategol ar lefel uwch ym mhob bwrdd iechyd yn goruchwylio cyfrifoldebau'r bwrdd ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau eraill ar faterion ADY.

**Preifatrwydd**

8.622 Rhoddwyd ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â chasglu a throsglwyddo data personol, yn enwedig wrth i CDU gael ei drosglwyddo rhwng gwahanol gyrff. Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn dilyn y ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig y Ddeddf Diogelu Data, wrth iddynt storio neu drosglwyddo data. Byddai angen i unrhyw broses o gasglu, storio neu drosglwyddo data personol sy'n rhan o CDU gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Cyfrifoldeb y corff cyhoeddus perthnasol fyddai sicrhau bod trosglwyddo data yn digwydd mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bod data personol yn cael eu cadw'n ddiogel. Wrth weithredu ein cynigion, byddem yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â thrin data, er y dylai cyrff cyhoeddus fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Effaith ar Gyfiawnder**

8.623 Nid yw'r Bil yn creu sancsiynau sifil/gorchmynion/troseddau newydd. Fodd bynnag, mae'n effeithio ar Dribiwnlysoedd Datganoledig – yn enwedig Tribiwnlys Addysg Cymru (sef Tribiwnlys Anghenion Addysgo Arbennig Cymru ar hyn o bryd).

8.624 Mae'r Bil yn disodli'r hawliau i apelio sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y fframwaith AAA presennol, gan roi hawliau newydd i apelio yn eu lle. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â'r hawl i apelio yn cael ei ehangu i gynnwys y rheini mewn addysg bellach sydd hyd at 25 oed, a'r rheini sydd o dan 2 oed.

8.625 Fel y trafodwyd (gweler yr adran ar ddatrys anghydfodau), mae'r Bil drafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ar gyfer sicrhau bod y system yn llai tebygol o achosi gwrthdaro, ac i'w gwneud yn haws datrys anghydfodau ar lefel leol, cyn iddynt fynd gerbron y Tribiwnlys.

8.626 Bydd hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys yn monitro'r sefyllfa'n fanwl er mwyn sicrhau bod yna ddigon o adnoddau i gyflawni swyddogaethau statudol y Tribiwnlys os bydd cynnydd yn y llwyth gwaith o ganlyniad i'r Bil.

8.627 Mae'r Bil yn darparu y ceir, mewn perthynas ag unrhyw achos sy'n dod gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru, apelio i'r Uwch Dribiwnlys, a hynny ar

unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys. Ni cheir cyflwyno apêl ond mewn achosion lle bydd y Tribiwnlys neu'r Uwch Dribiwnlys wedi rhoi ei ganiatâd.

8.628 Mae'r darpariaethau'n ymwneud apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn disodli'n uniongyrchol y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Neddf 1996 (sy'n cael eu diddymu). Felly, nid darpariaethau newydd yw'r rhain ac nid yw'r Bil yn eu diwygio'n sylweddol. Nid oes rheswm i gredu y bydd effaith fawr ar nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys, gan mai ychydig iawn o atgyfeiriadau a wnaed hyd yn hyn.

8.629 Mae'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu ac i gynnal rhestr o golegau arbenigol annibynnol. Byddai'n rhaid i sefydliad fod wedi ei gofrestru ar y rhestr cyn y byddai awdurdodau lleol yn cael talu i ddysgwr gael mynychu coleg arbenigol annibynnol. Ni fyddai unrhyw orfodaeth ar golegau arbenigol annibynnol i gofrestru ar y rhestr, ond byddai penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael ei gofrestru o gryn bwys i'r colegau hyn.

8.630 Er mwyn sicrhau bod y system yn deg, a chydymffurfio ag Erthygl 6 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop, bydd colegau arbenigol annibynnol yn cael apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a hynny i dribiwnlys annibynnol a diduedd.

8.631 Byddai apêl o'r fath yn cael ei chyflwyno drwy'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a weithredir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS). Ni ddisgwylir i'r cynigion gael fawr ddim effaith ar y gwasanaeth hwn. Mae profiad o'r system a ddefnyddir i gofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dangos na chyflwynwyd unrhyw apelau ers iddi gael ei sefydlu yn 2002. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd:

- cydweithio agos ag Estyn;
- y cymhelliant sy'n codi o'r cysylltiad rhwng cofrestru a gallu'r darparwr i weithredu;
- y cyfle i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddent yn rhoi sylw i unrhyw safonau nad ydynt wedi eu bodloni'r tro cyntaf, ac erbyn pryd y byddent yn gwneud hynny.

8.632 Byddwn yn ceisio sicrhau bod y sefyllfa'n debyg yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyn lleied â phosibl o apelau'n cael eu cyflwyno gan golegau arbenigol annibynnol.

8.633 Bydd angen i HMCTS baratoi ar gyfer pob apêl newydd y mae'r Bil yn pennu y byddant yn cael eu cyflwyno drwy'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch

Dribiwnlys a darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau staff perthnasol a’r farnwriaeth.

8.634 Mae cyngor a chymorth cyffredinol ar gyfer AAA ar gael o dan y cynllun cymorth cyfreithiol fel y nodwyd yn Atodlen 1 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2002. Nid yw’r Bil yn diwygio Atodlen 1. Yn hytrach, mae ei ddarpariaethau’n ceisio lleihau nifer yr achosion cymorth cyfreithiol drwy gyflwyno dull llai gwrthwynebol o asesu anghenion a chynllunio darpariaeth, ac felly gwneud iawn am unrhyw gynnydd posibl yn nifer yr unigolion sy’n manteisio ar gymorth gyfreithiol yn sgil ymestyn yr hawl i apelio i bobl ifanc mewn addysg bellach. Bydd effaith y Bil yn cael ei fonitro ar ôl ei weithredu.

**Y trydydd sector, cymunedau a threchu tlodi**

8.635 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau a threchu tlodi. Mae'r diwygiadau’n ymwneud ag ADY yn ategu'r Grant Datblygu Disgyblion, sydd wedi ei ddirprwyo'n llawn i ysgolion er mwyn iddynt allu buddsoddi mewn dulliau gweithredu effeithiol o fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

8.636 Mae gan Lywodraeth Cymru chwe blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae ein cynigion yn cryfhau'r canlynol:

8.637 Y Blynyddoedd Cynnar – byddai pob plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol sydd ag ADY yn cael eu cwmpasu gan ddarpariaethau’r Bil. Mae ein cynigion yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd ADY yn cael eu nodi'n gynnar, a bod y gefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei ddarparu ar sail anghenion y plentyn. Mae’r Bil yn cynnwys dyletswydd ar ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir i dalw sylw i’r Cod ADY, a fydd yn darparu cyfarwyddyd ar sut y dylid cefnogi plant ag ADY yn y lleoliadau hyn. Mae’r Bil hefyd yn creu rôl newydd mewn awdurdodau lleol – Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar – er mwyn cydlynu swyddogaethau mewn perthynas â phlant bach nad ydynt eto yn mynychu lleoliad a gynhelir. Mae'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael eu sgrinio'n fwy trwyadl gan ymwelwyr iechyd, sy'n gallu nodi presenoldeb ADY.

8.638 Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Ar hyn o bryd, mae'r rheini sydd ag AAA yn fwy tebygol o fod yn NEET. Yn 2010, nododd y Comisiwn Archwilio y canlynol:

*Over 40 per cent of young people with SEN were NEET at least once, and a quarter were NEET for six months or more*[261]

8.639 Byddai nodi anghenion yn amserol, a darparu'r gefnogaeth briodol ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ei anghenion, yn ei helpu i wireddu ei botensial addysgol. Byddai hyn yn helpu plant a phobl ifanc sydd ag ADY i symud yn esmwyth o fod yn berson ifanc i fod yn oedolyn, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn oedolion NEET.

8.640 Mae'r asesiadau trylwyr hyn a wneir gan ymwelwyr iechyd yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg (sef yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru) yn gallu nodi ADY yn gynharach ym mywyd y plentyn. Mae hynny'n golygu eu bod yn gallu gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosibl. Bydd yn sicrhau ei bod yn bosibl cynllunio ar gyfer anghenion y plentyn ymlaen llaw er mwyn iddo allu symud yn esmwyth rhwng lleoliadau addysgol ac ymlaen i fod yn oedolyn. Yn ôl tystiolaeth, mae plant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod ag AAA, ac felly byddai gwella cyrhaeddiad addysgol y rheini sydd ag ADY yn cael effaith fwy cadarnhaol ar y rheini o ardaloedd Dechrau'n Deg.

8.641 Yn yr un modd â'r system bresennol, bydd y system newydd yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu contractio eu gwasanaethau datrys anghytundebau i sefydliadau trydydd sector eraill, pe bai'r awdurdod yn dymuno gwneud hynny.

**Y Gymraeg**

8.642 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, 'I*aith Fyw: Iaith Byw'* yn datgan fel a ganlyn: 'Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol - ar y cyd ag annog y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.' Mae'r Bil yn cefnogi'r strategaeth hon; mae hefyd yn ategu gofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) sy'n gallu cefnogi awdurdodau lleol i wella sut mae cymorth dysgu ychwanegol i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

8.643 Mae'r Bil yn cefnogi camau i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu i benderfynu a ddylai plentyn neu berson ifanc gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Os yw'n penderfynu bod angen darpariaeth Gymraeg, rhaid datgan hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg. Bydd yn ofynnol i

[261] Against the odds: Targeted briefing – young people with special educational needs. Y Comisiwn Archwilio, Awst 2010

awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg yn eu gwahanol ardaloedd a chymryd camau os nodir diffygion. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg bob 5 mlynedd. Caiff yr wybodaeth a gesglir drwy'r adolygiadau hyn ei defnyddio fel sail i benderfyniadau ynghylch defnyddio mecanwaith i gael gwared, drwy reoliadau, â'r prawf 'pob cam rhesymol' o'r dyletswyddau yn y Bil sy'n ymwneud â cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, gan wneud y dyletswyddau hyn yn absoliwt. O'u cymryd gyda'i gilydd, bwriad y darpariaethau hyn yw symud i gyfeiriad system ADY wirioneddol ddwyieithog. Bydd y Cod yn rhoi gwybodaeth bellach ynghylch darpariaeth Gymraeg.

8.644 Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/

**Asesiadau o effeithiau eraill**

8.645 Wedi ystyried, daethpwyd i'r casgliad nad yw ein polisi yn effeithio ar fioamrywiaeth, prawfesur polisïau gwledig, yr amgylchedd, rheoliadau cynefinoedd, newid hinsawdd na chymorth gwladwriaethol. Felly, ni chwblhawyd asesiadau effaith llawn ar gyfer y pynciau hyn.

## 9. Asesiad o'r gystadleuaeth

9.1 Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn modd sy'n codi materion sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth. Ni chymhwyswyd yr hidl cystadleuaeth.

9.2 Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil effeithio ar gystadleuaeth na rhoi cyfyngiadau ar gyflenwyr presennol neu gyflenwyr newydd. Disgwylir mai cyrff cyhoeddus fydd yn gyfrifol am dalu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth, fel sy'n digwydd eisoes.

9.3 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

# 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae'r dull ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Bil a monitro ac adolygu'r broses weithredu wedi'i disgrifio'n fanwl yn yr adran cynllun gweithredu a chyflenwi uchod (tudalennau 25-27).

10.2 Yn fras, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithredu'r fframwaith statudol newydd yn raddol, ochr yn ochr â'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. Hynny er mwyn i sefydliadau ac ymarferwyr allu deall y system newydd a rheoli a throsglwyddo dysgwyr yn effeithiol o'r system bresennol i'r system newydd. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal rhwng Mawrth a Mehefin 2017 ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno'r system newydd. Caiff crynodeb o'r ymatebion a datganiad gan y Llywodraeth eu cyhoeddi yn ystod yr hydref 2017.

10.3 Bydd adolygiad ar ôl gweithredu yn rhan o fodel monitro a gwerthuso cyffredinol Llywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried y broses weithredu gam wrth gam, ac yn benodol:

- parodrwydd - asesu i ba raddau mae awdurdodau lleol ac asiantau cyflenwi eraill yn barod ar gyfer y newidiadau o'u blaenau;
- cydymffurfiaeth: pa mor effeithiol mae sefydliadau'n cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y deuant i rym;
- effaith - gwerthuso i ba raddau mae'r newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi ehangach yn ymwreiddio ac yn effeithio ar ganlyniadau i ddysgwyr.

10.4 Bydd y dull hwn o sicrhau cydymffurfiaeth, monitro effaith a gwerthuso yn cael ei ategu gan arolygu parhaus a threfniadau adolygu a arweinir gan Estyn.

Mae’r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a ddiwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2 ar 4 a 12 Hydref.

# ATODIAD 1 – Nodiadau esboniadol

# BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A’R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)

## NODIADAU ESBONIADOL

## CYFLWYNIAD

1. Mae’r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2016 ac a ddiwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2 ar 4 a 12 Hydref.

2. Fe’u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo’r sawl sy’n darllen y Bil.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â’r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o’r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o’r Bil, nis rhoddir.

4. Mae’r pwerau i wneud y Bil wedi eu cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodir y darpariaethau perthnasol yn adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud y darpariaethau yn y Bil hwn. O dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae paragraff 5 yn nodi’r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd “addysg a hyfforddiant”; mae paragraff 9 yn nodi’r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd “iechyd a gwasanaethau iechyd”; ac mae paragraff 15 yn nodi’r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd “lles cymdeithasol”.

5. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr ‘Deddf 1996’ yw Deddf Addysg 1996 ac ystyr ‘Deddf 2000’ yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae cyfeiriadau at awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir etc fel arfer yn gyfeiriadau at y rheini yng Nghymru (oni nodir fel arall).

## Y cefndir

6. Rhwng 2003 a 2007, cynhaliwyd adolygiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny. Roedd tair rhan i’r adolygiad a chyhoeddwyd dogfennau cysylltiedig yn y drefn a ganlyn:

   a. *Adnabod Ac Ymyrryd Yn Gynnar*, Tachwedd 2004;

   b. *Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006;

   c. *Trosglwyddo,* Mawrth 2007.

7. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau’r Pwyllgor wedi ei llywio gan adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (*Special educational needs: A mainstream issue*, 2002) ac Estyn (*Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn*, 2003). Gyda’i gilydd, daeth yr adroddiadau hyn i’r casgliadau a ganlyn, mewn perthynas â’r system AAA bresennol:

   a. bod y broses asesu sy’n gysylltiedig â datganiadau yn aneffeithlon, yn fiwrocrataidd, yn gostus, yn anodd ei defnyddio ac nad oes digon o ganolbwyntio ar y plentyn;

   b. bod anghenion yn aml yn cael eu hadnabod yn hwyr ac nad yw’r ymyriadau yn ddigon amserol nac yn ddigon effeithiol; ac

   c. bod teuluoedd yn dweud eu bod yn aml yn gorfod brwydro i gael y gefnogaeth gywir i’w plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy i droi i gael gwybodaeth a chyngor.

8. Ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bryd hynny i adroddiadau’r Pwyllgor drwy gynnal ymgynghoriad pellgyrhaeddol ar ffyrdd posibl o ddiwygio’r system bresennol o gefnogi AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) yn 2007 (*Datganiadau neu Rywbeth Gwell?*) ac eto yn 2012 (*Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*). Yn ychwanegol, roedd *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2011, yn cynnwys ymrwymiad i ‘diwygio’r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y plant a’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn ysgolion neu mewn lleoliadau Addysg Bellach.’

9. Cyflwynwyd Bil Addysg (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Ynddo, roedd darpariaethau yn ymwneud â chofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol ar gyfer lleoli dysgwyr ag AAA, asesu anghenion addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag AAD, a lleoliadau addysg bellach arbenigol. Fodd bynnag, mewn ymateb i alwadau’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ystyried pob darpariaeth AAA mewn un darn o ddeddfwriaeth, tynnwyd y darpariaethau hyn o’r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ym mis Ionawr 2014. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr adeg honno y byddai’r darpariaethau yn cael eu hymgorffori mewn Bil ar wahân a fyddai’n ymdrin â’r holl ystod o faterion sy’n ymwneud ag AAA.

10. Gan ddefnyddio canlyniadau’r ymgyngoriadau blaenorol a thrafodaethau â rhanddeiliaid, a chan ystyried y ddarpariaeth a dynnwyd o’r Bil Addysg cynharach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ar 22 Mai 2014, Bapur Gwyn sy’n dwyn y teitl *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol* i ymgynghori arno.

11. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ym mis Hydref 2014. Yn gyffredinol, croesawyd cynigion Llywodraeth Cymru gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad. Datblygwyd Bil drafft o amgylch yr egwyddorion a’r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwnnw ac fe’i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r Bil drafft ym mis Mai 2016 ac mae’r rhain wedi eu defnyddio i lywio datblygiad y Bil presennol.

**CRYNODEB O’R BIL**

12. Mae pedair Rhan i’r Bil sy’n cynnwys 94 o adrannau ac un Atodlen. Mae Rhan 2 wedi ei rhannu’n bum pennod.

13. Bydd yn sefydlu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Bydd hyn yn disodli’r ddeddfwriaeth bresennol sy’n ymwneud ag AAA ac asesu plant a phobl ifanc ag AAD mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 hyd at 25 oed.

14. Bydd yn cyflwyno cynllun statudol newydd i ddisodli’r holl gynlluniau addysg statudol ac anstatudol presennol ar gyfer plant â phobl ifanc ag AAA ac AAD yn benodol. Mae ystyr plentyn a pherson ifanc at ddibenion y Bil hwn wedi ei nodi yn adran 92. Ystyr ‘plentyn’ yw person nad yw’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, ac ystyr ‘person ifanc’ yw person sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, ond sy’n iau na 25 oed.

15. Bydd yn darparu hawliau apelio i blant, i rieni plant ac i bobl ifanc mewn cysylltiad â'r cynllun statudol newydd hwn a hawliau cysylltiedig ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd yr apelau hyn yn cael eu gwneud i Dribiwnlys Addysg Cymru, sef enw newydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

16. Bydd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill, gan gynnwys Deddf 1996, Deddf 2000, Mesur Addysg (Cymru) 2009 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

**SYLWEBAETH AR ADRANNAU'R BIL**

# Rhan 1 – Trosolwg

### Adran 1 - Trosolwg o'r Ddeddf hon

17. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys y Bil.

# Rhan 2 – Anghenion Dysgu Ychwanegol

# Pennod 1 – Termau Allweddol, y Cod a Chyfranogiad

***Termau allweddol***

### Adran 2 - Anghenion dysgu ychwanegol

18. Mae adran 2 yn diffinio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' ('ADY') at ddibenion y Bil. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) o dan Ddeddf 1996 ond nid yw'n cyfyngu ar ei ddefnydd i'r rheini sydd o dan 18 oed fel yn achos y term AAA. Mae gan berson ADY os oes ganddo "anhawster dysgu neu anabledd" (gweler is-adrannau (2) – (3) i gael ystyr hyn) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (gweler adran 3 i gael diffiniad ohoni).

19. Mae is-adran (1) yn egluro bod anhawster dysgu neu anabledd yn gallu deillio o gyflwr meddygol, ond nid oes rhaid iddo fod wedi. Hefyd, nid ystyrir bod gan berson ADY oherwydd bod iaith y cartref yn wahanol i'r iaith y mae'n cael ei addysgu ynddi (is-adran (4)).

**Adran 3 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol**

20. Mae adran 3 yn diffinio ystyr 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' sydd ynddo' i hun yn rhan o'r diffiniad o ADY yn adran 2. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'darpariaeth addysgol arbennig' a geir yn Neddf 1996 ond yn benodol mae'n ehangu'r diffiniad drwy gyfeirio at sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Mae sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach wedi eu diffinio yn adran 92.

21. Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd wedi ei gynnwys yn y Bil wedi ei wneud drwy gyfeirio at oedran plentyn, gyda diffiniad ychydig yn wahanol yn gweithredu mewn perthynas â phlant o dan dair oed (o gymharu â phlant o dan ddwy oed yn Neddf 1996). Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y cyfeiriadau presennol at dair oed i gyfeiriadau at oedran gwahanol.

***Cod ymarfer***

**Adran 4 - Cod anghenion dysgu ychwanegol**

22. Mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi a chyhoeddi cod ('y Cod') ar ADY. Gall hyn gynnwys canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Bil, ac ynghylch materion eraill sy'n ymwneud ag ADY. Rhaid i'r personau a restrir yn yr adran hon (gweler is-adran (3)) roi sylw i'r Cod wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn mewn perthynas ag ADY. Mae hyn yn golygu y dylid glynu wrth y canllawiau yn y Cod oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrthynt. Mae is-adran (4) yn cyfeirio at adran 153 o Ddeddf Addysg 2002 sydd, fel y'i diwygir gan y Bil hwn, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth gyllido darparwyr addysg feithrin nas cynhelir, ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr roi sylw i ganllawiau perthnasol yn y cod.

23. Yn ogystal, caiff y Cod hefyd osod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu sefydliadau yn y sector addysg bellach (a ddiffinnir yn adran 92 ac y cyfeirir atynt wedi hyn fel sefydliadau addysg bellach) yng Nghymru mewn cysylltiad â materion penodol (gweler is-adran (5)).

24. Mae gofynion penodol ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol y mae rhaid i’r cod eu cynnwys (is-adran (6)). Rhaid iddo gynnwys un neu ragor o ffurfiau safonol ar gyfer cynllun datblygu unigol a’i gwneud yn ofynnol i’r ffurf briodol gael ei defnyddio. Rhaid iddo hefyd ei gwneud yn ofynnol i’r cyrff hynny wneud y canlynol o fewn y cyfnod amser perthnasol a nodir gan y cod, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau (y darperir ar eu cyfer yn y cod hefyd):
    a. rhoi unrhyw hysbysiad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY; a
    b. (pan fo wedi ei benderfynu bod gan y plentyn neu’r person ifanc ADY) llunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono.

25. Rhaid i Dribiwnlys Addysg Cymru roi sylw i’r Cod pan fo’n berthnasol i unrhyw gwestiynau a gyfyd ar apêl (is-adran (10)).

**Adran 5 - Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod**

26. Mae adran 5 yn sicrhau bod rhaid ymgynghori ar y Cod ac iddo gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gellir ei ddyroddi neu cyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau dilynol iddo. Mae’r adran hon yn cynnwys rhestr o gyrff cyhoeddus y mae rhaid ymgynghori â hwy ynghylch y Cod drafft neu God diwygiedig, er bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un arall sy’n briodol yn eu barn hwy hefyd. Yna, ni ellir dyroddi Cod arfaethedig na Chod diwygiedig oni bai bod drafft ohono wedi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad a’i gymeradwyo ganddo. Os caiff drafft ei gymeradwyo felly, rhaid iddo gael ei ddyroddi fel y Cod. Daw’r Cod i rym ar y diwrnod neu’r diwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn (is-adrannau (3) a (4)).

***Cyfranogiad a mynediad at wybodaeth***

**Adran 6 - Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc**

27. Mae adran 6 yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi plant, eu rhieni a phobl ifanc wrth galon y penderfyniadau sy’n effeithio’n uniongyrchol arnynt a wneir o dan y Bil, ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn ffordd gwbl wybodus.

**Adran 7 - Cyngor a gwybodaeth**

28. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y rheini sydd â buddiant yng ngweithrediad y system ADY newydd (gan gynnwys plant, rhieni plant a phobl ifanc) yn cael yr wybodaeth a'r cyngor am ADY a'r system y mae'r Bil yn darparu ar ei chyfer. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd roi gwybod i ysgolion ac eraill fod y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar gael. Caiff y Cod ADY osod gofynion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â chyngor a gwybodaeth (gweler adran 4).

## Pennod 2 – Cynlluniau Datblygu Unigol

***Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol***

**Adran 8 - Cynlluniau datblygu unigol**

29. Mae adran 8 yn esbonio beth yw cynllun datblygu unigol ('CDU'). Bydd y cynllun hwn yn sylfaen i'r system ar gyfer cynllunio a darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc ag ADY fel y'i nodir yn y Bil. Yn gyffredinol, bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY CDU sy'n wahanol i'r system o dan Ddeddf 1996 nad oedd ond yn darparu ar gyfer datganiadau AAA ar gyfer y rheini ag anghenion mwy.

**Adran 9 - Dyletswydd i benderfynu: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

30. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, os ymddengys iddo y gall fod gan un o'i ddysgwyr ADY, neu os dygir hyn i'w sylw, benderfynu a oes gan y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw ADY. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r corff llywodraethu wneud hynny o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, pan na fo person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud; a phan fo'r corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac nad oes newid sylweddol wedi bod yn anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu nad oes gwybodaeth newydd a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad.

31. Pan fo'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i rieni, neu'r person

ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Pan nad oes gan blentyn ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall yr hyn y mae hyn yn ei olygu, nid yw'r ddyletswydd i hysbysu'r plentyn yn gymwys yn unol ag adran 79. Fodd bynnag, pan fo gan blentyn gyfaill achos o dan adran 80, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu cyfaill achos y plentyn. Bydd y Cod yn nodi terfyn amser ar gyfer hysbysu am y penderfyniadau hyn, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y cod (gweler adran 4(6)).

32. Mae'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n preswylio yn Lloegr pan fônt yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, ac eithrio pan fo cynllun addysg, iechyd a gofal yn cael ei gynnal ar gyfer y dysgwr gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Y rheswm dros hyn yw y bydd y cynllun hwnnw yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y mae eu hanghenion yn galw amdani.

**Adran 10 - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach**

33. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach lunio a chynnal CDU ar gyfer y dysgwyr hynny y maent wedi penderfynu bod ADY arnynt; neu yn achos corff llywodraethu ysgol a gynhelir, pan fo wedi cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan awdurdod lleol; neu yn achos corff llywodraethu sefydliad addysg bellach, pan fo wedi cytuno i gynnal cynllun a oedd yn cael ei gynnal o'r blaen gan awdurdod lleol, neu pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylai wneud hynny (gweler adran 34). Rhaid iddynt hefyd ystyried a ddylai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg a phan fônt yn penderfynu hynny, rhaid iddynt bennu hynny yn y CDU.

34. Bydd y Cod yn nodi terfyn amser y mae rhaid i'r corff llywodraethu lunio'r cynllun ynddo a rhoi copi ohono (o dan adran 20), yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y Cod (gweler adran 4(6)).

35. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau penodol, nid yw'n ofynnol i gorff llywodraethu lunio a chynnal CDU ar gyfer dysgwr y mae wedi penderfynu bod arno ADY. Mae rhai o'r rhain yn cydnabod ei bod yn fwy priodol mewn rhai achosion (sy'n ymwneud yn gyffredinol ag anghenion mwy) i anghenion gael eu hystyried neu i ddarpariaeth gael

ei sicrhau gan yr awdurdod lleol y mae'r person yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fo'r corff llywodraethu yn ystyried y gall anghenion y dysgwr alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau. Yn yr achos hwnnw, rhaid i'r corff llywodraethu atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn iddo benderfynu arno.

36. Yn yr un modd, mae hefyd ddarpariaeth i'r dyletswyddau beidio â bod yn gymwys pan fo'r dysgwr yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod ei anghenion yn cael eu hystyried neu yr ymdrinnir â hwy gan yr awdurdod lleol hwnnw o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Unwaith eto, mae hyn yn debygol o fod mewn achosion o anghenion mwy pan fo awdurdod lleol yn debygol o fod mewn sefyllfa well i ddelio â'r mater.

37. Am nad yw addysg na hyfforddiant yn orfodol i bobl ifanc, mae'r dyletswyddau i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ifanc os nad yw'r person hwnnw yn cydsynio mwyach (ar unrhyw adeg) iddo gael ei lunio neu ei gynnal.

38. Pan fo corff llywodraethu yn cynnal CDU, rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg pan fo hynny wedi ei bennu.

**Adran 11 - Dyletswydd i benderfynu: awdurdodau lleol**

39. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY pan fo'n cael ei dwyn i'w sylw neu pan ymddengys iddo y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.  Byddai awdurdod lleol yn arfer y swyddogaethau a nodir yn yr adran hon pan fo, er enghraifft, penderfyniad ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc wedi ei atgyfeirio gan gorff llywodraethu o dan adran 10 neu fod plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol; neu fod Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud atgyfeiriad o dan adran 60.

40. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol i'r ddyletswydd i benderfynu. Er enghraifft, pan na fo person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud; pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac nad oes newid sylweddol wedi bod yn anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu nad oes gwybodaeth

newydd a fyddai’n effeithio ar y penderfyniad; neu pan fo person ifanc wedi ei ymrestru mewn sefydliad addysg bellach ac nad oes atgyfeiriad wedi ei wneud gan gorff llywodraethu’r sefydliad.

41. Pan fo’r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu’r person ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu’r plentyn a’i riant, neu’r person ifanc, am y penderfyniad a’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Bydd y Cod yn nodi terfyn amser ar gyfer hysbysu am y penderfyniad hwn, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y Cod (gweler adran 4(6)).

42. Mae’r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys mewn cysylltiad â phlant neu bobl ifanc y mae’r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt, sef y rheini yn ei ardal (gan gynnwys os ydynt yn mynychu ysgol mewn ardal wahanol), ac eithrio plant sy’n derbyn gofal at ddibenion y Bil hwn (gweler y diffiniad yn adran 13).

**Adran 12 - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: awdurdodau lleol**

43. Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc yn ei ardal ADY, mae adran 12 yn nodi’r amgylchiadau pan fo’n ofynnol iddo lunio a chynnal CDU a sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw; neu, os yw’r plentyn neu’r person ifanc i fynychu ysgol a gynhelir, caiff yr awdurdod lleol lunio CDU a chyfarwyddo corff llywodraethu’r ysgol i gynnal y cynllun; neu gyfarwyddo corff llywodraethu’r ysgol i lunio a chynnal cynllun.

44. Mae’r dyletswyddau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant (hynny yw, y rheini nad ydynt yn hŷn na’r oedran ysgol gorfodol fel y’i diffinnir yn adran 92), â phobl ifanc sy’n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir neu’n fyfyrwyr ymrestredig mewn sefydliadau addysg bellach ac â phobl ifanc eraill pan fo’r awdurdod lleol yn ystyried bod hynny’n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person am addysg neu hyfforddiant. Rhaid ystyried yr achosion pan fo hyn yn ‘angenrheidiol’ yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

45. Mae’r adran hefyd yn nodi materion y gall fod angen eu nodi mewn CDU y mae awdurdod lleol yn ei lunio neu’n ei gynnal.

46. Rhaid i’r awdurdod lleol ystyried a ddylai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg a phan fo’n penderfynu hynny, rhaid iddo bennu hynny yn y CDU.

47. Os yw’r awdurdod lleol wedi ei fodloni na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai ei fod hefyd yn sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol (ar yr amod bod y person neu'r corff sy’n gyfrifol am dderbyniadau i’r sefydliad yn cydsynio, oni bai ei fod yn ysgol a gynhelir yng Nghymru); a/neu fwyd a llety, rhaid disgrifio’r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun a rhaid i’r awdurdod lleol ei sicrhau. Pan fo hyn yn gymwys, nid yw’r awdurdod lleol yn gallu cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir i lunio a/neu gynnal y CDU.

48. Pan fo’r awdurdod lleol yn cynnal CDU rhaid iddo sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac unrhyw ddarpariaeth arall o’r fath a ddisgrifir yn y cynllun a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg pan fo hynny wedi ei bennu.

***Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal***

**Adrannau 13 i 17 - Termau allweddol, Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn, Dyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy’n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol, Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.**

49. Mae adrannau 13 i 17 yn cynnwys darpariaethau ynghylch ADY sydd i fod yn gymwys yn achos plant sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae gan blant sy’n derbyn gofal gynlluniau gofal a chymorth sy’n cynnwys cynllun addysg personol (CAP) yn rhinwedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn achos plant o’r fath (yn ddarostyngedig i eithriadau - gweler adran 13), mae’r awdurdod sy’n gofalu am y plentyn i fod yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad am ADY, cynnal CDU a’i gynnwys yn CAP y plentyn. Yn unol â hynny, nid yw’r dyletswyddau cyfatebol ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir y caiff y plentyn ei mynychu, ac ar yr awdurdod lleol (os yw’n wahanol) y mae’r plentyn yn ei ardal, yn gymwys. O ganlyniad, mae’r gwaith cynllunio addysgol, gan gynnwys cynllunio darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn sy’n derbyn gofal sydd ag ADY, yn cael ei wneud gan un corff, sef yr awdurdod lleol sy’n gofalu am y plentyn, ac mae wedi ei nodi mewn un ddogfen. Mae’r

dyletswyddau arferol o dan y Bil sy'n gymwys i bobl ifanc eraill hefyd yn gymwys i bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu a fu gynt yn derbyn gofal.

50. Nid yw'r dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY ac i lunio a chynnal CDU yn gymwys os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr (adrannau 16(2)(c) a 17(2)). Os yw'r plentyn yn preswylio y tu allan i Gymru a Lloegr, er enghraifft gall plentyn gael ei leoli yn yr Alban, dim ond y ddyletswydd i benderfynu sy'n gymwys (adran 17(2)). Y rheswm dros hyn yw y gall gallu awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plentyn sy'n byw y tu allan i Gymru fod yn gymharol gyfyngedig mewn sawl achos. Fodd bynnag, gall y plentyn fod o fewn y system addysg leol a bod â hawlogaethau odani. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, gall yr awdurdod hwnnw fod yn gyfrifol am y plentyn o dan adran 24 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (mae Rhan 3 o'r Ddeddf honno yn ymdrin â phlant a phobl ifanc yn Lloegr ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau).

51. Mae adran 13 yn nodi ystyr termau allweddol a ddefnyddir yn y Bil sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Nid yw person sy'n derbyn gofal at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn derbyn gofal at ddibenion y Bil os yw'r person yn berson ifanc, person sy'n cael ei gadw'n gaeth (a ddiffinnir yn adran 37) neu o fewn categori o blentyn sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau.

52. Mae adran 14 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn gwneud CAP yn elfen ofynnol o'r Cynllun Gofal a Chymorth a lunnir ar gyfer y rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf honno. At hynny, mae adran 14 yn diwygio Deddf 2014 gan nodi bod rhaid cynnwys unrhyw CDU a gynhelir o dan adran 17 yn y CAP yn achos plant sy'n derbyn gofal ac sydd o'r oedran ysgol gorfodol ac yn iau ac sydd ag ADY.

53. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir y mae plentyn sy'n derbyn gofal yn ei mynychu, neu'r awdurdod lleol y mae plentyn sy'n derbyn gofal yn ei ardal, hysbysu'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn os daw'n ymwybodol y gall fod gan y plentyn ADY.

54. Mae adran 16 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn i benderfynu a oes gan y plentyn ADY sy’n cyfateb i’r ddyletswydd yn adran 11 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn gofal. Nid yw’r ddyletswydd hon yn gymwys os yw’r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

55. Mae adran 17 yn gosod dyletswyddau ar yr awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn (ar yr amod bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru), i lunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol sy’n cyfateb i’r dyletswyddau yn adran 12 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, rhaid i’r awdurdod lleol lunio a chynnal y cynllun ei hun: ni chaiff gyfarwyddo ysgol a gynhelir y mae’r plentyn sy’n derbyn gofal yn ei mynychu i wneud hynny.

**Adran 18 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG**

56. Mae adran 18 yn galluogi awdurdodau lleol a chyff llywodraethu sefydliadau addysg bellach i ofyn i gorff GIG (a ddiffinnir yn adran 92) a oes unrhyw driniaeth neu unrhyw wasanaeth (a ddarperir fel arfer fel rhan o’r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr) sy’n debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag ADY plentyn neu berson ifanc. Os bydd y corff GIG yn nodi unrhyw driniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol, rhaid iddo sicrhau ei bod yn cael ei ddarparu neu ei fod yn cael ei ddarparu, penderfynu a ddylai’r driniaeth gael ei darparu neu a ddylai’r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg ac os felly dylai gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu neu fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

**Adran 19 - Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG**

57. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG hysbysu’r corff sydd wedi gwneud atgyfeiriad o dan adran 18, ac os yw’n wahanol, y corff sy’n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc o dan sylw, am ganlyniad yr atgyfeiriad (is-adrannau (1) a (2)). Rhaid iddo wneud hynny o fewn y cyfnod amser sydd i gael ei ragnodi mewn rheoliadau, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau rhagnodedig (is-adran 10). Mewn achosion pan fo triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol wedi ei nodi, unwaith y caiff ei hysbysu, rhaid i’r corff sy’n cynnal y cynllun datblygu unigol gynnwys y driniaeth neu’r gwasanaeth fel darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y cynllun fel darpariaeth sydd i

gael ei chyflenwi gan y corff GIG (is-adran (3)). . Os cafodd ei benderfynu y dylai'r ddarpariaeth gael ei darparu yn Gymraeg, rhaid i hyn hefyd gael ei bennu yn y cynllun (is-adran (4)). Mae'r corff GIG, nid y corff llywodraethu na'r awdurdod lleol, yna o dan ddyletswyddau i sicrhau'r ddarpariaeth a dim ond gyda chytundeb y corff GIG neu ar gais y corff GIG y caniateir ei dileu o'r cynllun neu ei newid ar adolygiad (ac os gwneir cais felly, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais) (is-adrannau (5) – (7)). Pan fo'r Tribiwnlys Addysg yn gorchymyn i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynhwysir yn y cynllun o dan yr adran hon gael ei diwygio, nid yw'n ofynnol i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny (is-adran (9)).

***Gwybodaeth am gynlluniau***

**Adran 20 - Darparu gwybodaeth am gynlluniau datblygu unigol**

58. Mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sy'n llunio CDU roi copi o'r cynllun i'r plentyn, rhieni'r plentyn, ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, neu'r person ifanc. Os yw awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn dod yn gyfrifol am gynnal cynllun yn lle awdurdod neu gorff arall, rhaid iddo hysbysu'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc a darparu copi o'r cynllun i'r swyddog adolygu annibynnol.

***Adolygu cynlluniau***

**Adran 21 - Adolygu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal**

59. Mae adran 21 yn darparu ar gyfer adolygiadau o CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc (nad yw'n derbyn gofal). Rhaid i adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd pob cyfnod adolygu. Mae'r cyfnod adolygu cyntaf yn flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir copi o CDU o dan adran 20. Fel arfer, mae cyfnodau adolygu dilynol yn flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad yn y cyfnod adolygu blaenorol (a) pan roddwyd copi o gynllun diwygiedig mewn perthynas â'r cyfnod adolygu blaenorol hwnnw, neu, (b) os na chafodd y cynllun ei ddiwygio yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, pan roddwyd hysbysiad o benderfyniad i beidio â diwygio'r cynllun. O ganlyniad, dylai'r cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Mae hefyd ddarpariaeth ar

gyfer achosion pan na fo cynllun diwygiedig nac hysbysiad nad yw unrhyw ddiwygiad i gael ei wneud yn cael ei roi yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol (is-adran (4)). Mae is-adran (6) yn darparu i’r ddyletswydd gael ei thrin fel pe bai wedi ei bodloni mewn sefyllfaoedd pan fo corff ac eithrio’r corff sy’n cynnal y cynllun, yn ei adolygu mewn gwirionedd.

60. Rhaid i CDU hefyd gael ei adolygu os yw plentyn neu riant plentyn, neu berson ifanc, yn gofyn i’r cynllun gael ei adolygu oni bai bod yr awdurdod lleol neu’r corff llywodraethu yn ystyried nad oes angen gwneud hynny; ac os yw corff GIG y mae’n ofynnol iddo sicrhau darpariaeth o dan adran 18 yn gofyn am adolygiad. Mae’r adran hon hefyd yn caniatáu i’r cynllun gael ei adolygu ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn galluogi i’r CDU gael ei adolygu’n ddi-oed pan fydd amgylchiadau’n newid neu yn unol â dyddiadau adolygu a osodir fel rhan o gynllun gweithredu’r CDU. Os caiff y CDU ei ddiwygio, rhaid rhoi copi o’r cynllun diwygiedig i’r plentyn a’i riant, neu’r person ifanc. Os penderfynir peidio â diwygio’r CDU yn dilyn adolygiad, rhaid hysbysu’r plentyn, ei riant, neu’r person ifanc am y penderfyniad a’r rhesymau drosto.

61. Mae adran 22 yn ymdrin ag adolygiadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr adran hon (is-adran (12)).

**Adran 22 - Adolygu cynllun datblygu unigol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal**

62. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal sy’n cyfateb i’r hyn sydd yn adran 21.

63. Yn ychwanegol at ofynion yr adran hon, mae dyletswyddau eraill ar awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn sy’n ymwneud ag adolygu CDU y plentyn. Dyma’r dyletswyddau mewn perthynas ag adolygu Cynllun Gofal a Chymorth yn rhinwedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac odani (gweler adran 83 o’r Ddeddf honno). Am fod rhaid cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal yn ei gynllun addysg personol, sydd yn ei dro yn rhan o’r Cynllun Gofal a Chymorth (gweler adran 14 o’r Bil), mae’r dyletswyddau adolygu hynny yn cwmpasu’r CDU.

**Adran 23 - Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill**

64. Mae adran 23 yn galluogi i’r broses o lunio ac adolygu CDUau ar gyfer plentyn neu berson ifanc gael ei halinio â’r broses o lunio dogfennau eraill ar gyfer y plentyn hwnnw neu’r person ifanc hwnnw, megis unrhyw gynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol.

***Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu***

**Adran 24 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 9(1)**

65. Mae adran 24 yn galluogi plentyn neu ei riant, neu’r person ifanc, i ofyn i awdurdod lleol (sy’n gyfrifol am y plentyn neu’r person ifanc) ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir sef bod gan blentyn neu berson ifanc ADY neu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Pan ofynnir felly, rhaid i’r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch y mater; bydd y penderfyniad hwnnw wedyn yn disodli penderfyniad y corff llywodraethu a bydd penderfyniad blaenorol y corff llywodraethu yn peidio â chael effaith. Cyn iddo wneud ei benderfyniad, rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu. Mae’r adran hon yn darparu dull effeithiol i blant a’u rhieni, a phobl ifanc, herio penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn absenoldeb hawl i apelio i’r Tribiwnlys yn erbyn y cyrff hyn (gweler adran 66 sy’n rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol). Mae adran 27 yn delio â’r amgylchiadau pan nad yw’r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys.

**Adran 25 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 10**

66. Mae adran 25 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol (sy’n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc) ailystyried CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyda golwg ar ei ddiwygio. Cyn penderfynu pa un ai i ddiwygio’r cynllun ai peidio, rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu. Pan fo’r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen diwygio’r CDU rhaid iddo hysbysu’r plentyn a’i riant, neu’r person ifanc, am y penderfyniad a’r rhesymau

dros y penderfyniad hwnnw a rhoi copi o’r hysbysiad hwnnw i’r corff llywodraethu.

67. O dan yr adran hon caiff yr awdurdod lleol gyfarwyddo’r corff llywodraethu i gynnal y CDU diwygiedig; fel arall caiff yr awdurdod lleol ymgymryd â’r cyfrifoldeb am gynnal y CDU ei hun. Gall y sefyllfa gyntaf ddigwydd pan fo’r awdurdod lleol yn ystyried bod cynnwys y CDU o’r fath fel y gellir disgwyl i’r corff llywodraethu gyflenwi’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ynddo; gall yr ail sefyllfa ddigwydd pan na fyddai’n rhesymol i’r corff llywodraethu ddarparu hynny.

68. Os yw awdurdod lleol yn diwygio CDU, rhaid i’r awdurdod lleol roi copi o’r cynllun diwygiedig i’r corff llywodraethu ac mae adran 21(11) yn ei gwneud yn ofynnol i gopi gael ei roi i’r plentyn, ei riant, neu’r person ifanc. Mae’r adran hon yn darparu dull effeithiol i blant, eu rhieni, a phobl ifanc herio cynnwys y CDU a roddwyd yn ei le ar eu cyfer gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, yn absenoldeb yr hawl i apelio yn erbyn y cyrff hyn (gweler adran 66 sy’n rhoi hawliau i apelio sy’n ymwneud â chamau awdurdod lleol).

69. Mae adran 27 yn delio â’r amgylchiadau pan nad yw’r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys.

**Adran 26 - Dyletswydd awdurdodau lleol i benderfynu pa un ai i gymryd drosodd gynlluniau cyrff llywodraethu**

70. Mae adran 26 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol (sy’n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc) benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU mewn ymateb i gais iddo wneud hynny. Gallai’r cais gael ei gyflwyno gan gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach – er enghraifft pan na fo’r corff llywodraethu bellach yn credu bod cynnal y cynllun a chyflenwi’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o fewn ei allu – neu gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc, pan na fo’n credu bod gallu’r corff llywodraethu o ran darparu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy’n ofynnol gan y plentyn neu’r person ifanc wedi ei brofi. Mae’n bosibl herio penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU drwy apêl i’r Tribiwnlys Addysg o dan adran 66.

71. Pan fo corff llywodraethu yn gwneud y cais, rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu’r plentyn a’i riant, neu’r person ifanc, a gwahodd sylwadau.

Pan fo plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu a gwahodd sylwadau. Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu, a naill ai'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

72. Mae adran 27 yn delio â'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn yr adran hon yn gymwys.

**Adran 27 - Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 24(2), 25(2) a 26(3) yn gymwys**

73. Mae adran 27 yn nodi, pan fo awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad o'r blaen o dan un o'r adrannau a enwir uchod a'i fod wedi ei fodloni nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod o ran anghenion y plentyn neu'r person ifanc na gwybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad, nad oes unrhyw ddyletswydd i wneud penderfyniad newydd o dan yr adran o dan sylw. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â'r adrannau hyn pan fo plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal.

74. Ar gyfer plentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, mae'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun (gweler adran 33(9) a (10)) ac mae ganddo swyddogaethau adolygu (adran 22).

**Adran 28 - Cofrestru neu ymrestru mewn mwy nag un sefydliad**

75. Mae adran 28, ynghyd ag adran 9(3)(d), yn sicrhau pan fo plentyn neu berson ifanc yn mynychu mwy nag un ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y person, yr awdurdod lleol hwnnw sy'n gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY, ac am lunio a/neu gynnal cynllun ar ei gyfer ac nid yw'r dyletswyddau cyfatebol ar gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gymwys. Rhaid i'r corff llywodraethu atgyfeirio materion o'r fath i'r awdurdod lleol.

***Peidio â chynnal cynlluniau***

**Adran 29 - Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol**

76. Mae adran 29 yn nodi'r amgylchiadau pan fo dyletswydd benodol corff llywodraethu neu awdurdod lleol i lunio neu gynnal CDU yn peidio â bod. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig neu pan fo'r plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal (yn achos cyrff llywodraethu), neu pan fo'r awdurdod lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, neu pan fo plentyn yn dod, neu'n peidio â bod, yn blentyn sy'n derbyn gofal (at ddibenion Rhan 2) neu pan fo plentyn sy'n derbyn gofal yn peidio â bod yn ardal unrhyw awdurdod lleol, neu pan fo'r corff llywodraeth neu'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc mwyach, neu yn achos person ifanc, pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu yn unol â rheoliadau nad oes angen cynnal y cynllun mwyach i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.

77. Cyn penderfynu peidio â chynnal CDU oherwydd ei fod yn credu nad oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc mwyach neu, yn achos person ifanc, nad oes angen ei gynnal bellach, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc (ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol) am y penderfyniad arfaethedig. Rhaid iddo hefyd hysbysu'r un personau pan fydd wedi gwneud ei benderfyniad (ynghyd â'i resymau) ac, yn achos corff llywodraethu ysgol a gynhelir, hysbysu'r personau hynny o'u hawl i ofyn i awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad o dan adran 30.

78. Mae adran 33 yn delio â sefyllfaoedd pan fo dyletswydd i gynnal CDU wedi ei throsglwyddo i gorff arall. Mae adran 42 yn gwneud darpariaeth i ddyletswyddau i gynnal CDU beidio â bod mewn sefyllfaoedd pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn dod yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth.

**Adran 30 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 29**

79. Mae adran 30 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol (sy'n gyfrifol am y person) ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol i beidio â chynnal CDU. Bydd y cyfnod ar gyfer

gwneud y cais hwn yn cael ei nodi mewn rheoliadau. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r ddyletswydd i gynnal y CDU beidio â bod a hysbysu (gyda'i resymau) y corff llywodraethu, y plentyn a'i riant, neu'r person ifanc yn unol â hynny. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cynnal y CDU, rhaid i'r corff llywodraethu barhau i wneud hynny. Pan fo'r awdurdod lleol yn cytuno y gall y CDU beidio â chael ei gynnal, mae modd apelio yn erbyn ei benderfyniad o dan adran 66 a rhaid penderfynu ar yr apêl neu raid bod yr amser ar gyfer apelio wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, cyn i'r ddyletswydd i gynnal CDU ddarfod (gweler adran 31).

**Adran 31 - Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun er mwyn caniatáu ailystyriaeth neu apêl**

80. Mae adran 31 yn sicrhau bod CDU yn parhau i gael ei gynnal hyd nes bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc wedi cael y cyfle i ddefnyddio eu holl opsiynau ar gyfer apelio. Felly, ni chaiff corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal y CDU oni bai bod y cyfnod a ragnodir ar gyfer ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o dan adran 30 wedi dod i ben heb i gais am ailystyriaeth gael ei gyflwyno neu, os cyflwynir cais yn ystod y cyfnod hwnnw, hyd nes y bydd yr awdurdod lleol wedi gwneud ei benderfyniad a bod y cyfnod ar gyfer apelio yn ei erbyn wedi dod i ben, neu y penderfynwyd yn llwyr ar apêl sydd wedi ei dwyn yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn yr un modd, ni chaiff corff llywodraethu sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU hyd nes y bydd y cyfnod i ddwyn apêl wedi dod i ben neu hyd nes y penderfynwyd ar apêl sydd wedi ei dwyn o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl i gael ei nodi mewn rheoliadau o dan adran 71.

**Adran 32 - Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed**

81. Mae adran 32 yn sicrhau, os yw person ifanc yn cyrraedd 25 oed yn ystod cwrs addysg neu hyfforddiant, fod rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am y CDU a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ynddo barhau i gyflenwi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd (fel y'i diffinnir yn is-adran (2)).

***Trosglwyddo cynlluniau***

**Adran 33 - Trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau**

82. Mae adran 33 yn trosglwyddo’r ddyletswydd i gynnal CDU yn y sefyllfaoedd amrywiol a nodir. Yn gyffredinol, mae’n ei gwneud yn ofynnol, pan fo plentyn neu berson ifanc sydd â CDU yn trosglwyddo rhwng ysgolion a gynhelir, neu rhwng ysgol a gynhelir a sefydliad addysg bellach, neu’n symud o un ardal awdurdod lleol i ardal arall, fod y CDU yn trosglwyddo/symud gyda’r plentyn neu’r person ifanc. Yn yr un modd, mae’n delio â phlentyn sydd â CDU ac sy’n dod yn blentyn sy’n derbyn gofal neu’n peidio â derbyn gofal mwyach.

**Adran 34 - Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach.**

83. Mae adran 34 yn caniatáu i awdurdod lleol ofyn i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer person ifanc, pan fo’r person ifanc hwnnw wedi ei ymrestru yn y sefydliad addysg bellach a bod yr awdurdod lleol yn cynnal y CDU ar ei gyfer ar hyn o bryd. Os nad yw’r corff llywodraethu yn cytuno â’r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, mae adran 34 yn caniatáu i’r awdurdod lleol atgyfeirio’r mater at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt hwy benderfynu a ddylai’r corff llywodraethu gynnal y cynllun. Os yw’r corff llywodraethu yn cytuno i’r cais, neu os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai gynnal y cynllun, yna mae o dan ddyletswydd i wneud hynny (gweler adran 10(4)).

**Adran 35 - Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol**

84. Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach mewn rheoliadau ar y materion a restrir yn is-adran (1) sydd oll yn ymwneud â throsglwyddo dyletswyddau i gynnal CDUau. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer trosglwyddiadau pellach (ac eithrio’r rhai yn adran 33) o dan amgylchiadau penodol a darpariaeth sy’n ymwneud ag awdurdodau lleol sy’n gofyn i sefydliadau addysg bellach gymryd drosodd CDU ac atgyfeirio’r mater at Weinidogion Cymru iddynt hwy benderfynu arno (o dan adran 34).

***Pwerau i gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir***

**Adran 36 - Pŵer awdurdod lleol i gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir**

85. Pan na fo awdurdod lleol yn cynnal ysgol a gynhelir, mae adran 36 yn ei atal rhag defnyddio unrhyw un neu ragor o'i bwerau i gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol honno heb ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

***Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth***

**Adran 37 - Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill**

86. Mae adran 37 yn rhoi ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" fel plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr (ac yn achos darpariaethau sy'n gymwys pan gaiff person ei ryddhau, mae'n cynnwys person a oedd, yn union cyn ei ryddhau, yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth). Mae hyn yn ymwneud â'r diffiniadau o'r termau "gorchymyn cadw" ("detention order") a "llety ieuenctid perthnasol" ("relevant youth accommodation") yn adran 562 o Ddeddf 1996:

- mae "gorchymyn cadw" ("detention order") yn orchymyn a wneir gan lys, neu'n orchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (ond nid y gorchmynion na'r awdurdodiadau a grybwyllir yn adran 562(2) a (3) o Ddeddf 1996);

- ystyr "llety ieuenctid perthnasol" yw llety cadw ieuenctid (o fewn yr ystyr a roddir i "youth detention accommodation" gan adran 107(1) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000), ac nid yw'n sefydliad i droseddwyr ifanc, neu'n rhan o sefydliad o'r fath, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cadw personau sy'n 18 oed ac yn hŷn yn gaeth.

87. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio termau allweddol cysylltiedig eraill a ddefnyddir yn y Bil, gan gynnwys "awdurdod cartref" a "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth". Yn ogystal, mae'n caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n cymhwyso, gydag addasiadau, y diffiniad o "awdurdod cartref".

**Adran 38 - Dyletswydd i lunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy’n cael eu cadw’n gaeth**

88. Diben adran 38 yw sicrhau, pan fo’n cael ei ddwyn i sylw’r awdurdod cartref neu pan fo’n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn neu berson ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth ADY ac nad yw CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer o dan adran 40 fod rhaid i’w awdurdod lleol cartref (os yw yng Nghymru) benderfynu a oes gan y plentyn neu’r person ifanc ADY. Os yw’r awdurdod lleol cartref yn penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, rhaid iddo benderfynu a oes angen cynnal CDU ar gyfer y plentyn hwnnw neu’r person ifanc hwnnw unwaith y bydd wedi ei ryddhau.

89. Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, mae dyletswydd wedi ei gosod ar yr awdurdod cartref i wahodd y person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol i fod yn rhan o’r broses o wneud penderfyniad ac, os oes angen, i fod yn rhan o’r gwaith o lunio CDU. Rhaid rhoi copi o’r CDU i’r plentyn sy’n cael ei gadw’n gaeth a’i riant, neu’r person ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth, a’r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol.

90. Rhaid i’r awdurdod cartref hysbysu’r plentyn sy’n cael ei gadw’n gaeth a’i riant, neu’r person ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth, a’r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol, os yw’n penderfynu nad oes gan y plentyn neu’r person ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth ADY neu’n penderfynu na fyddai cynnal CDU yn angenrheidiol pan fydd yn cael ei ryddhau. Rhaid i’r awdurdod cartref ddarparu esboniad o’r rhesymau dros ei benderfyniad.

**Adran 39 - Amgylchiadau pan nad yw’r ddyletswydd yn adran 38(2) yn gymwys**

91. Mae adran 39 yn nodi’r eithriadau i’r dyletswyddau ar awdurdodau cartref yn adran 38 mewn perthynas â phenderfynu a oes gan berson ADY ac a oes angen CDU ar gyfer y person pan fydd yn cael ei ryddhau. Nid yw’r dyletswyddau hyn yn gymwys os nad yw person ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth yn cydsynio i’r penderfyniad o ran a oes gan y person ADY gael ei wneud neu i gynllun gael ei lunio. Nid yw’r dyletswyddau hyn yn gymwys ychwaith os yw’r awdurdod lleol wedi penderfynu o’r blaen a oes gan y plentyn neu’r person ifanc ADY a’i fod wedi ei fodloni nad yw anghenion y plentyn neu’r person ifanc wedi

newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes gwybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw neu na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person pan fydd yn cael ei ryddhau.

**Adran 40 - Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

92. Os oes gan blentyn neu berson ifanc CDU yn union cyn iddo gael ei gadw'n gaeth, neu fod un yn cael ei lunio gan yr awdurdod lleol cartref yn ystod y cyfnod o gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn gaeth yn barod ar gyfer ei ryddhau (o dan adran 38), oni bai nad yw person ifanc yn cydsynio iddo, mae adran 40 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cartref i gadw'r CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol, a threfnu i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol gael ei darparu iddo tra bo'n cael ei gadw'n gaeth felly. Darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU, neu os nad yw hynny'n ymarferol, ddarpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agos â phosibl ati, neu (pan na fo'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y cynllun bellach yn briodol) ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol.

93. Ni fydd awdurdod cartref ond yn gyfrifol am gadw CDU o dan adran 40 unwaith y caiff y ffaith bod CDU yn cael ei gynnal gan gorff neu awdurdod arall ei dwyn i sylw'r awdurdod cartref.

94. Rhaid i'r awdurdod cartref hysbysu'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth os yw CDU o'r fath yn cael ei gadw a rhoi copi o'r CDU i'r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol.

**Adran 41 - Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth**

95. Mae adran 41 yn sicrhau, pan fydd plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei ryddhau a bod awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ar y dyddiad rhyddhau, y bydd yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn cynnal cynllun a oedd yn cael ei gadw ar gyfer y person o dan adran 40 ac yn sicrhau'r ddarpariaeth a nodir ynddo. Fodd bynnag, os yw'r person sy'n cael ei rhyddhau yn blentyn sy'n derbyn gofal pan gaiff ei ryddhau, rhaid i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n

gofalu am y plentyn gynnal y cynllun (ac mae’n gwneud hynny o dan adran 17).

**Adran 42 - Darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy’n cael eu cadw’n gaeth**

96. Mae adran 42 yn ymdrin â chymhwyso dyletswyddau yn y Bil mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy’n cael eu cadw’n gaeth. Mae is-adran (1) yn darparu i’r dyletswyddau a restrir yn is-adran (2) ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol beidio â bod yn gymwys mewn perthynas â pherson sy’n cael ei gadw'n gaeth (a ddiffinnir yn adran 37(1)) o ddechrau’r cyfnod o gadw'r person hwnnw yn gaeth.

97. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw’r dyletswyddau a restrir yn is-adran (4) ar gyrff llywodraethu yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sydd wedi ei gadw’n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

98. Mae is-adrannau (5) i (7) yn ymdrin â'r rhyngweithio rhwng Rhan 2 ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996. Maent yn cymhwyso adran 562 o Ddeddf 1996 at ddibenion y Bil fel pe bai’r diwygiadau iddi a wneir gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 eisoes mewn grym yn llawn o ran Cymru, ac fel pe bai’r cyfeiriad yn adran 562 at lety ieuenctid perthnasol yn gyfeiriad at lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. O ganlyniad, mae’r dyletswyddau yn Rhan 2 o’r Bil ar awdurdodau cartref mewn perthynas â phersonau sy’n cael eu cadw’n gaeth yn gymwys fel y nodir yn Rhan 2 ac nid yw dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn Rhan 2 yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy’n cael ei gadw’n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

## Pennod 3 – Swyddogaethau Atodol

***Swyddogaethau sy’n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol***

**Adran 43 - Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol**

99. Mae adran 43 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir

neu’n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad addysg bellach, ond nad oes CDU wedi ei gynnal ar ei gyfer, fod rhaid i’r corff llywodraethu perthnasol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY y person yn galw amdani. Y rheswm dros hyn yw sicrhau, er enghraifft, fod plant a phobl ifanc o’r fath yn cael cefnogaeth briodol tra canfyddir eu hanghenion neu tra llunnir cynllun ar eu cyfer.

100. Mae adran 43 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy’n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, fod y corff llywodraethu perthnasol yn cymryd pob cam rhesymol i helpu’r awdurdod lleol i sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.

**Adran 44 - Dyletswydd i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir a enwir**

101. Mae adran 44 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru i dderbyn plant pan fo’r ysgol honno wedi ei henwi mewn CDU at ddiben derbyn plant gan awdurdod lleol. Mae hyn yn debyg i’r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag enwi ysgol mewn datganiad AAA. Fodd bynnag, mae’r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny pan all ysgolion gael eu henwi i’r amgylchiadau hynny pan fo’r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod lles y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a’i bod yn briodol i’r addysg a’r hyfforddiant gael eu darparu i’r plentyn yno. Cyn enwi ysgol o dan yr adran hon, rhaid i’r awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu’r ysgol, ac yn achos ysgol a gynhelir pan nad yr awdurdod lleol na’i chorff llywodraethu yw’r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol (fel y’i diffinnir gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998), â’r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae’r ysgol.

**Adran 45 - Dim pŵer i godi tâl am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Ddeddf hon**

102. Mae adran 45 yn sicrhau nad oes rhaid i blentyn, rhiant (sy’n unigolyn yn hytrach nag awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn) neu berson ifanc dalu am unrhyw ddarpariaeth y mae rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ei sicrhau ar gyfer y plentyn hwnnw neu’r person ifanc hwnnw o dan y Bil.

**Adran 46 - Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16**

103. Ar hyn o bryd mae Deddf 2000 yn delio â dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau dysgu. Mae adran 46 yn diwygio Deddf 2000 er mwyn adlewyrchu ystyr newydd y term ADY a ddiffinnir o dan adran 2 o'r Bil. Mae hefyd yn diwygio'r un Ddeddf i ddileu dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sicrhau llety byrddio i bersonau dros 16 oed pan fo ganddynt anhawster a/neu anabledd dysgu. Mae dyletswydd gan awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau penodedig o dan adran 12 o'r Bil, i gynnwys darpariaeth bwyd a llety mewn CDU ac i sicrhau'r ddarpariaeth honno ar gyfer personau hyd at 25 oed. Mae adran 46 hefyd yn dileu adran 140 o Ddeddf 2000 sy'n ymwneud ag asesiadau ar gyfer Cynlluniau Dysgu a Sgiliau, a fydd yn cael eu disodli gan CDUau a sefydlir gan adran 8 o'r Bil.

104. Yn olaf, mae adran 46 hefyd yn diwygio Deddf 2000 fel bod Gweinidogion Cymru, wrth iddynt gynllunio'r ddarpariaeth o addysg ôl-16, yn ystyried gallu gweithlu'r sector addysg bellach i gyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac argaeledd cyfleusterau i asesu a oes gan bersonau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Adran 47 - Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

105. Mae adran 47 yn ei gwneud yn ofynnol, pan ddylai plentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol ac sydd ag ADY gael ei addysgu mewn ysgol, fod rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) yn gymwys. Mae'r eithriadau hyn yn cydnabod y gallai fod yn briodol addysgu plentyn ag ADY mewn man arall ar adegau.

**Adran 48 - Plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

106. Mae adran 48 yn ei gwneud yn ofynnol i blant ag ADY sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir gymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â'u cyfoedion nad oes ganddynt ADY, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r materion a restrir yn is-adran (2).

**Adran 49 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn man ac eithrio mewn ysgolion**

107. Mae adran 49 yn caniatáu i awdurdod lleol sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol neu unrhyw ran ohoni a nodir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn yn cael ei gwneud mewn man arall pan fydd wedi ei fodloni y byddai'n amhriodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud mewn ysgol.

**Adran 50 - Diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru**

108. Mae adran 50 yn diwygio Deddf Addysg 2002 fel bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru. At hynny, pan fydd ysgolion annibynnol yn cofrestru â Gweinidogion Cymru bydd yn ofynnol iddynt, drwy reoliadau, bennu'r math(au) o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent yn ei gwneud ar gyfer disgyblion ag ADY. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei phennu yn y gofrestr a gyhoeddir hefyd.

**Adran 51 - Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol**

109. O dan adran 51, ni chaiff awdurdod lleol leoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol yng Nghymru oni bai bod yr ysgol ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall yr ysgol wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y person.

110. Yn yr un modd, mae awdurdod lleol wedi ei wahardd rhag lleoli plant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol annibynnol (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008) yn Lloegr, oni bai bod y sefydliad wedi ei gynnwys o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall y sefydliad wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn CDU y person.

111. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli'r darpariaethau cymeradwyo a chysyniad unigol presennol yn adran 347 o Ddeddf 1996, a ddilëir o dan adran 54 o'r Bil hwn.

**Adran 52 - Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol**

112. Mae adran 52 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr wedi ei chyhoeddi o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (a ddiffinnir yn is-adran (6)) yng Nghymru a Lloegr. Caiff perchenogion sefydliadau o’r fath sydd wedi eu trefnu’n arbennig i ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol wneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu cymeradwyo a’u cynnwys ar y rhestr. Ni chaiff awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o’r Bil i leoli plant a phobl ifanc mewn sefydliadau o’r fath nad ydynt ar y rhestr. Mae rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer gofynion a gweithdrefnau gwneud cais, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i wrthod rhestru sefydliad.

**Adran 53 - Diddymu cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru**

113. Mae adran 53 yn diwygio Deddf 1996 i ddileu pŵer Gweinidogion Cymru i gymeradwyo creu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes ysgolion o’r fath ar gael yng Nghymru. Yn y dyfodol, bydd angen i bob ysgol newydd nas cynhelir gofrestru fel ysgol annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.

**Adran 54 - Diddymu cymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru**

114. Mae adran 54 yn diddymu adran 347 o Ddeddf 1996 (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy’n addas i dderbyn plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig). Gweler adrannau 50-51 ar faterion sy’n ymwneud â gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol ac amodau ar gyfer awdurdod lleol sy’n sicrhau addysg ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY mewn ysgol annibynnol.

**Adran 55 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr**

115. Mae adran 55 yn caniatáu i awdurdod lleol drefnu bod plentyn neu berson ifanc ag ADY yn mynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr pan fo’r sefydliad hwnnw wedi ei drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn ei CDU.

***Swyddogion cydlynu anghenion dysgu ychwanegol***

**Adran 56 - Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol**

116. Mae adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (cydlynydd ADY) i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ag ADY. Mae hefyd yn caniatáu i reoliadau roi swyddogaethau i gydlynwyr ADY sy'n ymwneud â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag ADY a'i gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr ADY y cymwysterau neu'r profiad (neu'r ddau) fel y'u rhagnodir yn y rheoliadau.

**Adran 57 - Swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig**

117. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Rhaid i'r swyddog feddu ar gymwysterau a phrofiad addas o ran darparu gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog fod naill ai'n ymarferydd meddygol cofrestredig, neu'n nyrs gofrestredig neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

**Adran 58 - Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar**

118. Mae adran 58 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog sydd â chyfrifoldeb am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 2 mewn perthynas â phlant o dan yr oedran ysgol gorfodol, sydd ag ADY neu a all fod ag ADY, ac nad ydynt mewn ysgol neu feithrinfa a gynhelir.

***Swyddogaethau amrywiol***

**Adran 59 - Dyletswydd i gadw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad**

119. Mae adran 59 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw o dan adolygiad y trefniadau a wneir ganddynt a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn eu hardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, er

mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Fel rhan o'u hystyriaethau, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan gyrff eraill (megis cyrff iechyd). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac os ydynt yn ystyried nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn Gymraeg yn ddigonol, gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn llywio'r broses ystyried ac adolygu ac ar yr adegau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**Adran 60 - Swyddogaethau cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.**

120. Mae'r adran hon yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fo corff iechyd penodedig yng Nghymru neu yn Lloegr yn arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano. Os yw'r corff iechyd yn ffurfio barn bod gan y plentyn (neu y mae'n debygol bod gan y plentyn) ADY, rhaid i'r corff iechyd ddwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y plentyn (neu os yw'r plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn), os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn.

121. Mae'r adran hon yn sicrhau bod rhiant y plentyn yn cael ei hysbysu am farn y corff iechyd ac am ei ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol priodol, ac yn sicrhau bod y rhiant yn cael cyfle i drafod y farn hon â swyddog o'r corff iechyd, cyn i'r corff iechyd ddwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol priodol.

122. Mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd ar y corff iechyd i hysbysu'r rhiant am unrhyw sefydliadau gwirfoddol y mae'n credu eu bod yn debygol o roi cyngor neu gymorth i'r rhiant mewn cysylltiad ag unrhyw ADY a all fod gan y plentyn.

**Adran 61 - Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall**

123. Mae adran 61 yn darparu pan fydd awdurdodau lleol yn gofyn am wybodaeth neu help gan gyrff cyhoeddus penodol er mwyn arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlant a phobl

ifanc ag ADY, y cydymffurfir â’r ceisiadau hynny. Mae’r personau sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd hon wedi eu rhestru yn is-adran (4).

124. Caiff person o’r fath wrthod cydymffurfio â’r cais am help neu wybodaeth os yw’n ystyried bod gwneud hynny’n anghydnaws â’i ddyletswyddau ei hun neu y byddai’n cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau’r person. Fodd bynnag, os nad yw’r person yn cydymffurfio â chais o’r fath am help neu wybodaeth, rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod y cais i’r awdurdod lleol.

125. Mae’r adran hon yn caniatáu i reoliadau nodi cyfnod rhagnodedig y mae rhaid i’r person gydymffurfio â chais ynddo, ac i eithriadau fod yn gymwys i’r gofyniad i gydymffurfio o fewn y cyfnod rhagnodedig hwn.

**Adran 62 - Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill**

126. Mae adran 62 yn sicrhau bod gan awdurdod lleol sy’n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc hawl i gael mynediad i fangre’r ysgol neu’r sefydliad arall yng Nghymru neu yn Lloegr lle y darperir addysg neu hyfforddiant ar gyfer y plentyn hwnnw neu’r person ifanc hwnnw. Dim ond pan fo’n angenrheidiol er mwyn i’r awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon o’r Bil y mae’r hawl mynediad hon yn gymwys, a rhaid i hynny ddigwydd ar adeg resymol.

127. Mae’r sefydliadau y mae hawl gan awdurdod lleol i gael mynediad iddynt wedi eu rhestru yn adran 62(3).

**Adran 63 - Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

128. Mae adran 63 yn caniatáu i reoliadau ddarparu i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i bersonau sy’n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol neu sy’n arfer swyddogaethau o dan y Bil hwn. Caiff hyn gynnwys rheoliadau ynghylch telerau ac amodau cyflenwi nwyddau a gwasanaethau o’r fath.

# Pennod 4 – Osgoi a Datrys Anghytundebau

## *Trefniadau awdurdodau lleol*

### Adran 64 - Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau

129. Mae adran 64 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Bil, rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, ac ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol eraill a restrir yn is-adran (7) ar y llaw arall. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys darparu mynediad at help gan berson annibynnol i ddatrys anghytundeb. O dan adran 7 rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn hysbys i bobl amrywiol, gan gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc a chyrff llywodraethu. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd hybu'r defnydd ohonynt (is-adran (4)). Caiff y Cod wneud gofynion pellach o dan adran 4(5)). Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu plant, eu rhieni a phobl ifanc nad yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (is-adran (5)). Mae is-adran (8) yn darparu y bydd trefniadau awdurdodau lleol o dan yr adran hon hefyd yn gymwys i blant y mae'n gofalu amdanynt, ond nad ydynt yn eu hardal.

### Adran 65 - Gwasanaethau eirioli annibynnol

130. Mae adran 65 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos wrth wneud, wrth fwriadu gwneud neu wrth ystyried gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd gael eu darparu i blant, pobl ifanc neu gyfaill achos sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a wneir o dan adran 64 o'r Bil. Yn rhinwedd adran 64(8), bydd trefniadau awdurdodau lleol o dan yr adran hon hefyd yn gymwys i blant y mae'n gofalu amdanynt, ond nad ydynt yn eu hardal.

131. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y dylai trefniadau'r gwasanaeth eirioli annibynnol fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu sy'n ymwneud â'r apêl.

132. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan adran 7, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pobl amrywiol, gan gynnwys plant, eu rhieni, pobl ifanc a chyrff llywodraethu yn ymwybodol o’r trefniadau hyn.

***Apelau a cheisiadau i’r Tribiwnlys***

**Adran 66 - Hawliau o ran apelau a cheisiadau**

133. Mae adran 66 yn darparu hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn penderfyniadau cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach a phenderfyniadau awdurdodau lleol ac mewn perthynas â CDUau a lunnir neu a gynhelir gan gorff neu awdurdod o’r fath neu a ddiwygir gan awdurdod o dan adran 25(6).

134. Mae’r adran hon yn nodi’r materion a’r amgylchiadau pan gaiff plentyn, ei riant neu berson ifanc apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, er enghraifft ynghylch penderfyniad bod gan blentyn neu berson ifanc ADY neu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Yn rhinwedd adran 80, o dan amgylchiadau perthnasol, caiff cyfeillion achos ddwyn apelau ar ran plentyn nad oes ganddo ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall rhai o’r materion sydd wedi eu cwmpasu gan y Bil hwn. Mae’n bosibl mai’r ffaith bod y plentyn yn ifanc sydd i gyfrif am y ffaith nad oes ganddo ddealltwriaeth neu mae’n bosibl bod rhesymau eraill, megis anabledd dysgu. Mae adran 79 yn darparu ar gyfer plant nad oes ganddynt ddealltwriaeth.

135. Mae’r adran hon hefyd yn galluogi plentyn neu riant plentyn i wneud cais i’r Tribiwnlys Addysg am ddatganiad naill ai bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo’r galluedd (lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth) i wneud penderfyniad neu i ddeall gwybodaeth mewn perthynas â’i ADY.

**Adran 67 - Penderfyniadau ar apelau a cheisiadau o dan adran 66**

136. Mae adran 67 yn nodi’r gorchmynion neu’r penderfyniadau eraill y caiff Tribiwnlys Addysg Cymru eu gwneud ar apêl o dan adran 66(2) (hawliau o ran apelau a cheisiadau). Mae hefyd yn darparu i’r Tribiwnlys, ar gais o dan adran 66(3) o ran pa un a oes gan blentyn alluedd ai peidio, ddatgan ar y mater.

**Adran 68 - Yr hawl i apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

137. Mae adran 68 yn rhestru'r materion y caiff plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth, ei riant, neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn eu herbyn. Mae hefyd yn rhestru pwerau'r Tribiwnlys Addysg mewn perthynas ag apêl o'r fath.

**Adran 69 - Penderfyniadau ar apelau o dan adran 68**

138. Mae adran 69 yn nodi'r gorchmynion neu'r penderfyniadau eraill y caiff Tribiwnlys Addysg Cymru eu gwneud ar apêl o dan adran 68 (yr hawl i apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth)

**Adran 70 - Rheoliadau ynghylch apelau a cheisiadau**

139. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys o dan y Rhan hon o'r Bil, gan gynnwys, er enghraifft, ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â chynllun datblygu unigol y gellir dwyn apêl yn ei erbyn, darpariaeth ynghylch gwneud apelau a phenderfynu arnynt, rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl neu gais, ac ar gyfer apelau neu geisiadau heb wrthwynebiad.

**Adran 71 - Rheoliadau ynghylch y weithdrefn**

140. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cychwyn apêl neu gais a thrafodion Tribiwnlys Addysg Cymru o dan Ran 2. Mae'r adran hon yn rhestru'r darpariaethau y caniateir iddynt gael eu gwneud ac yn nodi bod rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat, ac eithrio o dan amgylchiadau a ragnodir mewn rheoliadau.

**Adran 72 - Cyrff GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys**

141. Mae adran 72 yn darparu y caiff y Tribiwnlys Addysg arfer ei swyddogaethau er mwyn: ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG roi tystiolaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r corff; a gwneud argymhellion i gorff GIG ynghylch arfer swyddogaethau'r corff, yn y ddau achos mewn perthynas ag apêl o dan Ran 2. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG y gwnaed argymhelliad iddo lunio adroddiad i'r Tribiwnlys, o fewn unrhyw gyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, ar naill ai: y camau y mae wedi eu cymryd neu'n bwriadu

eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad; neu os nad yw wedi cymryd unrhyw gamau ac nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau, y rheswm dros hynny.

**Adran 73 - Cydymffurfedd â gorchmynion**

142. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol, os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud gorchymyn o dan Ran 2 (e.e. sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwygio CDU), fod rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o dan sylw gydymffurfio â'r Gorchymyn cyn diwedd y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau (os oes un), sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff ei wneud. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff neu'r awdurdod o dan sylw adrodd i'r Tribiwnlys o ran cydymffurfedd â'r gorchymyn o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y mae rhaid iddo fod wedi cydymffurfio â'r gorchymyn (o dan is-adran (1)).

**Adran 74 - Trosedd**

143. Mae'r adran hon yn darparu bod y rheini sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad (pan fo'r gofyniad wedi ei osod gan reoliadau) sy'n ymwneud â datgelu dogfennau neu edrych ar ddogfennau neu i fod yn bresennol yn y tribiwnlys i roi tystiolaeth a dangos dogfennau, yn euog o drosedd y mae modd ei chosbi drwy ddirwy.

**Adran 75 - Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru**

144. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i dalu lwfansau mewn perthynas â bod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru.

**Adran 76 - Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys**

145. Diben adran 76 yw caniatáu i barti i unrhyw drafodion ynghylch ADY gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru yn y trafodion hynny.

# Pennod 5 – Cyffredinol

### Adran 77 - Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth

146. Mae adran 77 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau ynghylch sut y caniateir i wybodaeth gael ei defnyddio a'i datgelu at ddibenion Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc. Gall hyn gynnwys rheoliadau ynghylch personau ychwanegol y mae rhaid iddynt gael copïau o CDUau, ac achosion pan fydd rhaid darparu copïau o'r cynlluniau heb gydsyniad y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc.

### Adran 78 - Rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd

147. Diben adran 78 yw ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gwneud i alluogi rhieni a phobl ifanc, nad oes ganddynt alluedd meddyliol ar adeg pan fydd ganddynt hawl i wneud penderfyniad neu i'w safbwyntiau ynghylch materion o dan y Bil gael eu cynrychioli, i gael eu cynrychioli gan berson priodol. Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at fod heb alluedd yn gyfeiriad at yr hyn sydd wedi ei ddiffinio yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

### Adran 79 - Galluedd plant

148. Mae adran 79 yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan na fo gan blentyn ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i ddeall dogfennau a ddarperir o dan y Bil hwn, neu'r hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau o dan y Bil. Gallai hyn fod oherwydd bod y plentyn yn ifanc neu oherwydd resymau eraill, megis anabledd dysgu. Pan fo corff llywodraethu, awdurdod lleol neu gorff GIG yn ystyried nad oes gan blentyn y gallu i ddeall, a/neu pan fo'r Tribiwnlys Addysg wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw, nid yw'r dyletswyddau o dan y Bil i ddarparu gwybodaeth i'r plentyn neu i'w hysbysu am benderfyniadau yn gymwys oni bai bod cyfaill achos wedi ei benodi ar gyfer y plentyn gan y Tribiwnlys Addysg neu fod y Tribiwnlys Addysg wedi datgan fod gan y plentyn alluedd.

149. Ar yr un sail, mae'r adran hon yn datgymhwyso dyletswyddau i adolygu neu i ailystyried CDUau yn dilyn cais gan blentyn yr ystyrir nad oes ganddo'r galluedd i ddeall.

150. Pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ystyried bod gan blentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall, mae'r adran hon yn

galluogi’r plentyn neu riant y plentyn i ofyn i’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am y plentyn ailystyried y mater. Rhaid i’r awdurdod lleol benderfynu ar y mater wedyn.

**Adran 80 - Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd**

151. Mae adran 80 yn darparu ar gyfer penodi (neu ddiswyddo) "cyfaill achos" drwy orchymyn gan Dribiwnlys Addysg Cymru, pan na fo gan y plentyn y galluedd i gynnal apelau, i wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â hawliau a roddir gan y Bil, neu i ddeall gwybodaeth neu ddogfennau a anfonir atynt.

152. Byddai cyfaill achos yn gallu cynrychioli a chefnogi’r plentyn, gwneud penderfyniadau ar ei ran ac arfer hawliau’r plentyn o dan y Bil. Rhaid i’r cyfaill achos weithredu’n deg ac yn gymwys ac er budd y plentyn.

153. Bydd y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu rhagor o fanylion o ran sut y gellid defnyddio cyfeillion achos i gefnogi hawliau plant. Bydd cael cyfaill achos yn caniatáu i blant nad ydynt, er enghraifft, yn cael cymorth gan eu rhieni i ddwyn apêl neu i arfer hawliau eraill o dan y Bil.

**Adran 81 - Cymhwyso darpariaethau ailystyried i ddisgyblion a myfyrwyr sy’n preswylio yn Lloegr**

154. Mae’r adran hon yn cymhwyso, gydag addasiadau, swyddogaethau awdurdod lleol penodol o dan y Bil i blant a phobl ifanc sy’n preswylio yn Lloegr ond sy’n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae’r Bil yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol ystyried penderfyniadau gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chynlluniau a gynhelir ganddynt, mewn cysylltiad â disgyblion yn ei ardal. Mae hawliau apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na phenderfyniadau’r corff llywodraethu. Fodd bynnag, mae’n bosibl bod disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr o’r fath sy’n preswylio yn Lloegr yn gallu herio penderfyniadau ysgolion mewn perthynas â’u ADY, mae’r adran hon yn cymhwyso’r adrannau ar awdurdodau lleol sy’n ailystyried penderfyniadau cyrff llywodraethu ysgolion gydag addasiadau.

155. Yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol yng Nghymru y mae’r plentyn neu’r person ifanc sy’n preswylio yn Lloegr yn ei mynychu sy’n gyfrifol am ailystyried penderfyniadau ynghylch ADY (yn unol ag adran 24),

ailystyried CDUau'r corff llywodraethu (yn unol ag adran 25), ac ailystyried penderfyniadau'r corff llywodraethu i beidio â chynnal CDUau (yn unol ag adran 30). Mae gwahaniaethau yng nghymhwysiad y darpariaethau hyn o ran yr hyn y caiff yr awdurdod lleol sy'n cynnal ei wneud, sy'n adlewyrchu bod awdurdod lleol yn Lloegr sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Er enghraifft, ni chaiff yr awdurdod lleol ond gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gynnal neu i lunio a chynnal CDU – ni all gynnal y CDU na chymryd drosodd y cyfrifoldeb amdano. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol lunio CDU neu gyfarwyddo corff llywodraethu i wneud hynny pan fo wedi gofyn i'r awdurdod lleol perthnasol yn Lloegr gynnal asesiad o anghenion y plentyn neu'r person ifanc o dan adran 36 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 neu fod Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Ddeddf honno.

**Adran 82 - Rhoi hysbysiad etc. o dan y Ddeddf hon**

156. Pan fo'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ddanfon dogfen neu hysbysiad i berson, mae adran 82 yn rhestru'r dulliau danfon. Dim ond os yw'r person wedi nodi ei fod yn dymuno cael hysbysiadau neu ddogfennau yn electronig ac wedi darparu cyfeiriad addas y caiff hysbysiadau neu ddogfennau gael eu danfon yn electronig.

**Adran 83 - Adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg**

157. Mae adran 83 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac adrodd arno. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf cyn 1 Medi yn y bumed flwyddyn yn dilyn cychwyn drwy orchymyn unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2, ac ar ôl hynny, cyn 1 Medi yn y bumed flwyddyn yn dilyn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd yn ofynnol cyhoeddi adroddiad ynddi.

**Adran 84- Pŵer i ddiwygio dyletswyddau i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg**

158. Mae adran 84 yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau sy'n dileu'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" o'r darpariaethau hynny yn y Bil (a restrir yn is-adran (1)) pan fônt yn ymddangos mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol

yn Gymraeg neu'n darparu yn yr un darpariaethau hynny nad yw'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" yn gymwys mwyach mewn perthynas â chyrff rhagnodedig penodol neu at ddiben rhagnodedig, neu at ddiben rhagnodedig mewn perthynas â chorff rhagnodedig. Mae adran 84 hefyd yn darparu i Weinidogion Cymru y pŵer i hepgor adran 83 (h.y. y ddyletswydd i gynnal adolygiadau o ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg) os yw'r geiriau "gymryd pob cam rhesymol i" wedi eu dileu o bob darpariaeth berthnasol yn y Bil. Mae'r adran hon yn cysylltu ag adran 83 oherwydd canlyniad yr adolygiadau fydd ystyriaeth berthnasol yn y penderfyniad i arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau.

## Rhan 3 – Tribiwnlys Addysg Cymru

### Adran 85 - Cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru

159. Mae adran 85 yn darparu i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gael ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'). Mae'r adran hon yn nodi sut y mae rhaid ei gyfansoddi, gan gynnwys bod rhaid iddo gael Llywydd, 'panel cadeirydd cyfreithiol' a 'panel lleyg' ac mae'n darparu ar gyfer eu priod benodiadau. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys.

### Adran 86 - Y Llywydd ac aelodau'r paneli

160. Mae adran 86 yn nodi'r telerau a'r gofynion y caniateir i berson gael ei benodi, ei ailbenodi neu ei ddiswyddo odanynt fel Llywydd, aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu aelod lleyg o'r Tribiwnlys. Mae'n darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff yr Arglwydd Ganghellor (gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus) ddiswyddo'r Llywydd. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gofynion ar gyfer penodi aelodau'r panel lleyg.

### Adran 87 - Tâl a threuliau

161. Mae adran 87 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu am wasanaethau'r Llywydd, aelodau'r panel cadeirydd cyfreithiol ac aelodau'r panel lleyg, a threuliau'r Tribiwnlys.

# Rhan 4 – Amrywiol a Chyffredinol

### Adran 88 - Ystyr "yn ardal" awdurdod lleol

162. Mae adran 88 yn diwygio diffiniad Deddf 1996 o "yn ardal" awdurdod lleol. Mae'n darparu nad yw cyfeiriadau at berson sydd "yn ardal" awdurdod lleol yn Lloegr yn Neddf 1996 yn cynnwys person a fyddai'n preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, oni bai am ddarpariaeth a sicrhawyd o dan Ran 2. Yn yr un modd, nid yw cyfeiriad at berson sydd yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru o dan Ddeddf 1996, yn cynnwys person a fyddai'n preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, oni bai am ddarpariaeth a sicrhawyd o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

### Adran 89 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

163. Mae adran 89 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

### Adran 90 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

164. Mae adran 90 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed er mwyn rhoi effaith i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn neu o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil neu at ddibenion y Bil. Wrth wneud hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i wneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaethau mewn deddfwriaeth gan gynnwys dogfennau statudol.

### Adran 91 - Rheoliadau

165. Mae adran 91 yn nodi bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil hwn i gael eu harfer drwy offeryn statudol. Mae'n caniatáu i'r rheoliadau hynny wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol; a gwneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed. Mae hefyd yn nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gymwys i bob darpariaeth gwneud rheoliadau.

**Adran 92 - Dehongli cyffredinol**

166. Mae adran 92 yn darparu dehongliadau a diffiniadau o dermau a chyfeiriadau a ddefnyddir yn y Bil. Mae hefyd yn darparu i ddiffiniadau yn Neddf Addysg 1996 fod yn gymwys pan ddefnyddir y term diffiniedig yn y Bil hwn, oni roddir ystyr gwahanol i’r term yn y Bil hwn, ac mewn achos o’r fath bydd y diffiniad yn y Bil yn gymwys. Ymhlith pethau eraill, mae’r adran hon yn nodi, at ddibenion y Bil, fod awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw’r plentyn neu’r person ifanc “yn ardal” yr awdurdod lleol. Mae ystyr “in the area of” yn Neddf Addysg 2006 yn gymwys (mae adran 88 o’r Bil yn diwygio’r diffiniad rhannol o’r term hwnnw yn adran 579 o’r Ddeddf honno).

**Adran 93 - Dod i rym**

167. Mae adran 93 yn galluogi i nifer o adrannau ddod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol; mae’r adrannau hyn wedi eu rhestru yn yr adran hon. Mae’n darparu i’r darpariaethau sy’n weddill yn y Bil ddod i rym ar y diwrnod a nodir mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, sy’n arferadwy drwy offeryn statudol, a gaiff bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol; a chaiff y Gorchymyn wneud darpariaethau darfodol, trosiannol neu arbed ynghylch y darpariaethau sy’n dod i rym.

**Adran 94 - Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg**

168. Enw byr y Bil pan ddaw’n Ddeddf fydd ‘Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017’. Bydd yn cael ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf 1996.

## Atodlen 1 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

169. Mae paragraffau 1-22 o Atodlen 1, fel y bo’n briodol, yn diddymu darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi eu disodli gan ddarpariaethau a gynhwysir yn y Bil hwn (gan gynnwys, er enghraifft, y cyfan o Bennod 1 o Ran 4 (plant yng Nghymru ag anghenion addysgol

arbennig) o Ddeddf 1996), yn disodli cyfeiriadau at dermau a wneir yn ddarfodedig gan y Bil hwn ac yn eu lle yn rhoi’r termau y mae’n eu cyflwyno (er enghraifft, rhoi cyfeiriadau at anghenion dysgu ychwanegol yn lle anghenion addysgol arbennig), ac yn rhoi cyfeiriadau at ddarpariaethau cyfatebol yn y Bil yn lle cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu diddymu neu eu diwygio.

170. Yn ogystal, mae’r Atodlen yn gwneud y mân ddiwygiadau a ganlyn.

171. Mewn perthynas â’r darpariaethau sy’n ymwneud â gorchmynion mynychu’r ysgol yn Neddf 1996, mae paragraff 4, is-baragraffau (14), (15), (17) a (18), yn addasu’r prosesau perthnasol fel bod y dewis cyfatebol mwyaf priodol yng nghyd-destun gorchmynion o’r fath yn cael ei roi yn lle cyfeiriad at ddatganiadau anghenion addysgol arbennig, hynny yw cynlluniau datblygu unigol sy’n enwi ysgol benodol (ni fydd pob cynllun datblygu unigol yn enwi ysgol benodol).

172. Mae paragraff 4, is-baragraff (30) yn diwygio Deddf 1996 fel y bydd offeryn statudol sydd i gael ei wneud sy’n cynnwys rheoliadau o dan adran 562J(4) o Ddeddf 1996 ac adran 37(2) o’r Bil (y mae’r ddau ohonynt yn ymwneud ag ystyr “awdurdod cartref” mewn cysylltiad â phersonau sy'n cael eu cadw’n gaeth), yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn hytrach na’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

173. Mae is-baragraff (30) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau sy’n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr cyfeiriadau yn Neddf 1996 at berson sydd “yn ardal” awdurdod lleol yng Nghymru (mewn rheoliadau o dan is-adran (3C) o adran 579 o’r Ddeddf honno fel y’i mewnosodir gan adran 88(c) o’r Bil), yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn hytrach na’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

174. Mae paragraff 8, is-baragraff (2) yn mewnosod dyletswydd yn adran 153(2) o Ddeddf Addysg 2002 sy’n ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau y mae darparwyr addysg feithrin nas cynhelir wedi eu cyllido odanynt gan awdurdodau lleol gynnwys gofyniad ar y darparwyr i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol yn y Cod ADY. Mae adran 153 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y darparwyr addysg feithrin hynny yn bodloni’r gofynion a osodir arnynt gan yr awdurdod lleol.

175. Mae paragraff 11 yn mewnosod cyfeiriad at a.61 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y system anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru a’r system anghenion addysgol arbennig yn Lloegr mewn perthynas â'r pŵer i ddarparu ar gyfer archwiliad meddygol a thriniaeth feddygol disgyblion sy’n mynychu sefydliadau addysgol ac eithrio ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

176. Mae paragraff 12, is-baragraff (4) yn rhoi cyfeiriad at anawsterau dysgu yn lle’r term anghenion addysgol arbennig yn adran 14 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sydd â’r effaith o’i gwneud yn ofynnol i anawsterau dysgu yn gyffredinol gael eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n ymwneud â thynnu’n ôl drefniadau teithio.

177. Mae paragraff 17, is-baragraffau (5)(f) ac (g) yn rhoi paragraffau newydd, yn lle paragraffau presennol 6A a 6F yn Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ynghylch cyfeillion achos a galluedd rhieni a phersonau dros oedran ysgol gorfodol sy’n sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i’r Tribiwnlys Addysg yn aros yn gydnaws â’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwneud apelau i’r Tribiwnlys Addysg o dan y Bil.

178. Mae paragraff 21, is-baragraff (3), yn diwygio adran 43(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 fel nad yw ysgolion yng Nghymru o dan ddyletswydd i dderbyn plentyn am fod yr ysgol wedi ei henwi mewn Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Mae paragraff 21, is-baragraff (5) yn diwygio adran 83(6) o’r Ddeddf fel bod i’r diffiniad o “yn ardal” awdurdod lleol a gynhwysir yn adran ddehongli'r Ddeddf honno yr un ystyr â’r term hwnnw yn adran 579 o Ddeddf 1996 (fel y’i diwygir gan adran 88 o’r Bil).

# Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

**Tabl: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog**

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi'r Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 6-11 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2<br><br>Pennod 7 – Opsiynau | Tudalennau 96 - 127 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion polisi'r Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br><br>(b) manylion y Bil, a<br><br>(c) Bil drafft, naill ai'n llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Rhan 1<br><br>Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 46-65 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Rhan 1<br><br>Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 46-65 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd cafwyd ymgynghoriad ar Fil drafft | Amherthnasol |
| 26.6(vii) | Crynhoi'n wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 337-380 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | | |
| 26.6(viii) | Nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio | Rhan 1<br><br>Pennod 6 – asesiad effaith rheoleiddiol<br><br>Rhan 2<br><br>Pennod 8 – costau a manteision | Tudalennau 90-95<br><br>Tudalennau 128-334 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2<br><br>Pennod 7 - Opsiynau | Tudalennau 96-127 |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i | Rhan 1 | Tudalennau 66- |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pwer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 89 |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ynghylch a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Tudalen 137, paragraff 8.20 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r | Atodiad 3 – Tabl Tarddiadau | Tudalen 386-396 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol | | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 4 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tudalen 397-417 |

# Atodiad 3 - Tabl tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

YR ALLWEDD I'R BYRFODDAU

| | |
|---|---|
| DA 1996 | Deddf Addysg 1996 |
| DDS 2000 | Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 |
| Rheoliadau 2002 | Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 |

Tabl: Tabl Tarddiadau

| Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – Tabl Tarddiadau | | |
|---|---|---|
| Adran/Paragraff | Cyfeiriad Cyfatebol mewn Deddfwriaeth sy'n Bodoli Eisoes | Newid Sylweddol |
| Rhan 1 – Trosolwg | | |
| 1 (Trosolwg o'r Ddeddf hon) | Newydd | |
| Rhan 2 – Anghenion Dysgu Ychwanegol | | |
| Pennod 1 - Termau allweddol, Cod a chyfranogiad | | |
| 2 (Anghenion dysgu ychwanegol) | a. 312 o DA 1996 ac a. 41 o DDS 2000 | Oes |
| 3 (Darpariaeth ddysgu ychwanegol) | a. 312 o DA 1996 | Oes |
| 4 (Cod anghenion dysgu ychwanegol) | a. 313 o DA 1996 | Oes |
| 5 (Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod) | a. 314 o DA 1996 | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| 6 (Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc) | Newydd | |
| 7 (Cyngor a gwybodaeth) | a. 332AA o DA 1996 | Nac oes |
| Pennod 2 - Cynlluniau datblygu unigol | | |
| 8 (Cynlluniau datblygu unigol) | Newydd | |
| 9 (Dyletswydd i benderfynu: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach) | Newydd | |
| 10 (Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach) | Newydd | |
| 11 (Dyletswydd i benderfynu: awdurdodau lleol) | Newydd | |
| 12 (Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: awdurdodau lleol) | Newydd | |
| 13 (Termau allweddol) | Newydd | |
| 14 (Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) | Newydd | |
| 15 (Dyletswydd i | Newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| atgyfeirio mater i awdurdod lleol sy’n gofalu am blentyn) | | |
| 16 (Dyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy’n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol) | Newydd | |
| 17 (Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) | Newydd | |
| 18 Darpariaeth ddysgu ychwanegol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG) | Newydd | |
| 19 (Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG) | Newydd | |
| 20 Darparu gwybodaeth am gynlluniau datblygu unigol | Newydd | |
| 21 (Adolygu cynlluniau datblygu unigol | a. 328 o DA 1996 | Oes |
| 22 (Adolygu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal) | a. 328 o DA 1996 | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| 23 (Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill) | Newydd | |
| 24 (Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 9(1)) | Newydd | |
| 25 (Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 10) | Newydd | |
| 26 (Dyletswydd awdurdodau lleol i benderfynu pa un ai i gymryd drosodd gynlluniau cyrff llywodraethu) | Newydd | |
| 27 (Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 24(2), 25(2) a 26(3) yn gymwys) | Newydd | |
| 28 (Cofrestru neu ymrestru mewn mwy nag un sefydliad) | Newydd | |
| 29 (Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol) | paragraff 11(1); paragraff 11(2); a pharagraff 11(2A) o Atodlen 27 i DA 1996 | Oes |
| 30 (Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 29) | Newydd | |
| 31 (Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynlluniau er mwyn | paragraff 11(2B); paragraff 11(4); a pharagraff 11(5) o | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| caniatáu ailystyriaeth neu apêl) | Atodlen 27 i DA 1996 | |
| 32 (Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed) | Newydd | |
| 33 (Trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau) | Newydd | |
| 34 (Cais i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach) | Newydd | |
| 35 (Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol) | paragraff 7 o Atodlen 27 i DA 1996 rheoliad 23 o Reoliadau 2002 | Oes |
| 36 Pŵer awdurdod lleol i gyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir | Newydd | |
| 37 (Ystyr “person sy’n cael ei gadw’n gaeth” a thermau allweddol eraill) | Newydd | |
| 38 Dyletswydd i lunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy’n cael eu cadw’n gaeth | Newydd | |
| 39 (Amgylchiadau pan nad yw’r dyletswydd yn adran 38(2)` yn gymwys) | Newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| 40 (Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth) | Newydd | |
| 41 (Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth) | Newydd | |
| 42 Darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth | Newydd | |
| Pennod 3 – swyddogaethau atodol | | |
| 43 (Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol) | a. 317(1) o DA 1996 | Oes |
| 44 (Dyletswydd i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir a enwir) | paragraff 3 a pharagraff 3A o Atodlen 27 i DA 1996 | Oes |
| 45 (Dim pŵer i godi tâl am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Rhan hon) | Newydd | |
| 46 (Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16 | Yn diwygio ac yn diddymu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes (a. 33N; a. 33P; a. 41 ac a. 140 o DDS 2000) | |
| 47 (Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir) | a. 316 ac a. 316A o DA 1996 | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| 48 (Plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir) | a. 317(4) o DA 1996 | Nac oes |
| 49 (Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn man ac eithrio mewn ysgolion) | a. 319 o DA 1996 | Nac oes |
| 50 (Diwygio’r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru) | Newydd (yn diwygio a. 158 ac a. 160 o DA 2002) | |
| 51 (Amodau sy’n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol) | Newydd | |
| 52 (Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol) | Newydd | |
| 53 (Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru) | Yn diddymu deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes (a. 337A ac a. 342 o DA 1996) | |
| 54 (Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion annibynnol yng Nghymru) | Yn diddymu deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes (a. 347 o DA 1996) | |
| 55 (Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr) | a. 320 o DA 1996 | Oes |
| 56 (Cydlynydd anghenion dysgu | a. 317(3A) o DA 1996 | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| ychwanegol) | | |
| 57 (Swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig) | Newydd | |
| 58 (Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar) | Newydd | |
| 59 (Dyletswydd i gadw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad) | a. 315 o DA 1996 | Oes |
| 60 (Dyletswydd cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.) | a. 332 o DA 1996 | Oes |
| 61 (Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall) | a. 322 o DA 1996 | Oes |
| 62 (Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill) | a. 327 o DA 1996 | Oes |
| 63 (Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol) | a. 318 o DA 1996 | Oes |
| Pennod 4 – osgoi a datrys anghytundebau | | |
| 64 Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau | a. 332BA o DA 1996 | Nac oes |
| 65 (Gwasanaethau eirioli annibynnol) | a. 332BB o DA 1996 | Nac oes |
| 66 Hawliau o ran | a. 325; a. 326; a. 332ZA; a. 336(5); a.336(6) o DA 1996; | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| apelau a cheisiadau | paragraff 8 o Atodlen 27 a pharagraff 11 o Atodlen 27 i DA 1996 | |
| 67 (Penderfyniadau ar apelau a cheisiadauo dan adran 63) | a.336 o DA 1996 a rheoliadau a wneir o dan yr adran honno | Oes |
| 68 Yr hawl i apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth | Newydd | |
| 69 Penderfyniadau ar apelau o dan adran 65 | Newydd | |
| 70 Rheoliadau ynghylch apelau a cheisiadau | Newydd | |
| 71 Rheoliadau ynghylch y weithdrefn | a. 336 o DA 1996 | Nac oes |
| 72 (Cyrff GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys) | Newydd | |
| 73 (Cydymffurfedd â gorchmynion) | a. 336A o DA 1996 | Nac oes |
| 74 Trosedd | Newydd | |
| 75 (Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru) | a. 336(3) o DA 1996 | Nac oes |
| 76 (Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys) | a. 336ZB o DA 1996 | Nac oes |
| Pennod 5-Cyffredinol | | |

| | | |
|---|---|---|
| 77 (Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth) | paragraff 7 o Atodlen 27 i DA 1996 rheoliad 24 o Reoliadau 2002 | Oes |
| 78 Rhieni a phobl ifanc nac oes ganddynt alluedd | Newydd | |
| 79 (Galluedd plant) | Newydd | |
| 80 Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd | a.332ZC o DA 1996 | Oes |
| 81 Cymhwyso darpariaethau ailystyried i ddisgyblion a myfyrwyr sy’n preswylio yn Lloegr | Newydd | |
| 82 (Rhoi hysbysiad etc. o dan y Rhan hon) | a. 572 o DA 1996 | Nac oes |
| 83 (Adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg) | Newydd | |
| 84 (Pŵer i ddiwygio dyletswyddau i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg) | Newydd | |
| Rhan 3 – Tribiwnlys Addysg Cymru | | |
| 85 (Cyfansoddi Tribiwnlys Addysg Cymru) | a. 333 o DA 1996 | Oes |
| 86 (Y Llywydd ac aelodau’r paneli) | a. 334 o DA 1996 | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| 87 (Tâl a threuliadau) | a. 335 o DA 1996 | Nac oes |
| Rhan 4 – Amrywiol a Chyffredinol | | |
| 88  (Ystyr "yn ardal" awdurdod lleol) | Newydd | |
| 89 Man ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau | Newydd | |
| 90 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.) | Newydd | |
| 91 (Rheoliadau) | Newydd | |
| 92 (Dehongli cyffredinol) | Newydd | |
| 93 (Dod i rym) | Newydd | |
| 94 (Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg) | Newydd | |

# Atodiad 4 - Atodlen o ddiwygiadau

DIWYGIADAU SYDD I'W GWNEUD GAN Y BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.6C, mae'r atodlen ganlynol yn amlinellu lle mae'r Bil yn cynnig diwygio'n sylweddol deddfwriaeth sylfaenol bresennol. Mae'n nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol a sut mae'r Bil yn diwygio'r geiriad hwnnw. Ei nod yw dangos sut y byddai darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg 2002 (c.32) a Deddf Addysg 1996, lle'r oeddent yn gymwys i Gymru ar 11 Tachwedd 2016, yn edrych ar ôl cael eu diwygio gan Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (os daw i rym) fel y'i cyflwynwyd ar 12 Rhagfyr 2016.

Mae llinell drwy'r testun a fydd yn cael ei ddileu gan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi'i hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae'r testun a fydd yn cael ei ychwanegu gan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi'i danlinellu, e.e. <u>mae testun a ychwanegwyd yn edrych fel hyn</u>. Cyfeirir at y darpariaethau perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Mae nifer o ddarpariaethau cysylltiedig o'r Ddeddf wedi'u cynnwys, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Swyddogion o Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru sydd wedi paratoi'r testun hwn. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y testun yn gywir, ni ddylid ei ystyried fel testun terfynol y Ddeddf neu'r Bil.

Cafodd ei gynhyrchu i helpu pobl i ddeall effaith Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn unig. Ni ddylai gael ei ddefnyddio yn unrhyw gyd-destun arall.

*Diwygio adran o Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*

**Social Services and Well-being (Wales) Act 2014**

**83 Care and support plans**

*Adran 14*

(1) Where a child becomes looked after by a local authority, any care and support plan prepared under section 54 in relation to that child must be—

(a) reviewed, and

(b) maintained under this section.

(2) Where a child who does not have a care and support plan under section 54 becomes looked after by a local authority, the local authority must prepare and maintain a care and support plan in relation to that child.

<u>(2A) A care and support plan prepared for a child must include a record of the arrangements made to meet the child's needs in relation to education or training (a "personal education plan").</u>

<u>(2B) But subsection (2A) does not apply to a child if he or she is within a category of looked after child</u>

prescribed in regulations, for whom no personal educational plan is to be prepared.

(2C) If—

(a) a child has additional learning needs, and

(b) the child's care and support plan includes a personal education plan,

any individual development plan maintained for the child under section 17 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017 must be incorporated within the personal education plan.

(2D) For the purposes of subsection (2C)—

(a) a "child" means a person not over compulsory school age (within the meaning given by section 8 of the Education Act 1996 (c.56)); ;

(b) "additional learning needs" has the meaning given by section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017.

(3) A local authority must keep ~~under review the plans that it maintains under this section~~ a child's care and support plan under review.

(4) Where a local authority is satisfied that the circumstances of the child to whom a care and support plan ~~a plan~~ relates have changed in a way that affects the plan, the authority must—

(a) carry out such assessments as it considers appropriate, and

(b) revise the plan.

(5) Subject to the provisions of Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017 ~~R~~ regulations must make provision about—

(a) how care and support plans ~~plans under this section~~ are to be prepared;

(b) what ~~a plan is to contain~~ a care and support plan is to contain (including what the personal education plan is to contain);

(c) the review and revision of ~~plans~~ care and support plans.

(6) Regulations under subsection (5)(c) must specify, in particular—

(a) the persons who may request a review of a plan (on their own behalf or on behalf of another person);

(b) the circumstances in which a local authority—

(i) may refuse to comply with a request for a review of a plan, and

(ii) may not refuse to do so.

(7) When preparing, reviewing or revising a care and support plan ~~a plan under this section~~, a local authority must involve the child to whom the plan relates and any person with parental responsibility for the child.

(8) The local authority may—

(a) prepare, review or revise a care and support plan a plan under this section at the same time as it or another body is preparing, reviewing or revising another document in the case of the child concerned, and

(b) include the other document in the plan.

(9) Any part of a ~~plan~~ care and support plan maintained under this section which meets the requirements imposed by or under section 31A of the Children Act 1989 may be treated for the purposes of that Act as a plan prepared under section 31A of that Act.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

**83 Cynlluniau gofal a chymorth**

(1) Pan fo plentyn yn dod yn un sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, rhaid i unrhyw gynllun gofal a chymorth a lunnir o dan adran 54 mewn perthynas â'r plentyn hwnnw gael—

(a) ei adolygu, a

(b) ei gynnal o dan yr adran hon.

(2) Pan fo plentyn nad oes ganddo gynllun gofal a chymorth o dan adran 54 yn dod yn un sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chynnal Cynllun Gofal a Chymorth mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

(2A) Rhaid i gynllun gofal a chymorth a lunnir ar gyfer plentyn gynnwys cofnod o'r trefniadau a wneir i ddiwallu anghenion y plentyn mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ("cynllun addysg personol").

(2B) Ond nid yw is-adran (2A) yn gymwys i blentyn os yw o fewn category o blentyn sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau, ac nad oes cynllun addysg personol i gael ei lunio ar ei gyfer.

(2C) Os—

(a) oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol,

(b) yw Cynllun Gofal a Chymorth y plentyn yn cynnwys cynllun addysg personol, rhaid cynnwys unrhyw gynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 17 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn y cynllun addysg personol.

(2D) At ddibenion is-adran (2C)—

(a) ystyr "plentyn" yw plentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (o fewn yr ystyr a roddir i "compulsory school age" gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56))l;

(b) mae i "anghenion dysgu ychwanegol" yr ystyr a roddir gan adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017.",

(3) Rhaid i awdurdod lleol barhau i adolygu'n gyson ~~y cynlluniau y mae'n eu cynnal o dan yr adran hon~~ gynllun gofal a chymorth plenty.

(4) Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod amgylchiadau'r plentyn y mae Cynllun Gofal a Chymorth yn ymwneud ag ef wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid i'r awdurdod—

(a) gwneud unrhyw asesiadau y mae'n barnu eu bod yn briodol, a

(b) diwygio'r cynllun.

(5) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017, rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) sut y mae Cynlluniau Gofal a Chymorth ~~o dan yr adran hon~~ i'w paratoi;

(b) pa bethau y mae Cynllun Gofal a Chymorth i'w cynnwys (gan gynnwys pa bethau y mae'r cynllun addysg personol i'w cynnwys) ~~mae'n rhaid i gynllun eu cynnwys~~;

(c) adolygu a diwygio cynlluniau gofal a chymorth.

(6) Rhaid i reoliadau o dan is-adran (5)(c) bennu, yn benodol—

(a) y personau a gaiff ofyn am adolygiad o gynllun (ar eu rhan hwy eu hunain neu ar ran person arall);

(b) o dan ba amgylchiadau—

(i) y caiff awdurdod lleol wrthod cydymffurfio â chais am adolygiad o gynllun, a

(ii) na chaiff awdurdod lleol wrthod gwneud hynny.

(7) Wrth lunio, adolygu neu ddiwygio Cynllun Gofal a Chymortho dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol gynnwys y plentyn y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(8) Caiff yr awdurdod lleol—

(a) llunio, adolygu neu ddiwygio Cynllun Gofal a Chymorth o dan yr adran hon yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn llunio, adolygu neu ddiwygio dogfen arall yn achos y plentyn o dan sylw, a

(b) cynnwys y ddogfen arall yn y cynllun.

(9) Caniateir i unrhyw ran o Gynllun Gofal a Chymorth a gynhelir o dan yr adran hon sy'n bodloni'r gofynion a osodir gan neu o dan adran 31A o Ddeddf Plant 1989 gael ei thrin at ddibenion y Ddeddf honno fel cynllun a lunnir o dan adran 31A o'r Ddeddf honno.

**SCHEDULE 1 Contributions towards maintenance of looked after children (introduced by section 85)** *Adran 43*

**Liability to contribute**

1 (1) Where a local authority is looking after a child (other than in the cases mentioned in sub-paragraph (8), and in cases where charging is prohibited by or under an enactment) it must consider whether it should recover contributions towards the child's maintenance from any person liable to contribute ("a contributor").

**ATODLEN 1 Cyfraniadau tuag at gynhaliaeth plant sy’n derbyn gofal**
**(a gyflwynwyd gan adran 85)**
**Atebolrwydd am gyfrannu**

1 (1) Pan fo awdurdod lleol yn gofalu am blentyn (mewn achosion ar wahân i’r rhai a grybwyllir yn is-baragraff (8), ac mewn achosion pan fo codi ffioedd wedi ei wahardd gan neu o dan ddeddfiad) rhaid iddo ystyried a ddylai adennill cyfraniadau tuag at gynhaliaeth y plentyn gan unrhyw berson sy’n atebol am gyfrannu (“cyfrannwr”).

**Learning and Skills Act 2000**

***Main duties***
**31 Education and training for persons aged 16 to 19** *Adran 46*

(1) The Welsh Ministers must secure the provision of proper facilities for—
(a) education (other than higher education) suitable to the requirements of persons who are above compulsory school age but have not attained the age of 19,
(b) training suitable to the requirements of such persons,
(c) organised leisure-time occupation connected with such education, and
(d) organised leisure-time occupation connected with such training.

(2) Facilities are proper if they are—
(a) of a quantity sufficient to meet the reasonable needs of individuals,
(b) of a quality adequate to meet those needs and

(c) sufficient to satisfy the entitlements conferred under section 33F.

(3) In performing the duty imposed on them by subsection (1) the Welsh Ministers must—

(a) take account of the places where facilities are provided, the character of facilities and the way they are equipped;

(b) take account of the different abilities and aptitudes of different persons;

(c) take account of the education and training required in different sectors of employment for employees and potential employees;

<u>(cc) take account of the education and training that is required in order to ensure that employees and potential employees are available who are able to deliver additional learning provision in Welsh;</u>

<u>(cd) take account of the education and training that is required in order to ensure that facilities are available for assessing through the medium of Welsh whether persons have additional learning needs;</u>

(d) take account of facilities whose provision the Welsh Ministers think might reasonably be secured by other persons;

(e) [repealed]

(4) [repealed]

(5) For the purposes of this section—

(a) education includes both full-time and part-time education;

(b) training includes both full-time and part-time training;

(c) training includes vocational, social, physical and recreational training;

(d) higher education is education provided by means of a course of any description mentioned in

Schedule 6 to the Education Reform Act 1988.

**32 Education and training for persons over 19** *Adran 46*

(1) The Welsh Ministers must secure the provision of reasonable facilities for—

(a) education (other than higher education) suitable to the requirements of persons who have attained the age of 19,

(b) training suitable to the requirements of such persons,

(c) organised leisure-time occupation connected with such education, and

(d) organised leisure-time occupation connected with such training.

(2) [repealed]

(3) In performing the duty imposed on them by subsection (1) the Welsh Ministers must—

(a) take account of the places where facilities are provided, the character of facilities and the way they are equipped;

(b) take account of the different abilities and aptitudes of different persons;

(c) take account of the education and training required in different sectors of employment for employees and potential employees;

(cc) take account of the education and training that is required in order to ensure that employees and potential employees are available who are able to deliver additional learning provision in Welsh;

(cd) take account of the education and training that is required in order to ensure that facilities are available for assessing through the medium of Welsh whether persons have additional learning needs;

(d) take account of facilities whose provision the Welsh Ministers think might reasonably be secured by other persons;

(e) [repealed]

(4) [repealed].

(5) For the purposes of this section—

(a) education includes both full-time and part-time education;

(b) training includes both full-time and part-time training;

(c) training includes vocational, social, physical and recreational training;

(d) higher education is education provided by means of a course of any description mentioned in Schedule 6 to the Education Reform Act 1988.

(6) References in this Part to post-16 education are to—

(a) education falling within section 31(1)(a) or subsection (1)(a) above, and

(b) organised leisure-time occupation connected with such education.

(7) References in this Part to post-16 training are to—

(a) training falling within section 31(1)(b) or subsection (1)(b) above, and

(b) organised leisure-time occupation connected with such training.

**41 Persons with additional learning needs ~~learning difficulties~~** *Adran 46*

(1) In discharging its functions under sections 31, 32 and 34(1)(a) to (d) and (g) the Welsh Ministers must have regard—

(a) to the needs of persons with ~~learning difficulties, and~~ additional learning needs

(b) ~~in particular, any report of an assessment conducted under section [. . .] 140.~~to the desirability of facilities being available which would assist the discharge of duties under the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017.

~~(2) If the Welsh Ministers are satisfied that they cannot secure the provision of facilities for education or training which are sufficient in quantity and adequate in quality for a person with a learning difficulty who is over compulsory school age but who has not attained the age of 19 unless they also secure the provision of boarding accommodation for him, the Welsh Ministers must secure the provision of boarding accommodation for him~~

~~(3) If the Welsh Ministers are satisfied that they cannot secure the provision of reasonable facilities for education or training for a person with a learning difficulty who has attained the age of 19 but not the age of 25 unless they also secure the provision of boarding accommodation for him, the Welsh Ministers must secure the provision of boarding accommodation for him.~~

~~(4) If the Welsh Ministers are satisfied that they cannot secure the provision of reasonable facilities for education or training for a person with a learning difficulty who has attained the age of 25 unless they also secure the provision of boarding accommodation for him, the Welsh Ministers may secure the provision of boarding accommodation for him.~~

~~(5) A person has a learning difficulty if—~~

(a) he has a significantly greater difficulty in learning than the majority of persons of his age, or

(b) he has a disability which either prevents or hinders him from making use of facilities of a kind generally provided by institutions providing post-16 education or training.

(5A) In this Part, “additional learning needs” has the meaning given by section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017, and “additional learning provision” has the meaning given by section 3 of that Act.

(6) But a person is not to be taken to have a learning difficulty solely because the language (or form of language) in which he is or will be taught is different from a language (or form of language) which has at any time been spoken in his home.

**140 Assessments relating to learning difficulties** *Adran 46*

(1) Subsection (2) applies if—

(a) a local authority in Wales maintains a statement of special educational needs for a person under section 324 of the Education Act 1996, and

(b) the Welsh Ministers believe that the person will leave school at the end of his last year of compulsory schooling to receive post-16 education or training (within the meaning of Part 2 of this Act) or higher education (within the meaning of the Education Reform Act 1988).

(2) The Welsh Ministers must arrange for an assessment of the person to be conducted at some time during the person's last year of compulsory schooling.

(3) The Welsh Ministers may at any time arrange for an assessment to be conducted of a person—

(a) who is in his last year of compulsory schooling or who is over compulsory school age but has not attained the age of 25,

(b) who appears to the Welsh Ministers to have a learning difficulty (within the meaning of section 41), and

(c) who is receiving, or in the opinion of the Welsh Ministers is likely to receive, post-16 education or training (within the meaning of Part 2 of this Act) or higher education (within the meaning of the Education Reform Act 1988).

(4) For the purposes of this section an assessment of a person is an assessment resulting in a written report of—

(a) his educational and training needs, and

(b) the provision required to meet them.

(5) A local authority in Wales must send a copy of a statement maintained by it under section 324 of the Education Act 1996 to the Welsh Ministers on their request.

(5A) “Local authority in Wales” has the same meaning as in the Education Act 1996 (see section 579(1) of that Act).

(6) [repealed]

**Education Act 2002 (c.32)**

***Requirement of registration*** *Adran 50*

**158 The registers**

(1) There shall continue to be—

(a) [repealed]

(b) a register of independent schools in Wales.

(2) [repealed]

(3) The register of independent schools in Wales shall be kept by the Welsh Ministers.

(4) The Welsh Ministers must publish a list of the schools included in the register of independent schools in Wales, as amended from time to time.

(5) If the Welsh Ministers have been provided with the necessary information by the proprietor of the school, the published list must specify the type or types of additional learning provision made by a school on the list for pupils with additional learning needs (if any).

***Registration procedure***

**160 Applications for registration**

(1) An application to enter an independent school in the register must—

(a) contain the prescribed information, and

(b) be made to the registration authority by the proprietor of the school in the prescribed manner.

(2) The information prescribed under subsection (1)(a) shall include information as to the following matters relating to the school—

(a) the age range of pupils;

(b) the maximum number of pupils;

(c) whether the school is for male or female pupils or both;

(d) whether the school provides accommodation for pupils;

(e) ~~whether the school admits pupils with special educational needs~~ the type or types of additional learning provision made by the school for pupils with additional learning needs (if any).

(3) Where the proprietor of an independent school makes an application to the registration authority under this section, the authority shall notify the Chief Inspector.

(4) The Chief Inspector shall then inspect the school and report to the registration authority on the extent to which the independent school standards are met, and are likely to continue to be met, in relation to the school.

**337A Interpretation of Chapter**

In this Chapter—

“a non-maintained special school” means a school that is approved under section 342;

~~“the appropriate national authority” means—~~

~~(a) in relation to a school in England, the Secretary of State;~~

~~(b) in relation to a school in Wales, the Welsh Ministers.~~

**342 Approval of non-maintained special schools** *Adran 53*

(1) The ~~appropriate national authority~~ Secretary of State may approve under this section any school in England which—

(a) is specially organised to make special educational provision for pupils with special educational needs, and

(b) is not a community or foundation special school or an Academy school,

and may give approval before or after the school is established.

(2) Regulations may make provision as to the requirements which are to be complied with as a condition of approval under subsection (1) above.

(3) Any school which was a special school immediately before 1st April 1994 shall be treated, subject to subsection (4) below, as approved under this section.

(4) Regulations may make provision as to—

(a) the requirements which are to be complied with by a school while approved under this section, and

(b) the withdrawal of approval from a school (including approval treated as given under subsection (3)) at the request of the proprietor or on the ground that there has been a failure to comply with any prescribed requirement.

(5) Without prejudice to the generality of subsections (2) and (4), the requirements which may be imposed by the regulations include requirements—

(a) which call for arrangements to be approved by the ~~appropriate national authority~~ <u>Secretary of State</u>, or

(b) as to the organisation of any special school as a primary school or as a secondary school.

(5A) Regulations shall make provision for securing that, so far as practicable, every pupil attending a school in England that is approved under this section—

(a) receives religious education unless withdrawn from receiving such education in accordance with the wishes of the pupil's parent, and

(b) attends religious worship unless withdrawn from attendance at such worship—

(i) in the case of a sixth-form pupil, in accordance with the pupil's own wishes, and

(ii) in any other case, in accordance with the wishes of the pupil's parent.

(5B) In subsection (5A) "a sixth-form pupil" means a pupil who—

(a) has ceased to be of compulsory school age, and

(b) is receiving education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age.

(6) Regulations shall make provision for securing that, so far as practicable, every pupil attending a school in Wales that is approved under this section—

(a) receives religious education and attends religious worship, or

(b) is withdrawn from receiving such education or from attendance at such worship in accordance with the wishes of his parent.

***Independent schools providing special education*** *Adran 54*

**347 Approval of independent schools**

(1) The Welsh Ministers may approve an independent school in Wales as suitable for the admission of children for whom statements are maintained under section 324.

(2) Regulations may make provision as to—

(a) the requirements which are to be complied with by a school as a condition of its approval under this section,

(b) the requirements which are to be complied with by a school while an approval under this section is in force in respect of it, and

(c) the withdrawal of approval from a school at the request of the proprietor or on the ground that there has been a failure to comply with any prescribed requirement.

(3) An approval under this section may be given subject to such conditions (in addition to those prescribed) as the Welsh Ministers see fit to impose.

~~(4) In any case where there is a failure to comply with such a condition imposed under subsection (3), the Welsh Ministers may withdraw their approval.~~

~~(5) No person shall so exercise his functions under this Part that a relevant child is educated in an independent school unless—~~

~~(a) the school is for the time being approved by the Welsh Ministers as suitable for the admission of children for whom statements are maintained under section 324, or~~

~~(b) the Welsh Ministers are satisfied that there is a place available for the child at the school and consent to the child being educated there.~~

~~(5ZA) In subsection (5) “a relevant child” means a child with special educational needs—~~

~~(a) for whom a local authority in Wales maintain a statement under section 324, or~~

~~(b) for whom no local authority maintain such a statement and who is in the area of a local authority in Wales.~~

~~(5A) Subsection (5) does not apply to a local authority in Wales deciding, for the purposes of section 324(5), whether a parent has made suitable arrangements.~~

**579 General interpretation**

…

*Adran 88*

(3A) References in this Act to a person who is “in the area” of a local authority in England do not include a person who is wholly or mainly resident in the area of a local authority in Wales or who would be wholly or mainly resident in the area of a local authority in Wales were it not for provision secured for the person under Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2017.

(3B) References in this Act to a person who is “in the area” of a local authority in Wales do not include a person who is wholly or mainly resident in the area of a local authority in England or who would be wholly or mainly resident in the area of a local authority in England were it not for provision secured for the person under Part 3 of the Children and Families Act 2014.

(3C) The Welsh Ministers may make further provision by regulations about the meaning of references in this Act to a person who is “in the area” of a local authority in Wales.

# Atodiad 5 – Geirfa

| | |
|---|---|
| Anghenion dysgu ychwanegol | **ADY** |
| Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol | **Cydlynydd ADY** |
| Tribiwnlys Addysg Cymru | **Y Tribiwnlys** |
| Cynllun datblygu unigol | **CDU** |
| Byrddau iechyd lleol | **Byrddau iechyd** |
| Byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru | **Cyrff y GIG** |
| Anghenion addysgol arbennig | **AAA** |
| Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig | **Cydlynydd AAA** |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | **TAAAC** |
| Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector | **TSANA** |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | **CLlLC** |